



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Twristiaeth Ddigidol – Canllaw i'ch Cynorthwyo



Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund



Croeso
Cymru

Dydy cadw i fyny â'r datblygiadau technolegol diweddaraf ddim bob amser yn hawdd, yn enwedig wrth redeg busnes twristiaeth. Bydd Canllawiau i Dwristiaeth Ddigidol yn eich helpu i ddysgu sut i ddefnyddio technoleg ddigidol i wella'ch busnes ar gyfer y dyfodol.

Dyma ddogfen a etifeddwyd gan raglen Fframwaith Twristiaeth Ddigidol, rhaglen sy'n cael ei hariannu gan ERDF a'i chefnogi gan Croeso Cymru. Mae'r rhaglen wedi helpu'n diwydiant twristiaeth i gynyddu eu dealltwriaeth am e-fusnes. Ychydig o flynyddoedd yn ôl, prin iawn oedd eu dealltwriaeth o'r maes ond erbyn hyn, maent yn fwy o ran o'r oes ddigidol.

P'un a ydych chi'n dechrau o'r dechrau neu'n 'geek' go iawn, gobeithio bydd y casgliad hwn o Ganllawiau yn eich helpu yn eich hymdrechion i fodloni disgwyliadau'ch cwsmeriaid a gobeithio, mynd y tu hwnt iddyn nhw. Mae'n bell o fod yn gynhwysfawr ond all o ddim bod gan fod y byd yn newid mor gyflym. Gobeithio y bydd yn fan cychwyn i chi ac yn help ichi ar eich taith.

Pob lwc ichi gyda'r sialens gyffrous hon sy'n werth ei gwneud.

Mae'r ffeithlen yma'n un o gyfres o ffeithlenni a ddatblygwyd o dan y prosiect DTBF – gwelwch <http://wales.gov.uk/topics/tourism/dtbf1> a www.sharewales.com i gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, am ddefnyddio'r dechnoleg yn eich busnes twristiaeth ac am y cymorth sydd ar gael.

Rhif Cyfeirio'r Prosiect gan WEFO 80554



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

Cynnwys

Y Wefan

Creu Brîff eich Gwefan	3
Dewis Cynlluniwr Proffesiynol i Adeiladu neu Adfywio eich Gwefan	7
Pam ydw i Angen System Rheoli Cynnwys ar Wefan?	11
Dewis eich Enw Parth	15
Ydy eich Gwefan yn Addas i Ddyfeisiau Symudol?	19
Ysgrifennu Cynnwys Da i'ch Gwefan	23
Optimeiddio ar gyfer Chwilotwyr	27
Rhwystrau wrth Optimeiddio ar gyfer Chwilotwyr	31
Defnyddio Metadata a Thagiau'n Effeithiol ar eich Gwefan	35
Beth yw Dolenni Denu a Pham ydw i eu Hangen?	39
Deall Dadansoddeg y We	43
Diogelu Data a'r Gyfraith	47

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Marchnata yn y Cyfryngau Cymdeithasol – Dechrau Arni	51
Defnyddio Facebook i Hybu'ch Busnes Twristiaeth	57
Defnyddio Twitter i Hybu eich Busnes Twristiaeth	66
Defnyddio Pinterest i Hybu'ch Busnes Twristiaeth	74
Beth yw TripAdvisor a Sut Allai Helpu fy Musnes?	81
Pam Ddylwn i Gynnwys Cyfryngau Cymdeithasol yn fy Ngwefan?	86

Wifi

Diogelu eich Wi-Fi Cyhoeddus	90
Templed Telerau ac Amodau Mynediad y Cyhoedd i Wi-Fi	94

Rhai Cyfleoedd Eraill

Systemau E-fasnach	97
Beth yw Cyfrifiadura Cwmwl a Sut i'w Ddefnyddio	101
Atebion Posibl os yw Signal eich Ffon Symudol yn Wael o Dan Do	108
Dechrau Arni gyda Chodau QR	110
Beth yw Apiau a Sut y Gallwn eu Defnyddio yn ein Busnes Twristiaeth?	115
Beth yw Teithiau Rhithwir ac a Allwn i eu Defnyddio?	122
Beth yw Realiti Estynedig a Sut Allwn ei Ddefnyddio?	127

Creu Brîff eich Gwefan

Ydych chi wedi bod yn ystyried cael gwefan newydd neu efallai adnewyddu eich hen un? Os felly, efallai y bydd angen i chi greu brîff ar gyfer y wefan.

Dogfen ydy brîff gwefan y gallwch ei hysgrifennu a'i rhoi i bobl a allai greu'r wefan i chi. Dylai gynnwys nnwys disgrifiad llawn o'r holl nodweddion a'r pethau ymarferol rydych eisiau eu cynnwys yn eich gwefan.

Dyma dempled a rhai awgrymiadau i'ch helpu chi.

Beth yw Brîff Gwefan?

Mae brîff gwefan yn ddogfen fanwl sy'n cael ei rhoi i bobl neu gwmnïau allai baratoi'r wefan i chi. Mae'n rhoi disgrifiad llawn o'r gwaith sydd ei angen i adeiladu neu adnewyddu gwefan. Bydd creu eich brîff gwefan yn eich helpu i benderfynu ar elfennau hanfodol eich gwefan a sut mae'n gweithio'n ymarferol a bydd hefyd yn sicrhau bod y bobl allai fod yn gwneud y gwaith i chi'n deall eich gofynion yn glir.

I sicrhau bod eich prosiect yn llwyddo, rhaid i chi roi brîff cynhwysfawr i'ch cyflenwyr!

Mae'r templed isod yn rhoi syniad i chi beth i'w roi mewn brîff gwefan. Bydd yn eich helpu i gasglu'r wybodaeth mae llunwyr gwefannau ei hangen er mwyn rhoi pris cywir i chi a llunio gwefan i chi sy'n sefyll allan, yn cyflawni disgwyliadau eich ymwelwyr ac anghenion eich busnes, ac ar yr un pryd, yn cadw o fewn eich cyllideb a'ch gofynion o ran amser cwblhau.

Cwblhau Brîff eich Gwefan

Mae'r brîff yma ar ffurf holiadur y gallwch ei ddefnyddio i naill ai:

- Ei gwblhau a'i anfon at eich cyflenwyr dewisedig

- Ei gwblhau gyda'ch cyflenwr yn ystod cyfarfod, neu
- Ddefnyddio'r templed fel arweiniad a drafftio eich dogfen eich hun

Cyn cwblhau'r brîff yma efallai y byddai'n ddefnyddiol darllen y ffeithlen **"Dewis Rhywun Proffesiynol i Adeiladu neu Adnewyddu eich Gwefan"**.

Dyma'r templed – sydd wedi'i lunio i chi ei addasu i'ch anghenion chi:

Cyflwyniad

- Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r brîff yma?
- Pryd fyddwch chi'n dweud eich penderfyniad wrth y cyflenwyr posibl?
- Pryd fydd gennych chi'r holl wybodaeth yn barod i'w rhoi ar eich gwefan?
- Erbyn pryd ydych chi eisiau i'r gwaith gael ei gwblhau?
- Ydych chi eisiau i'r cyflenwyr roi tystiolaeth i chi gan gwsmeriaid sydd wedi bod yn hapus â'u gwaith?
- Pa mor aml ydych chi'n disgwyl cwrdd â'r cyflenwyr yn ystod y prosiect?
- Eich manylion cysylltu – rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.

Ynglŷn â'ch Busnes Twristiaeth

Rhowch ddisgrifiad cryno o'ch busnes a sut mae'n gweithio.

- Pa ardal ddaearyddol ydych chi'n ei gwasanaethu?
- Pa gynhyrchion neu wasanaethau ydych chi'n eu cynnig?
- Pwy yw eich prif gystadleuwyr?
- Beth yw eich cryfderau cystadleuol?
- Beth ydych chi'n ei gynnig sy'n wahanol i bawb arall?

Cynhwyswch unrhyw wybodaeth ddefnyddiol arall am eich busnes a'r farchnad rydych yn gweithio ynddi.

Eich gwefan bresennol

- Pryd adeiladwyd eich gwefan bresennol?
- Beth yw'r cyfeiriad gwe ac ymhle mae'n cael ei gynnal?
- Oes gennych chi gyfrifon e-bost?
- Beth sy'n dda amdani a beth yw ei gwendidau/beth hoffech chi ei newid?
- Pwy sy'n gyfrifol am ddiweddarau'r wefan?
- Faint o draffig mae'n ei dderbyn ar hyn o bryd?
- Oes gennych chi system rheoli cynnwys? Allwch chi ddiweddarau eich gwefan eich hun?
- Pa mor aml ydych chi'n cael gwerthiant neu agoriad at werthiant drwy'r wefan?
- Ydych chi'n monitro traffig i'r wefan ar hyn o bryd?
- Pa nodweddion hoffech chi eu trosglwyddo i'r wefan newydd?

Eich Cwsmeriaid a'ch Strategaeth

- Pwy yw eich cwsmeriaid? Disgrifiwch nhw gymaint ag y gallwch h.y. oed, rhyw ayyb

- Sut, pryd a lle maen nhw'n prynu eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau?
- Os ydynt yn chwilio am eich cynnyrch/gwasanaeth, pa eiriau/ymadroddion allweddol maen nhw'n eu defnyddio?
- Beth fydddech chi'n hoffi iddyn nhw ei wneud wrth ymweld â'r wefan?
- Sur fydden nhw'n eich talu? Ydych chi eisiau iddynt gysylltu â chi?
- Sut fyddwch chi'n eu troi nhw'n gleientiaid?
- Ydych chi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasu ar hyn o bryd?

Pwy yw eich prif gystadleuwyr?

Rhestrwch dair neu bedair gwefan sy'n gystadleuaeth i chi. Disgrifiwch y pethau rydych yn eu hoffi / dydych chi ddim yn eu hoffi amdanynt.

Beth ydych chi'n Disgwyl i'ch Gwefan ei Gyflawni?

- Beth yw prif amcan y wefan?
- Nifer yr ymwelwyr? Gwneud mwy o bobl yn ymwybodol ohonoch?
- Gwerthu mwy?
- Gwell cefnogaeth i gwsmeriaid?
- Mynd i mewn i farchnadoedd newydd?
- Sut fyddwch chi'n mesur llwyddiant?
- Manteision eraill?

Eich Cyllideb

- Faint yw'r mywaf y bwriadwch wario ar eich gwefan?
- Faint fyddwch chi'n ei wario ar ofalu am, cynnal a hybu'r wefan?

System Rheoli Cynnwys Diogel (CMS)

- Pa lefel o sgiliau cyfrifiadurol sydd gennych? A fyddwch chi angen hyfforddiant yn y CMS newydd?

- Pa elfennau o'r wefan ydych chi eisiau gallu eu diweddarau eich hun? Testun? Graffeg? Ychwanegu tudalennau neu ddewislenni? Metadata (y mynegai cudd sy'n helpu chwilotwyr)?
- Pa elfennau o'ch gwefan ydych chi'n barod i dalu datblygwr gwe i'w diweddarau?
- Fyddwch chi'n gallu ysgrifennu eich cynnwys eich hun ar gyfer y wefan neu fyddwch chi angen cymorth i wneud hyn?

Cynllun Llywio

Lluniwch gynllun llywio sy'n dangos y prif dudalennau gyda dolenni a sut rydych yn bwriadu rhannu eich cynnwys. Bydd hyn yn eich helpu i gynllunio eich gwefan. Paratowch hwn o flaen llaw neu gyda help y dylunwyr rydych wedi'u dewis. Penderfynwch sut y byddwch yn rhannu gwybodaeth yn y tudalennau lefel uchaf, ac yna penderfynwch a oes angen tudalennau dyfnach sy'n cysylltu â'ch prif dudalennau er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth. Dyma sampl byr:

- Hafan – panel ochr dde ar gyfer adolygiadau gan Gynghorwyr Triplau
- Mannau Aros
 - o Oriel ffotograffau
 - o Pris yr ystafelloedd
 - o Archebwch nawr
- System archebu
- Pethau i'w gwneud
- Cysylltu â ni – llenwi ffurflen – rhoi'r wybodaeth mewn cronfa ddata ac rydym ni'n derbyn e-bost
- Sut i ddod o hyd i ni

Pa Bethau Ymarferol ydych chi eu Hangen?

Rhowch ddisgrifiadau manwl yma i sicrhau bod y cyflenwr yn deall eich gofynion:

- Ffurflen Gysylltu
- Oriel ryngweithiol, rhannu ffotograffau a fideos
- Integreiddio â blog neu gyfryngau cymdeithasu
- Panel chwilio i adael i ymwelwyr lywio drwy'r wefan
- E-fasnach (siopa ar-lein gyda phrosesu cardiau credyd)
- Bwcio a chadw lle ar-lein neu Galendr digwyddiadau
- Tudalennau mewn mwy nag un iaith
- Unrhyw ffurflenni ar-lein ychwanegol neu swyddogaethau eraill.

Optimeiddio ar gyfer y Chwilotwyr (SEO)

Ydych chi angen:

- Mynegeo eich tudalennau gwefan i gyd fel eu bod nhw'n ymddangos yng nghanlyniadau'r chwilotwyr?
- Gwasanaethau Optimeiddio ar gyfer Chwilotwr (SEA) (efallai y bydd yn rhaid defnyddio'r rhain i sicrhau bod eich gwefan yn weladwy, yn enwedig mewn marchnad gystadleuol fel twristiaeth)?
- Datblygu dolenni mewnol perthnasol o gyfeiriaduron a gwefannau eraill a fydd yn helpu i'ch rhoi chi'n agosach at frig y rhestr yng nghanlyniadau'r chwilotwyr?
- Pa ymadroddion neu eiriau chwilio ydych chi eisiau eu targedu?
- Adroddiadau a gwybodaeth ystadegol

Hygyrchedd ar y We

Eich cyfrifoldeb chi yw hi i sicrhau bod eich gwefan yn agored i bawb yn ddigyfaddawd. Mae safonau hygyrchedd i'w cael ar y we, e.e. www.w3c.org/wai felly mae'n syniad da iawn i gynnwys y rhain yn eich briff er mwyn gwneud yn siŵr bod eich gwefan yn cyfateb â nhw.

Y Pethau y Gallwch eu Darparu

Cynhwyswch restr wirio o'r pethau y gallwch eu darparu sy'n rhan o'r briff, e.e.:

- Gwefan
- Cofrestru parth
- Cyfrif(on) e-bost @ eich parth
- Cymorth technegol a chynnal
- E-fasnach – cert siopa
- Ysgrifennu copi ar y we
- Ffotograffiaeth
- Optimeiddio ar gyfer chwilotwyr
- Cyflwyniadau cyfeiriadur
- Ystadegau'r wefan
- Arall

Perchnogaeth a Hawlfraint

Yn debyg i unrhyw brosiect dylunio, amddiffynnwch eich perchnogaeth a'ch hawlfraint bob amser drwy gynnwys y termau a ganlyn:

Gwnewch yn siŵr bod eich contract yn nodi mai chi sy'n berchen ar yr hawlfraint i'r wefan i gyd h.y. dylech fod yn berchen ar y cynnwys i gyd, yn cynnwys y graffeg – yr ydych wedi talu i rywun ei chreu yn arbennig i chi. Os oes unrhyw eithriadau (e.e. ffotograffau neu fapiau sydd ar gael i chi ond nid oes gennych chi'r hawlfraint) rhestrwch y rhain os gwelwch yn dda – dyma rywfaint o destun sampl i chi ei ystyried:

'Un o amodau'r briff yma yw bod holl berchnogaeth a hawlfraint y wefan gyfan yn perthyn i (eich enw neu enw eich busnes). Dylai unrhyw barthau sydd wedi'u cofrestru fod yn eiddo i (eich enw neu enw eich busnes) a bod â'r manylion cysylltu gweinyddol a'r cyfeiriad e-bost yma: (rhowch eich enw llawn, enw eich busnes, cyfeiriad, e-bost, ffôn a ffacs).'

Bydd angen i chi dderbyn y wybodaeth fewngofnodi ar gyfer cynnal y wefan a rheoli'r parth pan fydd y prosiect yn gyflawn.

Taliad

Bydd gan y dylunwyr gwe eu gofynion eu hunain o ran amseriad y taliadau ac mae hyn yn amrywio o un dylunydd i'r nesaf. Yn gyffredinol peidiwch BYTH â thalu mwy na 50% cyn i'r wefan gael ei chwblhau a chofiwch 'wirio' eich dylunydd fel y byddech gydag unrhyw gyflenwr sydd eisiau taliad o flaen llaw cyn i'r gwaith gael ei ddarparu.

Cynnal a Chadw

Bydd angen i'ch gwefan gael ei chynnal yn rheolaidd ac mae angen ystyried hyn wrth lunio'r gyllideb a datblygu eich gwefan.

Yn olaf

Unwaith y byddwch wedi paratoi eich briff, dylech ei anfon at y person neu'r cwmni rydych wedi'i ddewis i baratoi'r wefan i gael pris ganddo.

Dewis Cynlluniwr Proffesiynol i Adeiladu neu Adfywio eich Gwefan

Mae pawb eisiau gwefan sy'n edrych yn broffesiynol fydd yn helpu i gynhyrchu mwy o fusnes – ond sut ydych chi'n cael hyd i rywun fydd yn gallu creu'r wefan berffaith i chi?

Oes angen gwefan newydd arnoch? Efallai eich bod eisiau adnewyddu eich hen un? Ydych chi angen rhywun i'ch helpu? Darllenwch ymlaen...

Cael Hyd i Gwmni Proffesiynol Da

Dydy hi ddim yn hawdd dewis rhywun i adeiladu gwefan i'ch busnes twristiaeth, yn enwedig os nad oes gennych lawer o brofiad yn y maes yma.

Mae'n sialens go iawn cael hyd i'r cwmni gwe proffesiynol sy'n gywir i chi – ond pan wnewch chi hynny – bydd yn talu ei ffordd.

Mae'n bwysig canfod cwmni gydag enw da fydd yn gweithio'n effeithiol gyda chi i ddatblygu gwefan sy'n gallu gwrthsefyll newidiadau'r dyfodol, sy'n ateb eich holl anghenion busnes ac anghenion eich ymwelwyr. Byddwch angen cwmni sydd â phrofiad o gynhyrchu gwefannau i fusnesau twristiaeth – yng Nghymru gobeithio – ac sydd hefyd yn gallu defnyddio'r arbenigwyr gwe isod, pob un yn arbenigwyr yn eu meysydd eu hunain ond a fydd yn gweithio fel tîm ar eich prosiect. Bydd llunwyr llai fel arfer yn cynnig yr un gwasanaethau ond efallai y byddent yn pasio rhai agweddau o'r gwaith at bobl eraill.

Pwy sy'n Gwneud Beth?

Mae hwn yn ddiwydiant gweddol newydd sy'n symud ymlaen yn gyflym, felly mae'r gwahanol rolau'n dal i ddatblygu. O ganlyniad mae'r teitlau swyddi a ganlyn yn hyblyg a gallai nifer o'r rhain berthyn i fwy nag un categori:

Dylunwyr graffig – gallai'r rhain gynnig nifer o wasanaethau dylunio yn cynnwys dylunio graffeg a phrint a pharatoi fersiynau bras o'r wefan. Efallai y byddent yn anfon prosiectau mwy technegol allan i gael eu cwblhau.

Gwe ddylunwyr – yn rheoli agwedd weledol y wefan, cynllun y tudalennau, lliwiau, ffontiau a delweddau. Mae gan lawer ohonynt y sgiliau i adeiladu gwefannau hefyd.

Gwe ddatblygwyr – mae gan y rhain yr wybodaeth am ieithoedd rhaglennu a byddent yn creu codau ac yn llunio prosesau gwefan. Bydd rhai gwe ddatblygwyr yn rheoli'r gwaith o adeiladu gwefan o'r cychwyn un, bydd eraill yn anfon rhai agweddau o'r gwaith yma allan.

Rhaglenwyr gwe – gall y rhain adeiladu gwefannau yn arbennig i ateb gofynion y busnes e.e. gwefannau dynamig, gwe-siopau a systemau e-fasnach ac ati gan ddefnyddio amrywiaeth o ieithoedd rhaglennu.

Ymgynghorwyr/Cwmnïau Optimeiddio ar gyfer Chwilotwyr (SEO) – mae'r rhain yn delio gyda phob agwedd o SEO h.y. strwythur y wefan a dadansoddiad o'i chynnwys, ymchwilio geiriau allweddol, ysgrifennu copi SEO, HTML a strwythur y tudalennau, dolenni mewnol a rhai sy'n denu pobl at y wefan, monitro ac adrodd.

Peiriannwyr cynnal/rhwydwaith

– yn edrych ar ôl y rhwydweithiau a'r seilwaith mewnol sy'n cynnal y safleoedd/e-byst ac ati.

Gwasanaethau Pyrth Talu/Cyfrifon

– mae gwasanaethau e-fasnach yn awdurdodi taliadau ar gyfer e-fusnesau ac adwerthwyr ar-lein.

Rheolwyr Diogelwch – mae'r rhain yn rheoli ac yn cynnal asesiad risg a diogelwch y rhwydwaith.

Ysgrifenyddwr copi – mae'r rhain yn darparu'r cynnwys. Chi yw'r person gorau i ysgrifennu eich cynnwys ar-lein am mai chi yw'r arbenigwr ar eich busnes a'ch marchnad bosibl – ond mae ganddyn nhw'r sgiliau i sicrhau bod eich syniadau'n cael eu mynegi yn y fformat / gyda'r termau mwyaf effeithiol.

Mae angen cyfuniad o'r sgiliau uchod i greu gwefan lwyddiannus.

Fel arfer, gall unrhyw un o'r cyflenwyr uchod ddatblygu gwefan gyffredin o safon gyda system rheoli cynnwys am bristebyg. Os oes gennych angen arbennig – e.e. siop ar-lein e-fasnach yn benodol i chi, neu os ydych angen rhaglennu penodol yna bydd angen dewis cyflenwyr sy'n arbenigo yn hynny.

Mae cynllunwyr gwefan proffesiynol yn cynnig nifer o wasanaethau. I'r rhan fwyaf o brosiectau datblygu ar y we dyma'r gwasanaethau angenrheidiol:

- Cynnal gwefan (weithiau drwy drydydd parti)
- Cofrestru enw parth
- Dylunio gwefan
- Datblygu'r system rheoli cynnwys neu system e-fasnach
- Datblygu cronfa ddata a rhaglennu
- Datblygu cynnwys megis golygu, graffeg, logos, fideos, integreiddio cyfryngau cymdeithasu ac ati

- Rheoli prosiect a rhoi cyngor am eich prosiect
- Optimeiddio ar gyfer chwilotwyr (SEO)

Creu Brîff eich Gwefan

Mae brîff gwefan yn ddogfen fanwl yr ydych yn ei rhoi i bobl fydd efallai'n adeiladu neu'n adnewyddu eich gwefan i chi. Mae'n cynnwys disgrifiadau llawn o'r gwaith sydd ei angen i wneud hyn.

Bydd y brîff cyflawn yn gadael i chi ganfod a chyfathrebu elfennau hanfodol y gwaith, y nodweddion a'r galluoedd ymarferol rydych eu hangen – wrth gwrs, unwaith y byddwch wedi penodi'r dylunwyr, mae'n bosib y byddden nhw'n rhoi llawer mwy o syniadau i chi!

Dylai'r brîff hefyd roi digon o wybodaeth i'r dylunwyr posibl fel eu bod nhw'n gallu rhoi pris cywir i chi a'i gwneud hi'n haws i chi ddewis pwy sydd am wneud y gwaith – pwy fydd yn creu gwefan fydd yn sefyll allan ymysg y gwefannau twristiaeth eraill, gan gwrdd ag anghenion eich ymwelwyr ar-lein, a chadw o fewn eich cyllideb a'ch gofynion o ran amser.

Mae rhoi brîff da i gyflenwyr yn hanfodol os yw'r prosiect i lwyddo – mae'n bwysig bod yn hollol glir am yr hyn rydych eisiau ei gyflawni. Mae dolen at y ffeithlen 'Creu Brîff eich Gwefan' (<http://www.sharewales.com/index.php/resources/maximising-your-web-presence/>) yn yr adran 'Defnyddiau Darllen/Gwyllo Cysylltiedig' ar ddiwedd y ffeithlen yma.

Creu Rhestr Fer o Ddarparwyr

Cyn dewis pa bobl neu gwmni proffesiynol yr ydych am anfon brîff gwefan atynt, dylech wneud ymchwiliad ohonynt – dyma rai pethau i'w hystyried:

- Argymhellion personol gan fusnesau eraill sydd â gwefannau

- Edrychwch ar y rhyngwrdd – bydd gan gyflenwyr da wefan gyda’u portffolio’n dangos eu gwaith a’u comisiynau presennol
- Gwiriwch i weld ydy eu gwefan nhw wedi’i dylunio’n dda gydag arddull a fformat da
- Ydy’r wefan yn dangos arferion gorau e.e. llywio da?
- Ydy’r cynnwys yn ffres ac yn eich ysbrydoli?
- Ydy’r wefan yn rhoi’r wybodaeth yr ydych ei hangen ac yn ei disgwyl?
- A oes ganddi adolygiadau byw ac ydy hi’n cynnwys eu ffrwd cyfryngau cymdeithasu?
- Ydy’r wefan yn ymddangos ar ddwy dudalen gyntaf canlyniadau’r chwilotwyr?

Ydych chi’n hoffi eu portffolio gwaith? A yw eu rhestr cleientiaid wedi’i diweddarau ac a ydyw’n cynnwys busnesau tebyg i’ch rhai chi yn y sector twristiaeth? Ydy’r gwefannau i gyd yn edrych yn debyg iawn i’w gilydd? Gallai hyn fod yn arwydd o ddiffyg dawn ddylunio. Ydyn nhw wedi creu gwefan debyg i’r un rydych chi ei hangen h.y. os ydych angen gwefan e-fasnach, ydyn nhw wedi creu gwefannau fel yma o’r blaen?

Gallwch wneud y rhan fwyaf o’r gwaith ymchwil yma drwy edrych ar eu gwefan ond efallai y byddwch eisiau cysylltu â nhw i ofyn cwestiynau – mae hyn hefyd yn rhoi’r cyfle i chi gael sgwrs anffurfiol. Oeddech chi’n teimlo eich bod yn gallu cyfathrebu’n haws gyda nhw?

Drwy wneud yr ymchwiliad yma bydd gennych restr fer o ddylunwyr posibl – dylech fod yn barod felly i anfon brîff eich gwefan at y bobl yma.

Pan fyddwch wedi derbyn cynigion y bobl yma gallwch eu cymharu gyda brîff

eich gwefan – a fydd y cyflenwyr yma’n gallu darparu popeth rydych ei eisiau? Ydy’r arddull, cynigion, y galluoedd ymarferol ac ati fel roeddech wedi’i ddisgwyl? Gofynnwch am negeseuon gan gwsmeriaid blaenorol y dylunwyr yma sy’n tystio eu bod nhw’n hapus â’u gwaith. Dyma rai cwestiynau da i’w gofyn:

- A oedden nhw’n hapus gyda’r canlyniadau ar y diwedd?
- A oedd y gwaith yn ateb amcanion eu busnes?
- A gyflawnwyd y gwaith o fewn y gyllideb?
- A yw’r wefan yn llwyddiannus a pham?
- Ydy’r cwmni yma’n dda am weithio i ddyddiadau penodol?
- Sut wasanaeth maen nhw’n ei roi i’r cwsmer?

Dylech ddefnyddio’r broses uchod i ostwng y nifer o gyflenwyr yr ydych am eu gwahodd am gyfweliad i oddeutu tri neu bedwar. Dylech ddrafftio nodiadau sy’n cynnwys gwybodaeth am y cyflenwyr ar y rhestr fer, oherwydd bydd y rhain yn ddefnyddiol pan fyddwch yn gwneud eich penderfyniad terfynol.

Cyfweld y Cyflenwyr Posibl

Dylech gyfweld yr holl ymgeiswyr ar y rhestr fer drwy holi dwy ffordd. Dylai’r ymgeisydd ddangos diddordeb brwd a gofyn cwestiynau perthnasol am amcanion ac anghenion eich busnes – dylai hyn ddangos eu bod yn deall eich anghenion a faint o ffocws maen nhw’n ei roi ar fusnes/marchnata. Mae hefyd yn bwysig ystyried a allwch chi weithio gyda nhw, ydyn nhw’n cyfathrebu’n dda, ydych chi’n meddwl y gallech gael perthynas waith dda gyda nhw ac ydyn nhw’n dangos dealltwriaeth

o'r sector twristiaeth yng Nghymru. I wneud yn siŵr eich bod yn cael gafael ar yr holl wybodaeth rydych ei hangen er mwyn dewis eich cyflenwyr, mae'n syniad da gwneud nodiadau yn ystod y cyfweiliadau.

Gwneud eich Dewis Terfynol

Pan fydd y cyfweiliadau wedi gorffen, dylech allu dewis y gorau. Mae angen i chi lunio cytundeb ysgrifenedig – dylai hyn gynnwys 'manyleb dechnegol' sydd wedi'i darparu gan y cyflenwr. Bydd hon wedi'i seilio ar y briff gwefan ac unrhyw ofynion eraill y cytunwyd arnynt.

Pan fyddwch yn hapus gyda'r fanyleb dechnegol, dylech chi a'r cyflenwr lofnodi contract cyn i unrhyw waith gychwyn. Dylai'r contract gynnwys yr holl feysydd a drafodwyd uchod ynghyd â manylion darparu'r gwaith, talu amdano a'r dyddiadau cwblhau.

Pam ydw i Angen System Rheoli Cynnwys ar Wefan?

Bydd System Rheoli Cynnwys (CMS) yn ei gwneud hi'n hawdd i chi ychwanegu cynnwys a diweddaru'r cynnwys sydd ar eich gwefan yn gyflym. Chi ddylai fod yn rheolwr ar eich ffenestr siop ar y we!

Bydd cynnwys diddorol a ffres sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn eich helpu i roi eich gwefan yn uwch ar restr y chwilotwyr mawr, gan olygu y bydd mwy o ymwelwyr yn dod i'ch safle. Bydd hefyd yn rhoi profiad gwell i'r bobl a allai ddod yn gwsmeriaid i chi, gan wella eich siawns o droi ymwelwyr â'ch gwefan yn ymwelwyr wrth eich drws. A does dim rhaid i chi wybod am raglennu a chodio i wneud hyn!

Beth yw System Rheoli Cynnwys?

Mae Systemau Rheoli Cynnwys (CMS) yn rhaglenni cyfrifiadurol sy'n gadael i chi newid cynnwys eich gwefan yn gyflym a hawdd. Mae CMS yn rhan bwysig o wefan unrhyw fusnesau twristiaeth erbyn hyn a byddwch yn falch o glywed nad oes angen gwybodaeth o raglennu HTML arnoch fel arfer i'w defnyddio nhw.

Does neb yn nabod eich busnes twristiaeth yn well na chi a does neb arall yn gwybod beth rydych eisiau ei ddweud – ac mae CMS yn gadael i CHI reoli cynnwys eich gwefan!

Ydw i angen System Rheoli Cynnwys?

Mae gan rai busnesau twristiaeth wefannau statig, a dydy'r busnesau ddim yn gallu gwneud newidiadau iddyn nhw. Pan fydd angen diweddaru gwefan statig, ychwanegu cynnwys neu dudalennau newydd ati, mae'n rhaid i ddatblygwr y wefan wneud hyn fel arfer, a bydd yn codi ffi am hynny mae'n debyg. Mae eich gwefan yn wynebu cystadleuaeth galed yn y sector twristiaeth Cymreig ac os ydych eisiau aros yn gystadleuol yn y farchnad fyd-

eang sydd ohoni heddiw, dydy hyn ddim yn ddigon da. Dim ond cynnwys sy'n ddiddorol a chynnwys sy'n cael ei ddiweddaru'n aml fydd yn denu ac yn diddori eich ymwelwyr.

Y dyddiau hyn, i achub y blaen ar y gystadleuaeth, rhaid i chi allu diweddaru eich gwefan eich hun, fel eich bod yn gallu:

- Ychwanegu lluniau, fideos, prisiau tymhorol, ac ati
- Cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol newydd am ein hanes, etifeddiaeth, bwyd ac ati
- Ychwanegu eich cynigion arbennig ac ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau y mae eich cystadleuwyr yn eu gwneud er mwyn marchnata eu busnes
- Cynnwys eich sianelau cyfryngau cymdeithasol gwerthfawr
- Diweddaru'r wybodaeth am atyniadau, gweithgareddau a digwyddiadau pwysig yn lleol
- Addasu eich disgrifiadau o gynhyrchion, newidiadau i brisiau, y gwahanol brisiau am wahanol lefelau deiliadaeth ac ati, ar systemau e-fasnach


- Edrych ar ganlyniadau eich dadansoddeg. Yna gallwch addasu eich geiriau a'ch ymadroddion allweddol i'ch ymwelwyr ac i'r chwilotwyr.

Mae eich ymwelwyr yn chwilio am gynnwys ffres a bywiog sy'n berthnasol i'r pethau maen nhw eu hangen. Mae chwilotwyr yn 'ymlusgo' drwy'r holl wefannau ar y we drwy'r amser i ganfod tudalennau newydd neu rai sydd wedi'u diweddarau. Mae'r rhai sy'n uwch i fyny yn rhestr y chwilotwyr yn fwy tebygol o gynnwys gwybodaeth berthnasol ac amserol. Rhaid i chi allu diweddarau eich gwefan yn rheolaidd er mwyn plesio eich ymwelwyr ac er mwyn cael lle gwell yn rhestrau'r chwilotwyr.

Os nad oes gennych System Rheoli Cynnwys sy'n cyfateb yn dda â gofynion y chwilotwyr (lle gallwch greu a golygu eich gwe-dudalennau eich hun) neu, os na allwch gynnwys un yn eich gwefan bresennol, byddai'n syniad da i chi ystyried comisiynu gwefan newydd.

Sut mae CMS yn gweithio?

Mae System Rheoli Cynnwys yn debyg i brosesydd geiriau. Mae'r rhan fwyaf o'r systemau heddiw yn syml ac yn hawdd eu defnyddio ac, ar ôl cael ychydig o hyfforddiant, byddwch chi neu eich staff yn gallu diweddarau'r cynnwys ar eich gwefan yn hawdd. Mae'r llun sgrin isod yn dangos y golygydd testun yn Word Press.



Mae gwahanol systemau'n gallu amrywio'n ddramatig – pan fyddwch yn dewis CMS ar gyfer eich busnes twristiaeth, dylech ystyried y pwyntiau nesaf.

Dydy systemau sylfaenol ond yn gadael i chi newid y testun ar y tudalennau sydd gennych yn barod, tra bo'r systemau mwy datblygedig yn gadael i chi greu tudalennau mewn gwahanol arddulliau ac ychwanegu cynnwys amrywiol iawn h.y. testun, lluniau, ffeiliau Flash a fideos. Efallai y byddwch eisiau nodweddion ychwanegol e.e. gallu rheoli mynediad gwahanol aelodau o staff.

Mae llawer o'r systemau rheoli cynnwys yn rhoi rhyddid mawr i ddatblygwyr gwefannau pan maen nhw'n llunio gwefannau, felly maen nhw'n gallu creu gwefannau unigryw i'w cwsmeriaid. Ond, dim ond opsiynau cynllunio cyfyngedig sydd gan rai systemau. Felly, mae'n syniad gweld portffolio o gynlluniau a grëwyd gyda system arbennig cyn dewis y system honno, er mwyn gwneud yn siŵr bod y CMS yn ddigon hyblyg i greu cynllun fydd yn ateb anghenion eich busnes twristiaeth.

Yn ein byd symudol heddiw, gallwn addasu'r rhan fwyaf o'r systemau CMS i greu gwefannau ymatebol. (Mae gwefan ymatebol yn newid yn awtomatig i ffitio'r ddyfais yr ydych yn darllen y wefan arni e.e.: ffonau symudol a llechi). Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddarllen y ffeithlen "Ydw i Angen Gwefan Symudol?".

Mae hefyd yn bwysig bod y system CMS a ddewiswch yn gallu creu gwefan twristiaeth sy'n hawdd ei defnyddio ar y chwilotwr ac yn creu tudalennau a dolenni y gall y chwilotwyr ymlusgo drwyddynt. Dylai hefyd gynnwys y gallu i ddiweddarau Teitlau Tudalennau, Metaddisgrifiadau a Thagiau, ac ati.

Dyma rai o brif fanteision systemau rheoli cynnwys:

- Mae'n rhoi hyblygrwydd i chi a rheolaeth i chi ar eich gwefan eich hun
- Mae'n sicrhau nad ydych yn dibynnu ar bobl eraill i ddiweddarau eich gwefan a'i chadw'n berthnasol
- Mae'n gadael i chi integreiddio eich cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol
- Mae'n gadael i chi ateb anghenion eich ymwelwyr ar-lein a bod yn berthnasol iddyn nhw (drwy edrych ar ddadansoddeg y wefan a sylwadau eich cwsmeriaid)
- Mae'n ei gwneud hi'n hawdd i chi ychwanegu neu ddileu tudalennau sydd â dolenni at brif strwythur llywio eich gwefan
- Mae'n gadael i chi ychwanegu, newid, dileu a chyhoeddi'r testun, lluniau a chyfryngau eraill sydd gennych yn barod
- Mae wedi'i seilio ar y we fel arfer felly does dim rhaid i chi osod meddalwedd ar eich cyfrifiadur(on)
- Does dim angen llawer o hyfforddiant i'w defnyddio fel arfer
- Mae'n gadael i chi osod gwahanol lefelau o fynediad. Mae hyn yn golygu bod llai o broblemau diogelwch a llai o bosibilrwydd y bydd defnyddwyr dibrofiad yn gwneud niwed i'r wefan.

Sut Allaf i Gael System Rheoli Cynnwys?

Rydych fel arfer yn gofyn am system rheoli cynnwys yn y briff cynllunio ar gyfer gwefan newydd ac mae eich cwmni cynllunio proffesiynol yn ei darparu. Os oes gennych wefan yn barod efallai y byddai'n bosibl ychwanegu system rheoli cynnwys – efallai y bydd angen i chi ofyn i'ch cwmni cynllunio proffesiynol a yw hyn yn bosibl.

Pa Fathau o CMS sydd ar Gael?

Yn dibynnu ar eich gwybodaeth a'ch sgiliau, efallai y byddwch yn gallu gosod system rheoli cynnwys eich hun. Neu, dewiswch gynlluniwr gwe proffesiynol da fydd yn gallu eich arwain a chanfod system i gyfateb â'ch gofynion.

Mae 3 prif fath o CMS sydd fel arfer yn briodol i fusnesau bach. Dyma nhw:

- **System sy'n eiddo i'r datblygwr gwefannau** – mae llawer o ddatblygwyr gwefannau proffesiynol yn datblygu eu systemau eu hunain a gall y rhain gael eu newid i gyfateb â'ch gofynion chi.
- **Systemau masnachol/brand 'oddi ar y silff'** – gall y datblygwr gwefannau greu eich gwefan o amgylch system rheoli cynnwys sydd ar gael yn fasnachol a'i newid i ateb gofynion eich busnes.
- **Systemau ffynhonnell agored** – mae'r rhain hefyd yn cael eu defnyddio gan lawer o ddatblygwyr ac maent ar gael yn rhad ac am ddim. Ymysg y rhai ffynhonnell agored poblogaidd mae Joomla a WordPress.

Cyn Dewis eich System Rheoli Cynnwys

Pa CMS sydd orau i chi? Mae ganddynt oll wahanol nodweddion sydd â manteision ac anfanteision. Mae angen i chi benderfynu pa un yw'r mwyaf priodol i chi ac i'ch busnes twristiaeth. Y ffordd orau o wneud eich penderfyniad yw:

- Siarad gyda'ch cynllunydd proffesiynol
- Rhoi cynnig ar wahanol systemau os yw hynny'n bosibl
- Ymchwilio a darllen adolygiadau ar-lein gan ddefnyddwyr eraill

Pan fyddwch yn gofyn am eich CMS gan ddatblygwr gwefannau, bydd angen i chi ddeall pa fathau o systemau sydd ar gael a sut y byddent wedi'u trwyddedu i chi.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddarllen y ffeithlenni "Dewis Cwmni Proffesiynol", "Creu Brîff eich Gwefan" ac "Ydw i Angen Gwefan Symudol?"

Dewis eich Enw Parth

Ydych chi'n gobeithio creu gwefan newydd neu adnewyddu hen un? Os felly, mae eich dewis o enw parth yn hynod o bwysig – gallai yn llythrennol ennill neu golli busnes i chi.

Eich enw parth yw'r pwynt cysylltu cyntaf i'ch gwefan a dyma lle byddwch yn creu eich argraff gyntaf. Dyma rai pwyntiau pwysig y mae angen i chi eu hystyried cyn gwneud eich dewis terfynol!

Beth yw Enw Parth a Sut mae'n Gweithio?

Mae gan bob dyfais sydd wedi'i chysylltu â'r rhyngwrdd gyfeiriad IP (Protocol Rhyngwrdd), sy'n rif unigryw e.e. 2.111.195.145, ac mae'r rhain wedi'u storio mewn cronfeydd data enfawr. Mae angen cyfeiriad IP i anfon a derbyn gwybodaeth ar y rhyngwrdd, mae'n debyg i'r ffordd mae angen eich cyfeiriad post er mwyn i chi dderbyn eich post cartref. Byddai'n anodd iawn i ni gofio'r rhesi od yma o rifau – felly mae ein enw parth yn gweithio fel ffugenw cyfeillgar a chofiadwy ar ein gwefan.

Mae eich enw parth yn chwarae rhan bwysig yn y broses o sefydlu hunaniaeth eich gwefan.

Mae'r DNS (System Enw Parth), yn gadael i ni aseinio enw parth i'r cyfeiriad IP unigryw ar gyfer ein gwefan sy'n pwyntio at y fan lle mae'r wefan wedi'i storio. Felly, er enghraifft, pan fyddwch yn teipio'r enw parth visitwales.com yn www.visitwales.com, mae'n chwilio amdano'n awtomatig ac yn ei drosi i'r cyfeiriad IP ar gyfer gwefan Croeso Cymru.

Pa elfennau sy'n gwneud cyfeiriad gwe?
Yourbusinessesname.com – dyma'r enw parth a brynwch – mae gan bob

enw parth olddodiad (dyna'r darn ar y diwedd).

Olddodiad y parth – co.uk, com, org ac ati – dyma'r darn olaf mewn enw parth a'r enw ar hwn yn aml iawn ydy'r 'parth lefel uchaf' – caiff hwn ei ddefnyddio i adnabod y math o wefan, er enghraifft:

- **.co.uk** – mae busnesau sy'n gweithredu yn y DU yn defnyddio hwn
- **.com** – mae busnesu sy'n gweithredu drwy'r byd i gyd yn defnyddio hwn
- **.edu** – byd addysg

Y protocolau – http://, https://, ftp:// – yw cyfres o reolau a safonau sy'n gadael i gyfrifiaduron gyfnewid gwybodaeth. Pan fyddwch yn rhoi cyfeiriad gwe yn eich porwr, mae'n anfon http neu orchymyn priodol i'r serfiwr gwe yn dweud wrtho am lwytho'r we-dudalen rydych wedi gofyn amdani.

Y rhagddodiad www (world wide web) – dydy hyn ddim yn angenrheidiol oherwydd dydy rhai gwefannau ddim yn ei ddefnyddio – dylai eich gwefan ymateb i'r ddau yma: www.yourbusinessesname.com a yourbusinessesname.com

Enw'r llwybr – dyma unrhyw beth ar ôl blaenslaes sy'n dilyn yr enw parth, e.e.: **uk-family-holidays/days-out** sy'n dweud

wrth y cyfrifiadur pa dudalen rydych yn chwilio amdani a lle i gael gafael arni.

Cyfeiriad gwe – weithiau byddwn yn galw hwn yn URL, sy'n sefyll yn y Saesneg am 'Lleolydd Adnoddau Unffurf'. Dyma'r peth cyfan, cyfeiriad unigryw unrhyw we dudalen e.e. <http://www.Yourbusinessname.com/uk-family-holidays/days-out/>

Dewis eich Enw Parth

Mae'n bwysig bod eich enw parth yr un fath ag enw eich busnes – os ydych eisiau gyrru traffig i'ch gwefan. Pan fydd pobl eisiau chwilio am eich gwefan byddent yn meddwl yn gyntaf amdano wrth eich enw chi felly os oes ganddo yr un enw â'ch busnes byddent yn dod o hyd i chi ar unwaith; er enghraifft byddech yn disgwyl canfod y wefan ar gyfer Croeso Cymru ar www.visitwales.com. Os na fyddai Croeso Cymru'n berchen ar yr enw parth yma byddai'r bobl sy'n chwilio amdanynt yn mynd at berchennog yr enw a byddai Croeso Cymru wedi colli cwsmeriaid.

Byddai enwau parth generig, megis hotels.com, yn gwella gallu rhai chwilotwyr i ddod o hyd i chi a rhoi lle uwch i chi yn eu rhestrau canlyniadau; ond mae enwau parth fel y rhain wedi cael eu prynu ers talwm a gall gwerthwyr preifat ofyn prisiau uchel iawn amdanynt yn awr.

Mae werth cymryd eich amser i ddewis eich enw parth – mae angen i'r enw barhau cyhyd â'ch busnes. Mae chwilotwyr yn defnyddio oed ac enw da'r wefan wrth benderfynu faint o amlygrwydd i roi iddi.

Beth sy'n Gwneud Enw Parth Da?

Cadwch e'n fyr a syml – mae cyfeiriadau gwe byrion yn haws eu cofio ac mae'n llai tebygol y bydd pobl yn eu camdeipio – mae hynny'n rhywbeth sy'n gallu baglu

ymwelwyr posibl neu achosi iddynt eich anghofio. Fel arfer mae'n well byrhau enwau busnes hir iawn ond dim ond os ydyn nhw'n gwneud synnwyr. Dylai enwau parth fod ag o leiaf tri chymeriad ac uchafswm o chwe deg tri o gymeriadau heb gynnwys yr olddodiad.

Disgrifiadol

Dylai eich cyfeiriad gwe geisio rhoi rhagolwg i bobl o'r cynnwys y byddent yn ei weld pan maent yn ymweld â'ch gwefan a dylai roi digon o gliw am gynnwys eich gwefan i ddenu ymwelwyr.

Cofiadwy

Mae'r enwau parth gorau'n cyfuno symmlrwydd a disgrifiad gydag elfen unigryw (chwarae ar eiriau'n aml iawn) sy'n helpu ymwelwyr posibl i gofio cyfeiriad eich gwefan oriau, ddyddiau neu hyd yn oed fisoedd ar ôl iddynt ddod ar ei draws yn gyntaf.

Rhai pethau i'w hystyried:

Cysylltnodau

A ddylech chi ddefnyddio cysylltnodau yn eich enw parth? Mae manteision ac anfanteision i wneud hynny.

Manteision – mae defnyddio cysylltnodau'n un ffordd o gael gafael ar enw eich busnes fel enw parth os yw rhywun wedi prynu'r fersiwn heb gysylltnod yn barod. Mae'n debyg y gall chwilotwyr ddiffinio eich geiriau chwilio'n haws a rhoi eich gwefan yn ôl mewn lle mwy amlwg yn y tudalennau canlyniadau chwiliad.

Anfanteision – maen nhw'n hawdd eu hanghofio gan achosi gwallau teipio. Mae'n anodd pasio'r cyfeiriad ymlaen ar lafar felly mae'n hawdd colli busnes i gystadleuwyr pan fydd pobl yn argymhell eich gwefan i'w ffrindiau. Mae cael cysylltnod yn eich enw parth yn arwain at fwy o wallau posibl na chael enw parth

heb gysylltnod. Hefyd, mae'n niwsans i'w deipio!

Priflythrennau

Dydy porwyr ddim yn cymryd unrhyw sylw o briflythrennau felly gallwch eu defnyddio yn eich enw parth i ddiffinio'r gwahanol eiriau a'u gwneud yn haws eu darllen h.y. www.VisitWales.co.uk. Mae hyn yn gweithio'n dda iawn os yw'n weddol hir neu'n cynnwys blaenlythrennau.

Camsillafu Cyffredin

Mae'n debyg eich bod yn gwybod yn barod am unrhyw wallau sillafu sy'n digwydd yn aml yn eich enw busnes felly cofiwch hyn wrth ddewis enw parth. Os yw defnyddiwr yn camsillafu'r enw ni fyddent yn dod o hyd i chi. Os byddwch yn prynu'r fersiwn wedi'i gamsillafu o'ch enw parth hefyd gallech ailgyfeirio traffig at yr enw parth cywir – yr enw Saesneg ar hyn yw 'alias' e.e.: os oes gennych y cyfeiriad www.LingaLonga.com efallai y byddwch eisiau ystyried prynu www.LingerLonger.com hefyd fel nad yw ymwelwyr yn colli'r wefan am eu bod wedi'i sillafu'n anghywir.

Dewis yr Olddodiad Cywir

.co.uk a .com yw'r olddodiaid mwyaf amlwg o hyd yn y DU ond pa un sydd orau i chi? I'r busnesau hynny sy'n gwneud eu gwaith i gyd yn y DU yr olddodiad .co.uk fyddai'r dewis gorau oherwydd mae hyn yn dangos yn glir i borwyr eu bod yn mynd i ddelio gyda gwasanaeth yn y DU. Ond os ydych yn gweithredu drwy'r byd i gyd, byddai'r olddodiad .com yn well.

Os gallwch, mae'n syniad da cael y ddau olddodiad – .co.uk a .com – ar gyfer eich enwau parth, a gall hyn helpu i ddiogelu eich brand ac atal pobl rhag drysu. Gallwch gysylltu'r ddau at eich gwefan.

Mae olddodiaid fel .ltd.uk a plc.uk yn llai poblogaidd ac maent yn gofyn i chi brofi mai chi yw'r cwmni cyfyngedig yr ydych yn prynu'r enw parth iddo. Felly mae'r rhain yn fwy dethol ac yn fwy tebygol o fod ar gael ond gwyliwch rhag ofn nad ydynt mor gofiadwy. Mae olddodiaid eraill yn cynnwys .net, .eu, .org, .org.uk, .biz ond mae llawer mwy i'w cael.

Is-barthau

Mae is-barth yn 'barth sy'n rhan o barth mwy'. Gallwch greu is-barthau i ganolbwyntio ar gynhyrchion neu wasanaethau ar wahân yr ydych eisiau eu hysbysebu. Mae is-barth yn creu URL ar wahân ac, yn ei dro, bresenoldeb ar wahân ar y we, oll o fewn eich prif gyfrif cynnal e.e. gallai eich gwefan www.shop.co.uk fod ag is-barthau o'r enw www.myflower.shop.co.uk neu www.mygift.shop.co.uk. Efallai y bydd rhai cynhalwyr yn rhoi cyfyngiad ar y nifer o is-barthau y gallwch eu creu. Gallent eich helpu i arbed arian ac hefyd wella eich safle yng nghanlyniadau'r chwilotwyr:

- Does ond rhaid i chi dalu am un enw parth – felly os yw eich cynhaliwr yn gadael i chi gael nifer o is-barthau, dim ond un taliad fydd yn rhaid i chi ei wneud.
- Mae is-barthau hefyd yn rhoi mwy o gyfle i chi i gynnwys geiriau allweddol yn eich enw parth.

Gwirio a yw eich Enw Parth ar Gael a'i Gofrestru

Gallwch edrych i weld a yw'r enwau parth ar gael a phrynu (rhentu) enwau parth gan nifer o gyflenwyr ar y we. Mae'r rhan fwyaf o gofrestrwyr parthau'n gadael i'w cwsmeriaid gofrestru enw parth am hyd at 10 mlynedd ar y tro – ond dim ond am 1-3 blynedd mae'r mwyafrif o bobl yn cofrestru eu henwau parth ac yna maent yn eu hadnewyddu fel y bo'r gofyn.

Os ydych wedi llunio brîff gwefan ar gyfer y dylunydd proffesiynol sy'n gweithio ar eich gwefan efallai eich bod wedi nodi mai nhw sydd i drefnu cofrestru eich enw parth. Mae'n **bwysig** bod eich enw parth wedi'i gofrestru yn eich enw chi, nid yn eu henw nhw.

Os ydych yn cofrestru'r enw parth eich hun, mae'n hawdd iawn edrych i weld a yw'n dal i fod ar gael. Teipiwch 'buying a domain name' i'r chwilotwr a bydd llwyth o ddewis i chi o enwau gwefannau sy'n cynnig y gwasanaeth yma, e.e. <http://www.123-reg.co.uk/> neu <http://www.net2.co.uk/>. Yna rydych yn teipio'r enw parth rydych ei eisiau yn y bocs chwilio sy'n agor – mae rhestr yn ymddangos sy'n dweud wrthyhch a yw'r enw parth a'r olddodiad wedi'i gymryd, e.e. efallai bod **mybandb.co.uk** wedi mynd ond efallai bod **mybandb.com** yn dal i fod ar gael. Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis gallwch ddewis am faint rydych eisiau'r cofrestriad a chlicio'r botwm 'add to basket' neu 'buy it now'.

Mae Nominet yn rheoli'r lle sydd gan y parthau ym Mhrydain ac yn cadw rhestr o'r holl gofrestrwyr i'ch helpu i ddewis eich cofrestrydd (<http://www.nominet.org.uk/uk-domain-names/registering-uk-domain/choosing-registrar>).

Fel arfer bydd eich cofrestrydd yn cysylltu â chi cyn dyddiad gorffen eich enw parth i ofyn a ydych eisiau ei adnewyddu. Gwnewch nodyn o'r dyddiad adnewyddu yn eich dyddiadur a chofiwch adnewyddu eich enw parth yn brydlon bob amser – dydych chi ddim eisiau iddyn nhw gael eu cymryd gan berchennog newydd! Pan ddaw'r cyfnod adnewyddu i ben, bydd yr enw parth ar gael eto i bobl eraill ei brynu.

Cynnal ar y we

Er mwyn i'ch gwefan ymddangos ar y rhyngrwyd, mae angen iddi gael ei

chynnal ar serfiwr – gwelwch y Ffeithlen Trefnu i'ch Gwefan gael ei Chynnal ar y We i gael rhagor o wybodaeth.

Sefydlu eich Cyfeiriad Ebst

Mae'n arfer da i ddefnyddio eich enw parth ar gyfer eich e-bost busnes – mae'n edrych yn llawer mwy proffesiynol na defnyddio un o'r darparwyr e-bost rhad am ddim e.e. **huw@myownbusiness.co.uk** yn hytrach na **huw679@freemail.com**

Ydy eich Gwefan yn Addas i Ddyfeisiau Symudol?

Pan fydd rhywun yn edrych ar eich gwefan ar eu dyfais symudol – sut mae’n edrych? Ydyn nhw’n gallu canfod yr wybodaeth bwysig yn gyflym a chymryd y camau angenrheidiol? Ydych chi eisiau iddyn nhw wneud hynny?

Am fod dyfeisiau symudol yn dod yn fwy a mwy poblogaidd, ac am fod ein ymwelwyr yn troi at y dyfeisiau yma fwy a mwy, allwch chi fforddio colli allan ar y farchnad werthfawr yma?

Dydy llawer o fusnesau ddim yn rhoi profiad ar-lein da i’w hymwelwyr symudol. Felly, os oes gennych wefan sy’n gweithio ar ddyfeisiau symudol byddwch mewn sefyllfa well i gael rhagor o ymwelwyr ar eich gwefan ac achub y blaen ar eich cystadleuwyr!

Pam Ydw i Angen Gwefan sy’n Gweithio ar Ddyfais Symudol?

Mae nifer gynyddol o bobl yn defnyddio eu dyfeisiau symudol, ffonau clyfar, iPadiau ac ati erbyn hyn i ddefnyddio’r we, i siopa, i gynllunio eu gwyliau neu benwythnosau i ffwrdd ac i rannu eu syniadau gyda chyfeillion. Yn wir, mae’n debyg y bydd mwy o bobl yn defnyddio’r we o ddyfeisiau symudol nag o’u cyfrifiadur desg o fewn y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o bobl yn chwilio am le, ac yn ceisio archebu lle, gyda’ch busnes twristiaeth ar eu ffonau clyfar tra byddent allan ar deithiau, yn lle gwneud hynny o’u cyfrifiadur cartref neu liniadur.

Mae dyfeisiau symudol sy’n cysylltu â’r we’n ddefnyddiol iawn ac mae hyn yn cael effaith enfawr ar y ffordd y mae ein hymwelwyr yn defnyddio’r we. Maen nhw’n ddelfrydol i bobl ar eu gwyliau, sy’n chwilio am wybodaeth ar unwaith, p’un a ydy hynny: i gynllunio lle i fynd nesaf neu beth i’w wneud nesaf; i edrych i weld beth yw’r oriau agor, y lleoliad, faint o le sydd ar gael, i archebu lle, i weld atyniadau, i ganfod

bwytaï, i gymharu prisiau ac i ddarllen adolygiadau, ac hyd yn oed i rannu eu lluniau a’u straeon ar wefannau’r cyfryngau cymdeithasol.

Os oes llawer o bobl yn mynd i’ch gwefan o’u ffonau symudol ac mae’r nifer sy’n bownsio allan eto’n uchel – mae’n bryd i chi ystyried gwneud newidiadau!

Yn y gorffennol doedd gwefannau ddim yn cael eu llunio ar gyfer dyfeisiau symudol felly dydyn nhw ddim o anghenraid yn ymddangos mewn ffordd sy’n hawdd i’r defnyddiwr ar eu sgriniau bach. Mae’n bwysig sicrhau felly bod eich gwefan yn hawdd ei defnyddio ar ddyfeisiau symudol neu fe fydd hi’n anodd i’ch ymwelwyr symudol ganfod yr wybodaeth y maent ei hangen, byddent yn digio ac yn colli amynedd. Mae’n bosib y byddent yn gadael eich gwefan ac yn symud i un arall (a honno’n wefan un o’ch cystadleuwyr) sy’n cynnig profiad symlach a haws ei fwynhau.

Sut Mae eich Gwefan yn Edrych ar Ddyfeisiau Symudol?

Ydych chi wedi edrych i weld sut mae eich gwefan yn edrych ar ffôn clyfar neu ddyfais symudol arall y mae eich ymwelwyr ar-lein yn eu defnyddio?

Mae llawer o offer ar gael sy'n gadael i chi weld sut mae eich gwefan yn edrych i'ch ymwelwyr symudol. Yn aml iawn maen nhw'n rhoi adroddiad sy'n dweud wrthyhych beth sy'n gweithio a'r hyn y gallech ei wella – gallwch roi cynnig ar offer profi gwefannau symudol How to GoMo – the GoMoMeter (<http://www.howtogomo.com/en-gb/d/>), neu W3C Mobile OK Checker (<http://validator.w3.org/mobile/>), neu ddefnyddio eich hoff chwilotwr i ganfod eraill.

A thra byddwch wrthi, mae'n debyg ei bod hi werth gwirio sut mae eich gwefan yn edrych ar y prif borwyr gan ddefnyddio <http://www.browsershots.org> neu rywbeth tebyg.

Gwirio eich Dadansoddeg

Gwiriwch eich pecyn dadansoddeg. Byddwch yn gallu gweld adroddiadau a fydd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi ynglŷn â sut mae eich ymwelwyr symudol yn defnyddio eich gwefan twristiaeth. Bydd yr wybodaeth yma'n eich helpu i wneud penderfyniadau mwy deallus am eich presenoldeb ar-lein. Gallwch benderfynu a yw'r traffig a dderbyniwch o ddyfeisiau symudol yn gwarantu newidiadau i'ch safle neu'n cyfiawnhau eich bod yn creu gwefan symudol i'ch busnes.

Dylai'r adroddiadau yma nodi:

- Faint o draffig symudol mae eich gwefan yn ei dderbyn
- Pa ddyfais symudol y mae eich ymwelwyr yn ei ddefnyddio
- Pa ddarparwr gwasanaeth y mae eich

ymwelwyr symudol yn ei ddefnyddio

- Pa dudalennau a'r nifer o dudalennau maent wedi edrych arnynt
- Yr amser, ar gyfartaledd, a dreuliwyd ar eich safle
- **cyfradd bownsio*** eich ymwelwyr symudol.

*Y canran o ymwelwyr â'ch safle sy'n bownsio – hynny yw, yn gadael eich gwefan heb weld tudalennau eraill.

Beth yw eich Dewisiadau?

Beth bynnag y penderfynwch ei wneud, mae angen i chi ei wneud mor hawdd ag sy'n bosibl i'ch ymwelwyr symudol wneud tasgau hanfodol, er enghraifft ddefnyddio eich system archebu ar-lein, llenwi eich ffurflenni nodi data, gweld dewislen neu edrych ar y calendr digwyddiadau neu'r lle sydd ar gael. Defnyddiwch gwymlenni, bocsys gwirio, a meysydd gyda dewis atebion lle bynnag y gallwch, fel bod eich ymwelwyr symudol yn gallu llywio a nodi gwybodaeth yn hawdd ac yn gyflym. Gwnewch yn siŵr bod modd canfod eich gwybodaeth gysylltu'n hawdd ar bob tudalen ac ar ffurf testun, yn hytrach na graffeg fel bod y defnyddiwr yn gallu ei dynnu allan. Os yw eich safle'n hawdd i ddefnyddwyr symudol – rhagorol! Daliwch ymlaen i ddefnyddio eich dadansoddeg i'ch helpu i fonitro datblygiadau a lleihau eich cyfradd fownsio a chynyddu eich busnes.

Os nad yw eich gwefan yn hawdd ei defnyddio ar ddyfais symudol, efallai y penderfynwch gymryd un o'r camau yma:

Newidiwch eich gwefan bresennol – y newydd da yw na fyddwch angen gwefan newydd, mae ymwelwyr symudol wedi arfer bodio, chwyddo, a sgrolio i mewn i ddarllen gwe-dudalen arferol ac i newid y testun i faint sy'n gyfforddus iddynt. Efallai y byddwch angen gwneud

ychydig o newidiadau syml i'ch gwefan bresennol, dyma rai syniadau i chi eu hystyried:

- Gwnewch yn siŵr bod y cynllun yn glir ac yn hawdd ei ddefnyddio
- Ydy eich gwe-dudalennau'n llwytho'n gyflym ar ffôn clyfar?
- A yw'r holl ddolenni a'r botymau'n ddigon mawr i gael eu clicio'n hawdd?
- A oes modd canfod eich rhif ffôn a'ch manylion cysylltu a'u tynnu allan yn hawdd?
- Ychwanegwch focs chwilio – dydy defnyddwyr dyfeisiau symudol ddim yn hoffi sgrolio drwy wybodaeth
- Lleihau neu osgoi defnyddio animeiddiadau Flash (mae technolegau eraill yn bodoli os ydych eisiau rhedeg sioeau sleidiau ac ati) – dydy llawer o ffonau clyfar a dyfeisiau symudol (yn arbennig Apple) ddim yn defnyddio Flash
- Optimeiddio eich lluniau fel eu bod yn llwytho mor gyflym ag sy'n bosibl
- Bod â thudalennau hawdd eu llywio

Ond os ydych am wneud y pethau hyn, cadwch lygad ar faint o fownsio sy'n digwydd, oherwydd efallai y bydd defnyddwyr symudol yn mynd yn llai amyneddgar yn y dyfodol ac y bydd gwefannau eraill yn dechrau ymateb yn well i'w anghenion.

Archwiliwch a oes modd troi eich gwefan yn wefan addasol – Efallai bod modd addasu eich gwefan. Os na allwch ail adeiladu eich gwefan o'r cychwyn un mae'n bosibl ychwanegu cod arbennig at wefan lled sefydlog y gall dyfeisiau symudol ei adnabod. Bydd hyn yn gwneud lled y colofnau'n gulach, yn gostwng maint y lluniau ac ati pan fydd yn canfod dyfais symudol.

Ond, cofiwch edrych i weld beth fydd y costau datblygu oherwydd gall y gwaith yma gymryd yr un faint o amser ag adeiladu gwefan newydd ymatebol. Bydd llawer yn dibynnu ar gynllun presennol eich gwefan ac argymhellion eich datblygwr gwe.

Creu fersiwn symudol newydd o'ch gwefan

– Mae gwefannau symudol wedi'u llunio'n arbennig ar gyfer sgriniau cyffwrdd llai. Maent yn debyg iawn i wefannau arferol ac maent wedi'u creu o dudalennau gwe sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd, a chânt eu hagor mewn porydd gwe ac mae modd mynd i mewn iddynt drwy'r we.

Mae ganddynt lawer o'r un nodweddion â gwefannau arferol, er eu bod yn gallu edrych yn wahanol iawn. Mae rhai yn debyg iawn i gymwysiadau symudol (apiau). Gallwch weld data, darluniau a fideos a mynd i mewn i wybodaeth sydd wedi'i storio ar gronfeydd data. Hefyd, maent yn aml yn cynnwys nodweddion symudol penodol, megis clic-i-alw a chlic-i-gael-cyfarwyddiau. Bydd y nodweddion yma'n ei gwneud hi'n hawdd i'ch ymwelwyr alw neu ddod o hyd i chi. Gallwch ddiweddarau gwefannau symudol ac maent yn hygyrch i'r mwyafrif o ddyfeisiau symudol

Ond, os ydych yn dewis adeiladu fersiwn gwahanol o'ch gwefan yn arbennig i ddyfeisiau symudol – mae hyn yn golygu y bydd gennych ddwy wefan wahanol i'w rheoli a'i diweddarau, a bydd angen ystyried cost yr amser ychwanegol y byddwch yn ei dreulio arni.

Hefyd mae cymaint o wahanol fathau o ffonau clyfar, llechi ac ati ar y farchnad erbyn hyn felly'r ffordd orau mae'n debyg o gyflwyno cynnwys y we yw mewn ffordd a fydd yn addasu i ffitio unrhyw fesuriadau bron. I wneud hynny, efallai y bydd angen nifer o wefannau symudol i ymdrin â'r holl ddyfeisiau yma!

Mae llawer o wasanaethau ar-lein ar gael a fydd yn gadael i chi greu fersiwn addas yn gyflym i ddyfeisiau symudol o'ch gwefan bresennol. Chwiliwch am dermau mewn chwilotwyr, megis 'adeiladwr gwefannau symudol' a chymerwch argymhellion gan bobl eraill.

Os byddwch yn dewis gwefan symudol mae'n bwysig cynnwys dolen at eich gwefan lawn, oherwydd rydych yn siŵr o gael ymwelwyr symudol a fydd eisiau defnyddio'r holl nodweddion a'r wybodaeth sydd ar eich gwefan lawn.

Adeiladu Gwefan Ymatebol Newydd

– Os ydych yn bwriadu adeiladu safle newydd, dyma'r ffordd orau o fynd o'i chwmpas hi mae'n debyg, felly os na all eich datblygwr gwe ddarparu hyn, efallai y byddwch eisiau chwilio am rywun sy'n gallu ei ddarparu.

Bydd gwefan ymatebol yn newid ei maint i addasu i wahanol sgriniau e.e. llechi a ffonau symudol.

Mae'r darlun sgrin nesaf yn dangos sut y byddai gwefan ShareWales yn ymddangos, ar sgriniau o wahanol faint. Gallwch ymweld â <http://mattkersley.com/responsive/> i weld a yw eich gwefan yn ymatebol.



Gosodir y lled mewn canrannau fel arfer felly wrth i faint y sgrin newid, mae'r wefan yn newid hefyd. Gallwch brofi i weld a yw gwefan yn ymatebol neu beidio, drwy newid maint y porwr a gweld a yw'r wefan yn addasu i ffitio'r porwr.

Yn ogystal â newid maint y sgrin, bydd botymau, testun a lluniau'n newid maint hefyd i gyfateb â maint y sgrin.

Gallwch guddio nodweddion penodol wrth edrych ar y safle mewn dyfais symudol, ond mae'n well peidio mynd yn rhy bell, oherwydd yn ddelfrydol dylai defnyddwyr dyfeisiau symudol allu gweld yr un cynnwys ag y gwnânt ar gyfrifiadur desg.

Ysgrifennu Cynnwys Da i'ch Gwefan

Os byddwch yn ysgrifennu testun y gall chwilotwr ddod o hyd iddo'n hawdd, bydd hyn yn eich helpu i gael lle gwell yng nghanlyniadau'r prif chwilotwyr.

Mae'r ffeithlen yma'n esbonio sut i wella safon, cynnwys a chynllun eich gwefan. Yn ei dro, dylai hyn wella eich safle ar y tudalennau canlyniadau – gan ddod â mwy o ymwelwyr i'ch gwefan, cynyddu'r ymholiadau a sicrhau eich bod yn gwerthu mwy. Os yw eich ymwelwyr ar-lein yn mwynhau defnyddio eich gwefan – maent yn fwy tebygol o sôn wrth bobl eraill am eich tudalennau drwy'r cyfryngau cymdeithasu, blogiau, argymhellion personol ac ati. Mae'n sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill!

Pam fod Cynnwys eich Gwefan yn Bwysig?

Ar ôl sicrhau bod gennych le da yng nghanlyniadau'r chwilotwyr, mae'n hanfodol bod gennych gynnwys o safon dda ar eich gwefan oherwydd bydd hynny'n perswadio eich ymwelwyr i aros ar eich gwefan. Dewch â'ch gwefan yn fyw – gallwch ddefnyddio testun, fideos, animeiddio, graffeg, ffotograffau, blogiau, adolygiadau gan eich defnyddwyr a negeseuon pobl ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd cynnwys da ar y we'n denu llygad eich ymwelwyr ar-lein ar unwaith ac yn eu perswadio i ryngweithio gyda'ch busnes ar-lein.

Bydd ysgrifennu copi sy'n denu'r chwilotwyr yn eich helpu i gael lle gwell ar restr canlyniadau'r prif chwilotwyr. Bydd denu mwy o ymwelwyr yn agor mwy o lwybrau gwerthu ac yn dod â mwy o brynwyr i'ch busnes.

Mae eich cynnwys yn bwysig i'r chwilotwyr hefyd oherwydd mae'n dangos iddynt pa ymadroddion a geiriau allweddol yw'r rhai mwyaf perthnasol i'ch gwefan. Er enghraifft, os yw eich busnes yn un gwely a brecwast gerllaw Aberdaugleddau, Sir Benfro, byddech yn

defnyddio geiriau allweddol i gysylltu â Gwely a Brecwast a Sir Benfro. Bydd y ffeithlen yma'n eich helpu i ysgrifennu cynnwys sy'n effeithiol ar y chwilotwyr ac yn ddiddorol i'ch ymwelwyr.

Ysgrifennu i'r We

Mae'n rhaid i'ch gwefan gipio sylw eich ymwelydd a'i gadw. Dim ots ydych chi'n gwerthu ar-lein neu'n rhoi llyfryn gwybodaeth ar-lein iddynt, mae'n bwysig bod eich cynnwys wedi'i ganolbwyntio ar eich ymwelwyr – rhwch y gefnogaeth gam wrth gam iddynt y maent ei hangen a dangoswch y ffordd iddynt at y pethau maent eu heisiau. Dylai cynnwys defnyddiol ar y we berswadio eich ymwelwyr i aros ac i ymateb a dylech orffen drwy eu galw i weithredu, i gymryd y cam yr ydych eisiau i'ch ymwelwyr ei gymryd, e.e.

- Clicio botwm 'prynu nawr'
- Galw rhif ffôn neu lenwi ffurflen bwcio neu gysylltu
- Ymweld â thudalen arall sydd â gwybodaeth ychwanegol
- Cofrestru i dderbyn y newyddlen
- Dylai'r ddolen at eich manylion cysylltu fod ar bob tudalen

Dylai bob tudalen ar eich gwefan fod â rhyw fath o alwad i weithredu sy'n arwain eich ymwelydd ymlaen – does dim rhaid i hwn fod yr un fath ar bob tudalen. Dywedwch bopeth a allwch wrthynt am eich cynnyrch a'i fanteision – tynnwch sylw at eich pwyntiau gwerthu unigryw. Po fwyaf maen nhw'n ei wybod amdanoch chi, y mwyaf tebygol y maen nhw o brynu gennych chi!

Geiriau allweddol

Meddylwch am y Chwilotwyr – maen nhw'n dadansoddi cynnwys eich tudalennau ar y we, felly mae'n syniad da i chi feddwl am eiriau chwilio y byddai ymwelwyr yn eu defnyddio i ddod o hyd i wefannau fel eich un chi. Byddai defnyddio dau neu dri o'r geiriau allweddol yma yng nghorff y testun ac ym mhenawdau pob tudalen yn eich gwneud chi'n fwy amlwg yng nghanlyniadau'r chwilotwyr.

Ysgrifennu Cynnwys sy'n Hawdd ei Ddarllen ar y We

Os yw eich cynnwys yn ddiflas, yn hen neu'n anghyflawn, bydd eich cwsmeriaid yn gwrthwynebu gyda'u bysedd! Ni fydd eich gwefan yn rhoi'r canlyniadau gorau i chi. Mae ysgrifennu diddorol a da'n gallu eich helpu i berswadio eich cwsmeriaid i gymryd y camau hynny yr hoffech iddyn nhw eu cymryd, gan eich helpu chi i droi mwy o ymholiadau yn ymweliadau. Felly beth allech chi ei wneud i ysgrifennu cynnwys sydd mor effeithiol ag sy'n bosibl ar y we?

Mae angen i chi:

- Ganfod pwy yw eich cynulleidfia darged
- Gofio beth yw eu hanghenion wrth i chi ysgrifennu
- Ddefnyddio'r iaith a'r derminoleg briodol

- Ystyried beth rydych yn ceisio'i ddweud. Defnyddiwch dôn cyfeillgar a rhowch wybodaeth iddynt
- Geisio ateb holl gwestiynau eich cwsmer
- Feddwl am y ffordd orau o strwythuro a chyflwyno eich gwybodaeth
- Ysbrydoli hyder yn eich ymwelwyr – bydd hyn yn helpu i droi chwiliad yn ymholiad
- Wirio eich testun yn ofalus i osgoi gwallau sillafu a chamgymeriadau gramadegol

Sut mae Pobl yn Darllen ar y We

Mae ysgrifennu'n effeithiol ar gyfer y we'n wahanol i ysgrifennu defnydd print – mae pobl yn tueddu sganio'r testun ar y we – gan chwilio am yr wybodaeth maent ei hangen, yn hytrach na darllen y copi air am air. Os nad ydyn nhw'n gallu gweld yr wybodaeth berthnasol maent ei heisiau o fewn ychydig eiliadau, maen nhw'n clicio ar y botwm 'yn ôl'. Mae darllen testun ar sgrin cyfrifiadur tua 25% yn arafach ac yn fwy blinedig i'r llygaid na darllen o destun print.


Ysgrifennu Copi Cryno y Gallwch ei Sganio

Drwy gadw eich copi ar y we'n gryno, yn hawdd ei sganio â'r llygad ac yn niwtral, byddwch yn cael yr effaith orau ar eich ymwelwyr ar-lein:

- Cadwch e'n fyr, yn syml ac yn uniongyrchol
- Brawddegau syml trawiadol
- Osgoi slang neu jargon
- Defnyddio geiriau byrrach – lle bo'n bosibl

Defnyddio Penawdau'n Effeithiol

Defnyddiwch benawdau ac is-benawdau rydych wedi rhoi ystyriaeth dda iddynt i



greu strwythur eich gwe dudalen. Mae'r penawdau yma'n gadael i'ch ymwelwyr sganio eich tudalennau'n gyflym a gweld ar unwaith am beth mae pob adran o'r dudalen yn sôn a dod o hyd yn hawdd i'r wybodaeth y maent ei hangen. Byddwch yn diffinio arddull a fformat eich penawdau yn y dudalen arddull pan fydd eich gwefan yn cael ei chreu ar y cychwyn.

Pan fydd ymlusgwr y chwilotwr yn darllen eich cynnwys, mae'n deall pwysigrwydd tagiau eich penawdau. Mae pennawd 1 yn cario mwy o bwysau gyda'r chwilotwyr na phennawd 2 (gallwch gael hyd at chwe phennawd H6). Mae'n arfer da i ddefnyddio'r penawdau yn y drefn briodol.

Dylai eich penawdau gychwyn gyda Phennawd 1 bob amser – mae angen i chi sicrhau bod hwn yn cynrychioli cynnwys eich tudalen ac yn cynnwys eich pwyntiau gwerthu unigryw i'ch ymwelwyr ar-lein a geiriau allweddol ar gyfer y chwilotwyr.

Mae'r broses o ddefnyddio penawdau'n debyg i'r broses mewn prosesydd geiriau (y ddogfen hon er enghraifft) ac os ydych yn defnyddio system rheoli cynnwys, fel honno a welwch yn y ciplun uchod, gallwch eu dewis yn hawdd o'r ddewislen sydd yno'n barod i chi.

Mae tagiau penawdau'n rhan o godio HTML y we dudalen ac os ydych yn defnyddio HTML cânt eu nodi gan ddefnyddio'r tagiau a ganlyn:

<h1>Mae hwn yn bennawd un</h1>

<h2>Mae hwn yn bennawd dau</h2>

<h3>Mae hwn yn bennawd tri</h3>

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddarllen y ffeithlen [Deall Metadata](#).

Corff eich Gwefan

Dylai'r paragraff agoriadol ar bob tudalen gynnwys crynodeb byr o'r dudalen honno. Os gwnewch chi hynny, daw eich ymwelwyr i ddeall ar unwaith am beth mae'r dudalen yn sôn a phenderfynu ydyn nhw eisiau darllen ymlaen ai peidio.

Pan fyddwch yn ysgrifennu eich gwe dudalen – cadwch y cynnwys pwysicaf a'r geiriau allweddol ar dop y sgrin fel bod yr ymwelydd yn gweld y rhain yn gyntaf, heb orfod sgrollo i lawr y sgrin – weithiau rydym yn cyfeirio at hyn fel 'uwch y plyg'.

Glynwch at un syniad ymhob paragraff – yna gall eich ymwelwyr sganio'n hawdd drwy bob paragraff a dod i ddeall am beth mae'r paragraff yn sôn. Dylai llinell gyntaf bob paragraff gynnwys crynodeb byr o'r paragraff hwnnw, gan olygu bod eich ymwelwyr yn gallu sganio'n gyflym drwy'r frawddeg agoriadol a deall ar unwaith am beth mae'r paragraff yn sôn.

Aliniwch eich testun **i'r chwith**: mae hyn yn ei wneud yn haws ei ddarllen a rhowch ddau neu dri o eiriau sy'n disgrifio prif bwynt y paragraff mewn ffont **trwm**. Mae hyn yn helpu eich ymwelwyr i ganfod gwybodaeth yn gyflym ac yn hawdd.

Rhestrau gyda Phwyntiau Bwled

Defnyddiwch bwyntiau bwled i helpu eich darllenydd – maent yn haws eu sganio, yn fwy cryno fel arfer ac yn llai brawychus. Gallwch gysylltu'r wybodaeth yn eich pwyntiau bwled â'ch tudalennau mewnol perthnasol a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth i'r darllenwr am eich cynhyrchion neu wasanaethau. Dylai'r testun sy'n dolennu o'r pwynt bwled at y disgrifiad llawnach fod yn esboniad eglur a dylai gynnwys geiriau allweddol – a fydd yn braf i'ch ymwelwyr ar-lein ac i'r chwilotwyr.

Diweddarau rheolaidd

Diweddarwch eich gwefan drwy'r amser fel bod eich ymwelwyr yn gweld yr wybodaeth ddiweddaraf ac er mwyn cadw safle da ar restrau'r chwilotwyr. Beth hoffai eich ymwelwyr ei wybod neu ei weld? Beth sy'n digwydd yn lleol? Atyniadau a digwyddiadau lleol allweddol? Ffotograffau neu fideos tymhorol? Eich cynigion arbennig, ac ati. Pwysleisiwch synnwyr cryf o Gymreictod gan gynnwys gwybodaeth am ein hanes, etifeddiaeth, iaith, gweithgareddau awyr agored, bwyd a diod. Dim ond cynnwys sy'n ddiddorol ac sy'n cael ei ddiweddarau'n aml fydd yn ennyn diddordeb eich ymwelwyr.

Mae ymlusgwyr bob amser yn chwilio am dudalennau sydd wedi'u diweddarau; maen nhw'n rhoi'r rhain yn uwch ar eu rhestrau am eu bod nhw'n fwy tebygol o gynnwys gwybodaeth amserol a pherthnasol. Os cewch le da yn y rhestrau, yr unig ffordd o aros yno yw sicrhau eich bod yn diweddarau eich gwefan yn rheolaidd.

Elfennau dadansoddol

Drwy archwilio ystadegau eich gwefan ac annog eich ymwelwyr i roi adborth, gallwch fesur llwyddiant eich gwefan. Efallai bod rhai tudalennau'n denu mwy

o ymwelwyr nag eraill. Efallai nad yw hyn yn gysylltiedig â'ch cynhyrchion – efallai bod gan rai tudalennau benawdau diflas, copi aneffeithiol, dolenni llywio dryslyd, ac ati – byddwch yn elwa o ddadansoddi'r data'n rheolaidd ac yna wneud yr addasiadau priodol.

Rhai Syniadau – Pethau i'w Hystyried

Oes gennych chi'r sgiliau, yr amser a'r wybodaeth i ysgrifennu eich testun eich hun?

Neu a ddylech chi gyflogi ysgrifennwr copi i'ch helpu?

Optimeiddio ar gyfer Chwilotwyr

Faint o bobl a allai ddod yn gwsmeriaid i chi fydd yn gwybod am eich busnes a'ch union gyfeiriad ar y we? Oeddech chi'n gwybod bod mwy na 90% o gynhyrchion teithio'n cael eu harchwilio ar-lein gan ddefnyddio chwilotwyr?

Os nad yw'n hawdd cael hyd i'ch gwefan, byddwch yn colli busnes. Mae'r canllaw yma'n esbonio sut mae chwilotwyr yn gweithio a sut y bydd optimeiddio eich gwefan ar gyfer y chwilotwyr yn gwella eich safle yn y rhestri gan adael i chi gyrraedd y bobl allai ddod yn gwsmeriaid i chi.

Beth yw Chwilotwyr?

Mae chwilotwyr yn rhaglenni cyfrifiadurol sydd wedi'u seilio ar y we – byddwch yn gwybod am Google, Yahoo, Bing ac Ask sy'n chwilotwyr poblogaidd – ac mae pob un yn gweithio fel cronfa ddata enfawr ar-lein y gallwch eu chwilio. Mae'r bobl fydd yn ymweld â chi'n teipio eu geiriau allweddol i mewn i'r 'bocs chwilio', yna mae'r chwilotwr yn chwilio drwy ei gronfa ddata i gael hyd i'r tudalennau mwyaf perthnasol i'r ymwelydd – a dyna nhw'n ymddangos, deg ar bob tudalen!

Mae pawb, yn cynnwys eich cystadleuwyr, eisiau ymddangos ar dudalen gyntaf Canlyniadau'r Chwilotwyr (SERP) – ydych chi wedi edrych yn ddiweddar i weld lle mae eich tudalen chi'n ymddangos?

Efallai bod gennych y wefan orau yn y byd ond os nad ydy hi wedi'i hoptimeiddio ar gyfer y chwilotwyr, fyddwch chi ddim yn ymddangos ar y dudalen gyntaf honno yn y canlyniadau chwilio!

Mae mwy na 90% o gynhyrchion teithio'n cael eu hymchwilio ar-lein, gan ddefnyddio chwilotwyr!

Beth yw Optimeiddio ar gyfer Chwilotwyr?

Yn syml iawn, y cwbl mae Optimeiddio ar gyfer Chwilotwyr (SEO) yn ei olygu yw gwella cynnwys a strwythur eich gwefan i wneud yn siŵr ei bod yn ymddangos yng nghanlyniadau cyntaf chwilotwr, pan fydd rhywun yn chwilio am rywbeth perthnasol. Pwrpas SEO yw gyrru traffig i'ch gwefan er mwyn i chi allu perswadio'r ymwelwyr yma i brynu gennych.


Pan fydd chwilotwr yn dangos canlyniadau ei chwiliad, mae'n rhoi dau fath o ganlyniad i chi:

- **Canlyniadau y talwyd amdanynt** – mae perchennog y wefan yn talu'r chwilotwr i ddangos y dudalen lle mae'n defnyddio geiriau allweddol penodol. Mae canlyniadau yr ydych chi wedi talu amdanynt yn ymddangos ar dop a/neu ar ochr dde canlyniadau'r chwiliad
- **Canlyniadau organig neu naturiol** – dyma'r tudalennau sy'n cyfateb agosaf â gofynion yr ymwelwyr ar-lein

Efallai y bydd canlyniadau y talwyd amdanynt yn sicrhau bod eich gwefan yn ymddangos mewn safle uwch am ymadrodd neu air allweddol penodol ond mae'r mwyafrif o ymwelwyr ar-lein

Canlyniadau
y talwyd
amdanynt

Canlyniadau
organig



Canlyniadau
y talwyd
amdanynt

yn teimlo nad yw'r canlyniadau yma mor berthnasol â chanlyniadau organig y chwiliad – am eu bod wedi talu am eu safle, cânt eu hanwybyddu'n aml iawn.

Mae chwiliad naturiol neu organig yn cynhyrchu'r tudalennau canlyniad ar sail pa mor boblogaidd a pherthnasol yw'r tudalennau gwe i'r geiriau allweddol y mae'r ymwelydd ar-lein yn eu nodi.

Cafodd y chwiliad yma ei wneud am 19:12 ar Fedi 17 2012 gan ddefnyddio'r ymadrodd chwilio 'visiting Wales UK for a holiday'.

Sut mae Chwilotwr yn Gweithio?

Mae chwilotwr yn defnyddio meddalwedd i greu mynegai a alwn yn ymlusgwyr (weithiau mae pobl yn eu galw'n robot neu gorrin).

Mae'r ymlusgwyr yn 'ymlusgo' drwy'r amser drwy'r holl wefannau ar y we – yn cynnwys eich un chi. Maent bob amser yn ceisio:

- Canfod tudalennau newydd neu rai sydd wedi'u diweddarau
- Dadansoddi holl dudalennau eich gwefan, mae hyn yn dangos i'r chwilotwr am beth mae eich gwefan yn sôn
- Creu mynegai ac addasu mynegai'r wybodaeth a'i chofnodi ar ei gronfa ddata

- Rhestru'r tudalennau gwe mwyaf perthnasol – pan fydd ymwelydd posibl yn nodi eu geiriau allweddol

Prif nod chwilotwr yw rhoi'r tudalennau sy'n fwyaf perthnasol i dermau chwilio eu defnyddwyr yn y tudalennau canlyniadau. Maent eisiau rhoi'r wybodaeth fwyaf perthnasol bosibl i'r ymwelydd o wefannau diogel.

Dylech geisio helpu'r chwilotwr i adnabod eich tudalennau ar y we fel y rhai mwyaf perthnasol i'ch ymwelwyr ar-lein ar gyfer term chwilio penodol – mae'r geiriau a ddefnyddiwyd ar eich tudalen yn dweud wrth y chwilotwr a yw eich tudalen yn berthnasol neu beidio.

Ystyriwch sut mae eich cynulleidfarcharged yn chwilio amdano – pa ymadroddion neu eiriau allweddol y byddent yn eu rhoi mewn bocs chwilio os ydynt yn ceisio canfod busnes sy'n debyg i'ch un chi? Dyma eich ymadroddion a geiriau allweddol!

Mae'n debygol iawn y bydd eich ymwelwyr presennol yn chwilio am eich busnes yn ôl ei enw – bydd eich ymwelwyr posibl yn chwilio yn ôl y pwnc a'r dref neu'r rhanbarth mae'n fwy na thebyg.

Er enghraifft, os yw eich cynnyrch yn fwthyn hunanarlwyo gwych o'r enw "Linga Longa" ar gyrion Tywyn yng Nghanolbarth Cymru bydddech

yn optimeiddio eich gwefan ar gyfer ymadroddion allweddol fel: “bwthyn moethus ger Tywyn” yn hytrach nag enw’r bwthyn.

Mae chwilotwyr yn caru’r cyfryngau cymdeithasu a safleoedd adolygu felly ymunwch yn y sgwrs a chysylltwch â’ch marchnad darged ar wefannau megis Share Wales, Facebook, Twitter, Flickr neu You Tube, ychwanegwch sylwadau perthnasol, rhannwch erthyglau diddorol, ffotograffau neu fideos am ddigwyddiadau neu weithgareddau unigryw yn eich ardal, ychwanegwch ddolen at eich gwefan os yw’n berthnasol gwneud hynny.

A yw eich gwefan bresennol yn hawdd ei chanfod gyda chwilotwr?

Cyn i chi gychwyn optimeiddio eich gwefan dylech asesu ei chyflwr ar hyn o bryd, ydy hi:

- wedi’i diweddarau – neu a fyddai’n hawdd ei diweddarau?
- yn hawdd ei llywio? Mae llywio hawdd yn dda i’ch ymwelwyr ac i’r chwilotwyr, mae’n gadael i’r ymlusgwyr symud drwy’r wefan a rhoi’r mynegai cywir iddi.
- yn gyfatebol gyda’r holl neu’r rhan fwyaf o borwyr? Edrychwch i weld sut mae eich gwefan yn edrych mewn cymaint o borwyr ag sy’n bosibl
- yn hawdd ei chael ar ddyfeisiau symudol – sut mae eich gwefan yn ymddangos ar ddyfeisiau symudol?
- yn hawdd ychwanegu cynnwys ffres, integreiddio eich ffrydiau cyfryngau cymdeithasu a blogiau, adolygiadau cwsmeriaid neu dudalennau newydd?
- yn glir beth mae’r wefan eisiau i’m hymwelwyr ei wneud? Ydw i’n eu galw i weithredu ymhellach yn ddigon clir?

Mae rhai nodweddion mewn gwefan yn gallu niweidio eich safle yng nghanlyniadau’r chwilotwyr a drysu eich ymwelwyr ar-lein – gallwch ddysgu rhagor am y rhain yn y Ffeithlen **Rhwystrau wrth Optimeiddio ar gyfer Chwilotwyr**.

Edrychwch ar wefannau rhai o’ch cystadleuwyr, sy’n darparu cynhyrchion neu wasanaethau tebyg i’ch rhai chi. Gan bwy fydddech chi’n dewis prynu?

Mae ail adeiladu gwefan o’r cychwyn un yn gallu bod yn opsiwn gwell ac yn fwy cost effeithiol na diweddarau eich hen un. Os nad oes gennych System Rheoli Cynnwys sy’n hawdd ei defnyddio ar chwilotwyr, lle gallwch greu a golygu eich gwe dudalennau eich hun ac nid oes modd rhoi un i mewn i’ch gwefan bresennol – mae angen i chi ystyried comisiynu gwefan newydd.

Elfennau dadansoddi

Pan fydd eich gwefan wedi’i chyhoeddi, byddwch eisiau monitro pa mor effeithiol ydyw a newid eich technegau SEO. Mae nifer o becynnau dadansoddi ar gael; efallai bod rhai i’w cael yn rhad ac am ddim gyda’ch pecyn cynnal neu gallwch ddod o hyd i eraill ar y we. Gallwch ddefnyddio meddalwedd dadansoddi’r we i fonitro faint o bobl sy’n ymweld a’ch safle, sut daethant i’ch gwefan, pa eiriau allweddol maent wedi’u defnyddio ac ati. Mae pecynnau dadansoddi’n eich galluogi i ganfod pa dudalennau ar eich gwefan sy’n boblogaidd ar rheiny sydd angen sylw.

Rhai Pethau i’w Hystyried

Mae optimeiddio ar gyfer chwilotwyr yn cymryd amser ac ymdrech a dim ond drwy asesiad rheolaidd a marchnata ar-lein parhaus y gallwch gyrraedd ac aros ar safle uchel gyda’r chwilotwyr.

Sut fyddwch chi'n rheoli eich SEO?
A fydd rhywun yn eich cwmni'n optimeiddio eich gwefan neu a fyddwch yn cael rhywun o'r tu allan i wneud y gwaith?

- O fewn y busnes, gan ddefnyddio sgiliau eich staff presennol neu wella sgiliau staff i ddod yn gyfrifol am eich SEO
- Trosglwyddo'r gwaith SEO i rywun proffesiynol sydd wedi'i wirio'n ofalus e.e. ymgynghorydd e-farchnata neu gyflenwr gwefan

Beth Ddylwn ei Wneud Nesaf?

Trwy ddefnyddio rhai technegau SEO allweddol, y gallwch eu canfod yn yr adran **Defnyddiau Darllen Cysylltiedig** isod, byddwch yn gwarantu bod gan eich gwefan fynegai da, yn gwella'r posibilrwydd y bydd ar frig SERP, yn cynyddu'r traffig i'ch gwefan ac yn gwella llwyddiant cyffredinol eich gwefan.

P'un a ydych yn cynllunio gwefan newydd neu'n diweddarau gwefan sy'n bodoli'n barod, dylech bob amser ystyried a fydd y dulliau a ddefnyddiwyd yn addas ar gyfer Optimeiddio ar gyfer Chwilotwr.

Rhwystrau wrth Optimeiddio ar gyfer Chwilotwyr

Mae ambell i agwedd o waith cynllunio gwefannau sy'n gallu creu dryswch a phroblemau defnyddio i'ch ymwelydd ar-lein ac sy'n gallu rhwystro chwilotwyr rhag ymlusgo a chwilio eich gwefan yn effeithiol. Mae hyn yn ei dro'n gallu effeithio ar safle eich gwefan yn rhestr y Chwilotwyr a pha mor debygol yw hi y bydd cwsmeriaid posibl yn gallu dod o hyd i'ch gwefan.

Mae'r gallu i adolygu eich gwefan eich hun, gan chwilio am unrhyw gamgymeriadau allweddol yn bwysig iawn. Bydd yn gadael i chi gywiro unrhyw ddiffygion cyffredin yn y cynllun, gan wella eich safle ar restr y chwilotwyr ac hefyd wella profiad eich ymwelwyr ar-lein. Yma rydym yn sôn am rai o'r diffygion mwyaf cyffredin yn y cynllun y dylech chwilio amdanynt.

Diffygion Cyffredin yng Nghynllun Gwefannau

Mae nifer o nodweddion mewn cynllun gwefan sy'n gallu creu dryswch a phroblemau i'ch ymwelydd ar-lein a dim ond clicio un waith sydd ei angen er mwyn gadael eich gwefan. Os yw eich gwefan yn anodd ei defnyddio neu os oes ganddi ormod o broblemau – mae'r ymwelydd yn mynd i adael a throi at un o'ch cystadleuwyr!

Mae rhai o'r camgymeriadau yma'n rhwystro chwilotwyr a gallent amharu ar allu'r chwilotwyr i ymlusgo a chwilio eich gwefan yn effeithlon.

Trwy ganfod unrhyw bethau sy'n rhwystro chwilotwyr ar eich gwefan, a chael gwared ohonynt, byddwch yn cael effaith enfawr ar eich safle yn rhestrau'r chwilotwyr.

Isod mae rhestr o rai o'r diffygion mwy cyffredin sy'n dal i gael eu gweld mewn gwefannau heddiw.

Gormod o Glicio – Llywio Aneglur

Pam fod ymwelwyr eisiau edrych ar eich gwefan? Am beth maen nhw'n chwilio?

Sut maen nhw am ddod o hyd iddi?

Mae pob un ohonom wedi ymweld â gwefannau lle'r ydym wedi gorfod llywio drwy dudalennau diddiwedd a chynllun anghyson, gan olygu ein bod yn drysu'n lân ac yn dal heb ganfod yr ateb i'n cwestiwn. Bydd gwefan sydd â system llywio glir sy'n syml ei defnyddio yn denu ymwelwyr yn ôl.

A yw:

- Eich dolenni wedi'u diffinio'n glir ac yn hawdd eu gweld?
- Eich dolenni yn yr un lle ar bob tudalen?
- Eich dolenni wedi cael enwau sy'n gwneud synnwyr?
- Eich gwybodaeth a'ch gorchmynion gweithredu'n hawdd eu canfod?
- Ymwelwyr newydd i'ch gwefan yn gallu canfod popeth y maent ei angen yn hawdd?

Mae llywio da'n hanfodol i'ch ymwelwyr ar-lein ac hefyd i'r chwilotwyr os ydych eisiau ymddangos ar frig Tudalennau Canlyniadau'r Chwilotwyr (SERPS). Bydd hyn hefyd yn gadael i ymlusgwyr

y chwilotwyr fynd drwy eich gwefan a mynegrifo eich tudalennau'n gywir.

Flash

Mae Flash yn feddalwedd animeiddio fector, sydd wedi'i lunio i greu animeiddiadau i'w dangos ar y we. Mae pobl yn defnyddio Flash yn aml ar gyfer baneri, rhagdudalennau, hysbysebion, sioe sleidiau ac ati – mae wedi bod yn erfyn poblogaidd iawn i ddatblygwyr.

Ond, mae gwefannau a rhaglenni Flash yn gallu bod yn fawr ac yn araf eu llwytho. I allu gweld ffeil Flash, bydd angen i'ch ymwelydd ar-lein lawrlwytho ategyn Flash, ac mae angen iddynt ddiweddarau'r rhain yn rheolaidd. Mae hyn yn anghyfleus i'ch ymwelwyr a gallai olygu eu bod yn troi eu cefn ar eich gwefan chi ac yn mynd at un o'ch cystadleuwyr.

Nid dyma'r unig broblem gyda Flash. Mae'n achosi problemau mawr trwy rwystro pobl rhag mynd i mewn i wefan ac nid yw'n dangos ar bob dyfais symudol. Am fod chwilotwyr yn cael trafferth ymlusgo drwy dudalennau a yrrir gan Flash, dylech geisio defnyddio cyn lleied o Flash ac y gallwch ar eich gwefan.

Rhagdudalennau

Dyma'r tudalennau croeso neu dudalennau clawr sy'n dal i ymddangos ar rai gwefannau. Bwriad rhagdudalen yw denu ymwelwyr i wefan ac yn aml iawn mae'n cynnwys animeiddiad a sain Flash. Nid yn unig y mae hyn yn gofyn clic ychwanegol i'ch ymwelydd ar-lein, mae hefyd yn creu problemau i chwilotwyr, gan ei gwneud hi'n anodd iddynt fynd i mewn i'ch gwefan i'w mynegeo'n llwyddiannus.

Does dim angen rhagdudalennau. Gallwch roi gair o groeso neu luniau i groesawu ymwelwyr ar dudalen

hafan y wefan ac yna gall hon gael ei mynegeo'n gywir a gellir cysylltu â hi drwy'r wefan. Mae'r dull yma'n rhoi mynediad yn syth bin i'ch ymwelwyr i'r wefan heb fod angen mwy o glicio.

Fframiau

Trwy ddefnyddio fframiau gallwch rannu gwe-dudalen yn wahanol ddarnau sgrolio – gan ddefnyddio adrannau niferus, annibynnol i greu un we-dudalen unigol. Mae 3 prif broblem gyda defnyddio fframiau, sef:

- Mae'n ei gwneud hi'n anodd i'ch ymwelwyr ar-lein lywio a rhyngweithio gyda'ch gwefan yn enwedig os oes fframiau niferus y mae'n rhaid sgrolio drwyddynt
- Maent yn achosi problemau gyda chael safle da ar restrau'r chwilotwyr sydd, yn aml iawn, ond yn gallu mynegeo rhan gyntaf y dudalen. Dydyn nhw ddim yn gallu ymlusgo'n ddyfnach. Felly, ni fydd unrhyw dudalennau ychwanegol sy'n defnyddio fframiau wedi'u cynnwys yn y SERPS am na fyddent wedi'u mynegeo
- Maent yn rhwystro ymwelwyr rhag mynd i mewn – nid yw dyfeisiau darllen yn gallu deall y cynnwys.

Nid yw fframiau'n boblogaidd bellach – os yw eich gwefan yn dal i ddefnyddio fframiau, efallai ei bod hi'n amser ystyried ail adeiladu eich gwefan.

Gormod o Gynnwys neu Gynnwys Annigonol

Mae ein ymwelwyr ar-lein yn tueddu sganio cynnwys y we-dudalen gan chwilio am yr wybodaeth y maent ei hangen. Dydyn nhw ddim yn mynd i ddarllen llwyth o gopi air am air. Os nad ydynt yn gallu gweld yr wybodaeth berthnasol y maent ei hangen o fewn

ychydig eiliadau, maent yn mynd i glicio'r botwm 'Yn ôl' a gadael eich gwefan (bownsio allan ohoni).

Bydd penawdau ac is-benawdau sydd wedi'u hystyried yn ofalus yn rhoi strwythur i'ch gwe-dudalennau. Gall eich ymwelwyr sganio eich tudalennau'n gyflym a gweld ar unwaith am beth mae pob adran o'r dudalen yn sôn, gan ddod o hyd i'r wybodaeth y maent ei hangen yn hawdd. Pan fydd ymlusgwyr chwilotwyr yn darllen eich cynnwys, maent yn deall pwysigrwydd eich penawdau a bydd hyn yn eich helpu i gael safle da ar restr canlyniadau'r chwilotwyr.

Mae chwilotwyr wrth eu boddau â chynnwys. Nifer y tudalennau a safon eich cynnwys yw un o'r prif ffactorau y mae chwilotwyr yn eu defnyddio i benderfynu ar eich safle yn eu rhestrau. Mae eich cynnwys yn bwysig i'r chwilotwyr oherwydd mae'n dweud wrthynt pa eiriau ac ymadroddion allweddol sydd fwyaf perthnasol i'ch safle.

Cynnwys Gwael sydd wedi Mynd yn Hen

Mae ymlusgwyr chwilotwyr yn chwilio'n gyson am dudalennau wedi'u diweddaru. Maent yn rhoi safle uwch i'r rhain am eu bod yn fwy tebygol o fod yn berthnasol a chywir. Os cewch safle da, y ffordd orau o'i gadw yw sicrhau eich bod yn gwneud diweddariadau rheolaidd.

Cynnwys sy'n Ailadrodd

Dydy chwilotwyr ddim yn hoffi cynnwys sy'n ailadrodd – dydyn nhw ddim eisiau rhoi yr un hen ganlyniadau i'w hymwelwyr. Byddent yn dewis un o'r tudalennau i'w rhestru yn eu canlyniadau, ac yn anwybyddu unrhyw dudalennau eraill sydd â'r un cynnwys.

Gormod o Eiriau neu Ymadroddion Allweddol?

Yr enw am ddefnyddio geiriau allweddol yn rhy aml ar we-dudalen yw 'stwyffio'. Y farn yw bod 'stwyffio geiriau allweddol' yn ffordd anfoesegol o optimeiddio ar gyfer chwilotwyr. Os byddwch yn defnyddio gormod o eiriau allweddol, bydd y chwilotwyr naill ai'n eich anwybyddu neu'n eich cosbi. Hefyd, bydd y testun ar eich tudalennau'n darllen yn rhyfedd iawn i'r bobl sy'n ymweld â'ch gwefan. Dylai eich gwefan ddarllen yn dda a dylech ei hysgrifennu'n unswydd ar gyfer eich ymwelwyr ar-lein.

Dim Dolenni Denu

Os nad oes dolenni'n dod i mewn i'ch gwefan o wefannau da eraill, gallai hyn gael effaith ar eich safle yn rhestrau'r chwilotwyr. Y rheswm am hyn yw bod poblogrwydd dolen wedi'i gyfrifo yn ôl y nifer o ddolenni o wefannau da eraill sy'n arwain at eich gwefan chi.

Beth yw SEO Anfoesegol? (SEO Het Ddu)

Os byddwch yn defnyddio'r dulliau anghywir i optimeiddio ar gyfer chwilotwyr, gallai'r chwilotwyr wahardd eich gwefan. Mae rhai datblygwyr meddalwedd a chwmnïau optimeiddio ar gyfer chwilotwyr yn defnyddio technegau a mesurau anfoesegol, i roi hwb artiffisial i safle gwefan ar restr y chwilotwyr. Mae chwilotwyr yn newid eu algorithmau drwy'r amser fel nad yw'r tudalennau canlyniadau'n mynd yn orlawn â chynnwys amherthnasol neu gynnwys o safon isel.

Isod mae rhestr o rai o'r prif dechnegau optimeiddio anfoesegol:

- Tudalennau porth – dydy'r rhain ddim wedi'u llunio i bobl go iawn, eu pwrpas yw twyllo'r chwilotwyr i roi safle uwch i'r wefan

-
- Cuddio ac ailgyfeirio ffug – mae’r rhain yn cyflwyno fersiwn wahanol o’r cynnwys ar gyfer y chwilotwyr a’r cynnwys ar gyfer yr ymwelwyr dynol
 - Stwffio geiriau allweddol – sef llenwi tudalen â geiriau allweddol o fewn y cynnwys ac o fewn metadata’r dudalen
 - Testun cudd neu ddolenni cudd – i wneud hyn rhoddir rhestrau o eiriau allweddol mewn testun sydd yr un lliw â’r cefndir. Gall chwilotwyr ddarllen hwn ond nid yw pobl yn gallu ei weld
 - Ailadrodd cynnwys ar nifer o dudalennau
 - Ffermydd dolenni – sef safleoedd sy’n dangos dolenni nad ydynt mewn trefn arbennig ac sy’n hollol amherthnasol i’w gilydd. Dydy dolenni ar dudalennau fel hyn ddim yn cynnig unrhyw boblogrwydd dolenni denu, a bydd llawer o chwilotwyr yn cosbi safleoedd sy’n cysylltu â nhw
 - Unrhyw ddull arall a luniwyd i dwyllo chwilotwyr.

Dadansoddeg Gwefannau

Mae’n bwysig eich bod yn deall os oes angen newid unrhyw elfennau o’ch gwefan, yn ogystal â gwybod pa elfennau sy’n gweithio’n dda a pha rai ddylai gael eu gadael fel y maent. Byddwch yn ei chael hi’n ddefnyddiol gwirio dadansoddeg eich gwefan. Os yw nifer yr ymadawyr – pobl sydd wedi bownsio allan eto – yn uchel, mae’n bryd canfod pam! Efallai yr hoffech ddarllen ein ffeithlen “Deall Dadansoddeg y We”.

Defnyddio Metadata a Thagiau'n Effeithiol ar eich Gwefan

Os ewch chi i lyfrgell, oriel, amgueddfa neu atyniad i ymwelwyr, mae'n debyg y bydd cyfarwyddiadau neu restr o gymorth mawr i chi – yn yr un ffordd ag y mae angen cymorth ar chwilotwyr wrth iddynt chwilio'r we.

Mae Metadata a Thagiau'n helpu chwilotwyr i ddeall eich gwefan ac yn helpu defnyddwyr y chwilotwyr hefyd i ddewis pa we-dudalen maent eisiau ei gweld.

Mae cael Metatagiau Disgrifio atyniadol yn gallu dod â mwy o ymwelwyr i'ch gwefan ac efallai y byddwch yn gwerthu mwy!

Beth yw Metadata?

Yn aml iawn mae pobl yn disgrifio metadata fel data am ddata – yn syml iawn, ystyr hyn yw gwybodaeth gyda strwythur arbennig sy'n disgrifio, yn esbonio neu'n rhoi gwybodaeth sy'n helpu i ddod o hyd i adnodd. Gallai hyn fod yn:

- We dudalen – enw'r dudalen, am beth mae'n sôn, geiriau allweddol ar y dudalen
- Ffotograffau neu ddelweddau – pryd y cawsent eu creu, eu maint, y tagio a'r trefnu
- Dogfen – pryd y cafodd ei chreu, pwy ysgrifennodd hi, faint o eiriau sydd ynddi
- Fideos – y math o offer a ddefnyddiwyd, y dyddiad y cawsent eu creu, gwybodaeth ddisgrifiadol

Un o brif bwrpasau metadata yw eich helpu i ddod o hyd i adnoddau gan ddefnyddio geiriau allweddol.

Yn aml iawn mae gwe dudalennau'n cynnwys Metadata ar ffurf Metatagiau – tagiau iaith Farcio Hyperdestun (HTML) sy'n cael eu defnyddio i roi gwybodaeth am y we dudalen. Maent yn helpu chwilotwyr i ddeall am beth mae eich

gwefan yn sôn ac maent hefyd yn helpu defnyddwyr y chwilotwyr i ddewis pa dudalen maent eisiau ei gweld. Mae rhai chwilotwyr yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i storio mewn Metatagiau pan fyddent yn creu mynegai eu tudalennau ar y we.

Er bod ganddo enw technegol, mae Metadata, yn hawdd iawn i'w ddefnyddio .

Gallwch weld eich Metatagiau ar dop eich gwe dudalen yn yr adran benawdau o'ch cod ffynhonnell – dylech allu newid eich Metatagiau eich hun naill ai gan ddefnyddio eich system rheoli cynnwys neu yn y dudalen HTML ei hun. Fel arfer, gallwch weld Metatagiau unrhyw we dudalen drwy glicio'r llygodyn dde a dewis 'view source'.

Tagiau Sampl

`<title>Dyma lle byddwch yn ysgrifennu teitl eich gwe dudalen – rhwng y tagiau teitl HTML</title>`

`<meta name="description" content="Dyma lle byddwch yn teipio disgrifiad o'ch gwe dudalen"/>`

Er bod y Tag Teitl yn ymddangos yn adran benawdau'r dudalen, nid Metatag

ydyw – mae'r Tag Teitl yn elfen ofynnol ar y dudalen – tra bo Metatagiau'n opsiynol.

Teitlau sy'n Cipio Sylw

Y Tag Teitl yw un o'r nodweddion pwysicaf er mwyn cael lle da yng nghanlyniadau chwilotwyr. Mae chwilotwyr sy'n defnyddio ymlusgwr yn defnyddio Tag Teitl i gasglu gwybodaeth am eich gwefan, yna mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio yn eu proses gosod safleoedd – maen nhw'n dadansoddi pa mor berthnasol yw'ch gwe dudalen chi gan ddefnyddio'r geiriau allweddol sydd ar y dudalen honno. Dylai'r enw teitl fod yn ddisgrifiad cywir o'r dudalen – dylech gynnwys geiriau allweddol pwysig yn y teitl oherwydd bydd hyn yn helpu'r chwilotwr i ganfod am beth mae'r dudalen yn sôn.

Mae'r Tag Teitl yn ymddangos ar y bar teitl ar dop ffenestr y porwr ac hefyd ar dabiau'r porwr pan fydd pobl yn edrych ar y we dudalen. Mae hefyd yn rhoi syniad da i'r chwilotwr am beth mae'ch gwefan yn sôn ac mae'n ymddangos fel dolen y gallwch ei chlicio ar dudalennau canlyniadau'r chwilotwyr – felly gallai teitl sy'n dwyn eich sylw gael mwy o gliciau!

<title>Bwthyn Moethus Linga Longa yn Llandudno, Gogledd Cymru</title>

Y Tag Teitl yw'r hyn fydd yn perswadio eich ymwelydd ar-lein i glicio ar y dudalen – felly rhaid iddo gipio eu sylw ar unwaith ac hefyd gynnwys geiriau allweddol perthnasol a fydd yn bodloni'r ymwelydd bod eich gwefan yn sôn am yr hyn maent yn chwilio amdano.

<title>Visit Wales | UK Holidays, Short Breaks Weekend</title>

Visit Wales | UK Holidays, Short Breaks, Weekend...
www.visitwales.co.uk/
Visit Wales Official Web Site - Get great UK Holiday ideas; Family Breaks, Weekend ... Wales. Aimed at the Leisure Travel Trade and Business Tourism sectors ...
Accommodation - Things To Do in Wales - Regions of Wales - Brochures
You've visited this page 2 times. Last visit: 18/09/12
Tourism in Wales - Wikipedia, the free encyclopedia
en.wikipedia.org/wiki/Tourism_in_Wales

Dyma lle mae'r tag teitl yn ymddangos ar y tudalennau canlyniadau.

Dylai teitlau eich tudalennau:

- Fod yn unigryw ac yn berthnasol i bob tudalen
- Ddefnyddio geiriau allweddol pwysig i helpu'r chwilotwr i ganfod am beth mae'r dudalen yn sôn
- Ddefnyddio symbol y bar fertigol neu'r 'beipen' (mae'n edrych fel yma |) i wahanu enw brand eich gwefan oddi wrth gynnwys y dudalen ac hefyd ymadroddion neu eiriau allweddol. Os ydych yn cael trafferth cael hyd i hwn ar eich bysellfwrdd gallwch ddal yr allwedd ALT i lawr a theipio 0124 ar y bysellfwrdd rhifau. Byddwch yn ei weld ar y ciplun uchod.
- Gael eu hysgrifennu ar gyfer yr ymwelydd a'u haddasu ar gyfer y chwilotwyr
- Fod yn ddiddorol, yn ddisgrifiadol ac yn gryno
- Fod â 65 cymeriad neu lai – cânt eu torri'n fyr os ydynt yn hirach

Y Metadeitl (<META ENW="Yr un teitl ag y rhoddwyd yn y Tag Teitl">)

Fel arfer mae gan y Metatag yr un teitl â hwnnw sydd yn y tag teitl.

Creu Metadisgrifiad Da

Mae Tagiau Metadisgrifiad yn ddefnyddiol iawn oherwydd maen nhw'n gadael i chi ysgrifennu disgrifiad ystyrlon byr sy'n diffinio'n union yr hyn y gall ymwelwyr ddisgwyl ei weld ar eich gwe dudalen. Mae'r disgrifiad yma'n aml, ond

nid bob amser, wedi'i ddangos o dan y teitl ar dudalen canlyniadau'r chwilotwr – mae rhai pobl yn galw hwn yn 'snippet' neu'n 'bwytyn' o wybodaeth.

Mae'r pwtyn yma o wybodaeth yn bwysig – bydd unrhyw eiriau allweddol sydd wedi'u teipio yn y bocs 'chwilio' sydd hefyd i'w gweld yn eich pwtyn wedi'u hamlygu mewn print trwm – a fydd yn cadarnhau i'r defnyddiwr bod eich tudalen yn berthnasol i'w chwiliad nhw. Gallwch ei ddefnyddio fel blasydd i demtio'r ymwelydd i glicio ar eich rhestr – gallai disgrifiad sy'n denu ymwelwyr ddod â mwy o bobl i'r wefan a golygu eich bod yn gwerthu mwy.

```
<meta name="description"
content="dyma lle'r ydych yn ychwanegu
eich disgrifiad"/>
```

Dylai eich Tag Metadisgrifiad:

- fod yn unigryw ac yn berthnasol i bob tudalen
- ddefnyddio geiriau allweddol sy'n berthnasol i'r dudalen
- fod yn ddiddorol, yn ddisgrifiadol ac yn gryno
- fod â 155 neu lai o gymeriadau – cânt eu torri'n fyr os ydynt yn hirach



Dyma lle gall eich Metadisgrifiad ymddangos yn y tudalennau canlyniadau. Bydd geiriau allweddol a ddefnyddiwyd yn y chwiliad wedi'u dangos mewn print trwm.

Er mwyn i'ch metadisgrifiad ymddangos yng nghanlyniadau'r chwiliad, rhaid i'r disgrifiad gynnwys yn union yr un frawddeg ag y mae'r ymwelydd wedi'i

defnyddio yn eu brawddeg allweddol nhw yn y chwilotwr. Os bydd ymwelydd yn chwilio am frawddeg nad ydych wedi'i defnyddio yn eich Metadisgrifiad, bydd y chwilotwr yn dewis pwtyn perthnasol o wybodaeth o'r we dudalen.

Edrychwch ar eich gwe ddadansoddiad i weld pa dermau chwilio sy'n gyrru'r traffig mwyaf i'r dudalen ac yna gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r rhain ym Metadisgrifiad y Dudalen.

Os nad ydych yn cwblhau eich Tag Metadisgrifiad, bydd chwilotwyr yn aml yn dangos pwtyn o wybodaeth berthnasol o'ch tudalen.

Nid yw'r Tag Metadisgrifiad yn effeithio ar safle eich tudalen yn y rhestr ar dudalennau canlyniadau'r chwilotwyr.

Metatag y Gair Allweddol

Yn wreiddiol, roeddem yn defnyddio metatagiau geiriau allweddol i adael i'r chwilotwyr wybod pa eiriau allweddol roeddech eisio i'r chwilotwyr eu defnyddio i ganfod eich gwe dudalen pan fyddai ymwelydd ar-lein yn chwilio gyda'r geiriau hynny.

Roedd llawer o berchnogion gwefannau'n defnyddio'r rhain i sbamio'r chwilotwyr gyda thermau chwilio poblogaidd oedd yn hollol amherthnasol i'r dudalen – oherwydd y camddefnyddio yma, nid yw chwilotwyr yn defnyddio metatagiau geiriau allweddol bellach – felly does dim defnydd iddynt yn awr.

Tagio Erthyglau Newyddion

Mae un o'r chwilotwyr mawrion wedi penderfynu'n ddiweddar y byddent yn defnyddio'r metatag geiriau allweddol-newyddion i'w helpu i ddeall a chreu catalog o erthyglau newyddion fel bod modd dod o hyd iddynt yn y canlyniadau

chwilio. Felly, os oes gennych erthygl newyddion ddiddorol efallai yr hoffech gynnwys y tag "news_keywords" ynddi er mwyn ceisio gwella lle'r erthygl yn rhestrau'r chwilotwyr.

Mae'r metatag "news_keywords" yn debyg iawn i'r metatag geiriau allweddol gwreiddiol, mae'n gadael i gyhoeddwy'r nodi ymadroddion neu eiriau allweddol sy'n berthnasol i eitem benodol o newyddion.

Does dim angen i'r ymadroddion neu eiriau allweddol ymddangos yn unrhyw le o fewn yr erthygl newyddion sy'n cael ei chyhoeddi.

```
<meta name="news_keywords"
content="yr ymadroddion neu eiriau
allweddol yma wedi'u gwahanu gan
ddefnyddio coma">
```

Beth yw Dolenni Denu a Pham ydw i eu Hangen?

Mae denu mwy o bobl i'ch gwefan twristiaeth yn dod yn fwy a mwy pwysig am fod y gystadleuaeth yn cynyddu drwy'r amser. Mae defnyddio dolenni denu da yn un ffordd o'ch helpu i sicrhau safle da gyda'r chwilotwyr a dod â mwy o ymwelwyr i'ch gwefan.

Y ffordd orau o gael dolenni denu perthnasol at eich gwefan yw creu gwe dudalennau sydd â chynnwys ffres, diddorol a llawn gwybodaeth. Os yw pobl yn hoffi eich cynnwys byddent yn ei rannu drwy greu dolen – gan ddod â mwy o ymwelwyr atoch!

Beth yw Dolenni Denu a Pham ydw i eu Hangen?

Mae dolenni denu (a alwn yn 'ddolenni mynd yn ôl' weithiau) yn ddolenni o dudalennau ar wefannau eraill sy'n cysylltu'n ôl at eich gwefan chi. Mae cael dolenni perthnasol o safon dda sy'n dod i'ch gwefan chi o wefannau safonol eraill yn bwysig iawn – mae pob dolen fel pleidlais o blaid eich gwefan! Os ydych eisiau cyrraedd safle da yng nghanlyniadau'r chwilotwyr, cofiwch – po fwyaf o ddolenni da sydd gennych y gorau fydd eich safle.

Mae chwilotwyr yn cyfri dolenni at eich gwefan fel pleidleisiau 'o blaid'. Os oes llawer o wefannau o safon yn cysylltu at eich gwefan maen nhw'n tybio bod eich safle'n boblogaidd, diogel a chyffrous!

Yn hytrach na'r nifer o ddolenni, mae chwilotwyr yn rhoi mwy o bwysigrwydd erbyn hyn ar enw da a safon y safleoedd sy'n cysylltu â'ch gwefan chi. Os cewch ddolen ddenu o wefan gyda llawer o ddolenni denu, e.e. y BBC, byddai hyn yn rhoi mwy o awdurdod i'ch gwefan nag os byddai gennych ddolen o wefan o safon isel. Dylech geisio cael dolenni o wefannau sydd â llawer o awdurdod.

Manteision Dolenni Denu

- Mae ymlusgwyr chwilotwyr yn dilyn dolenni rhwng gwefannau – po fwyaf o ddolenni denu sydd gennych, yr amlaf y bydd ymlusgwyr yn ymweld â'ch safle
- Mae chwilotwyr yn cyfri dolenni at eich gwefan fel pleidleisiau "o blaid" eich gwefan – maen nhw'n tybio bod gwefannau sydd â dolenni o safon yn arwain atynt yn wefannau poblogaidd, diogel a chyffrous!
- Bydd dolenni denu'n dod â thraffig i'ch gwefan hefyd o wefannau eraill

Y Ffordd Orau o gael Dolenni Denu

Mae llawer o ffyrdd o gael dolenni i'ch gwefan. Mae rhai o'r rhain yn dderbyniol ac eraill yn annerbyniol. Os byddwch yn defnyddio ffordd amhriodol o ganfod dolenni denu gallai'r chwilotwyr synhwyro hyn a'ch cosbi. Prif nod cael dolenni wedi'u targedu yw gwella eich safle ar gyfer ymadrodd neu air allweddol a/neu i wella safle tudalen benodol ar eich gwefan.

Y ffordd orau o gael dolenni denu perthnasol i'ch gwefan yw creu tudalennau ar y we sydd â chynnwys ffres, diddorol a llawn gwybodaeth ac os yw pobl yn hoffi eich cynnwys byddent

yn ei rannu drwy greu dolen ag o. Yr enw ar y dolenni yma yw dolenni naturiol neu organig, a chânt eu creu i rannu a hybu gwybodaeth o safon ar y we.

Byddwch yn cael dolenni denu naturiol drwy ysgrifennu cynnwys da y bydd pobl eisiau ei rannu, gan ddenyddio cyfryngau cymdeithasol. blogio, ymuno â fforymau a chymsetihasau proffesiynol.

Bydd y mwyafrif o berchnogion gwefannau hefyd angen gwneud ymdrech i beidio cael mwy o ddolenni denu ac mae'n rhaid i chi feddwl yn ofalus iawn am y math o dudalennau rydych eisiau eu gweld yn cysylltu gyda'ch rhai chi!

Manteision dolenni organig naturiol:

- Bydd y tudalennau sy'n dolennu'n debyg ac yn berthnasol i'ch tudalennau chi
- Maent yn rhad ac am ddim a does dim rhaid i chi ddychwelyd y ddolen
- Bydd y dolenni'n amrywiol ac yn cynnwys testun angori gwahanol

***Testun angori** yw'r testun gweladwy, clicadwy mewn hyperddolen, dylai helpu eich ymwelydd ar-lein drwy roi disgrifiad defnyddiol iddynt am gynnwys y dudalen yr ydych yn cysylltu â hi. Bydd y geiriau sydd yn y testun angori'n helpu hefyd i ddweud wrth chwilotwyr am beth mae'r dudalen yn sôn, a bydd hyn yn helpu'r chwilotwyr i benderfynu ymhle yn eu rhestr canlyniadau y bydd y dudalen hon.

Gallwch ddod o hyd i bethau i'w gwneud (<http://www.visitwales.com/things-to-do>), rhywle i aros (<http://www.visitwales.com/holiday-accommodation>) a dechrau cynllunio eich gwyliau byr yng Nghymru (<http://www.visitwales.com/holidays-breaks/short-breaks>). Mae hyn yn llawer mwy disgrifiadol na'r geiriau. Cliciwch yma (<http://www.visitwales.com/>) a ddefnyddir mor aml.

Bydd y geiriau sydd yn y testun angori hefyd yn helpu i ddweud wrth chwilotwyr am beth mae'r dudalen, sy'n eu helpu i ganfod ymhle bydd safle'r dudalen

Y Ffordd Orau o Gael Dolenni Denu yw:

- Ysgrifennu cynnwys creadigol sydd werth ei rannu
- Cyflwyno eich gwefan i gyfeiriaduron ar-lein perthnasol – mae llawer o'r rhain yn rhad ac am ddim ac yn hawdd eu sefydlu
- Defnyddio eich URL pan fyddwch yn postio ar fforymau trafod a grwpiau newyddion
- Ysgrifennu cofnodion gwesteion ar gyfer blogiau poblogaidd – rhannu ac arddangos eich arbenigedd
- Hybu eich gwefan ar rwydweithiau cymdeithasu
- Gofyn i'r gweithwyr twristiaeth hynny sy'n darparu gwasanaethau neu gynhyrchion sy'n cyd-fynd yn dda â'ch rhai chi – a pherchnogion gwefannau perthnasol eraill – os ydynt yn barod i gysylltu â'ch gwefan.

Mae chwilotwyr yn edrych ar eich dolenni denu ac maent hefyd yn edrych i weld pwy rydych yn sefydlu dolenni atynt – bydd llawer o berchnogion gwefannau'n edrych i weld pwy sy'n cysylltu â nhw – felly efallai y cewch ddolen berthnasol yn ôl!

Dolennu dwy ffordd

Cofiwch, mae hyn yn ymwneud â mwy na phwy rydych wedi cael dolen ganddynt – mae'n ymwneud hefyd â phwy mae gennych ddolenni atynt!

Pan fydd cyfle gennych i gyfnweddolenni gyda busnes diogel sy'n cynnig gwasanaeth neu gynnyrch sy'n berthnasol i'ch un chi, mae'n

gwneud synnwyr i gysylltu â nhw ac hefyd iddyn nhw greu dolenni yn ôl atoch chi. Er enghraifft, os ydych yn cynnig llety, bydd gan eich ymwelwyr ddiddordeb mawr mewn darllen am ddigwyddiadau, atyniadau a bwytai lleol – bydd hyn yn eich helpu drwy ddod ag ymwelwyr newydd i'ch gwefannau a gallai helpu ryw faint gyda'ch safle yng nghanlyniadau'r chwilotwyr.

Sawl Dolen Ddenu sydd Gennych?

Mae'n hawdd edrych i weld pa mor boblogaidd yw eich dolen a chanfod pwy sy'n cysylltu â'ch gwefan. Defnyddiwch un o'r dulliau yma:

- Os ydych yn defnyddio cyfrwng dadansoddi i fonitro perfformiad eich gwefan, dylech allu gweld adroddiad y Gwefannau sy'n Cyfeirio – mae hwn yn dangos a yw rhywun wedi clicio ar ddolen o wefan arall sy'n pwyntio at eich gwefan chi
- Gallwch ddefnyddio'r chwilotwyr i ganfod faint o ddolenni denu sydd ganddynt i chi! Agorwch unrhyw chwilotwr ac ewch i'r Opsiynau Chwilio Lefel Uwch, byddwch yn gweld testun sy'n dweud rhywbeth fel 'find pages that are similar to or link to' ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin.
- Teipiwch hyn i'r bocs chwilio [Links:sharewales.com](https://sharewales.com) (defnyddiwch eich enw parth). Bydd hyn yn rhoi rhestr o wefannau i chi sydd â dolenni at eich gwefan – diddorol iawn!

Mae hefyd nifer o offer rhad ac am ddim ar gael i chi ar y we (fel arfer maen nhw'n rhoi'r opsiwn i chi o gymryd tanysgriafiad i gael fersiwn lefel uwch). Bydd y rhain yn rhoi gwybodaeth fanylach i chi am eich dolenni denu – gallech deipio i'r bocs chwilio "tools to find inbound links".

Yna beth am edrych i weld pwy sy'n cysylltu at wefan eich cystadleuwyr? Gallech ofyn iddynt a fydden nhw'n barod hefyd i ychwanegu dolenni at eich safle chi – peidiwch ag anghofio anfon y cod HTML atynt, yn barod i'w dorri a'i llynu i'w tudalen, ynghyd â'r testun angori. (Edrychwch ar y ffeithlen 'Defnyddio Testun Angori').

Ffyrdd Annerbyniol o gael Dolenni Denu

Mae nifer o ffyrdd annerbyniol o gael dolenni denu a gall y chwilotwyr synhwyro pan fydd gennych ddolenni gwael/annaturiol ac, fel y dywedwyd eisoes, gallwch gael eich cosbi am hyn. Does dim rhestr swyddogol o ddulliau dolennu anghywir, ond mae'r dulliau isod wedi'u cydnabod fel rhai annerbyniol ac a fyddai'n debygol o niweidio eich safle yng nghanlyniadau'r chwilotwyr:

- Prynu dolenni – mae rhai gwefannau'n gwerthu dolenni o dudalennau sydd â safle uchel. Gall y rhain fod yn effeithiol ond dydy pobl ddim yn hoff o'r rhain ac mae chwilotwyr wedi canfod y gwefannau perthnasol a'u gwahardd
- Ffermydd dolennu – gwefan sy'n cynnwys dolenni nad ydynt mewn trefn arbennig ac nad oes ganddynt unrhyw berthynas â'i gilydd. Nid yw'r dolenni ar y tudalennau yma'n rhoi poblogrwydd dolen ddenu i chi ac efallai y cewch eich gwahardd gan rai chwilotwyr
- Gormod o ddolenni dwy ffordd – rhowch chi ddolen ataf i ac fe roddaf i ddolen atoch chi, gwefannau amherthnasol, neu wefannau sydd â safle isel yng nghanlyniadau'r chwilotwyr

-
- Sbamwyr gwe neu “gymdogion drwg” neu unrhyw weithred sydd wedi’i lunio i dwyllo’r chwilotwyr

Mae’r ymadrodd yma’n wir ers tro byd, ymhell cyn dyddiau’r cyfrifiadur, ond mae’n berthnasol o hyd: “Cewch eich barnu yn ôl y bobl sy’n cadw cwmni i chi”!

Cael Gwared â Dolenni Gwael

Yn ddiweddar mae chwilotwr mawr wedi bod yn anfon rhybuddion at berchnogion gwefannau’n eu rhybuddio bod ganddynt “ddolenni artiffisial neu annaturiol” yn cysylltu â’u gwefannau. Os ydych wedi derbyn un o’r negeseuon yma neu os ydych eisiau gwneud yn siŵr na fyddwch yn derbyn un, darllenwch yr adran uchod **Sawl Dolen Ddenu sydd Gennyh?** ac edrychwch i weld pwy sy’n cysylltu â’ch gwefan.

Gallwch wella eich safle drwy gael gwared â dolenni gwael a bydd eich dull o’u tynnu nhw’n dibynnu sut y cawsoch y ddolen yn wreiddiol.

- Os mai chi brynodd y ddolen yn wreiddiol – gallwch roi’r gorau i dalu amdani – mor syml â hynny
- E-bostiwch berchennog y wefan a dywedwch wrthynt pwy ydych, a’r ddolen rydych eisiau ei thynnu – efallai y bydd rhai yn codi ffi arnoch am hynny

Os cawsoch neges rybuddio gan chwilotwr, rhowch wybod iddynt pan fyddwch wedi tynnu’r dolenni drwg.

Deall Dadansoddeg y We

Ydych chi'n gwybod pwy sy'n ymweld â'ch gwefan – pryd a sut y cawsent hyd i chi neu y cyrhaeddwyd eich gwefan? Ai dyma eu hymweliad cyntaf neu ydyn nhw wedi bod o'r blaen? O ble maen nhw'n dod a pha ddyfais maen nhw'n ei defnyddio?

Mae hi'n bwysig iawn fod pob busnes twristiaeth heddiw'n deall ystadegau traffig eu gwefan.

Gallwch ddatgelu popeth drwy ddefnyddio dadansoddeg i weld eich ymwelwyr ar-lein a dilyn eu hymddygiad. Gall hyn eich helpu i wella eich gwefan a'r marchnata cysylltiedig, gwella eich siawns o ddenu mwy o ymwelwyr a throi'r rhain yn gwsmeriaid.

Beth yw Dadansoddeg y We?

Mae dadansoddeg y we'n monitro traffig ar eich gwefan ac yn gadael i chi gasglu gwybodaeth am y bobl sy'n ymweld â'ch gwefan. Cânt eu defnyddio i ddeall o ble daw eich ymwelwyr, yr hyn a wnânt tra byddent ar eich safle ac, yn bwysig iawn, pam a sut maent yn gadael eich gwefan. Trwy ddeall ymddygiad eich ymwelwyr gallwch sicrhau bod eich marchnata ar-lein yn effeithiol ac yn perfformio'n dda – gan ei wneud yn fwy atyniadol a pherthnasol i'ch ymwelwyr a, gobeithio, yn fwy proffidiol i chi hefyd!

Wyddoch chi pwy yw eich ymwelwyr, pa dudalennau yw'r mwyaf poblogaidd, a pha rai sydd ddim yn denu ymwelwyr – beth sy'n gweithio orau i chi a'ch busnes?

Mae dadansoddeg y we'n gadael i chi ganfod ffeithiau am yr ymwelwyr sy'n dod i'ch gwefan. Yna gallwch ddefnyddio'r wybodaeth hanfodol yma i'ch helpu i gwrdd â'u hanghenion

Pam Ddylwn i Ddefnyddio Dadansoddeg y We?

Trwy fesur ac olrhain y ffordd mae eich ymwelwyr yn trin eich gwefan, gallwch

ddysgu rhagor amdanynt a chanfod beth yw eu hanghenion. Gallwch ganfod beth sy'n gweithio'n effeithiol a'r hyn nad yw'n gwneud mor dda ac sydd angen sylw.

Beth ydych chi angen ei fesur? Yn gyntaf mae angen i chi ganfod targedau ac amcanion eich busnes, ac i wneud hyn mae angen i chi ystyried beth rydych yn ceisio ei gyflawni gyda'ch gwefan.

Efallai eich bod eisiau:

- I fwy o bobl archebu llety/cofrestru/cadw lle drwy eich gwefan
- Mwy o fusnes o ardal benodol
- Canfod faint o amser a dreuliwyd gan eich ymwelwyr ar dudalennau penodol
- Rhoi'r cyfle i bobl dderbyn eich taflen newyddion

Mae hi bob amser yn ddiddorol gweld sut rydych yn perfformio, ond os na fyddwch yn gweithredu ar yr hyn a ddysgwch, dydy'r broses ddim yn mynd i fod yn ddefnyddiol iawn i chi.

Ar lefel uwch, gallwch ddilyn a mesur eich ymgyrchoedd marchnata ar-lein yn gywir.

Manteision Defnyddio Dadansoddeg

Mae llawer o fanteision i'w cael o ddefnyddio dadansoddeg y we. Gall eich helpu i:

- Wneud ymchwil i'r farchnad a busnes a fydd yn eich helpu i wella eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau twristiaeth
- Darparu ystadegau busnes allweddol (metrigau) h.y. a wnaeth yr ymwelydd â'r we yr hyn roeddech ei eisiau ar eich tudalennau
- Dadansoddi newidiadau yr ydych wedi'u gwneud i'ch gwefan
- Monitro'r strategaethau a gymerwch i optimeiddio ar gyfer chwilotwyr
- Gan ddefnyddio'r wybodaeth ar y dudalen gyfeirio, efallai y gallech ganfod cyfleoedd newydd i ffurfio partneriaeth gyda busnesau eraill sy'n ymwneud â thwristiaeth yng Nghymru.
- Rheoleiddio pa adnoddau y byddwch eu hangen ar amseroedd penodol o'r flwyddyn
- Mae'r rhan fwyaf o ddadansoddeg y we'n cynnwys adroddiadau am y cyfryngau cymdeithasol erbyn hyn sy'n gadael i chi wybod pa lwyfannau cymdeithasol sy'n anfon y nifer uchaf o ymwelwyr at eich gwefan a'r hyn maent yn ei wneud pan gyrhaeddant. Ydych chi'n mesur llwyddiant eich rhaglenni cyfryngau cymdeithasol?
- Os oes gennych wefan e-fasnach mae'n debyg y bydd yn rhoi ystadegau'r trafodion sylfaenol i chi, ond gan ddefnyddio dadansoddeg y we gallwch olrhain sawl ymweliad y mae ymwelydd wedi'i wneud i'ch gwefan cyn iddynt brynu unrhyw beth, pa dudalennau y maent wedi mynd atynt ac ati.

- Monitro ymgyrchoedd marchnata ar yr e-bost

Beth yw'r Anfanteision?

Ychydig iawn o anfanteision sydd i ddefnyddio offer dadansoddeg y we i ddadansoddi perfformiad, ond dylech fod yn ymwybodol bod:

- Rhai pecynnau dadansoddi tagio tudalennau'n gallu arafu amser llwytho'r dudalen neu ofyn i borwr gwe'r defnyddiwr wneud pethau ychwanegol. Gallwch wella hyn drwy osod y JavaScript ar waelod y dudalen a defnyddio technegau eraill y gall datblygwr gwefannau da eu gosod.
- Mae systemau tagio tudalennau'n defnyddio 'cwcis' fel arfer sy'n dilyn y defnyddwyr pan maent yn defnyddio'r wefan. Bydd rhai ymwelwyr yn anhapus â goblygiadau hyn i'w preifatrwydd ac mae rhai'n analluogi'r cwcis, felly nid yw'r holl wybodaeth ar gael i'w ddadansoddi.
- Mae systemau tagio tudalennau'n gofyn gosod JavaScript ar bob tudalen ar y we, felly mae posibilrwydd bob amser na fydd porwyr rhai ymwelwyr yn gadael i'r sgript redeg
- Gall llawer o fusnesau gael eu peledu gan yr wybodaeth y mae nifer o'r offer yma'n ei darparu. Mae'n syniad da i ddechrau eu defnyddio'n araf a chanolbwyntio ar nifer fechan yn unig o ystadegau/metrigau i gychwyn.

Sut Ydych chi'n cael Dadansoddeg ar y We?

Bydd pob gwefan bron sy'n cael ei darparu neu ei chynnal gan gynllunydd gwe'n derbyn rhyw fath o erfyn dadansoddeg neu ystadegau. Fel arfer bydd yr erfyn yma'n un o'r canlynol:

- Offer dadansoddi ffeil cofnodi – mae'r math yma o becyn ystadegau'n

dadansoddi ffeiliau cofnodi o'r gweinydd sy'n cynnal y wefan – bydd bron pob darparydd cynnal yn gallu darparu'r math yma o raglen

- Offer dadansoddi tagiau tudalennau – mae'r offer yma'n gofyn bod darn bach o JavaScript (cod rhaglennu) yn cael ei ychwanegu at god tudalen ar y we. Fel arfer mae'r math yma o ddadansoddeg yn fwy cywir a gall ddarparu mwy o wybodaeth na dadansoddi ffeil gofnodi.

Fel arfer, yr enw ar offer dadansoddi ffeil gofnodi yw 'ystadegau gwefan' ac enw'r offer tagio tudalennau yw 'dadansoddeg y wefan' ond mae rhai pobl yn trin un fel y llall.

Dechrau Arni

Mae llawer o offer dadansoddi'r we ar gael ar y we ac mae llawer o'r rhain yn rhad ac am ddim – mae angen i chi sicrhau bod yr un a ddewiswch yn cwrdd ag anghenion eich busnes.

Os ydych yn teimlo'n hapus i ddewis a gosod eich ddadansoddeg eich hun, yna gallwch ddewis o blith nifer o offer dadansoddi poblogaidd megis Yahoo Analytics, Clicky neu Google analytics neu gallwch dreulio amser yn asesu offer dadansoddi eraill, y mae rhai ohonynt ar gael yn rhad ac am ddim ar y we a'r cwbl sydd angen ei wneud yw dilyn y cyfarwyddiadau gosod.

Os nad ydych yn teimlo'n ddigon hyderus i osod dadansoddeg y we eich hun, cysylltwch â'ch cynllunydd gwe neu gwmni cynnal presennol oherwydd mae'n debyg bod y gwasanaeth yma ar gael yn barod ac efallai mai'r cwbl sydd angen arnoch yw cael yr hawliau mynediad.

Hefyd, efallai eich bod angen cefnogaeth gan eich cynllunydd gwe neu gynghorwr marchnata i'ch helpu i fonitro a dadansoddi'r canlyniadau. Trwy

ddehongli a defnyddio'r wybodaeth a gawsoch yn gywir, gallwch wella llwyddiant eich gwefan, cynyddu'r traffig a, gobeithio, gynyddu eich elw hefyd!

Os ydych yn datblygu gwefan newydd neu'n adnewyddu eich gwefan bresennol, dylech ofyn yn eich briff am raglen ddadansoddi'r we fel un o'r elfennau y gellir eu darparu

Sut i Ddefnyddio Dadansoddeg y We

Unwaith mae eich system dadansoddeg y we wedi'i sefydlu, mae'n bwysig eich bod yn edrych arni'n rheolaidd ac yn effeithiol i ganfod beth yw effaith eich gwefan, y cyfryngau cymdeithasol a'ch ymdrechion marchnata. Lle da i gychwyn yw'r dangosfwrdd – mae gan y rhan fwyaf o'r offer dadansoddeg sydd ar gael nodwedd dangosfwrdd a byddent yn gadael i chi weld yr adroddiadau dilynol, neu adroddiadau tebyg iawn i'r rhain:

- **Nifer yr ymwelwyr** – Cyfanswm yr ymwelwyr â'ch gwefan, p'un a ydyw'r niferoedd yn cynyddu neu'n gostwng ac a ydynt yn ymweld unwaith yn unig neu'n dod yn ôl dro ar ôl tro
- **Ymwelwyr â thudalennau** – y nifer o dudalennau a welwyd i gyd
- **Tudalennau/ymweliadau** – y nifer o dudalennau a welwyd ar gyfartaledd ymhob ymweliad
- **Cyfradd fownsio** – dyma'r canran o ymwelwyr sy'n ymweld ag un dudalen yn unig cyn gadael y safle. Mae'n bwysig dadansoddi hyn – bydd angen i chi ystyried cynllun y wefan, ei hansawdd, pa mor berthnasol yw hi a chynnwys y tudalennau sy'n achosi pryder. Hefyd, efallai bod eich ymwelwyr wedi gadael y safle ar ôl gweld dim ond un dudalen am fod yr holl wybodaeth roeddent ei heisiau i'w chael ar y dudalen honno.

-
- **Yr amser a dreuliwyd ar y wefan ar gyfartaledd** – pa mor hir y mae'r ymwelydd yn ei dreulio ar eich gwefan ar gyfartaledd
 - **Trosolwg o'r cynnwys** – pa dudalennau y mae ymwelwyr yn edrych arnynt, pa rai a welwyd fwyaf a faint o ymwelwyr edrychodd ar y tudalennau yma
 - **Trosolwg o'r ymwelwyr** – mae hwn fel arfer yn darparu ystadegau sydd wedi'u seilio ar y nifer o ymwelwyr dros gyfnod o amser – ar ffurf graff
 - **Trosolwg o ffynonellau'r traffig** – bydd hwn yn dangos o lle daw'r traffig sy'n dod i'r wefan. Fel arfer daw'r traffig o bob mathau o ffynonellau – o wefannau sy'n cyfeirio pobl, o ymweliadau uniongyrchol, drwy chwilotwyr, drwy hysbysebiadau, ynghyd â nifer o ffynonellau eraill
 - **Lleoliad** – gallwch weld o ba ardal ddaearyddol y daw eich ymwelwyr – gall hyn fod yn ddefnyddiol os ydych yn targedu rhanbarth penodol. Mae gweld y lleoliad daearyddol yn eich ystadegau/metrigau'n gallu eich helpu i asesu a yw eich ymgyrchoedd marchnata'n gweithio
 - **Technoleg** – gallwch weld y math o dechnoleg y mae eich ymwelwyr yn ei defnyddio i gyrraedd eich gwefan – mae hyn yn gadael i chi sicrhau bod eich gwefan yn rhoi profiad da ar y we i'r holl ymwelwyr fel eu bod yn dod yn ôl unwaith yn rhagor
 - **Defnyddwyr symudol** – faint o'ch ymwelwyr sy'n defnyddio eu ffonau clyfar neu ddyfeisiau tebyg i fynd i mewn i'ch gwefan – a yw eich tudalennau'n addas i'w defnyddio ar ddyfais symudol? Mae deall traffig symudol i'ch safle'n gallu dangos i chi a yw'r traffig a dderbyniwch o ddyfeisiau symudol yn cyfiawnhau creu gwefan symudol i'ch busnes.
 - **Geiriau allweddol ac ymadroddion yn cynnwys geiriau allweddol** – pa rai ddaeth â nhw i'ch gwefan? Ydy'r geiriau allweddol yma'n berthnasol i gynnwys eich gwefan – ydych chi angen diweddarau cynnwys eich gwefan neu addasu eich metadata? (efallai yr hoffech ddarllen y ffeithlen Defnyddio Metadata a Thagiau'n Effeithiol ar eich Gwefan).
 - **Dadansoddi pigau mewn traffig** – cadwch lygad ar eich gweithgareddau marchnata, eich ymdrechion ar y cyfryngau cymdeithasol neu alwadau i weithredu – gwelwch pa rai sy'n cynhyrchu'r diddordeb a'r rhyngweithio mwyaf.

Diogelu Data a'r Gyfraith

Ydych chi'n cadw gwybodaeth am eich cwsmeriaid a'r bobl rydych yn delio â nhw yn y ffordd gywir?

Mae'r ffeithlen yma'n crynhoi prif elfennau'r Ddeddf Diogelu Data 1998, i helpu i wneud pobl yn ymwybodol o egwyddorion ac elfennau ymarferol y Ddeddf faith a chymhleth yma.

Byddwn yn esbonio sut i ganfod beth yw eich sefyllfa mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth yma, ac yn rhoi manylion cysylltu defnyddiol a rhagor o bwyntiau cyfeirio i chi ar gyfer unrhyw ymholiadau penodol sydd gennych.

Beth yw'r Ddeddf Diogelu Data?

Mae'r Ddeddf Diogelu Data 1998 yn Ddeddf Seneddol sy'n ymwneud â chyfreithlondeb prosesu a storio gwybodaeth am bobl yn y DU, er mwyn diogelu eu manylion personol. Mae'r ddeddfwriaeth yma'n ymwneud â phobl sy'n fyw yn unig. Mae manylion/data personol yn y cyd-destun yma'n cynnwys unrhyw wybodaeth yr ydych yn ei phrosesu neu'n ei storio ar system gyfrifiadurol eich busnes e.e. enw a chyfeiriad eich cwsmeriaid, manylion cardiau debyd/credyd, cofnodion staff ac ati.

Mae Diogelu Data'n ofyniad cyfreithiol – Byddwn yn argymhell yn gryf eich bod yn cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd os oes gennych ymholiadau penodol.

Mae 8 egwyddor sylfaenol am wybodaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth yma. Maen nhw'n nodi bod yn rhaid i wybodaeth neu ddata personol:

- **Gael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithiol** – mae hyn yn elfen allweddol o'r Ddeddf yma
- **Gael ei brosesu i bwrpasau penodol**
- **Fod yn ddigonol, perthnasol a ddim yn ormodol** – efallai bod ystyr hyn yn amlwg – ond mae nifer gynyddol o sefydliadau'n gofyn am (ac yna'n storio) gwybodaeth amhriodol/gormodol/amherthnasol e.e.: yn gofyn am eich dyddiad geni pan fyddwch yn gwneud ymholiad neu daliad
- **Fod yn gywir a, lle bo'r angen, gael ei ddiweddarau'n rheolaidd** – efallai y bydd angen i chi ddatblygu systemau i adael i'ch cwsmeriaid/staff addasu neu ddiweddarau eu manylion yn hawdd
- **Beidio cael ei gadw'n hirach nag sydd raid** – nid yn unig y mae hyn yn ofyniad cyfreithiol ond, er enghraifft, gallai helpu i osgoi postio gwybodaeth sydd wedi mynd yn hen, sy'n gwastraffu eich amser a'ch arian chi ac a allai ddigio eich cwsmeriaid.
- **Gael ei brosesu a'i storio yn unol â hawliau'r unigolion** – mae'r gyfraith yn gofyn bod dalwyr data'n storio a phrosesu gwybodaeth yn gywir
- **Gael ei gadw a'i storio'n ddiogel** – nid yn unig y mae hwn yn arfer busnes da ond gallai amddiffyn gwybodaeth eich busnes a gwybodaeth eich

cwsmeriaid e.e. diogelu yn erbyn twyll cerdyn credyd

- **Beidio cael ei drosglwyddo i wledydd tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) heblaw ei fod yn ddigon diogel.**

Y gobaith yw – o ddarllen y pwyntiau bwled blaenorol – y byddwch yn awyddus i wybod bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), Adran Llywodraeth y DU sy'n delio â'r ardal hon, yn cynghori ar ei wefan: *“os byddwch yn sicrhau eich bod yn trin data personol yn unol ag ysbryd yr egwyddorion yma, byddwch wedi gwneud y rhan fwyaf o'r hyn sydd ei angen i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.”*

Beth sydd Angen ei Wneud?

Yn sylfaenol, os ydych yn prosesu data am bobl yn electronaidd, megis enwau, cyfeiriadau, cyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn, ac ati – os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod, bydd angen i chi ganfod a oes angen i chi roi gwybod i'r ICO. Os ydych yn storio fideo CCTV yn eich busnes er mwyn atal troseddu ac erlyn, mae'r gyfraith yn gofyn i chi roi gwybod i'r ICO.

Ond, mae'r Ddeddf yn eithrio'r canlynol rhag gorfod hysbysu'r ICO fel yma:

- Sefydliadau sy'n prosesu data personol yn unig ar gyfer:
 - o gweinyddu staff (yn cynnwys cyflogau)
 - o hysbysebu, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus (yn gysylltiedig â'u gweithgareddau busnes eu hunain)
 - o cyfrifon a chofnodion
- Rhai sefydliadau dielw
- Sefydliadau sy'n prosesu data personol ar gyfer cadw cofrestr

gyhoeddus yn unig

- Sefydliadau nad ydynt yn prosesu gwybodaeth bersonol ar y cyfrifiadur.

Am fod pob busnes yn unigryw rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn canfod drosoch eich hun a oes angen i chi hysbysu'r ICO.

I'ch helpu i benderfynu, mae'r ICO wedi rhoi rhestr wirio hunanasesu syml ar eu gwefan.

Os ydych yn fodlon bod eich busnes wedi'i eithrio o'r Ddeddf – efallai y byddwch eisiau parhau i ddarllen i gael awgrymiadau a chanllawiau defnyddiol ar sut i reoli gwybodaeth bersonol, – os nad, diolch am ddarllen hyd yma!

Sut ydw i'n Cadw Gwybodaeth yn Ddiogel?

Am fod pob busnes yn trin a phrosesu gwybodaeth yn wahanol, dydy hi ddim yn bosibl rhoi arweiniad terfynol ar sut i gynllunio system ddiogel i bawb sy'n darllen y Ffeithlen yma – felly gadewch i ni edrych ar yr hyn sydd gan y Ddeddf Diogelu Data i'w ddweud am y pwnc yma:

“Cymerir mesurau technegol a threfniadol priodol yn erbyn unrhyw achosion o brosesu data personol yn anghyfreithlon neu heb ei awdurdodi, ac yn erbyn colli data personol yn ddamweiniol neu ddinistrio neu niweidio data personol.”

Dyma 7^{fed} egwyddor y Ddeddf, sy'n nodi'r gofynion diogelwch angenrheidiol y mae angen eu gweithredu er mwyn storio gwybodaeth bersonol. Mae'r pwyntiau bwled a ganlyn yn rhoi cyngor ICO am fesurau diogelwch:

- Cynlluniwch a threfnwch eich trefnau diogelwch i gyd-fynd â natur y data personol sydd gennych a'r niwed a allai godi o beidio ei gadw'n ddigon diogel

- Esboniwch yn glir pwy yn eich sefydliad sy'n gyfrifol am sicrhau diogelwch yr wybodaeth
- Sicrhewch bod gennych y diogelwch ffisegol a thechnegol cywir, wedi'i gefnogi gan bolisiâu a threfnau cadarn a staff dibynadwy sydd wedi'u hyfforddi'n dda
- Byddwch yn barod i ymateb i unrhyw dorri diogelwch yn effeithiol a chyflym.

Mae'n amlwg na allwn ddarparu arweiniad penodol ar fesurau diogelwch a fyddai'n briodol i'r holl fusnesau. Ond byddem yn argymhell eich bod yn gwneud asesiad risg ar y data personol y mae eich busnes yn ei ddal.

Mae'r ICO yn cydnabod nad oes angen polisi diogelu gwybodaeth ffurfiol ar bob busnes, ond mae gwefan ICO yn awgrymu eich bod yn ystyried y ffactorau dilynol wrth gynllunio systemau diogelu gwybodaeth. Efallai nad yw'r rhain yn briodol i'ch sefydliad chi, ac efallai bod gennych faterion eraill i'w hychwanegu at eich rhestr:

- **Natur a maint eich systemau cyfrifiadurol a safleoedd eich sefydliad** – mae'r ICO yn argymhell bod person neu adran yn eich busnes yn cael y dasg o fod yn gyfrifol o ddydd i ddydd am fesurau diogelwch gwybodaeth. Yn debyg i'r holl gynrychiolwyr, dylai'r rheiny sy'n gyfrifol fod â'r awdurdod a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r cyfrifoldeb yma'n effeithiol.
- Mae diogelwch ffisegol yn cynnwys larymau, goleuadau diogelwch, CCTV, yr holl offer cyfrifiadurol – a mynediad at yr offer yma – gan sicrhau nad ydy'r sgriniau cyfrifiadurol yn gallu cael eu gweld gan bobl heb awdurdod, amgryptiad (h.y.: cyfieithu data yn god cyfrinachol) lle

bo'i angen, larymau, drysau o safon, cloeon, offer cyfrifiadurol a chael gwared â phapurau sensitif. Efallai y bydd angen i chi ystyried meysydd eraill o fewn eich busnes twristiaeth eich hun.

- **Nifer y staff sydd gennych ac i ba raddau maen nhw'n gallu cyrraedd y data personol** – Mae'n amlwg ei bod hi'n bwysig bod yr holl staff sy'n trin data personol yn deall y systemau sydd gennych ar waith (yn cynnwys y mesurau i unrhyw staff sy'n gweithio o safle arall neu yn eu cartrefi) a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Ddeddf.
- Mae hyfforddiant priodol yn hanfodol i wneud yn siŵr bod y trefnau a'r diogelwch a'r ffordd y caiff yr wybodaeth ei drin, oll yn gywir; bod y staff a'r adrannau'n cydlynu'n dda â'i gilydd; bod y trefnau busnes yn gydlynol, bod trefnau i adnabod y bobl sy'n galw, ac i ddysgu am beryglon y bobl sy'n ceisio sicrhau data personol drwy dwyll.
- Mae'r ddeddf yn gofyn bod busnesau'n cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y staff sy'n gweld y data personol yn ddibynadwy –felly mae angen i'ch trefnau penodi gymryd hyn i ystyriaeth e.e. cael geirada priodol; drwy ofyn am gael gweld pasbortau neu drwyddedau gyrru cyn iddynt ddechrau gweithio; dylai eich contract cyflogaeth nodi'r pethau mae staff yn cael ei wneud a'r pethau na chânt ei wneud gyda'r data personol y maen nhw'n cael ei weld.
- **Data personol a ddelir neu a ddefnyddir gan drydydd parti ar eich rhan** – O dan y Ddeddf Diogelu Data rydych yn gyfrifol am sicrhau bod gan unrhyw brosesydd data a ddefnyddiwyd fesurau diogelwch priodol yn eu lle.

Beth os Byddaf yn Derbyn Cais am Wybodaeth?

Un o brif elfennau'r Ddeddf yw ei bod yn rhoi'r hawl i bawb ofyn i gael gweld eu gwybodaeth bersonol eu hunain sydd ym meddiant unrhyw sefydliad. Os byddwch yn derbyn cais am wybodaeth o'r fath, mae gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth honno, o fewn 40 diwrnod fel arfer. Yn fyr, gall unigolion ofyn:

- Am gael gweld y data am ffi fechan
- Eich bod yn cywiro gwybodaeth anghywir – os bydd y busnes yn anwybyddu'r cais, gall y ceisiwr hawlio iawndal
- Nad yw eu data yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd allai achosi niwed neu drallod
- Nad yw eu data'n cael ei ddefnyddio ar gyfer marchnata uniongyrchol.

Ymhle alla i gael Rhagor o Arweiniad?

Rydym wedi sôn o'r blaen, ond mae werth ei ddweud eto...os hoffech ragor o wybodaeth fanwl am unrhyw agwedd o'r Ddeddf yma, neu i siarad â rhywun am hysbysu'r ICO neu fater arall sy'n berthnasol, byddem yn eich annog yn gryf i gysylltu â'r ICO. Mae eu manylion cysylltu, a rhagor o ffynonellau gwybodaeth defnyddiol, i'w cael yn yr adran Darllen Cysylltiedig isod.

Wrth ysgrifennu'r ffeithlen hon defnyddiodd yr awdur wefan hawdd ei defnyddio ICO a'i chael yn glir a llawn gwybodaeth. Cysylltodd yr awdur hefyd â'u staff a oedd yn barod i helpu ac yn gyfeillgar, ac atebwyd y ffôn yn sydyn hefyd!

Mae'r pwnc yn gymhleth ac er ein bod yn credu bod yr wybodaeth yma'n gywir ar hyn o bryd – mae'r gyfraith yn cael ei newid a'i diweddarau weithiau – felly

gofynnwn i ddarllenwyr gyfeirio at wefan ICO yn uniongyrchol, yn hytrach na rhoi dolenni i chi at y we a allai newid yn y dyfodol.

Marchnata yn y Cyfryngau Cymdeithasol – Dechrau Arni

Mae defnyddio rhwydweithiau'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu eich helpu i gamu o flaen eich cystadleuwyr ac mae'n gadael i chi ymgysylltu â'ch ymwelwyr ar-lein. Gall eich gwneud yn fwy ymwybodol a'ch helpu i adeiladu eich enw da gwerthfawr ar-lein.

Mae marchnata yn y cyfryngau cymdeithasol yn gweithio'n wych yn y diwydiant twristiaeth. Mae llawer o bethau cyffrous a hwyliog yn digwydd o ddydd i ddydd a gallwch rannu'r rhain, drwy bostio fideos a lluniau o'ch ymwelwyr yn mwynhau gweithgareddau, yn ymweld â'ch atyniad neu'n ymlacio yn eich llety.

Peidiwch ag anghofio annog eich ymwelwyr i rannu eu fideos, lluniau, profiadau neu adolygiadau ar eu safleoedd nhw ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd!

Beth yw'r Cyfryngau Cymdeithasol?

Rydym yn defnyddio'r ymadrodd 'cyfryngau cymdeithasol' i gynnwys y nifer mawr o wahanol lwyfannau ar-lein sy'n cynnal ac yn annog pobl i ryngweithio'n gymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys rhannu gwybodaeth drwy eiriau, lluniau, fideos, adolygiadau, rhwydweithio cymdeithasol, blogio, fforymau ar y we, ymuno â digwyddiadau a llawer o weithgareddau ar-lein eraill.

Mae Marchnata ar y Cyfryngau Cymdeithasol yn rhodd i fusnesau twristiaeth – gan ychwanegu dimensiwn cyffrous i'ch ymdrechion marchnata. Dim ond eich dychymyg sy'n eich cyfyngu!

Ystyr marchnata yn y cyfryngau cymdeithasol yn syml iawn yw'r broses o gael rhagor o gwsmeriaid, cynyddu'r traffig i'ch gwefan a chreu 'cyffro' am eich cynhyrchion neu wasanaethau drwy safleoedd cyfryngau cymdeithasol megis Facebook, Twitter, LinkedIn ac ati. Trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol,

gallwch gysylltu a rhyngweithio ar lefel fwy personol a gweithredol gyda'ch ymwelwyr posibl, yn hytrach na thrwy ddulliau marchnata traddodiadol. Y farn yw bod oddeutu 1.5 biliwn o bobl wrthi'n defnyddio rhyw fath o rhwydweithio ar y cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd.

Pam ddylwn i Farchnata yn y Cyfryngau Cymdeithasol?

Am fod mwy a mwy o'ch cwsmeriaid a'ch cwsmeriaid posibl yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol!

Bydd y mwyafrif o'ch ymwelwyr yn ymchwilio ac yn cael cyngor am eu dewis wylliau o'r we erbyn hyn ac o ryw fath o gyfryngau cymdeithasol neu safleoedd adolygu pwrpasol. Dydy marchnata yn y cyfryngau cymdeithasol ddim yr un fath â hysbysebu, lle r ydych yn dweud yn syml wrth bobl mor dda ydych ac yna'n ymlacio ac yn aros iddynt ddod atoch chi. Mae'n rhaid i chi ymuno yn y sgwrs, cynnig eich cymorth a'ch cyngor – rhannu eich cyffro a'ch brwdrydedd. Bydd eich neges yn lledaenu o un person i'r nesaf – rydych yn adeiladu enw da gwerthfawr, yn creu perthnasau sy'n para ac yn

ennill ymddiriedaeth – bydd hyn yn ei dro’n creu diddordeb yn eich busnes twristiaeth.

Mae rhwydweithio cymdeithasol yn golygu ymgysylltu ac yn rhoi ffyrdd newydd ac ychydig yn wahanol i ni o gyfathrebu gyda’n hymwelwyr – gan ein helpu i wneud rhywbeth rydym wedi’i wneud ers blynyddoedd – marchnata drwy ledaenu’r gair.

Mae pobl yn dal i fod yn llawer mwy tebygol o archebu, prynu neu ymweld â rhywle os ydyw wedi’i argymhell yn bersonol iddynt gan rywun y maent yn ymddiried ynnddo/ynnddi. Byddent yn dod yn gwsmeriaid ffyddlon i chi ac yn dweud pethau da am eich busnes twristiaeth wrth filoedd a miloedd o bobl o amgylch y byd.

Manteision Marchnata yn y Cyfryngau Cymdeithasol

Fel yr ydym wedi’i ddweud yn barod, mae marchnata yn y cyfryngau cymdeithasol yn gweithio’n dda iawn i fusnesau twristiaeth a dyma rai o’r manteision:

- Maen nhw’n rhad ac am ddim ac yn hawdd eu sefydlu a’u defnyddio – unrhyw bryd, unrhyw le
- Maen nhw’n gadael i chi ddweud wrth bobl pwy ydych a chreu cyffro ynghylch eich cynhyrchion neu wasanaethau twristiaeth
- Maen nhw’n ei gwneud hi’n hawdd i chi gyfathrebu ac ymgysylltu â’ch ymwelwyr, cleientiaid neu gydweithwyr – drwy’r byd i gyd
- Maen nhw’n gadael i chi rannu straeon, gwybodaeth, fideos a lluniau o’r gorau sydd gan Gymru i’w gynnig – ar unwaith!
- Cewch dderbyn adborth a sylwadau gan eich ymwelwyr

- Mae nhw’n rhoi’r cyfle i chi reoli eich enw da ar-lein
- Maen nhw’n gyrru traffig o safon uchel i’ch gwefan o bob rhan o’r byd
- Gallwch adeiladu eich brand o dwristiaeth Gymreig ac ymwybyddiaeth o leoliad
- Gallwch hybu digwyddiadau/cynigion arbennig/eich blog ac ati
- Gallwch wella eich safle yn rhestrau’r chwilotwyr a sicrhau dolenni denu pwysig at eich gwefan
- Maen nhw’n eich galluogi i weld yr hyn mae eich cystadleuwyr yn ei wneud
- Maen nhw’n cynnig cyfle i chi i wrando ar eraill a dysgu ganddynt
- Maent yn eich galluogi i wneud gwaith ymchwil i’r farchnad
- Gallwch ddod i ddeall eich ymwelwyr – ac yna deilwra eich cynnyrch neu wasanaeth i’w hanghenion nhw
- Mae rhwydweithio cymdeithasol yn rhoi cyfle i’ch busnes twristiaeth greu cysylltiadau newydd o’ch desg eich hun.

Pa Safle Rhwydweithio Cymdeithasol fydd yn Addas i Chi?

Wrth ddewis pa lwyfan cyfryngau cymdeithasol i’w defnyddio, mae’n bwysig deall ymhle mae eich cwsmeriaid. Dylech dargedu eich ymdrechion tuag at y sianelau y maen nhw’n eu defnyddio. Mewn rhai achosion, fe welwch fod eich dewis gorau’n amlwg – er enghraifft, efallai eich bod yn gwybod yn barod am grŵp sy’n gysylltiedig â thwristiaeth (yn enwedig os ydyw yng Nghymru) sy’n cydfynd yn dda gyda’ch busnes chi ac y mae eich ymwelwyr yn ei ddefnyddio. Efallai y gwelwch eich bod angen cyfuniad o sianelau cyfryngau cymdeithasol er mwyn ateb eich anghenion i gyd.

Gallwch ymweld â gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol nad oes angen cofrestru arnynt i'w gweld (y mwyafrif heblaw Facebook) ac edrych ar y mathau o sgysiau sy'n digwydd ar-lein – os nad ydych yn gwneud hynny'n barod. Efallai yr hoffech ddilyn ymwelydd Croeso Cymru sy'n wynebu www.facebook.com/visitwales a/neu ar www.twitter.com/visitwales a wyneb masnachol <https://twitter.com/visitwalesbiz>

Dyma drosolwg byr iawn o rai o'r gwefannau mwyaf poblogaidd:

Facebook (<http://www.facebook.com/>) – mae Tudalen Facebook yn gallu bod yn ffordd ragorol i'ch busnes twristiaeth gyrraedd eich ymwelwyr presennol a'ch ymwelwyr posib. Mae'r tudalennau i fusnesau, sefydliadau a brandiau rannu eu straeon a chysylltu gyda phobl. Gallwch rannu straeon sy'n ymwneud â thwristiaeth, creu albymau lluniau, trefnu digwyddiadau a chysylltu gydag ymwelwyr sydd gennych yn barod ac ymwelwyr posibl.

Twitter (<http://www.twitter.com>) – mae hon yn wefan boblogaidd sy'n cynnig llwyfan rhwydweithio cymdeithasol a micro-blogio sy'n gadael i chi roi negeseuon testun byr i ddefnyddwyr eraill. Enw'r broses yma yw Trydar a gall y negeseuon gynnwys hyd at 140 o gymeriadau. Mae Twitter yn ffordd anffurfiol o gyfathrebu, rhannu gwybodaeth, ymuno â sgysiau, tynnu sylw at gynigion arbennig, hyrwyddiadau, adeiladu brandiau ac ati.

LinkedIn (<http://www.linkedin.com>) – dyma rwydwaith proffesiynol mwyaf y byd gyda mwy na 175 miliwn o aelodau ac mae'n tyfu'n gyflym. Mae LinkedIn yn eich cysylltu â'ch cysylltiadau ac yn eich helpu i gyfnewid gwybodaeth, syniadau, a chyfleoedd gyda rhwydwaith o bobl broffesiynol. Mae fel Facebook

corfforaethol sy'n ddefnyddiol os ydych yn targedu pobl fusnes ar gyfer aros dros nos, cofrestru ac ati.

TripAdvisor (<http://www.tripadvisor.co.uk>) – gall busnesau twristiaeth elwa o ddefnyddio Trip Advisor am ei fod yn llwyfan lle gall ymwelwyr adolygu'r busnes a rhoi sgôr i'w wasanaethau, rhannu lluniau, fideos ac ati. Gall unrhyw fusnesau sydd wedi cofrestru ar TripAdvisor roi eu sylwadau am eu hadolygiadau a chyfeirio unrhyw broblemau a godwyd – gallwch ddangos yr adolygiadau yma hefyd ar eich gwefan eich hun.

YouTube (<http://www.youtube.com/>) – dyma'r wefan rhannu fideos blaenaf yn y byd ac mae hefyd yn un o'r cyfryngau brandio mwyaf pwerus ar y we. Bob dydd mae miliynau o ddefnyddwyr yn llwytho ac yn gwylio fideos ar YouTube. Hwn hefyd yw'r ail fwyaf o'r chwilotwyr (Google yw'r cyntaf) ac mae ei fideos yn sgorio'n uchel. Drwy roi eich fideos arno gallwch gysylltu â'r bobl hynny sy'n fwyaf tebygol o brynu eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau. Gallwch gysylltu fideos YouTube â rhwydweithiau cymdeithasol ac mae'n darparu dolenni sy'n gadael i ddefnyddwyr rannu fideos gyda chyfeilion drwy'r e-bost, Facebook, Twitter a rhwydweithiau eraill.

Pinterest (<http://pinterest.com/>) – mae hwn yn gadael i chi binio lluniau a fideos at fwrdd bwletin rhithwir a grëwch – gall y rhain fod yn lluniau a dynnwyd ac a lwythwyd, a delweddau neu fideos a ganfuwyd ar wefannau eraill. Yna caiff y rhain eu rhannu gyda'ch ymwelwyr a chwsmeriaid (a elwir yn 'gyfeillion' ar Pinterest) a gallent hwy eu hoffi neu eu hail-binio ar eu byrddau eu hunain. Y prif bwrpas yw rhannu eich diddordebau gyda chyfeillion drwy ddefnyddio delweddau a fideo.

Blogiau – mae'r term yma'n dalfyriad o 'Web Log' (dyddlyfr ar-lein sy'n cael ei rannu gyda phobl eraill, lle gall pobl nodi negeseuon dyddiadur am eu profiadau personol). Mae Blogio'n cynnwys rhoi erthyglau diddorol rheolaidd neu gynnwys arall ar eich gwefan eich hun neu wefan trydydd parti – megis Blogger neu WordPress. Yna gall eich ymwelwyr presennol neu ymwelwyr posibl â Chymru ddarllen y rhain. Mae'r mwyafrif o flogiau'n rhyngweithiol ac maent yn gadael i'ch ymwelwyr adael sylwadau a rhoi negeseuon i'w gilydd. Mae Blogio hefyd yn ffordd arall i ymwelwyr posibl ganfod eich gwefan.

Mae Wikipedia yn darparu rhestr estynedig o safleoedd cyfryngau cymdeithasol (http://en.wikipedia.org/wiki/List_of_social_networking_websites).

Anfanteision Marchnata ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Cefais drafferth meddwl am unrhyw anfanteision. Dyma'r rhai y meddyliais amdanynt.

- Gall y rhyngwyneb a'r jargon fod ychydig yn gymhleth i ddechrau ond byddwch yn dod i arfer yn gyflym iawn â'r terminoleg ac ati – mae llawer o bobl yn cael eu bachu'n gyflym
- Rhaid i chi fod yn ofalus iawn beth bostiwyd chi – dydych chi ddim eisiau gofidio neu frifo teimladau unrhyw rai o'ch ymwelwyr
- Os na allwch gadw ar y blaen â'r sgysiau a chwrdd ag anghenion eich ymwelwyr ar-lein, byddent yn colli diddordeb yn fuan iawn
- Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn bachu rhywun yn gyflym iawn a gallenty gymryd llawer o'ch amser – mae'n hawdd iddynt dynnu eich sylw wrth i chi ymuno â sgysiau neu dderbyn negeseuon, trydar ac ati

Mae perygl y gallech dderbyn sylwadau negyddol – os byddwch yn derbyn *adborth negyddol, gall pawb ei weld! Bydd angen i chi ddysgu sut i reoli'r rhain mewn ffordd bositif.

- Gwyliwch yn ofalus am wallau neu gamgymeriadau atalnodi. Mae eich negeseuon yn rhoi argraff ohonoch chi a'ch cwmni
- Gallai unrhyw beth a rowch ar y we ymddangos yng nghanlyniadau'r chwilotwr a gallai aros ar y we am flynyddoedd.

*Os bydd pobl yn gweld eich bod yn trin unrhyw adborth negyddol yn gyflym, mewn ffordd deg ac yn onest, byddwch yn cadw (neu hyd yn oed yn gwella) eich enw da ar-lein, yn cadw ymddiriedaeth a ffyddlondeb eich ymwelwyr a, gobeithio, yn tawelu eich beirniaid.

Dechrau arni

Yn debyg i unrhyw fath o farchnata, dylech ddatblygu strategaeth gydag amcanion clir am eich marchnad darged, gweithgareddau a gynigiwyd a'r safle/oedd rhwydweithio cymdeithasol sydd orau i chi ac i'ch cynulleidfya dwristiaeth.

Cyn i Chi Gychwyn:

Bydd angen i chi feddwl am y pwyntiau a ganlyn.

- Pam ydw i'n ystyried defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol?
- Ydw i'n gobeithio canfod cwsmeriaid newydd?
- Ydw i eisiau cysylltu â chydweithwyr a chreu rhwydwaith proffesiynol?
- Ydw i eisiau derbyn gwybodaeth, neu ydw i eisiau anfon gwybodaeth allan?
- Beth ydw i'n bwriadu siarad amdano?
- Pa ardal ddaearyddol ydw i'n anelu ati?
- Penderfynwch pa rwydweithiau i gofrestru arnynt.

Unwaith y byddwch wedi penderfynu

Pan fyddwch wedi penderfynu eich bod yn barod i greu cyfrif ar eich rhwydwaith/ rhwydweithiau dewisedig, dyma rai awgrymiadau i'ch rhoi ar ben ffordd:

- Dylai eich proffiliau ar-lein achosi i bobl fod eisiau gwybod mwy amdanoch chi a'ch busnes
- Gwnewch yn siŵr bod eich enw defnyddiwr yn berthnasol ac yn ddeniadol i'ch ymwelwyr ar-lein presennol a phosibl
- Chwiliwch am grwpiau perthnasol, ymunwch â nhw ac ymatebwch i negeseuon
- Ceisiwch ganfod a yw unrhyw rai o'ch cysylltiadau'n cymryd rhan yn barod – gofynnwch am eu cyngor neu gymorth
- Gwahoddwch eich ymwelwyr presennol i gysylltu â chi
- Gosodwch amcanion clir a chyfyngiadau amser eglur
- Adolygwch yn rheolaidd beth mae eich presenoldeb ar y rhwydwaith yn ei gyflawni

Pan fyddwch yn ymuno â rhwydwaith cymdeithasol, efallai y byddwch eisiau gwyllo'n ddistaw bach o'r ochr i ddechrau. Yna pan fyddwch yn teimlo'n gyfforddus gallwch ddechrau ymateb i negeseuon a thrydar defnyddwyr eraill ac ymuno â sgysiau sydd o ddiddordeb i chi – yn fuan iawn byddwch yn teimlo'n fwy hyderus ac yn barod i gychwyn sgysiau newydd a chodi eich pynciau eich hun.

Efallai y byddwch eisiau cyflwyno'r ieir sy'n dodwy'r wyau pen domen ffres i frecwast? Neu rannu syniad, rhywbeth rydych wedi'i ddysgu, cipolwg ar rywbeth lleol ...beth bynnag a ddewiswch chi!

Hefyd mae'n rhaid i chi amrywio eich neges ar wahanol safleoedd cyfryngau cymdeithasol – os byddwch yn postio'r un neges i'ch holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol bydd pob un yn mynd yn llai effeithiol.

Monitro eich Ymdrechion ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Sut fyddwch chi'n gwybod pa mor effeithiol yw eich ymdrechion ar y cyfryngau cymdeithasol os nad ydych yn mesur unrhyw fetrigau – faint o'ch buddsoddiad sy'n dod yn ôl atoch? Gallwch ddefnyddio eich rhaglen ddadansoddeg i fonitro:

- Faint o ymwelwyr rydych yn eu cael ar eich gwefannau cyfryngau cymdeithasol.
- Faint o bobl sy'n darllen ac yn rhannu eich swyddi.
- O ble maen nhw'n dod.
- Pa mor hir maen nhw'n aros.
- Beth sy'n boblogaidd gyda'ch ymwelwyr.
- A yw eich gwefan fusnes yn derbyn ymwelwyr o'ch safleoedd cyfryngau cymdeithasol.
- Beth sy'n gwneud iddyn nhw adael eich gwefan.

Canlyniadau Cyfreithiol

Ni allwn anwybyddu canlyniadau cyfreithiol cyhoeddi cynnwys ar y we – gallech fod yn atebol am y cynnwys sydd wedi'i gynnal ar eich gwefan, hyd yn oed os nad chi a'i ysgrifennodd. Gwnewch yn siŵr bod gan eich ymwelwyr ffordd hawdd a gweladwy o gysylltu â chi mewn perthynas ag unrhyw gynnwys a gyhoeddir ar eich gwefan.

Efallai y byddwch angen ystyried ysgrifennu Datganiad Polisi Cyfryngau Cymdeithasol sy'n rhoi canllawiau

corfforaethol i'ch staff ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a sicrhau eu bod yn derbyn digon o hyfforddiant cyn eu post neu Drydar cyntaf! (Gallech bori'r we i weld esiamplau o Ddatganiadau Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol a'u haddasu fel y bo'r angen i ateb eich anghenion).

Gwnewch yn siŵr nad ydych yn mynd i drafferthion! I ymuno â'r mwyafrif o safleoedd y cyfryngau cymdeithasol mae'n rhaid i chi gytuno i'w hamodau a thelerau. Fel arfer mae'r rhain yn hir a chymhleth a dydy'r rhan fwyaf o bobl ddim eisiau cymryd yr amser i'w darllen! Gwnewch yn siŵr eich BOD yn eu darllen nhw oherwydd gallwch gael eich gwahardd, eich dileu neu hyd yn oed eich cymryd i'r llys os torrwch nhw.

Defnyddio Facebook i Hybu'ch Busnes Twristiaeth

Heddiw, i hysbysebu eich busnes twristiaeth mae'n rhaid i chi gyhoeddi a rhannu gwybodaeth ddiddorol a fydd yn eich helpu i hysbysu a gwella bywydau nid yn unig eich ymwelwyr presennol ond eich ymwelwyr posibl hefyd! Mae eich marchnad darged ar Facebook yn barod ac maen nhw'n aros i dderbyn a darllen eich pyst a'u rhannu gyda'u cyfeillion.

Mae Tudalen Facebook yn ffordd ragorol i'ch busnes twristiaeth gyrraedd eich ymwelwyr presennol ac ymwelwyr posibl. Mae'r tudalennau yma i fusnesau, sefydliadau a brandiau. Maen nhw'n gadael i chi rannu eich newyddion a'ch straeon sy'n ymwneud â thwristiaeth, creu albymau lluniau a threfnu digwyddiadau.

Beth yw Facebook?

Lansiwyd Facebook yn yr Unol Daleithiau ym mis Chwefror 2004 – cafodd ei greu gan Mark Zuckerberg a rhai o'i ffrindiau dosbarth. Dechreuodd fel cymuned ar-lein syml er mwyn i fyfyrwyr prifysgol gadw mewn cysylltiad dros y gwyliau. Daeth yr enw'n wreiddiol o gyhoeddiad o'r enw Facebook (oedd yn rhoi llun a manylion sylfaenol am bob myfyriwr) yr oedd rhai prifysgolion yn eu rhoi i'w myfyrwyr ar ddechrau bob blwyddyn, i'w helpu i ymgartrefu a dod i'w nabod ei gilydd.

Parhaodd Facebook i ddatblygu ac, yn 2006, daeth ar gael i unrhyw un oedd yn 13 oed neu'n hŷn ac oedd â chyfeiriad e-bost dilys. Yn 2007, cyflwynodd Facebook Dudalennau Busnes i gwmnïau, sefydliadau ac i'r sêr. Mae Tudalennau Facebook yn edrych yn debyg iawn i dudalennau personol ond mae ganddynt lawer o nodweddion ychwanegol.

Mae Facebook yn un o'r gwefannau rhwydweithio cymdeithasol mwyaf yn y byd erbyn hyn gydag oddeutu 1.25 biliwn o ddefnyddwyr bob mis.

Mae mwy na 25 miliwn o dudalennau ar Facebook gan fusnesau bach – oll yn manteisio ar y cyfle gwyh yma i farchnata eu busnes – ydych chi?

Pam ddylwn i ddefnyddio Facebook i Hybu fy Musnes?

Mae Tudalen Facebook yn gallu bod yn ffordd wych i'ch busnes gyrraedd eich ymwelwyr presennol ac unrhyw ymwelwyr posibl. Gallwch addasu eich tudalen fusnes drwy ychwanegu apiau, postio straeon, lluniau o ddigwyddiadau sydd gennych ar y gweill, a llawer mwy. Byddwch yn cysylltu gyda'ch cynulleidfya, ac yn cynyddu eich cynulleidfya, drwy bostio'n rheolaidd ac ennyn diddordeb eich cefnogwyr. Pan fydd rhywun yn clicio 'Hoffi' ar eich tudalen Facebook, maen nhw'n gwneud cysylltiad gyda chi ac yn rhoi adborth positif i chi – yna bydd hwn yn ymddangos ar eu Llinell Amser, i'w ffrindiau i gyd ei weld, ac efallai y bydd yn ymddangos hefyd yn eich cyflenwad newyddion chi, gan gyrraedd mwy o bobl ac apelio at fwy o bobl. Mae hyn yn debyg iawn i'r marchnata hen ffasiwn o basio enw da ar dafod leferydd.

Ymysg y manteision eraill mae'r rhain:

- Does dim cost neu mae'r gost yn isel iawn
- Byddwch chi a'ch ymwelwyr yn hybu eich busnes drwy rannu newyddion, lluniau, fideos, cynigion a dolenni
- Bydd eich rhwydwaith Facebook yn cynnwys eich ymwelwyr presennol ac unrhyw ymwelwyr posibl. Byddwch yn gallu gofyn barn pobl am eich gwasanaethau, cynhyrchion, erthyglau ac ati
- Bob tro y byddwch yn cysylltu gyda'ch cefnogwyr mae gennych well siawns o weld y cysylltu yma'n ymddangos yng nghyflenwad newyddion eu ffrindiau
- Mae Tudalennau Facebook yn cael eu hystyried mewn peiriannau chwilio a gallent ymddangos yn Nhudalennau Canlyniadau'r Peiriannau Chwilio
- Mae eich ymholiadau a'ch gwerthiannau'n debygol iawn o gynyddu – am eich bod yn cyflwyno eich busnes twristiaeth i farchnadoedd newydd eu canfod
- Gostyngwch eich costau marchnata drwy wneud eich hysbysebu'n fwy effeithiol
- Gwrandewch! Gallwch weld beth mae eich ymwelwyr presennol/posibl a'r cyhoedd yn ei ddweud am eich busnes
- Beth mae pobl yn ei ddweud am eich cystadleuwyr? Chwiliwch am wybodaeth am eich cystadleuwyr i weld beth sy'n gweithio iddyn nhw
- Mae llun yn cyfleu cymaint! Mae fideos a lluniau'n gyfrwng pwerus – gallent werthu eich cynnyrch/busnes mewn eiliadau
- Gallwch drefnu i bobl ddechrau derbyn eich taflen newyddion ac ati

Eich Proffil ar Facebook, Tudalen neu Grŵp?

Mae'n ymddangos fod pobl yn ansicr beth yw Proffiliau Facebook, Tudalennau a Grwpiau! Sut allwch chi ddweud p'run yw p'run? Mae'n syml! Os gallwch ei Hoffi – mae'n Dudalen Busnes, os gallwch fod yn Gyfaill mae'n Broffil Personol ac os gallwch Ymuno ag o – mae'n Grŵp.

Proffiliau Personol ar Facebook – yr enw arall am broffil personol yw Llinell Amser. Rydych yn defnyddio hwn fel unigolyn, nid fel Tudalen Busnes. Yn ôl Facebook, "Byddwch yn torri telerau defnyddio Facebook os byddwch yn defnyddio cyfrif personol i gynrychioli rhywbeth heblaw chi'ch hun (h.y. eich busnes)". Os byddwch yn defnyddio Proffil Personol fel Tudalen Busnes – bydd y ddolen hon yn eich cymryd at Gymorth Facebook Troi eich Llinell Amser yn Dudalen Facebook (<https://www.facebook.com/help/116067818477568>).

Grwpiau ar Facebook – mae'r rhain yn rhoi lle caeedig i grwpiau bach o bobl gyfathrebu am ddiddordebau tebyg sydd ganddynt. (Gall y grwpiau naill ai fod yn breifat neu'n agored i'r cyhoedd). Dydy hi ddim yn bosibl ar hyn o bryd i droi Grwpiau Facebook yn Tudalennau. Mae Facebook yn argymhell eich bod yn creu eich Tudalen newydd ac yna'n rhoi gwybod i aelodau eich grŵp amdani.

Tudalennau Busnes ar Facebook – mae'r rhain yn cynnig nodweddion gwahanol i fusnesau, ffigurau cyhoeddus, brandiau a sefydliadau. Mae busnesau'n eu defnyddio i ennyn diddordeb pobl a chynyddu eu cynulleidfa drwy rannu gwybodaeth, newyddion, digwyddiadau a llawer mwy gyda phobl yn rheolaidd. Pan fydd eich cwsmeriaid yn hoffi eich tudalen, gall eich pyst ymddangos yn eu cyflenwad newyddion. Gallwch dalu

Facebook i roi hwb i'ch post a bydd hyn yn golygu bod mwy o siawns y bydd eich cynulleidfa'n ei weld.

Beth Ydych chi ei Eisiau gan Facebook?

Cyn i chi gofrestru ar Facebook, mae'n syniad da i chi ystyried beth rydych ei eisiau gan Facebook – beth yw eich targedau? Yna byddwch mewn sefyllfa llawer gwell i ddefnyddio Facebook yn fwy effeithiol.

- Ydych chi'n newydd i Facebook? Os felly, byddwch eisiau dangos eich brand i fwy o bobl a chael mwy o bobl i'w hoffi
- Ydych chi'n gobeithio denu ymwelwyr newydd, cadw cysylltiad gyda'ch ymwelwyr presennol, neu'r ddau?
- Oes gennych chi ddigwyddiad ar y gweill neu gynnig arbennig i'w hysbysebu?

Mae'n Hawdd Creu Tudalen Fusnes ar Facebook



Os nad oes gennych broffil personol ar Facebook yn barod, bydd angen i chi sefydlu un cyn i chi greu Tudalen Fusnes. Peidiwch â phoeni! Er y bydd eich Tudalen Fusnes newydd wedi'i chysylltu â'ch proffil personol, mae'n cael ei chadw'n hollol ar wahân ac ni fydd unrhyw un yn gallu gweld eich gwybodaeth personol o'ch Tudalen Fusnes neu hyd yn oed wybod bod cysylltiad rhyngddynt.

Ewch i www.facebook.com a naill ai gofrestru i'ch cyfrif personol, neu greu cyfrif personol newydd drwy lenwi'r ffurflen syml isod.



I Greu eich Tudalen Fusnes ar Facebook:

Pan fyddwch wedi mewngofnodi i'ch cyfrif Facebook personol, ewch i www.facebook.com/pages/create – bydd y sgrin isod yn ymddangos. Dilynwch y camau syml yma a bydd eich tudalen fusnes wedi'i chreu'n fuan iawn!



Dyma lle byddwch yn dewis y math o fusnes sydd gennych – yr opsiynau yw:


- Lle neu Fusnes Lleol
- Cwmni neu Sefydliad
- Brand neu Gynnyrch
- Artist, Band neu Ffigur Cyhoeddus
- Adloniant
- Achos neu Gymuned

Mae'n debyg y byddwch yn dewis y categori Lle neu Fusnes Lleol, neu Gwmni neu Sefydliad. Gallwch bob amser newid categori eich Tudalen yn ddiweddarach os ydych eisiau arbrofi gyda'r gwahanol categorïau.

Os gall pobl ddod i ymweld â safle eich busnes e.e. gwesty, bwyty, atyniad ac ati – y dewis gorau i chi fyddai Lle neu Fusnes Lleol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu cyfeiriad eich busnes yna byddwch yn gallu defnyddio'r nodwedd Cofrestru. Mae hyn yn gadael i ymwelwyr sydd â dyfeisiau symudol ac arnynt GPS gofrestru (mae pobl yn Cofrestru i adael i'w ffrindiau wybod lle maent a'r hyn y maent yn ei wneud) pan fyddent yn cyrraedd eich busnes twristiaeth. Bydd hyn yn ymddangos ar eu llinell amser, yng Nghyflenwad Newyddion eu ffrindiau a'ch Tudalen Fusnes chi – bydd hyn yn eich helpu i roi hwb i'ch busnes.

Mae'n debyg mai'r categori Cwmni neu Sefydliad yw'r dewis gorau os nad yw pobl yn ymweld â'ch safle, neu os ydych yn cynnal digwyddiadau mewn lleoliadau eraill.

Dewiswch categori eich Tudalen ac yna dewiswch ddosbarthiad mwy penodol o'r gwymplen, fel y gwelwch isod, a rhoi'r wybodaeth angenrheidiol.




Dewiswch y blwch ticio i gytuno i Delerau Tudalennau Facebook, yna cliciwch 'Get Started'.

Meddylwch yn ofalus wrth enwi eich Tudalen Fusnes. Chewch chi

ddim defnyddio mwy na saith deg o gymeriadau – os oes gennych enw busnes, dyma fyddai orau, neu efallai y gallech gynnwys geiriau allweddol yn nheiti eich tudalen. Byddai hyn yn eich helpu i ymddangos yng nghanlyniadau chwilio Facebook. (Nodwch: Gallwch newid yr enw hyd nes byddwch wedi cael eich Hoffi 200 neu fwy o weithiau)

Yna byddwch yn gweld y sgrin nesaf sy'n eich gwahodd i gwblhau'r adran **About – Tab Un**, sy'n cynnwys tri maes: is-gategori (dewiswch hyd at 3), disgrifiad byr, a'ch cyfeiriad ar y we a chadarnhad eich bod yn fusnes go iawn. Pan fyddwch wedi gwneud hyn cliciwch 'Save'. Bydd yn gofyn i chi gadarnhau mai chi yw cynrychiolydd Awdurdodedig a Swyddogol y busnes yma – cliciwch 'Save Info' i symud ymlaen i Tab Dau.



Ychwanegu eich Llun Proffil – Mae llun proffil eich tudalen yn bwysig. Dylai gynrychioli eich busnes twristiaeth chi! Mae'n ymddangos gerllaw enw eich tudalen ac hefyd fel mân-lun wrth ochr eich sylwadau.

Mae Facebook yn argymhell eich bod yn llwytho llun sgwâr sydd o leiaf 180 x 180 picse. I ganfod maint llun, cliciwch arno gyda'ch botwm dde a dewis 'properties'. Dylech weld rhywbeth tebyg i 160 x 160 picse. Os nad yw'r llun a lwythwch o'r maint cywir gallech dderbyn neges yn dweud eich bod wedi gwneud camgymeriad.

I **ychwanegu eich llun proffil** o'r bocs 'Set Up Dialog' – **Tab Dau**, dewiswch 'Upload from computer' neu 'Import from website'. Cliciwch 'Next' i symud i **Tab Tri**

Llinell amser Croeso Cymru



Ychwanegu at eich Fferynnau – os byddwch yn dewis yr opsiwn yma, bydd eich Tudalen Fusnes yn hawdd ei hagor o'ch Proffil Personol. Cliciwch 'Add to favourites' ac yna 'Next'

Efallai y byddwch eisiau Clicio '**Skip**' ar y **Pedwerydd Tab**, '**Reach More People**' am fod hwn yn gwerthu Hysbysebu ar Facebook!

Bydd yn gofyn i chi Hoffi eich Tudalen newydd ac yna'n gofyn i chi wahodd eich ffrindiau ('Invite your Email Contacts'). Efallai y byddwch eisiau neidio dros yr opsiwn yma am y tro – yna gallwch baratoi eich Tudalen ar gyfer y cyhoedd drwy ychwanegu eich Llun Clawr a llenwi eich tudalen gyda llawer o byst diddorol. Cewch eich cymryd i'ch Tudalen Fusnes wag newydd, a ddylai edrych yn debyg i'r llun sgrin a welwch ar y dudalen nesaf.

Trosolwg Byr o'ch Tudalen

Y Bar Dewislenni ar frig eich tudalen



Bydd angen i chi fynd i **Edit Page** i Ddiweddarau'r Manylion ar eich Tudalen a Golygu eich gosodiadau (Update your Page Info and Edit).

Hefyd, efallai y byddwch angen rheoli rolau'r gweinyddwyr (Manage Admin Roles) os ydych eisiau penodi gweinyddwyr.

Wrth ddefnyddio Facebook fel Busnes rhaid i chi ddewis Use Facebook as Your Business Name bob tro – felly pan fyddwch yn postio, rhannu ac ati, byddwch yn gwneud hynny fel busnes.

Build Audience – mae hwn yn gadael i chi wahodd eich ffrindiau a'ch cysylltiadau i Hoffi eich Tudalen


See Insights – mae hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am berfformiad eich Tudalen

Help – yn eich cymryd i system Gymorth Facebook

Creu Tudalen Facebook sydd heb ei Chysylltu at Broffil Personol

– fel y nodwyd yn gynharach, gallwch greu tudalen Facebook sydd heb ei chysylltu at eich proffil personol drwy greu cyfrif busnes Facebook ar <https://www.facebook.com/business>. Ond cofiwch, dydy'r Tudalennau sydd heb eu cysylltu at broffil personol ddim yn gallu gwneud yr un peth â thudalennau sydd â'r cysylltiad yma. Dydyn nhw ddim yn gadael i chi rannu, hoffi na chwilio am dudalennau eraill – bydd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i chi adeiladu a thyfu eich cronfa o gefnogwyr!

Sgrin Facebook



Ychwanegu neu Newid eich Llun Clawr

Eich llun clawr yw'r llun mawr ar dop eich llinell amser – mae'n rhoi'r cyfle i chi wneud argraff weledol yn syth ar y bobl sy'n ymweld â'ch tudalen. Dewiswch lun unigryw sy'n cynrychioli eich busnes twristiaeth yn gywir – gallai hwn fod yn llun o grŵp o bobl yn bwyta yn eich bwyty neu westy, yn mwynhau'r pethau a gynigiwch ar eich safle neu'n diogi ar draeth hardd gerllaw. Gallwch arbrofi gyda'r lluniau a ddefnyddiwch i ganfod beth mae eich ymwelwyr yn ei hoffi orau.

Mae Facebook yn argymhell: bod lluniau Clawr yn 851 picstel o led a 315 picstel o uchder. Os byddwch yn llwytho llun sy'n

llai na'r mesuriadau yma, bydd yn cael ei ymestyn i ffitio. Mae'n rhaid i'r llun a lwythwch fod o leiaf 399 picstel o led a 150 picstel o uchder.

I ychwanegu neu newid eich llun clawr:

- Ewch i'ch llinell amser
- Cliciwch Ychwanegu Clawr, neu daliwch y llygoden dros eich llun clawr presennol a chlicio Change Cover
- Dewiswch a ydych eisiau llwytho llun newydd neu ddewis llun o un o'ch albymau lluniau presennol
- Gallwch newid lleoliad y llun drwy glicio arno a'i lusgo o gwmpas
- Cliciwch Save

Beth allwn i ei Bostio?


Rydych wedi cwblhau eich proffil ac ychwanegu eich lluniau – nawr mae'n bryd llenwi eich tudalen gyda sylwadau diddorol ac atyniadol. Postiwch yn rheolaidd, un neu ddau o byst diddorol bob dydd (dydych chi ddim eisiau digio pobl neu gael eich rhwystro am lenwi eu llinell amser nhw gyda'ch pyst chi. Cofiwch gynnwys geiriau allweddol yn eich pyst, fel bod pobl yn gallu dod o hyd i chi nid yn unig wrth wneud chwiliad ar Facebook ond hefyd yn y peiriannau chwilio. Gallwch hyd yn oed ddewis dat-gyhoeddi eich Tudalen am gwpwl o wythnosau – nes bydd gennych amrywiaeth diddorol o byst ar eich Tudalen, fel y gall unrhyw un sy'n ymweld â hi weld tudalen fywiog, egniol a fydd yn eu temtio i glicio'r botwm Hoffi hollbwysig

- cyhoeddi cynigion a hyrwyddiadau sydd ar y gweill
- newyddion, digwyddiadau neu ffeithiau bach anghyffredin lleol
- creu llyfrgelloedd o luniau a fideos o'ch cynhyrchion neu wasanaethau
- cynnig gwobr i'r cyfrannwr gorau bob wythnos neu bob mis
- maent yn dweud bod llun yn cyfleu mwy na geiriau – cofiwch gynnwys lluniau a fideos
- cadwch eich pyst yn fyr ac effeithiol
- ymgysylltwch â'ch cefnogwyr, gofynnwch gwestiynau iddynt a rhowch sylwadau am eu pyst
- dywedwch wrth eich cefnogwyr am gynnwys newydd diddorol ar eich gwefan, a fydd yn gyrru pobl i'ch gwefan

Postio i'ch Tudalen

Gwnewch yn siŵr eich bod yn postio fel eich Tudalen chi. Gallwch ychwanegu stori i Llinell Amser eich tudalen drwy

glicio yn y bocs Statws, a welwch isod, a theipio! Gallai eich Pyst ymddangos yng Nghyflenwad Newyddion y bobl sy'n hoffi eich Tudalen, bydd hyn yn eich helpu i gysylltu a siarad gyda nhw. Pan fydd pobl yn hoffi neu'n rhannu eich pyst, gall eu ffrindiau eu gweld nhw yn eu Cyflenwad Newyddion nhw hefyd!



Gallwch amserlennu eich Pyst drwy Glicio'r Cloc yng ngwaelod chwith y Bocs Statws, ychwanegu lleoliad drwy Glicio'r Pen Pin neu gynnwys Llun neu Fideo yn eich post drwy Glicio'r Camera.

Cael Pobl i'ch Hoffi

Mae'r hyn a bostiwch ar Facebook yn hanfodol i gael pobl newydd i'ch hoffi – y cynnwys sy'n hollbwysig! Mae pobl wrth eu boddau'n rhannu cynnwys diddorol, sy'n ymgysylltu â'u ffrindiau a gallai eu ffrindiau rannu a hoffi eich cynnwys gyda'u cyfeillion nhw hefyd! Bob tro y byddwch yn ymgysylltu gyda'ch Cefnogwyr rydych yn cynyddu'r siawns y bydd eich pyst yn ymddangos mewn mwy o gyflenwadau newyddion ac yn ehangu eich rhwydwaith cymdeithasol.

Does dim ffordd gyflym o gael pobl i'ch Hoffi, bydd yn cymryd amser ac ymdrech. Sut allwch chi annog pobl i Hoffi eich tudalen Facebook?

- Gallwch gychwyn drwy wahodd eich ffrindiau a'ch teulu sydd ar Facebook yn barod i Hoffi eich tudalen newydd
- Llwytho a gwahodd eich cysylltiadau e-bost i Hoffi eich Tudalen
- Postio pyst diddorol ac atyniadol yn rheolaidd (unwaith neu ddwywaith y dydd)

- Hoffi Tudalennau pobl eraill
- Cynnwys eich Ffrwd Facebook a'r botwm Hoffi ar eich gwefan
- Creu: llyfrgelloedd o luniau a fideos o'ch cynhyrchion neu wasanaethau
- Cadw eich pyst yn fyr a diddorol
- Maen nhw'n dweud bod llun yn peintio mil o eiriau – cofiwch gynnwys lluniau a fideos
- Ymgysylltu gyda'ch rhwydwaith
- Ar bapur, hynny yw nid ar y we – hysbysebwrch – gwnewch yn siŵr bod eich cyfeiriad Facebook ar bopeth a anfonwch allan!

Edrychwch a oes gennych Tudalen Facebook yn barod!

Efallai bod hyn yn swnio'n wirion ond mae'n bosib y gwelwch fod Tudalen Facebook yn bodoli'n barod i'ch busnes! Gallai hyn ddigwydd os bydd rhywun yn cofrestru i le sydd heb Tudalen yn barod, a bydd Tudalen newydd yn cael ei chreu'n awtomatig i gynrychioli'r lleoliad. Os byddwch yn canfod tudalen (neu dudalennau) wedi dyblygu efallai y gallwch hawlio (<https://www.facebook.com/help/168172433243582>) a chyfuno (<https://www.facebook.com/help/www/249601088403018?rdrhc>) y tudalennau yma.

Cipolwg drwy 'Facebook Insights'

Pan fyddwch wedi cael eich Hoffi 30 o weithiau ar eich Tudalen, byddwch yn cael mynediad yn awtomatig i'r Cipolygon (Insights) – sy'n rhoi gwybodaeth am berfformiad eich Tudalen. Byddwch yn gallu gweld sut mae pobl yn Hoffi, canfod ac ymateb i'ch pyst. Byddwch hefyd yn derbyn e-bost wythnosol yn rhoi'r wybodaeth hon.

I Fynd i mewn i Gipolygon (Insights) eich Tudalen:

- Cliciwch See Insights ar y bar offer ar dop eich sgrin. Bydd siartiau'n dangos y manylion ynglŷn â'r achosion o Hoffi, Pwy mae eich Post wedi'u cyrraedd, Ymgysylltiad ac ati

Cofiwch

Mae werth nodi hyn:

- mae'r rhyngwyneb a'r jargon yn gallu bod yn gymhleth i gychwyn, ond fe ddewch i arfer ag o'n gyflym iawn!
- efallai na fydd diddordeb gan lawer o bobl sy'n Hoffi eich tudalen yn y pethau sydd gennych i'w dweud
- mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu cymryd llawer o'ch amser a dod yn obsesiwn – mae'n hawdd i'ch sylw grwydro wrth i chi ymuno â gwahanol sgysiau
- gofalgwch nad ydych yn gwneud gwallau atalnodi neu sillafu – mae eich Sylwadau a'ch Pyst yn rhoi argraff ohonoch chi a'ch busnes
- rhaid i chi sicrhau nad oes unrhyw sbam neu sylwadau beirniadol heb eu hateb yn ymddangos
- os byddwch yn derbyn unrhyw sylwadau negyddol, maent yn weladwy i bawb – byddwch yn ofalus beth ddywedwch chi!

Mae Facebook yn nodi eich bod "Chi'n gyfrifol am sicrhau bod eich Tudalen yn cydymffurfio â'r holl ddeddfau, statudau a rheoliadau perthnasol". Gallwch ddarllen Telerau Tudalennau Facebook yma https://www.facebook.com/page_guidelines.php.

Pethau i Feddwl Amdanynt

Efallai y bydd angen i chi ystyried ysgrifennu Datganiad Polisi Cyfryngau Cymdeithasol sy'n rhoi canllawiau

corfforaethol i'ch staff ar ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol a sicrhau eu bod yn derbyn digon o hyfforddiant cyn rhoi eu post cyntaf! (Gallech bori'r we i gael esiamplau o Ddatganiadau Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol a'u haddasu fel sy'n ofynnol i ateb eich gofynion chi).

Yn lle treulio eich amser yn cofrestru i mewn ac allan o wahanol gyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol gallwch ddod â phopeth at ei gilydd ar un o lwyfannau rheoli'r cyfryngau cymdeithasol, megis Hootsuite neu TweetDeck. Bydd y rhain yn eich helpu i gyfuno a rheoli nifer o gyfrifon oll mewn un lle. Gallwch weld pwy sy'n eich Hoffi ar Facebook, clywed y diweddaraf am eich grwpiau ar LinkedIn a'ch sgysiau Twitter diweddaraf oll mewn un lle.

Defnyddio Twitter i Hybu eich Busnes Twristiaeth

Mae Twitter yn llwyfan gwyb yn y cyfryngau cymdeithasol – gallwch ei ddefnyddio i'ch helpu i hybu eich busnes twristiaeth. Bydd yn eich cysylltu ar unwaith gyda rhwydwaith o oddeutu 200 miliwn o ddefnyddwyr, ac mae'r nifer yma'n tyfu!

Mae'n hawdd ysgrifennu neges drydar, mae'n hawdd ei darllen ac mae'n ffordd bwerus ac uniongyrchol o hysbysebu eich busnes twristiaeth. Mae'r chwilotwyr mawr yn caru Twitter – maent yn rhoi sgôr uchel iddo. Mae hyn yn rhoi mwy o gyfle i'ch busnes gael ei ganfod, oherwydd gallai eich negeseuon trydar a'ch proffil ymddangos yng nghanlyniadau'r chwilotwyr. Yn well fyth, mae'n rhad ac am ddim!

Efallai yr hoffech ddarllen ein taflen ffeithiau "Marchnata yn y Cyfryngau Cymdeithasol – Dechrau Arni".

Beth yw Twitter?

Mae Twitter yn safle rhwydweithio cymdeithasol a micro-flogio rhad ac am ddim, sy'n gadael i chi bostio negeseuon testun byrion o'r enw Negeseuon Trydar sy'n gallu cynnwys hyd at 140 o gymeriadau (mae llythrennau, rhifau, symbolau, atalnodi a bylchau, oll yn cyfri fel cymeriadau) at ddefnyddwyr eraill. Gallwch hefyd gynnwys dolenni at dudalennau ar y we, lluniau a fideos yn eich negeseuon Trydar.

Defnyddiwch Twitter i hybu'ch busnes twristiaeth, canfod dilynwyr ac ehangu'ch rhwydwaith. Cofiwch "esboniwch y peth er mwyn gwerthu'r peth!"

Mae'r bocs uchod yn cynnwys 140 o gymeriadau yn union!

Gallwch fynd i mewn i Twitter o ap ar eich dyfais symudol (ffôn clyfar, iPad ac ati) neu o borwyr. Gall unrhyw un ddarllen, ysgrifennu a rhannu eu negeseuon Trydar. Mae'r Trydar yn gyhoeddus ac ar gael i unrhyw un sydd â diddordeb ynddynt (mae hynny wedi'i ragosod yn y system). Bydd defnyddwyr

Twitter yn tanysgrifio i'ch negeseuon Trydar drwy eich "Dilyn" chi. Bydd eich negeseuon Trydar yn ymddangos ar eich proffil eich hun a bydd eich Dilynwyr yn derbyn eich negeseuon Trydar ar eu llinell amser. Gall y byd cyfan eu gweld.

Byddwch yn gweld bod gan Twitter ei jargon ei hun, fel technolegau eraill. Mae rhestr lawn yn y Rhestr Termau Twitter, (<http://support.twitter.com/articles/166337-the-twitter-glossary>), ond byddwn yn delio â llawer o'r prif rai yma, wrth i ni fynd yn ein blaenau.

Pam ddylwn i ddefnyddio Twitter?

Mae Twitter yn arf gwerthfawr i'ch busnes twristiaeth – mae'n rhad ac am ddim ac mae'n gadael i chi gyrraedd llawer o bobl ar unwaith. Mae miliynau o bobl, yn cynnwys eich cystadleuwyr, eich ymwelwyr presennol a phobl allai ddod yn ymwelwyr, yn defnyddio Twitter yn barod. Byddwch yn gallu:

- adeiladu perthynas a chysylltu gyda'ch ymwelwyr presennol ac ymwelwyr posibl
- cyhoeddi cynigion, digwyddiadau lleol a hyrwyddiadau sydd ar y gweill

- sôn wrth eich dilynwyr am gynnwys diddorol newydd ar eich gwefan, a fydd yn gyrru traffig i'ch gwefan
- mynd at eich marchnad darged a chynyddu eich cronfa o ymwelwyr posibl
- ymchwilio ac ehangu eich cronfa o ymwelwyr drwy ganfod diddordebau eich marchnad darged a'u dilyn nhw ar Twitter
- dilyn ac ymateb i'r hyn mae pobl yn ei ddweud am eich busnes twristiaeth
- derbyn a rhoi adborth gwerthfawr
- dilyn busnesau twristiaeth lleol eraill, i ganfod a rhannu gwybodaeth

Y farn yw bod gan Twitter fwy na 200 miliwn o ddefnyddwyr gweithredol sy'n cynhyrchu mwy na 400 miliwn o negeseuon trydar bob dydd ac mae'r nifer yma'n cynyddu drwy'r amser.

Beth Ydych chi ei Eisiau gan Twitter?

Cyn i chi gofrestru a dechrau Trydar, mae'n syniad da i chi ddiffinio eich amcanion a thargedau Twitter. Unwaith y bydd y rhain gennych, byddwch mewn sefyllfa lawer gwell i ddefnyddio Twitter yn effeithiol. Ystyriwch:

- Pam ydych chi'n ystyried defnyddio Twitter – ydy hwn yn gywir i chi a'ch busnes?
- Ydych chi'n mynd i ddefnyddio Twitter i anfon gwybodaeth allan yn bennaf, neu ydych chi eisiau derbyn gwybodaeth hefyd?
- Pa bynciau ydych chi eisiau trydar amdanynt – am beth ydych chi'n bwriadu siarad ar Twitter?
- Pwy fydd eich cynulleidfada darged? Pa ardal dddearyddol / demograffeg ydych chi'n anelu amdano? Ydych chi'n gobeithio denu ymwelwyr

newydd, cadw cysylltiad ag ymwelwyr presennol, neu'r ddau?

- Pa mor aml fyddwch chi'n Trydar?
- Y tòn a ddefnyddiwch yn eich negeseuon Trydar

Mae'n Hawdd Cofrestru ar Twitter

Cyn i chi allu defnyddio Twitter bydd angen i chi gofrestru i gael cyfrif – os ewch i www.twitter.com, rhwch eich gwybodaeth yn y bocs 'New to Twitter' ac yna cliciwch ar y botwm 'Sign up for Twitter'. Mae hwn yn debyg i ddewin a bydd yn eich arwain drwy gamau sylfaenol sefydlu eich Cyfrif Twitter a defnyddio Twitter. Gallwch ddilyn hwn drwy bob cam neu gallwch ddewis 'neidio' os mynnwch.

Os hoffech ragor o fanylion, ewch i Signing up with Twitter (<https://support.twitter.com/entries/100990-how-to-sign-up-on-twitter>) yng Nghanolfan Gymorth Twitter.

Cwblhau a Diweddarau eich Proffil a'ch Gosodiadau

Mae angen i chi gwblhau a diweddarau eich proffil a'ch gosodiadau cyn i chi ddechrau dilyn pobl oherwydd bydd y bobl rydych yn eu dilyn yn defnyddio'r wybodaeth yma i benderfynu a ydynt eisiau – o'r gwymplen eicon gêr sydd yn y bar llywio du, dewiswch 'Settings' – yna gallwch gwblhau'r tabiau a ganlyn.

Tab y Cyfrif – yma gallwch newid eich gwybodaeth sylfaenol am eich cyfrif, eich gosodiadau iaith, eich gosodiadau preifatrwydd a'ch lleoliad.

Mae eich enw defnyddiwr yn bwysig, defnyddiwch enw eich busnes neu eich enw parth os gallwch – bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddod o hyd i chi. Dyma'r enw y bydd eich Dilynwyr yn ei ddefnyddio hefyd wrth anfon @ Replies, @Direct Messages neu wrth

Aildrydaru, er enghraifft @CroesoCymru. Rhaid i enwau defnyddwyr gynnwys llai na 15 cymeriad. Gallwch newid eich enw defnyddiwr unrhyw bryd ac ni fydd hyn yn effeithio ar y dilynwyr sydd gennych yn barod.

Tab y Cyfrinair – mae’n rhaid i’ch cyfrinair fod rhwng 6 a 15 cymeriad ac nid yn air y byddwch yn ei ganfod mewn geiriadur. Mae’n syniad newid eich cyfrinair yn rheolaidd.

Tab y Ffôn Symudol – gallwch dderbyn diweddariadau mewn negeseuon testun pan fydd eich cyfrif yn derbyn negeseuon Trydar ac os yw rhywun wedi cofrestru i gael eu hysbysu am eich negeseuon Trydar, pryd bynnag y byddwch yn eu Trydar nhw, byddent yn eu derbyn fel negeseuon testun ar eu ffôn. Bydd Trydar wrth fynd yn eich helpu i aros mewn cysylltiad â’ch Dilynwyr hefyd.

Tab Hysbysu am Ebost – mae’r gosodiadau yma’n gadael i chi reoli pryd a pha mor aml mae Twitter yn cyfathrebu â chi.

Y Tab Proffil – mae proffil da’n hanfodol – mae eich proffil yn eich cynrychioli chi ar Twitter. Bydd angen i chi feddwl yn ofalus am y geiriau allweddol y byddai pobl yn eu defnyddio wrth chwilio am eich cynnyrch neu wasanaeth a chynnwys y rhain yn eich Proffil. Bydd hyn yn helpu pobl i ddod o hyd i chi ar Twitter a byddwch yn fwy tebygol o ymddangos yng nghanlyniadau chwilio Twitter. Bydd yr wybodaeth hon yn ymddangos pan fydd pobl yn gweld eich proffil ac hefyd pan fyddwch chi’n Dilyn pobl, felly bydd yn eu helpu i benderfynu a ydyn nhw am eich Dilyn chi neu beidio.

Llun Proffil – Mae eich llun neu logo proffil ar Twitter yn helpu pobl i’ch adnabod ar unwaith. Mae’n rhaid i’ch llun Proffil fod yn sgwâr, mewn fformat JPG GIF neu PNG, ac heb fod yn fwy na

700k. Bydd Twitter yn newid graddfa eich llun i’r maint cywir ar y sgrin yn awtomatig. Os na fyddwch yn dewis un, y darlun sydd wedi’i osod yn barod (avatar) ar Twitter yw wy.

Llun y pennawd – mae’r llun pennawd yn debyg i’r llun clawr sy’n cael ei ddefnyddio ar Facebook. Bydd eich llun proffil wedi’i gynnwys ynghanol y pennawd. Dylai’r llun fod yn 1252x626 picse, ac heb fod yn fwy na 5MB.

Ychwanegu eich URL – pan fyddwch yn ychwanegu’r ddolen at eich gwefan, cofiwch nad oes raid i hon gysylltu â’ch tudalen hafan. Efallai y byddai’n fwy perthnasol ychwanegu tudalen sy’n dangos digwyddiad sydd ar y gweill yr ydych yn ei hysbysebu neu hyd yn oed dudalen lanio benodol i Twitter.

Eich Manylion ar Twitter – mae hwn yn caniatáu 160 o gymeriadau i roi blas i bobl o’ch personoliaeth a’ch busnes. Prif bwynt eich Manylion Twitter yw gadael i bobl eraill benderfynu a ydynt eisiau eich Dilyn chi. Os ydych eisiau i bobl eich canfod a’ch dilyn, ystyriwch yn ofalus sut yr ydych yn eich cyflwyno eich hun yn eich manylion.

- Gwnewch eich proffil yn ddiddorol ac unigryw
- Esboniwch pwy ydych a’r hyn y gwnewch chi
- Esboniwch sut y gallwch helpu a bod o fudd i’ch Dilynwyr
- Cadwch eich manylion yn bersonol a chyfeillgar
- Defnyddiwch eiriau allweddol – mae’n bwysig bod gennych eiriau allweddol perthnasol yn eich proffil

Rydych yn ceisio tynnu sylw’r defnyddwyr a chadw eu diddordeb.

Defnyddio Twitter gyda Facebook – yma gallwch gysylltu eich cyfrifon Twitter



a Facebook fel y bydd eich negeseuon Trydar yn postio'n awtomatig i'ch tudalen Facebook.

Y Tab Dylunio – pan fyddwch yn newid eich cynllun proffil bydd popeth yn cael ei ddangos yn y thema rydych wedi'i dewis. I newid eich cynllun, dewiswch dempled drwy glicio arno neu gallwch lwytho eich llun cefndir eich hun.

Cyflwyniad i Far Llywio Twitter

Mae'r bar llywio llorweddol du ar dop y sgrin Twitter yn gadael i chi agor y tudalennau yma:

Y dudalen Hafan – yw'r fan yr ewch iddi wrth fewngofnodi i'ch cyfrif Twitter. Mae ffrwd o negeseuon Trydar a bostiwyd gan yr holl bobl a "ddilynwch" ar Twitter i'w gweld ar ochr dde'r sgrin. Mae'n dangos i chi faint o ddilynwyr sydd gennych, sawl neges Drydar rydych wedi'u Trydar, mae'n eich gwahodd i gyfansoddi neges Drydar, gweld awgrymiadau ynglŷn â phwy i'w dilyn a rhestr o bynciau Trendio.

Y dudalen @ Connect – mae hon yn dangos llinell amser eich Rhyngweithio, sy'n dangos i chi sut mae pobl eraill wedi bod yn rhyngweithio â chi ar Twitter.

Y Dudalen # Discover – mae hon yn cynnwys pum tab, sef:

Y Tab Negeseuon Trydar – sy'n dangos y negeseuon trydar mwyaf poblogaidd gan bobl a ddilynwch.

Y Tab Gweithgareddau – sy'n dangos y Ffeyrnau, Ail-drydar a Dilyniant diweddaraf gan y bobl rydych yn eu dilyn ar Twitter.

Y Tab Pwy i'w Dilyn – mae hwn yn argymhell cyfrifon newydd a allai fod o ddiddordeb i chi. Mae'r rhain wedi'u

seilio ar y cyfrifon rydych yn eu dilyn yn barod.

Y Tab Canfod Cyfeillion – mae hwn yn gadael i chi fewnforio a dilyn eich cyfeillion a chydweithwyr o'ch llyfr cyfeiriadau e-bost.

Y Tab Cyfrifon Poblogaidd – mae hwn yn eich gwahodd i ddewis pynciau y mae gennych ddiddordeb ynddynt a chwilio am bobl i'w dilyn.

Fy Nhudalen I – mae hwn yn rhoi brasolwg cyffredinol i chi o'ch cyfrif. Mae'n dangos eich negeseuon Trydar, lluniau, ystadegau a'ch proffil.

Y Bocs Chwilio – gallwch ddefnyddio hwn i ganfod defnyddwyr neu eiriau allweddol.

Eicon y Gêr – cliciwch ar y saeth gwympto i anfon negeseuon uniongyrchol, i greu neu i fynd i mewn i'ch rhestr, y ddewislen gymorth, llwybrau byrion defnyddiol y bysellfwrdd, golygu eich Gosodiadau ac Allgofnodi.

Y Bocs Cyfansoddi Trydar Newydd – cliciwch i mewn i gyfansoddi eich negeseuon Trydar (mae'n edrych fel pluen ysgrifennu) .

Canfod eich Dilynwyr

Pan fyddwch yn cofrestru, mae Twitter yn cynnig eich helpu i ganfod eich cydweithwyr neu gyfeillion presennol sydd wedi ymuno'n barod drwy chwilio eich cysylltiadau e-bost – gallwch neidio'r cam yma os byddai'n well gennych beidio rhannu'r wybodaeth yma. Mae hefyd yn bosibl canfod pobl rydych yn eu nabod drwy:

- Deipio enw yn y bocs chwilio ar eich tudalen hafan

- Teipio enw defnyddiwr Twitter yn uniongyrchol i'ch porwr (<http://twitter.com/CroesoCymru>)
- Defnyddio'r HashNod i ganfod Dilynwyr sydd â'r un diddordebau â chi
- Mewnforio cysylltiadau presennol o'ch llyfr cyfeiriadau ebost i weld pwy sydd ar Twitter
- Pori'r awgrymiadau a gynhyrchodd Twitter i chi – byddwch yn gweld y rhain ar ochr chwith eich sgrin o dan y pennawd "Pwy i'w dilyn"

Bydd rhai pobl yn eich dilyn gan obeithio y byddwch yn eu dilyn yn ôl ac yna'n eich dad-ddilyn ar unwaith! (Mae offer rhad ac am ddim ar gael ar y we i'ch helpu i ganfod y rhain).

Am Beth Allaf i Drydar?

Pwrpas Twitter yw rhoi cyfle i chi rannu pethau y gallai eich Dilynwyr eu cael yn ddefnyddiol, yn ddiddorol, yn gyffrous neu'n ddoniol!

Mae dewis yr hyn rydych yn Trydar amdano a pha mor aml yr ydych yn Trydar, yn ddewis personol iawn. Gallech gyflwyno'r ier sy'n dodwy'r wyau pen domen a gynigiwch i frecwast, gallech rannu digwyddiadau lleol neu rywbeth rydych wedi'i ddysgu...chi pïau'r dewis! Dyma rai awgrymiadau i fusnesau twristiaeth ac awgrymiadau am yr hyn y gallech Drydar amdano:

- Bargeinion arbennig (yn enwedig os ydyw i'ch dilynwyr Twitter yn unig)
- Atyniadau a digwyddiadau yn eich ardal
- Lluniau tymhorol – y tymhorau'n newid, adar prin yr ydych wedi'u gweld ac ati
- Cynigion yn cyfeirio pobl at eich blog neu wefan

- Ail-drydar negeseuon sy'n ddiddorol i'ch Dilynwyr (Yna efallai y bydd rhywun yn Ail-drydar eich negeseuon Trydar chi!)
- Dolenni at adnoddau, cynnwys, erthyglau, lluniau neu fideos blogwyr eraill
- Mae #FollowFriday neu #FF, yn argymhell busnesau twristiaeth perthnasol eraill i'w dilyn
- Rhannu eich barn a dolenni at offer ar y we a ddefnyddiwrch
- Sylwadau am bethau diddorol yr ydych yn eu gwneud yn eich busnes, neu yn eich bywyd personol
- Rhoi sylwadau am yr hyn mae pobl yn ei ddweud
- Rhoi cymorth, adborth a chanmoliaeth.

Dylech amrywio eich neges ar eich gwahanol safleoedd cyfryngau cymdeithasol – os byddwch yn postio yr un neges at eich holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gallech eu gwneud yn llai effeithiol a gwerthfawr.

Eich Negeseuon Trydar Cyntaf

Pan fyddwch yn mewngofnodi i Twitter i ddechrau, ymlaciwch, gwrandewch a gwyliwch. Gall gymryd ychydig o amser i chi deimlo'n gyfforddus â'r holl brofiad Twitter. Treuliwch amser, edrychwch ar negeseuon Trydar defnyddwyr eraill a chadwch eich targedau Twitter yn eich meddwl.

Fydd gennych chi ddim dilynwyr i ddechrau – felly mae'n syniad da bod â rhai negeseuon Trydar diddorol yn eich proffil fel bod pobl yn gallu eu darllen. Bydd hyn yn eu helpu i benderfynu a ddylent eich dilyn ai peidio!

Mathau o Negeseuon Trydar

Negeseuon Trydar Arferol – mae pawb sy'n eich Dilyn chi'n gweld neges drydar gyhoeddus, bydd yn ymddangos ar linell amser eu Hafan, eich tudalen proffil chi a llinell amser eich Hafan chi. Mae neges Drydar arferol yn cychwyn gydag unrhyw gymeriad heblaw'r symbol @. Ni fydd yn ymddangos ar dudalen broffil unrhyw un arall heblaw eu bod wedi ei Ailadrodd.



I anfon neges Drydar arferol, ewch i'ch tab hafan a theipio eich neges Drydar i'r bocs ar gornel chwith uchaf y sgrin sydd â'r geiriau 'Compose New Tweet' – gallwch hefyd ychwanegu ffotograff drwy glicio'r camera. Mae'n syniad cadw negeseuon Trydar i 120 cymeriad rhag ofn y cânt eu hail-drydar.



Neu cliciwch ar y botwm Compose Tweet (mae'n edrych fel pluen) yng nghornel dde uchaf y sgrin.

@Atebion – neges drydar gyhoeddus sy'n cychwyn gydag enw defnyddiwr arall. Mae'n ateb i un o'u negeseuon Trydar. Mae'n ymddangos ar dudalen Proffil yr anfonwr, yn nhabiau Crybwyll a Rhyngweithio'r Derbyniwr, ac os yw'r Derbyniwr yn dilyn yr Anfonwyr bydd yn ymddangos yn Llinell Amser eu Hafan. Bydd unrhyw un sy'n dilyn Anfonwr a Derbyniwr @ateb yn ei weld yn Llinell Amser eu Hafan.



Neges uniongyrchol (DM) – neges drydar breifat. Dim ond at un o'ch Dilynwyr y gallwch anfon DM a dim ond gan ddefnyddwyr yr ydych yn eu dilyn y gallwch dderbyn negeseuon uniongyrchol. Yna gallwch anfon y rhain drwy gychwyn eich neges Drydar gyda **DM** neu **D@CroesoCymru**, neu cliciwch ar **Direct Messages** o'r gwymplen **eicon gêr** yn eich bar llywio a **dewis New Message** – dyma lle byddwch yn dod o hyd i unrhyw Negeseuon Uniongyrchol a anfonwyd atoch chi hefyd.

Ail-drydar – os bydd rhywun yn hoffi eich neges Drydar gallent ei hanfon ymlaen i'w dilynwyr. Os yw eich negeseuon trydar yn ychwanegu gwerth, bydd pobl yn fwy tebygol o'u Hail-drydar i'w Dilynwyr, a bydd hyn yn rhoi cynulleidfahangach i chi. Os bydd rhywun yn Trydar dolen dda, Ail-drydarwch. Os bydd rhywun yn Ail-drydar eich negeseuon Trydar, diolchwch iddynt. Ail-drydarwch ac atebwch negeseuon trydar diddorol y mae eich Dilynwyr yn eu postio. Bydd y rhyngweithio yma'n eich helpu i adeiladu perthynas gyda'ch Dilynwyr a byddwch yn dod i wybod yr hyn maen nhw ei eisiau a sut y gallech eu helpu.

Defnyddiwch HashNodau # – maen nhw'n ffordd o gategoreiddio eich diweddariadau ar gyfer chwilotwyr Twitter. Rydych yn rhoi # o flaen gair neu ymadrodd perthnasol, er enghraifft #Gogledd Cymru i gategoreiddio'r negeseuon Trydar hynny a helpu i'w dangos yn haws yng nghanlyniadau'r Chwiliad Twitter.

Gallwch gynyddu'r siawns y bydd pobl nad ydynt yn eich dilyn yn dod o hyd i'ch negeseuon Trydar drwy gynnwys @

HashNod perthnasol yn eich negeseuon Trydar. Defnyddiwch HashNodau perthnasol i ddod o hyd i sgysiau y byddwch efallai eisiau ymuno â nhw – efallai y dewch o hyd i rywun yn chwilio am #Gwyliau yn#Cymru. Cyfngwch eich HashNodau i 2 i bob neges drydar.

Rhowch Wybod i Bawb eich bod ar Twitter

Pan fyddwch yn creu eich cyfrif i ddechrau, daw eich enw defnyddiwr @CroesoCymru yn rhan o'ch URL Twitter (<http://twitter.com/CroesoCymru>).

- Mae eich URL Twitter yn eich cysylltu'n uniongyrchol â'ch tudalen proffil a dyma'r ffordd hawsaf a chyflymaf i bobl eraill eich canfod ar Twitter.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn e-bostio'r URL yma at eich cysylltiadau ac yn ei rannu bob tro y byddwch yn siarad am Twitter, ar eich deunydd ysgrifennu, e-byst, tudalennau gwe, ym **MHOB MAN!**

Os ydych eisiau denu mwy o bobl i'ch rhwydwaith Twitter bydd angen i chi integreiddio eich marchnata yn y cyfngau cymdeithasol, gyda'ch marchnata ar-lein ac all-lein. Gallwch ddangos eich ffrwd Twitter a'ch eiconau dolennadwy yn hawdd ar eich gwefan eich hun.

Monitro eich Ymdrechion Cyfngau Cymdeithasol

Sut fyddwch chi'n gwybod pa mor effeithiol yw eich ymgyrchoedd yn y cyfngau cymdeithasol os nad ydych yn mesur unrhyw fetrigau – faint o'ch buddsoddiad ydych chi'n ei ennill yn ôl? Gallwch ddefnyddio eich rhaglen ddadansoddi i fonitro:

- Nifer yr ymwelwyr yr ydych yn eu cael ar eich safleoedd cyfngau cymdeithasol

- Faint o bobl sy'n darllen ac yn rhannu eich pyst
- O lle maen nhw'n dod a pha mor hir maent yn aros
- Beth sy'n boblogaidd gyda'ch ymwelwyr
- A yw eich gwefan busnes yn derbyn ymwelwyr o'ch safleoedd cyfngau cymdeithasol
- Beth sy'n gwneud iddynt adael eich safle

Gall offer megis HootSuite roi golwg gyffredinol i chi ar eich cyfrif Twitter, drwy olrhain nifer y dilynwyr, rhestrau, crybwylliadau, geiriau allweddol ac ati (Gwelwch – Pethau i'w Hystyried).

Defnyddiwch offeryn Chwilio Twitter i ganfod pa bethau mae pobl yn eu trydar am eich busnes, eich cynhyrchion neu eich cystadleuwyr.

Pethau i'w Cofio

Mae werth nodi:

- Bod y rhyngwyneb a'r jargon yn gallu edrych yn gymhleth i ddechrau, ond byddwch yn dod i arfer ag o'n gyflym iawn
- Efallai bod llawer o'r bobl sy'n eich dilyn heb lawer o ddiddordeb yn yr hyn sydd gennych i'w ddweud
- Gallwch fynd yn gaeth i ddefnyddio Twitter a gall gymryd llawer o'ch amser – mae'n hawdd i'ch sylw gael ei dynnu wrth i chi ymuno ag amrywiol sgysiau
- Ni allwch fynegi popeth yn ddigonol mewn 140 o gymeriadau
- Os byddwch yn derbyn sylwadau niweidiol maen nhw'n weladwy i bawb – byddwch yn ofalus beth rydych yn ei Drydar neu'n ei Ail-drydar, dydych chi ddim eisiau digio unrhyw rai o'ch Dilynwyr neu achosi gofid iddynt

-
- Os byddwch yn rhoi neges sarhaus am rywun ar unrhyw safle cyfryngau cymdeithasol gallwch gael eich siwio am enllib. Mae yr un fath â chyhoeddi gwybodaeth niweidiol neu ffals
 - Gwylwch nad ydych yn gwneud unrhyw wallau teipio neu atalnodi – mae eich negeseuon trydar yn rhoi argraff ohonoch chi a'ch busnes
 - Gallai unrhyw beth da neu ddrwg yr ydych yn ei bostio ar y we ymddangos yng nghanlyniadau'r chwilotwyr, a gallai aros ar y we am flynyddoedd

Pethau i'w Hystyried

Efallai y bydd angen i chi ystyried ysgrifennu Datganiad Polisi am y Cyfryngau Cymdeithasol sy'n rhoi canllawiau corfforaethol i'ch staff ar ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol a sicrhau eu bod yn derbyn digon o hyfforddiant cyn rhoi eu post neu neges drydar gyntaf! (Gallech bori'r we i ganfod esiamplau o Ddatganiadau Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol a'u haddasu i ateb eich gofynion chi).

Yn lle treulio eich amser yn mewngofnodi ac allgofnodi o amrywiol gyfrifon cyfryngau cymdeithasol gallech gyfuno eich ymdrechion gyda llwyfan rheoli cyfryngau cymdeithasol megis HootSuite neu TweetDeck a fydd yn eich helpu i reoli a chyfuno nifer o gyfrifon oll mewn un lle. Gallwch weld pwy sy'n eich Hoffi chi ar Facebook, cadw eich llygad ar eich grwpiau ar LinkedIn a gwybod yn union beth sy'n digwydd drwy gadw eich sgysiau Twitter oll mewn un lle.

Defnyddio Pinterest i Hybu'ch Busnes Twristiaeth

Ydych chi wedi dechrau defnyddio Pinterest eto i hybu eich busnes twristiaeth? Gallai Pinterest eich helpu i achub y blaen ar eich cystadleuaeth a'ch cysylltu gyda'ch ymwelwyr ar-lein. Gall roi mwy o wybodaeth i chi a chreu enw da i chi ar-lein. Mae hynny'n werthfawr iawn.

Mae Pinterest yn boblogaidd iawn gyda phobl sydd ar eu gwyliau. Mae'n safle sy'n llawn lluniau ac mae'r gynulleidfa sy'n tyfu'n gyflym iawn yn llawn o bobl sy'n hapus i dreulio oriau'n chwilota. Ar hyn o bryd mae oddeutu 70% o ddefnyddwyr Pinterest yn ferched, ac mae eu hanner nhw'n dweud eu bod wedi mynd ymlaen i brynu rhywbeth ar sail yr hyn a welsant ar Pinterest.

Pwy yw eich cynulleidfa darged? A phwy sy'n gwneud y penderfyniadau am deithio a gwyliau yn y cartrefi ac yn y busnesau rydych yn gobeithio eu cyrraedd? Efallai mai Pinterest ydy'r sianel i chi.

Beth yw Pinterest?

Yn sylfaenol, hysbysfwrdd ar y we ydy Pinterest. Gallwch ei ddefnyddio i rannu ac arddangos pethau sydd o ddiddordeb i chi, p'un a ydyn nhw ar y we neu mewn bywyd go iawn. Bwriad Pinterest ydy "cysylltu pawb yn y byd drwy'r 'pethau' maen nhw'n eu cael yn ddiddorol".

Gwelwyd fod Pinterest yn cyfri am oddeutu 23% o'r holl werthiannau ar-lein ar y cyfryngau cymdeithasol.


Gallwch ddefnyddio Pinterest hefyd fel nod llyfr cymdeithasol, i storio eich hoff wefannau, lluniau neu fideos er mwyn i chi allu mynd i mewn iddyn nhw'n hawdd rywbryd arall neu ar amser mwy cyfleus. Fel arfer, y porwr sy'n cynnig y cofnodi yma, os agorwch gwymplen i weld y dewisiadau. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n anodd rhannu nodau llyfr, am eu bod nhw wedi storio ar eich dyfais chi. Gyda Pinterest, mae eich nodau llyfr (Pinnau) ar gael drwy wefan felly maen nhw ar gael ar unrhyw ddyfais, a gallwch binio unrhyw beth sydd o ddiddordeb i chi

(Pinning It). Gallwch drefnu eich Pinnau mewn categorïau o eitemau perthnasol drwy Fyrddau.

Yna mae'r byrddau a'r pinnau yma'n cael eu rhannu gyda'ch ymwelwyr a'ch cwsmeriaid (a alwn yn 'Ffrindiau' neu 'Binwyr' ar Pinterest) a gallent hwy hoffi neu ail-binio'r rhain ar eu byrddau eu hunain.

Fel arfer, lluniau ydy'r pinnau, sydd wedi eu tynnu i mewn o'r dudalen ar y we sydd wedi'i phinio, ond gall y rhain fod yn fideos hefyd sy'n cael eu rhannu gyda defnyddwyr Pinterest eraill ac ar draws y we. Mae modd clicio ar y lluniau ac maent yn cymryd eich ymwelwyr at ffynhonnell y Pin. Mae hyn yn ffordd wych o lywio eich ymwelwyr at eich gwefan chi – gwnewch yn siŵr bod eich gwefan yn dda, mae'n bwysig rhoi argraff gyntaf ragorol.

Yn wahanol i blatfformau cyfryngau cymdeithasol eraill, sydd wedi cynhyrchu eu hincwm o hysbysebu, mae Pinterest yn derbyn canran o'r gwerthiannau sy'n



dod o binnau ar eu safle. Mae'r dolenni ar y safle'n cael eu sganio ac, os ydynt yn cysylltu gyda safle gwerthu gyda rhaglen gysylltiedig, mae'n ychwanegu cod i fonitro'r gwerthiannau sy'n deillio o'r ddolen honno.

Mae'r llun nesaf yn dangos proffil Pinterest Croeso Cymru.

Dechrau Arni – Deall Jargon Pinterest

Pin – dyma lun neu fideo yr ydych yn eich ychwanegu at Pinterest. Gallwch ychwanegu pin o wefan neu ei lwytho o'ch cyfrifiadur. Gallwch ail-binio pinnau ac maen nhw i gyd yn cysylltu'n ôl at y wefan y daethent ohoni'n wreiddiol.



Mae amrywiol ffyrdd o ychwanegu pinnau, gallwch:

- Glicio  Pin It ar unrhyw bin a welwch ar Pinterest
- Ychwanegu'r botwm Pin It i'ch porwr ar y we er mwyn i chi allu pinio o wefannau

- Drwy glicio'r + ar dop y sgrin Pinterest byddwch yn gallu llwytho llun o'ch cyfrifiadur
- Defnyddio ap symudol a phinio o'ch dyfais symudol

Bwrdd – dyma lle'r ydych yn casglu a threfnu eich pinnau yn ôl y pwnc. Er enghraifft, gallech greu bwrdd sy'n dangos yr holl atyniadau lleol yn eich ardal, un o'ch bythynnod gwyliau neu'r bwyd lleol gwyh sydd ar gael yn eich bwyty.

Pan fyddwch yn **Dilyn** unigolyn neu fusnes – byddwch yn gweld eu pinnau yn eich porthiant ar eich tudalen hafan. Os ydyn nhw'n creu bwrdd newydd, byddwch chi'n dilyn hwnnw'n awtomatig. Pan fyddwch yn dilyn bwrdd rydych yn gweld pinnau newydd sydd wedi'u hychwanegu at y bwrdd yn eich porthiant ar eich tudalen hafan. Wrth gwrs, gallwch roi'r gorau i ddilyn pobl neu fyrddau unrhyw bryd – fyddan nhw ddim yn cael gwybod eich bod wedi rhoi'r gorau i'w dilyn nhw.

Pan fyddwch yn **Hoffi** pin bydd yn mynd i adran 'hoffi' eich proffil, yn hytrach na bwrdd penodol ac rydych yn cefnogi'r pin yma. Os nad ydych yn siŵr pa fwrdd i'w Binio ato, gallech gadw'r pin – 'Save'. I hoffi pin, rhowch eich llygoden dros y pin a chlicio ar eicon y galon yn y gornel dde uchaf.

Pam ddylwn i Ddefnyddio Pinterest i Hybu fy Musnes?

Pinterest ydy'r dechnoleg ddiweddaraf yn y cyfryngau cymdeithasol i ennyn diddordeb y byd busnes. Y farn yw mai hon yw'r wefan sy'n tyfu gyflymaf yn y cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd. Er bod Facebook a Twitter yn dal ar flaen y gad o ran nifer y bobl sy'n eu defnyddio, gwelwyd fod Pinterest yn cyfri am oddeutu 23% o'r holl werthiannau ar-lein o safleoedd y cyfryngau cymdeithasol. Gwelwyd hefyd ei fod yn cynyddu'r prynu oddi ar y we hefyd.

Mae byrddau twristiaeth yn cynrychioli oddeutu 2.5% o'r holl fyrddau Pinterest ac mae'r pinnau twristiaeth yn cyfri am oddeutu 2.7% o'r holl binnau. O ystyried



yr holl bynciau sy'n rhan o Pinterest, mae hwn yn ganran mawr i un maes topig. Fel arfer bydd y rhain yn cynnwys byrddau o'r enw 'Bucket List', 'Holidays' neu fannau gwyliau penodol.

Mae gan Pinterest nifer o fanteision i fusnesau twristiaeth fel gwestai, tai gwyliau, lletai hunanarlwyo a mannau gwely a brecwast. Gallwch dynnu sylw at eich llety a'ch cyfleusterau, ynghyd â'r amrywiol weithgareddau, safleoedd treftadaeth, pensaernïaeth a phopeth arall sydd o ddiddordeb i'ch marchnad darged, yn eich ardal eich hun. Mae hefyd yn gadael i chi gysylltu gydag ymwelwyr posibl a gyda gwerthwyr gwyliau eraill.

Mae byrddau Pinterest yn ffordd effeithiol o gasglu syniadau i gwsmeriaid wrth gynllunio eu teithiau. Mae'n sicrh y byddai eich busnes twristiaeth yn elwa o fod ar Pinterest, p'un a yw hynny i ysbrydoli drwy luniau effeithiol neu i ennyn diddordeb mewn lle gwyliau arbennig.


Mae'r ffaith fod pobl yn aml yn postio dolenni at safleoedd manwerthu'n golygu bod Pinterest yn gallu cynnig cyfleoedd masnachol gwych.

Mae llawer o fusnesau'n defnyddio Pinterest i arddangos eu brand i gynulleidfa o fwy na 70 miliwn o ddefnyddwyr Pinterest. Y rheswm am lwyddiant Pinterest i fusnesau yw ei fod yn canolbwyntio ar ddull o fyw, nid ar y cynnyrch yn unig – bydd pobl yn gweld eich brand fel rhywbeth deniadol drwy gysylltiad positif.

Sefydlu eich Busnes ar Pinterest

I sefydlu eich busnes ar Pinterest rhaid i chi'n gyntaf greu cyfrif busnes drwy fynd i <http://business.pinterest.com/setup/>. Bydd angen i chi nodi manylion eich busnes a chreu enw defnyddiwr ar gyfer


Pinterest, a fydd yn sail i URL eich proffil ar Pinterest (e.e. www.pinterest.com/enweichcwmni). Cadwch hwn yn fyr, syml a hawdd ei gofio. Mae cyfyngiad o 15 cymeriad felly os nad yw enw eich busnes yn ffitio, defnyddiwch slogan neu air allweddol perthnasol sy'n gweddu'n dda i'ch busnes.



Cwblhau Proffil eich Busnes

Defnyddiwch yr adran 'About' i ddisgrifio eich busnes orau a'r hyn a wnewch, gan gynnwys rhai o eiriau allweddol mwyaf perthnasol eich busnes. Bydd hyn yn ymddangos ar dop eich tudalen broffil, ac yn bwysicach o dan eich URL ar Pinterest mewn canlyniadau chwilio ar Google.

Rhannwch gyda'ch safleoedd eraill ar y cyfryngau cymdeithasol i hybu eich safle Pinterest.



Os oes gennych gyfrifon gyda safleoedd rhwydweithio cymdeithasol eraill, Facebook, Twitter ac ati, ceisiwch

gynnwys dolenni atynt. Bydd hyn yn helpu i hybu eich safle Pinterest chi. Mae bob amser yn ddefnyddiol creu bwrdd penodol i'ch manylion cysylltu a'ch dolenni ar y cyfryngau cymdeithasol gyda phinnau'n cysylltu atynt.



Gwiriwch wefan eich busnes o'r tu mewn i'ch gosodiadau proffil. Pan fyddwch yn nodi cyfeiriad gwefan eich cwmni, mae botwm i wirio'r wefan. Bydd hyn y gadael i chi lawrlwytho ffeil html, y mae angen ei lwytho i'ch gwefan. Os nad yw hyn yn bosibl, gallwch ychwanegu darn o god y mae modd ei ychwanegu i'ch tudalen ar y wefan. Bydd hyn yn rhoi bathodyn gwirio ar eich proffil. Drwy wneud hyn mae'n helpu i ddangos eich bod chi'n darparu cynnwys cyfreithlon y gall pobl ymddiried ynddo. Mae hefyd yn golygu bod eich busnes yn haws ei ganfod mewn canlyniadau chwilio ar Pinterest.

Unwaith y byddwch wedi cofrestru fel busnes, gallwch agor a defnyddio adnoddau busnes Pinterest, er enghraifft offer Dadansoddeg, astudiaethau achos, botymau Pin y gallwch eu defnyddio ar eich gwefan i hybu eich gweithgareddau Pinterest.

Gosodwch y nod tudalen 'Pin It' ar eich porwr fel eich bod yn gallu bachu lluniau a fideos o wefannau rydych wedi bod arnynt a'u pinio at eich byrddau. Gallwch lawrlwytho'r nod tudalen 'Pin It' o'r dudalen Pinterest Goodies <http://about.pinterest.com/goodies/>. Yn debyg i Facebook a Twitter, mae gan Pinterest fotymau y gallwch eu cynnwys ar eich gwefan eich hun fel bod ymwelwyr yn gallu Pinio eich gwefan chi at eu byrddau a'i gwneud hi'n hawdd ei rhannu,. Mae'r rhain ar gael hefyd ar dudalen Pinterest Goodies.

Mae darlun proffil yn ymddangos ar eich tudalen proffil ac yn cynrychioli eich busnes ar draws y wefan Pinterest. Gallech ddefnyddio logo eich cwmni neu ffotograff o rywun yn eich busnes. Mae pobl yn aml iawn yn defnyddio logo'r cwmni ond mae ffotograff o unigolyn yn gallu gwneud i bobl ymddiried fwy ynoch, a'r gred yw bod yn well gennym wneud busnes gyda phobl rydym yn eu nabod a'u hoffi ac yn ymddiried ynddynt.


Defnyddio Pinterest er budd eich Busnes Twristiaeth

Mae lluniau a fideos yn ganolog i Pinterest, felly ceisiwch ddefnyddio rhai o safon a sicrhau eich bod yn gallu eu pinio a'u bod wedi eu tagio. Efallai y gwelwch gynnwys ar Grŵp Flickr Share Wales, neu sianel YouTube Croeso Cymru, y gallech eu defnyddio fel pinnau.

Gallwch greu amryw o fyrddau gwahanol i gynrychioli eich busnes twristiaeth. Mae byrddau sy'n dangos eich cynhyrchion neu wasanaethau, hanes eich cwmni a lluniau a chefnidir y tîm yn gallu bod yn ddefnyddiol i ddangos eich cwmni a'r hyn yr ydych yn ei gynnig. Gallai bwrdd cwsmeriaid/VIP adael i ymwelwyr binio eu lluniau eu hunain ar ôl iddyn nhw ymweld â'ch busnes a thynnu lluniau o'r ymweliad. Byddai defnyddio bwrdd cynhyrchion neu wasanaethau'n helpu i hybu eich busnes i gynulleidfa llawer ehangach nag y gall eich gwefan ei denu.

Ystyriwch am beth mae ymwelwyr â'ch busnes yn debygol o chwilio, ac yna crëwch fyrddau/pinnau fydd yn eu denu nhw. Dylech geisio rhoi disgrifiadau ystyrlon i'ch byrddau, a'u cadw nhw'n benodol ac yn unigryw. Bydd hyn yn golygu eu bod nhw'n haws eu canfod a'u gweld mewn canlyniadau chwilio.

Esiamlau o fyrddau o dudalen Pinterest Croeso Cymru



Gallwch gysylltu'n weithredol gyda Phinwyr eraill (yr ydych yn eu dilyn) drwy Ail-binio eu cynnwys a'u tagio mewn sylw neu ddisgrifiad Pin. Mae hyn yn debyg i roi tagiau yn Facebook neu grybwyll rhywun ar Twitter. Yn syml iawn, defnyddiwch y symbol @ o flaen eu henw defnyddiwr, h.y. @visitwales pan fyddwch yn dechrau teipio eu henw. Bydd Pinterest yn creu cwmpen i chi'n awtomatig o enwau y gallech ddewis ohonynt. Bydd y Piniwr yn derbyn hysbysiad eich bod wedi eu tagio a byddwch yn boblogaidd iawn gyda nhw am dynnu sylw at eu Pin.

Os ydych yn gwerthu cynnyrch neu wasanaeth, rhowch werth yr eitem yn y disgrifiad, gyda'r symbol £ o'i flaen e.e. aros dros nos am 2 noson, dim ond £100. Trwy wneud hyn, bydd y pris wedi'i labelu at eich pin a bydd i'w weld yn yr adran Pinterest Gift.


Bydd rhai o'ch byrddau'n fwy poblogaidd nag eraill ac yn cynhyrchu mwy o ddilynwyr. Postiwch y rhain yn fwy rheolaidd fel eich bod yn gallu cyrraedd y nifer fwyaf o bobl. Bydd hyn yn cynyddu'r nifer sy'n cael eu hail-binio ac, yn ei dro, nifer y dilynwyr.

Cymerwch eich amser i edrych ar fyrddau eich dilynwyr, i weld beth yw eu diddordebau, er mwyn i chi allu teilwra eich byrddau a'u hannog nhw i ryngweithio gyda chi. Mae werth monitro beth sy'n boblogaidd gyda defnyddwyr Pinterest a sut y gallwch ddefnyddio'r patrymau poblogrwydd gyda'ch Pinnau chi.

Mae Pinterest yn ffordd wych o gynnal cystadlaethau i gael mwy o bobl i gymryd diddordeb a chysylltu. Dilynwch ganllawiau Pinterest at y cystadlaethau drwy wyllo <http://business.pinterest.com/logos-and-marketing-guidelines/>



Os byddwch yn rhoi fideos yn eich gwefan a'ch defnydd marchnata, crëwch fwrdd i'w dangos nhw. Bydd hynny'n cynyddu'r ymgysylltu a'r rhyngweithio gyda'ch ymwelwyr. Os byddwch yn anodi eich fideos gyda'r neges "pin this video to Pinterest", bydd y fideo'n cael ei ychwanegu at Pinterest Video, <http://www.pinterest.com/videos/>.



ffordd orau o deilwra a datblygu eich safle a'ch byrddau eich hun. Bwysicaf oll, mae'n dangos beth mae pobl yn ei garu am eich gwefan a'ch busnes.

Dadansoddeg Gwe Pinterest

Mae Pinterest i Fusnesau'n cynnig offer dadansoddeg rhagorol i asesu eich perfformiad ar Pinterest. Rhaid dilysu eich gwefan gyda Pinterest cyn i chi allu cael gafael ar yr offer yma, felly cofiwch gwblhau'r cam hwnnw.

I ddadansoddi eich cyfrif ac i weld pwy sy'n rhannu eich cynnwys ewch i <http://www.pinterest.com/source/yourUsername>. Gallwch hefyd Glicio ar 'Analytics' yn y ddewislen o dan eich enw – o'r fan yma gallwch weld y rhyngweithio sy'n digwydd ar eich safle e.e. Pinnau, Ailbinio, Argraffiadau a Chliciau. Mae'r rhain yn cael eu dangos fel graffiau, ac yn y dangos y camau gweithredu a'r nifer o bobl a gymerodd y camau yma. Gallwch osod dyddiadau cychwyn a gorffen i weld amserlen benodol a dilyn patrymau poblogrwydd. Hefyd gallwch weld pa binnau sy'n cael eu rhannu fwyaf, pwy sy'n rhyngweithio gyda nhw, a beth arall maen nhw'n ei binio. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall y

Beth yw TripAdvisor a Sut Allai Helpu fy Musnes?

TripAdvisor ydy'r wefan adolygu teithiau fwyaf poblogaidd a mwyaf ei maint yn y byd. Ar amser ysgrifennu hwn, mae'r wefan yn dweud bod ganddi fwy na 2,700,000 o fusnesau ar ei rhestr a bod mwy na 100 miliwn o adolygiadau a sylwadau arni o bob rhan o'r byd. Mae'r ystadegau yma'n awgrymu'n syth y dylai pob busnes twristiaeth Cymreig o leiaf archwilio'r safle ac ystyried cofrestru arni.

Mae adolygiadau gan gwsmeriaid ar-lein i'w cael ymhob man. Hyd yn oed os nad ydych eisiau bod yn rhan o'r byd yma, bydd cwsmeriaid yn edrych i weld beth mae pobl eraill wedi'i ddweud am eich busnes cyn iddynt archebu lle gyda chi, ac yna byddent yn rhoi eu sylwadau eu hunain am eu hymweliad. Os nad oes gennych eich lle eich hun ar wefannau adolygu ac os nad ydych yn dilyn ac ymgysylltu gyda'ch cwsmeriaid sy'n eu defnyddio nhw mewn ffordd bositif – gallai enw da eich busnes fod mewn perygl.

Beth yw TripAdvisor?

Mae TripAdvisor yn wefan am deithio byd-eang a grëwyd yn y flwyddyn 2000 gan y Grŵp Cyfryngau TripAdvisor. Yn ôl ei brandio, hi ydy'r wefan fyd-eang fwyaf poblogaidd sy'n cael ei gyrru gan gynnwys a ddaw gan y defnyddwyr. Mae pobl ar eu gwyliau a theithwyr yn rhoi eu sylwadau ac yn sgorio eu profiadau o aros mewn gwesty, o fwyta mewn bwyty, o ymweld ag atyniadau, ac ati.

Y peth cyntaf i'w gofio yw y gallwch restru eich busnes twristiaeth chi ar TripAdvisor yn gyflym, yn hawdd, ac yn RHAD AC AM DDIM!

Mae TripAdvisor wedi dyfeisio 'Mynegai Poblogrwydd' gan ddefnyddio algorithm i gyfri sut mae teithwyr yn sgorio eu profiad ar sail maint a safon yr adolygiadau cysylltiedig ar TripAdvisor, a pha mor ddiweddar ydyn nhw. Mae'r wefan yn cynnwys fforymau rhyngweithiol hefyd a gwybodaeth arall sy'n ymwneud â phrofiadau teithwyr/twristiaid.



Mae'r safle'n hawdd ei ddefnyddio heb unrhyw ffi i deithwyr neu fusnesau, heblaw bod unrhyw fusnesau'n penderfynu mynd ar restr busnesau lefel uwch y mae'n rhaid talu amdani (mae rhagor o wybodaeth am yr opsiwn yma nes ymlaen). Cysylltodd y cwmni â Facebook yn 2012, a chynyddodd hyn ei gynulleidfa'n sylweddol a dod â llawer o fanteision y cyfryngau cymdeithasol iddo.

Edrychwch o amgylch y safle ar www.TripAdvisor.co.uk i gael syniad o'r hyn mae ymwelwyr yn ei ddweud a sut mae'r busnesau'n rheoli eu hadolygiadau, ac ati – efallai y gwelwch bod ymwelydd wedi creu rhestr i'ch busnes chi.

Sut Allai fy Musnes Twristiaeth Innau Elwa o Ddefnyddio TripAdvisor?

Pan fyddwch yn edrych drwy'r wefan, fe welwch fod nifer o fanteision i fusnes os yw'n cofrestru ar TripAdvisor. I'ch temtio – dyma rai o'r manteision:

- Gallwch arddangos eich busnes i filiynau o bobl drwy'r byd i gyd
- Am fod yr adolygiadau'n annibynnol – mae darllenwyr yn fwy tebygol o'u credu nhw
- Mae'n gyflym ac yn hawdd cofrestru i gael cyfrif busnes rhad ac am ddim
- Mae'r wefan yn syml i'w defnyddio/ mae'n hawdd rheoli eich cyfrif
- Mae llwytho lluniau ar y wefan yn gallu helpu i 'werthu' eich busnes
- Byddwch yn gallu edrych i weld pa mor boblogaidd yw eich busnes chi o'i gymharu â'ch cystadleuwyr
- Gallwch hybu eich busnes gyda brandio TripAdvisor
- Byddwch yn derbyn hysbysiad ar yr e-bost pan ddaw adolygiadau newydd amdanoch gan ymwelwyr
- Bydd eich ymatebion i'r sylwadau'n dangos faint rydych yn gwerthfawrogi eich cwsmeriaid – hyd yn oed y rheiny sydd wedi cwyno, os ydych yn geirio eich ymateb yn ofalus
- Byddwch hefyd wedi'ch rhestru ar safleoedd gwefannau teithio/ twristiaeth mawr eraill
- Gallwch godi safon eich aelodaeth i restr fusnes y talwch amdani er mwyn dod â rhagor o fanteision i'ch busnes

A Oes Unrhyw Anfanteision i Ddefnyddio TripAdvisor?

Mae hwn yn gwestiwn sy'n anodd ei ateb yn fanwl ac mewn ffordd sy'n berthnasol i'r gynulleidfa eang o fusnesau

twristiaeth drwy Gymru gyfan. Mae pob un yn unigryw ac mae'n ymddangos fod TripAdvisor yn denu sylwadau positif a negyddol – ystyriwch ganfod rhagor am y safle drwy eich hoff chwilotwr i gael rhagor o wybodaeth.

Wrth gwrs bydd angen i bob busnes ystyried y manteision a'r anfanteision a gwneud penderfyniad ar sail hynny. Yn ystod ein gwaith ymchwil i ysgrifennu'r daflen ffeithiau yma gwelsom ddwy anfantais bosibl (gwelwch isod). Gallwch weld ein bod ni wedi cynnwys awgrymiadau i droi'r anfanteision yma'n fanteision i'ch busnes:

- **Dydy busnesau ddim yn gallu rheoli cynnwys yr adolygiadau** – ond cofiwch, os ydy'r rhan fwyaf o'ch adolygiadau'n bositif, y bydd llawer o ddarllenwyr yr adolygiadau'n tueddu credu'r mwyafrif. Byddent yn gwerthfawrogi na allwch fodloni pawb drwy'r amser! Ond, os nad yw eich busnes yn ymateb i adolygiadau negyddol gallai hyn adael marc cwestiwn ym meddwl yr ymwelwyr posibl ac efallai y byddai hynny'n ddigon i'w perswadio i gymryd eu busnes at rywun arall.
- **Dydy busnesau ddim yn gallu rheoli barn pobl am adolygiadau** – byddwch yn gwybod yn iawn fod cwsmeriaid yn gallu newid eu meddwl fel y gwynt weithiau ac y bydd hyd yn oed y busnesau gorau yn derbyn sylwadau negyddol ar brydiau. Ond bydd cwsmeriaid yn gallu adnabod adolygiadau sy'n afresymol neu sydd 'dros ben llestri' yn enwedig os yw'r busnes wedi rhoi ymatebion ffeithiol a chwrtais. Fel y mae TripAdvisor yn ei ddweud – “os nad ydy'r adolygiadau'n cyfateb yn gyffredinol gyda realiti a phrofiadau pobl, fyddai pobl ddim yn dod yn ôl i'n gwefan drwy'r amser”.


Sut ydw i'n rhestru fy busnes ar TripAdvisor?

Os ydych wedi rhestru eich busnes yn barod neidiwch i'r adran nesaf.

Edrychwch i weld ydych chi wedi'ch rhestru

Os nad ydych wedi rhestru eich busnes, dylech edrych i weld ydy rhywun arall wedi eich rhestru e.e. un o'ch ymwelwyr. Ewch i <http://www.TripAdvisor.co.uk/>, yna nodwch enw a lleoliad eich busnes yn y bocs chwilio. Os yw eich busnes yno, mae angen i chi 'hawlio' eich busnes. I wneud hynny:

- Ewch i'r dudalen TripAdvisor for Business (<http://www.tripadvisor.com/Owners>) a dewiswch y math o fusnes rydych yn ei hawlio h.y. gwesty, bwyty, neu atyniad ac ati.
- Nodwch enw a lleoliad eich busnes yn y bocs chwilio. Yna dewiswch eich busnes o'r canlyniadau sy'n ymddangos.



Pan fyddwch wedi dewis eich tudalen fusnes swyddogol cliciwch ar y botwm 'Register now'. Ar ôl cofrestru byddwch yn gallu darllen eich adolygiadau ac ymateb iddynt. Hefyd bydd angen i chi edrych i weld eich bod yn hapus gyda'r hyn mae eich disgrifiad yn ei ddweud e.e. os ydy'r person a grëodd eich disgrifiad chi wedi rhoi gwybodaeth anghywir am eich busnes – gallwch addasu'r cynnwys yn awr er mwyn cyflwyno eich busnes

yn gywir. Os hoffech ragor o wybodaeth ewch i'r Ganolfan Gymorth drwy glicio ar y ddolen hon – www.TripAdvisor.co.uk/help neu os hoffech drafod eich ymholiad neu roi gwybod am unrhyw wybodaeth anghywir a restrwyd gan drydydd parti, gallwch gysylltu â'r Tîm Cymorth i Gwsmeriaid ar 0203 318 5019 neu 0800 098 8460.

Os nad ydych wedi eich rhestru

Ewch i <http://www.TripAdvisor.co.uk/GetListedNew/> a dilynwch y cyfarwyddiadau syml i restru eich busnes.

Ar ôl rhestru eich busnes twristiaeth Cymreig, efallai y byddai werth i chi bori o amgylch y wefan i weld sut mae busnesau eraill yn eu cyflwyno eu hunain – byddwch yn penderfynu'n fuan iawn pa bethau rydych yn eu hoffi orau neu sut yr hoffech arddangos eich busnes.

Cewch wybodaeth ddefnyddiol arall ar y safle hefyd, yn enwedig os ewch i Adran y Perchnogion. Chwiliwch am y 'Dolenni Cyflym' yn agos at waelod y dudalen 'Hafan' neu drwy glicio ar y ddolen hon – www.TripAdvisor.co.uk/owners. Yma byddwch yn gweld canllawiau, yn cynnwys arferion gorau, ar gyfer sefydlu a rheoli eich rhestru ar TripAdvisor a'r canllawiau 'Sut i' ar gyfer perchnogion. Mae hefyd 'Flog y Perchnogion' a bydd cyfle i chi ymuno yn y trafodaethau ar-lein ac ati.

Sut Ydw i'n Gwneud y Defnydd Gorau o'r Rhestriad?

Yn debyg i bob tro arall y byddwch yn marchnata eich busnes, byddwch yn ceisio cael yr effaith fwyaf gyda'ch hysbyseb, er mwyn tynnu mwy o sylw atoch eich hun ac i werthu mwy o gynnyrch/cael mwy o gwsmeriaid. Ond byddwch yn gweld rhai rhestrau busnes sydd braidd yn siomedig, yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi mynd

yn hen, tudalen sy'n edrych braidd yn ddi-ymdrech, dim lluniau, neu fideos o ansawdd gwael, ac ati. Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu i wella eich rhestriad.

Eich Cynnwys

Dydy'r bobl allai ddod i ymweld â chi ddim eisiau darllen disgrifiadau hir, blodeuog, cymylog. Maen nhw eisiau disgrifiadau byrion, bachog a ffeithiol sy'n dweud pethau diddorol am eich busnes a'i leoliad, gyda llawer o luniau effeithiol – oherwydd dyma nodwedd fwyaf poblogaidd y wefan medden nhw.

Mae'n ffaith adnabyddus bod ffotograffau a fideos ar-lein yn cipio sylw ymwelwyr yn fwy effeithiol na geiriau yn unig. Ceisiwch gynnwys o leiaf 20 llun yn eich rhestr. Fel y dywed y ddihareb *'mae llun yn peintio mil o eiriau ...'*. Dydy rhestriad o ansawdd gwael ddim yn mynd i gyfleu'r ddelwedd yr ydych eisiau ei chyfleu i'ch ymwelwyr!

Mae'r un peth yn wir am luniau o olygfeydd a allai fod wedi'u tynnu mewn pob math o leoliadau drwy'r byd i gyd – blodau wedi'u trefnu'n ddel, cwpwl yn dal dwylo amser cinio, plant yn chwarae, ac ati. Mae ymwelwyr yn chwilio am rywbeth penodol sy'n unigryw/arbennig am eich busnes chi, a fydd yn eu denu i ymweld â chi.

Mae eich prif lun ar y safle'n arbennig o bwysig – felly dewiswch hwn yn ofalus. Os nad ydy'r busnes yn danfon lluniau, bydd TripAdvisor yn gosod un yn awtomatig, gan ei gymryd oddi ar y we, os oes un ar gael. Felly, dewiswch eich llun eich hun i sicrhau mai dyma'r un mwyaf addas. Bydd eich lluniau'n cael y tag: *'Darparwyd gan y rheolwyr'* ac wrth i fwy o luniau gael eu hychwanegu byddent yn cael y tag 'newydd'. Hefyd gall aelodau TripAdvisor bleidleisio ar luniau – rheswm arall i'w dewis yn ofalus!

Darllenwch eich adolygiadau'n rheolaidd. Cewch chi (neu'r person mwyaf priodol yn eich busnes) yr opsiwn o gofrestru i dderbyn hysbysiad bob tro y bydd adolygiad yn cael ei bostio am eich busnes.

Ymateb y Rheolwyr

Mae'n bwysig gwrio eich adolygiadau, ond eich ymatebion chi sy'n eich gwahanu oddi wrth eich cystadleuwyr. Mae'r ffordd yr ymatebwch yn dangos i bawb sy'n ei ddarllen (nid y person a ysgrifennodd yr adolygiad yn unig), eich bod yn gwerthfawrogi sylwadau'r cwsmeriaid.

Mae'n arfer da i ymateb i'r holl adolygiadau, y positif a'r llai na positif. Mae hyn yn wir ar unrhyw wefan adolygu. Mae'r mwyafrif mawr o adolygwyr yn adrodd am eu profiadau positif ac eisiau eu rhannu gyda phobl eraill, ond o bryd i'w gilydd, wrth gwrs, mae rhai adolygiadau negyddol yn ymddangos.

Diolchwch i'r holl adolygwyr am eu sylwadau – hyd yn oed os ydych yn gorfod peintio'r wên ar eich wyneb wrth ddarllen y cwynion! Ychwanegwch nodyn personol byr i'r rheiny sydd wedi cael profiad da – ceisiwch beidio defnyddio'r un ymadroddion bob tro!

Ymatebwch i gwynion mewn ffordd niwtral. Trwy gadw'r peth yn ffeithiol ac esbonio yr hyn a wnaethoch ar y pryd, neu yr ydych wedi ei wneud ers hynny i ymdrin â'r broblem/problemiau, byddwch yn dangos i'r adolygwr a'r cwsmer posibl eich bod yn cymryd cwynion o ddifri, yn cynnig gofal da i'r cwsmer ac yn rheoli'r busnes yn effeithiol.

Gallwch fod yn rhagweithiol hefyd. Anogwch y bobl hynny sydd wedi mwynhau eu hamser gyda chi i bostio adolygiad. Efallai y gallech roi'r cyfleusterau iddynt wneud hynny cyn

iddynt ymadael. Ystyriwch hyn fel llyfr gwesteion ar-lein.

Defnyddio adnoddau rhad ac am ddim TripAdvisor

Mae'r safle'n eich cyngori sut i gael mwy o adolygiadau, am arferion da, ac am ddolenni a bathodynau fel y gallwch ddangos eich bod yn aelod o TripAdvisor. Mae awgrymiadau hefyd ar greu cynnwys ac ati. Dyma ddolen at adran y perchennog – www.TripAdvisor.co.uk/owners

Ychwanegu Dolenni Cyswllt Uniongyrchol

Rhestr i fusnesau sy'n talu – Mae ffi i'w dalu am fynd ar y rhestr yma ac mae'r ffi'n gadael i chi restru cysylltiadau cysylltu uniongyrchol eich busnes (rhif ffôn arferol, rhif ffôn symudol, gwefan ac ati) ar TripAdvisor. Gallai hyn olygu bod mwy o gwsmeriaid yn archebu lle yn uniongyrchol gyda chi. Mae hefyd yn gadael i berchnogion ychwanegu cynigion arbennig, ac ati, ar y tudalennau lle mae llawer o bobl yn ymweld. I ganfod beth yw'r ffi ar hyn o bryd, ewch i Adran y Perchnogion drwy ddilyn y ddolen hon – www.TripAdvisor.co.uk/owners.

Mae TripAdvisor yn pwysleisio na fydd y rhestr yma'n rhoi sgôr uwch i chi am eich poblogrwydd. Mae'n esbonio fel hyn:

"...mae Mynegai Poblogrwydd TripAdvisor wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar Sgorau Teithwyr fel ein bod yn canfod pa mor fodlon yw'r teithwyr. Rhoddwn fwy o bwyslais ar yr wybodaeth fwyaf diweddar. Rydym yn cyfrifo'r Mynegai Poblogrwydd gan ddefnyddio algorithm priodol. Dydy hysbysebu ddim yn dylanwadu ar sgôr Mynegai Poblogrwydd TripAdvisor mewn unrhyw ffordd. Rydym yn cadw "gwahaniaeth eglwys a gwlad" ar y mater yma."

Pam Ddylwn i Gynnwys Cyfryngau Cymdeithasol yn fy Ngwefan?

Mae cynnwys cyfryngau cymdeithasol yn eich gwefan yn ei gwneud hi'n haws cyrraedd ymwelwyr eich gwefan, mae'n darparu ffrwd awtomatig o gynnwys diddorol wedi'i ddiweddarau ac mae'n gwella eich safle ar dudalennau canlyniadau'r chwilotwyr.

I berfformio'n well na'ch cystadleuwyr yn y busnes twristiaeth, neu o leiaf i symud ar yr un cyflymder â nhw, mae'n rhaid i chi gynnwys y cyfryngau cymdeithasol ar eich gwefan. Mae estyn allan at gwsmeriaid newydd posibl drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn fwy cost effeithiol na dulliau marchnata traddodiadol.

Nodwch os gwelwch yn dda – Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddarllen y Ffeithlen 'Pam Ddylwn i Farchnata yn y Cyfryngau Cymdeithasol?' yn y gyfres hon cyn parhau.

Pam Ddylwn i Gynnwys Cyfryngau Cymdeithasol yn fy Ngwefan?

Os ydych yn fusnes twristiaeth yng Nghymru – allwch chi ddim anwybyddu pwysigrwydd integreiddio eich sianelau cyfryngau cymdeithasol yng ngwefan eich busnes – byddai'r rhain yn cydweithio'n dda ac yn eich helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich presenoldeb ar-lein.

Os bydd eich ymwelwyr ar-lein yn cael cynnwys eich gwefan yn ddiddorol ac atyniadol, byddent eisiau rhannu hyn gyda'u rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol – a bydd pawb ar eu hennill!

Dangoswch eich negeseuon Twitter neu Facebook yn syth ar eich gwefan.

Mae'n amlwg bod cynnwys eich proffil cyfryngau cymdeithasol yn fanteisiol oherwydd mae'n gadael i chi gysylltu ymhellach gyda'ch ymwelwyr ar-lein, ac mae'n rhoi cyfle arall iddynt rannu eich cynnwys yn eu safleoedd

rhwydweithio cymdeithasol eu hunain – mae hynny'n fantais fawr! Hefyd mae'r cynnydd enfawr yn y defnydd a wneir o dechnoleg symudol yn sicrhau bod eich presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol ar gael yn hawdd i'ch cwsmeriaid presennol ac i bobl allai ddod yn gwsmeriaid i chi, tra byddent o gwmpas eu gwaith pob dydd yn defnyddio'r we – i archebu lle i aros, tripiâu a gweithgareddau eraill – gan gynyddu eich cynulleidfa ar-lein yn enfawr.

Bydd angen i chi benderfynu pa safleoedd cyfryngau cymdeithasol y dylech eu defnyddio a sut y byddwch yn cynnwys eu proffiliau perthnasol yn eich gwefan. Dyma rai y gallech ystyried eu cynnwys ar eich gwefan:

- Llinell amser FaceBook
- Eich ffrwd Twitter
- Sylwadau neu Fotymau Rhannu, Hoffi
- Adolygiadau TripAdvisor
- Google+
- Sioeau sleidiau Flickr
- Byrddau Pinterest

- Pyst LinkedIn
- Dolenni nodau tudalen cymdeithasol

Mae offer ar gael ar y rhyngwrdd a fydd yn gadael i chi gyfuno a mewnbllannu eich hoff negeseuon a phroffiliau rhwydwaith cymdeithasol i un dudalen ar eich gwefan.

Beth Allwn i ei Ychwanegu at fy Ngwefan?

Mae nifer o nodweddion/elfennau defnyddiol y cyfryngau cymdeithasol y dylech allu eu hychwanegu'n hawdd (eu mewnosod) yn eich gwefan. Dyma rai esiamplau o elfennau'r cyfryngau cymdeithasol y gallech eu cynnwys yn eich gwefan:

Blog – mae'r term yma'n dalfyriad o 'Web Log' ac mae Blog yn ddyddlyfr ar-lein sy'n cael ei rannu gyda phobl eraill, lle gallwch nodi negeseuon dyddiadur am eich hobiau, diddordebau neu brofiadau. Gall eich darllenwyr ychwanegu eu sylwadau eu hunain a fydd yn ychwanegu cynnwys newydd gwreiddiol a chyffrous i'ch gwefan.


Botymau Hoffi neu Rannu ar y Cyfryngau Cymdeithasol – os byddwch yn gosod ategyn Botwm Rhannu ar dudalen ar y we sy'n cynnwys gwybodaeth ddiddorol y gallwch ei rhannu, byddwch yn annog eich ymwelwyr ar-lein i rannu'r ddolen neu'r cynnwys hwnnw gyda'u hoff rwydwaith cymdeithasol – gallai hwn fod yn destun, fideo, delwedd, manylion cynnyrch ac ati. Er enghraifft, pan fyddwch yn clicio botwm rhannu Twitter dydych chi ddim yn mynd at Dudalen Twitter ond yn cael eich annog i rannu cynnwys y dudalen gyda'ch dilynwyr ar Twitter.

Botymau Tudalen Broffil y Cyfryngau Cymdeithasol – Dim ond eiconau gyda dolenni yw'r rhain, felly wrth iddynt gael eu clicio byddent yn arwain eich

ymwelydd ar-lein i'ch tudalen neu broffil ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r botymau yma'n cysylltu'n uniongyrchol â thudalen ar y cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, os oes gennych dudalen fusnes ar Facebook, byddai'r botwm Facebook yn cysylltu â'r dudalen fusnes honno.

Y Botwm Google +1 – Mae hwn yn gadael i'ch ymwelwyr argymhell eich cynnwys ar ganlyniadau Google Search ac hefyd i'w cynulleidfa Google+.

Botymau Rhannu – Mae gwasanaethau ar-lein ar gael, am ddim yn aml iawn, a fydd yn rhoi ffordd hawdd i chi o ychwanegu rhes o fotymau rhannu neu hoffi tebyg i'ch tudalennau megis AddThis, ShareThis neu AddToAny – mae cwpwl o esiamplau isod.



Os ydych yn poeni y bydd eich cwsmer posibl yn gadael eich gwefan pan fyddent yn clicio ar ddolen – gwnewch yn siŵr bod gennych y safle cyfryngau cymdeithasol ar agor mewn tab neu ffenestr newydd, ac yna byddent yn gallu dychwelyd yn hawdd i'ch gwefan eich hun pan fyddent yn barod.

Nod Llyfrau Cymdeithasol – Mae hwn yn ffordd i bobl storio, trefnu, chwilio a rheoli "nodau llyfr" ar we-dudalennau

diddorol neu bwysig (ychydig fel ffefrynnau).

Bydd ychwanegu dolenni nod darllen cymdeithasol (megis Del.icio.us, StumbleUpon, Digg etc) i'ch gwefan neu flog yn annog eich ymwelwyr i gadw (nodi) a rhannu eich cynnwys, a bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i eraill ddod o hyd iddo hefyd.

Mae dolenni sydd wedi'u nodi'n cael eu cadw ar y safle nod darllen cymdeithasol ac maent fel arfer wedi'u trefnu gyda geiriau allweddol, tagiau, sylwadau neu bleidleisiau. Mae'r nodau darllen yma'n gyhoeddus, a gall chwilotwyr ddod o hyd iddynt a'u rhestru a gall bobl eraill eu gweld, gan anfon mwy o ymwelwyr newydd i'ch gwefan neu flog.

Beth yw'r manteision?

Mae'n amlwg bod mantais mewn integreiddio eich cynnwys â'r cyfryngau cymdeithasol oherwydd mae'n cadw eich gwefan yn ffres a diddorol. Mae'r manteision eraill yn cynnwys:

- Dim cost, neu gost isel iawn
- Mae'n galluogi eich ymwelwyr ar-lein i ail-drydar, rhannu, hoffi ac ati, i'w cysylltiadau yn y cyfryngau cymdeithasol
- Mae ymholiadau a gwerthiannau'n debygol iawn o gynyddu – drwy gyflwyno eich busnes twristiaeth i farchnadoedd newydd eu canfod mewn ffyrdd arloesol – a dim ond eich dychymyg sy'n eich cyfyngu
- Bydd eich safle ar y chwilotwyr yn gwella am eich bod yn ychwanegu cynnwys ffres – testun, fideos, graffeg, dolenni denu ac ati
- Dewisiadau cwsmeriaid – canfod yr hyn maen nhw'n ei hoffi a dydyn nhw ddim yn ei hoffi!
- Mae'n siŵr y bydd eich rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys eich ymwelwyr presennol a'r bobl allai ddod yn ymwelwyr. Byddwch yn gallu chwilio a chasglu amrywiaeth eang o adborth am wasanaethau, cynhyrchion, nodweddion ac ati sy'n newydd
- Gwrandewch ar y sgysiau ar y cyfryngau cymdeithasol o'ch cwmpas. Mae hyn yn bwysig i bob busnes – mae'n hanfodol eich bod yn gwybod beth mae eich ymwelwyr presennol, a'r rhai posibl, ynghyd â'ch cystadleuwyr a'r cyhoedd yn ei ddweud am eich busnes
- Byddwch yn cael gwell golwg ar ystadegau, patrymau ac ati twristiaeth Cymru a sectorau perthnasol drwy ganfod yr wybodaeth yma mewn amser real, yn syth gan eich cwsmeriaid, busnesau sy'n meddwl yn debyg i chi, cyflenwyr, eich cystadleuwyr ac ati.
- Gall arbed amser ac arian i chi drwy ostwng y prosesau yn eich cymysgedd marchnata
- Mae darlun yn cyfleu mil o eiriau medden nhw – felly mae fideos yn gyfrwng pwerus – maent yn cipio sylw pobl – gallent werthu eich cynnyrch/busnes mewn cyn lleied â 2 eiliad
- Mae'n dangos bod eich busnes chi'n fusnes twristiaeth dynamig modern – gan sicrhau'r manteision mwyaf i'r ymwelwyr sy'n dod i'ch gwefan
- Gallwch gael botwm cyfri ar unrhyw dudalen o'ch gwefan i ddangos sawl gwaith mae'r dudalen wedi cael ei rhannu neu ei hoffi – mae pob hoffi neu rannu'n debyg i ganmoliaeth
- Os oes gennych wefan e-fasnach gallwch ychwanegu botymau rhannu at eich tudalennau cynnyrch

- Gallent helpu i arbed eich amser chi neu amser eich staff wrth ddiweddarau eich gwefan
- Mae'n hyblyg – edrychwch ar yr hyn mae pobl eraill yn ei wneud – rhowch gynnig ar wahanol onglau – gwelwch beth sy'n gweithio orau i'ch busnes twristiaeth
- Mae'n sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill – eich busnes twristiaeth, eich ymwelwyr, eich lleoliad ac yn wir bawb sy'n rhan o fyd twristiaeth Cymru!

A Oes Unrhyw Anfanteision?

- Gallai ychwanegu cynnwys cymdeithasol i'ch gwefan arafu eich amser llwytho tudalennau, a gallai hyn effeithio ar eich ymdrechion SEO. Mae'n bosibl ychwanegu codau HTML a thechnegau rhaglennu eraill a fydd yn sicrhau bod eich gwefan yn perfformio ar ei gorau.
- Ni fydd cyfri achosion o rannu/ hoffi ac ati gan ymwelwyr yn fanteisiol os yw nifer yr ymwelwyr yn isel.
- Os nad yw eich cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiddorol, yn berthnasol ac yn cael ei ddiweddarau, prin y bydd o unrhyw ddiddordeb i'ch ymwelwyr ar-lein a gallai wneud mwy o niwed na daioni i chi.
- Gallai sylwadau negyddol am eich busnes aros ar y we am amser hir ond mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i chi amddiffyn eich enw da neu esbonio'r amgylchiadau – byddwch yn arloesol – cynigiwch ad-daliad /ymweliad am ddim, dangoswch dystiolaeth ar fideo na allent anghytuno â hi – gwahoddwch adborth gan gwsmeriaid eraill ac ati

Sut ydw i'n Gwneud Hyn?

Yn dibynnu ar y math o wefan sydd gennych a'ch gwybodaeth efallai y byddwch yn gallu ychwanegu eich cynnwys cymdeithasol eich hun. Os byddwch angen cymorth gallwch ddefnyddio'r system gymorth yn eich gwefan cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook, Twitter, LinkedIn ac ati neu eich system rheoli cynnwys. Gallwch hefyd chwilio ar eich hoff chwilotwr am y cymorth rydych ei angen, neu efallai eich bod eisiau dewis cynllunydd gwefannau proffesiynol da i wneud hyn i chi.

Mae rhai Systemau Rheoli Cynnwys yn ei gwneud hi'n hawdd i chi ychwanegu cyfryngau cymdeithasol i'ch gwefan. Efallai bod ganddynt declynnau neu ategion sy'n gadael i chi ychwanegu eich negeseuon Twitter neu negeseuon llinell amser Facebook ac ati yn hawdd. Neu efallai bod ganddynt eiconau y gallwch eu hychwanegu'n hawdd i gysylltu â'ch amrywiol gymunedau cymdeithasol.

Os na allwch ddiweddarau eich gwefan eich hun, bydd angen i chi ofyn i'ch cynllunydd proffesiynol a bydd yntau/ hithau'n ychwanegu eich cynnwys cymdeithasol ar eich gwefan. Neu, ystyriwch gomisiynu gwefan newydd gyda system rheoli cynnwys (CMS) sy'n gadael i chi ddiweddarau eich gwefan eich hun. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddarllen y Ffeithlen **'Pam ydw i Angen System Rheoli Cynnwys Gwefan?'**.

Gwiriwch eich Ystadegau

Gwiriwch sut mae eich ymwelwyr ar-lein yn defnyddio eich botymau cyfryngau cymdeithasol. Mae llawer o offer dadansoddi'r we ar y rhyngwrdd, ac mae llawer ohonynt yn rhad ac am ddim. Efallai y cewch y ffeithlen **'Deall Dadansoddeg y We'** yn ddefnyddiol.

Diogelu eich Wi-Fi Cyhoeddus

Yr amwynder cyntaf y gofynnir amdano gan deithwyr heddiw yw argaeledd Wi-Fi neu fynediad diwifr. Yn y farchnad hynod gystadleuol bresennol, nid yw'n syndod bod 90% o westyau a sefydliadau gwely a brecwast wedi gosod rhwydwaith diwifr, fel y gall eu gwesteion gysylltu â'r Rhyngwrdd.

Yn sydyn, daeth yn bosibl i unrhyw un fynd allan yn ystod ei awr ginio i brynu offer Wi-Fi rhad, a'i osod yn ei le ei hunan. Mae hyn yn newyddion rhagorol i unrhyw fusnes gwely a brecwast neu Llety Hunan-Ddarpar sydd am gynyddu gwerth y busnes yn gyflym a didrafferth. Fodd bynnag, mae'n enghraifft hefyd o'r bygythiad posibl i'r diwydiant twristiaeth, wrth i fyw a mwy o bobl ymhél â thechnoleg nad oes ganddynt syniad yn y byd sut i'w diogelu, heb sôn am sut i'w rheoli.

Un o'r achosion enwog cyntaf o ddiogelwch diffygiol mewn gwesty oedd hwnnw yn un o ganghennau Novotel yn Llundain yn 2007, pan ganfuwyd nad oedd diogelwch o gwbl, i bob pwrpas, ar rwydwaith diwifr y gwesty. Roedd gwefan Novotel yn honni bod gan bob un o'u gwestyau "fynediad diwifr diogelwch uchel" gyda'r cyflymaf a oedd ar gael. Canfuwyd, fodd bynnag, bod y gwesty mewn gwirionedd yn cynnal rhwydwaith diwifr di-ddiogelwch, a oedd yn cynnwys VoIP (Protocol Llais dros y Rhyngwrdd). Golygai hynny, i bob pwrpas, fod holl system archebu a gwybodaeth cwsmeriaid y gwesty yn llydan agored i bawb a oedd â chysylltiad rhyngwrdd.

Mae'r ffaith bod tor-diogelwch mor fawr wedi digwydd o fewn cwmni gwestyau rhyngwladol yn awgrymu bod llawer o westyau, oherwydd y gost yn bennaf, yn ceisio defnyddio systemau

cyfathrebu sy'n seiliedig ar y rhyngwrdd heb ddeall y goblygiadau diogelwch sy'n gysylltiedig â hynny.

Bygythiadau Wi-Fi

Wrth i'r byd ddod i ddibynnu fwyfwy ar systemau diwifr a chyfathrebu VoIP, bydd y risg a'r peryglon sy'n gysylltiedig â dulliau o'r fath yn parhau i gynyddu. Bellach, mae potensial yn y dechnoleg Wi-Fi y i drechu bron bob un o'r systemau diogelwch TG presennol, gan agor y drws i hacwyr, mynediad diawdurdod a phob hunllef arall y gellwch ei dychmygu o ran diogelwch.

Os yw'ch busnes gwely a brecwast neu'ch gwesty wedi gosod larwm rhag byrgleriaid, dylai fod gennych ddyfais gyffelyb hefyd yn eich rhwydwaith diwifr. Yn ôl ymchwilyr, y ddolen wanaf yn rhwydwaith unrhyw westy yw ei rwydwaith diwifr, gan ei bod yn hawdd ymyrryd a signalau rhwng y pwynt mynediad a chyfrifiadur. Hyd yn oed pan fo'r llwybrydd a ddefnyddir yn cynnwys nodweddion diogelwch soffistigedig, nid yw hynny'n golygu, o anghenraid, bod gwybodaeth bersonol/gyfrinachol y gwesteion neu'r gwesty yn cael ei diogelu.

Nod y canllaw hwn yw helpu perchnogion gwestyau a busnesau gwely a brecwast i ddeall y risgiau diogelwch, a chynnig cyngor ymarferol ar sut i wella mesurau diogelu, er mwyn lleihau'r perygl o doriadau diogelwch a allai

gostio'n ddrud i'r busnes, yn ariannol ac o ran enw da.

"wnaiff e ddim digwydd i mi"

Os ydych yn berchen busnes gwely a brecwast, a'ch agwedd yw "wnaiff e ddim digwydd i mi – rydw i'n byw allan yn y wlad, gyda dim ond dau neu dri o westeion ar y tro", yna meddyliwch eto, oherwydd gall toriadau rhwydwaith diwifr ddigwydd mewn unrhyw le ac i unrhyw un.

Mae'n hymchwil yn dangos bod 90 y cant o'r busnesau gwely a brecwast yng Nghymru sy'n cynnig Wi-Fi fel gwasanaeth gwerth ychwanegol yn gadael eu rhwydweithiau'n llydan agored, h.y. heb hyd yn oed gyfrinair i'r gwesteion ei ddefnyddio. O ganlyniad mae'r systemau'n agored led y pen i hacwyr, a'r posibilrwydd o ganlyniadau annifyr i'r gwesteion ac i'r busnesau.

Mater syml i'r haciwr yw cael mynediad i rwydwaith diwifr os na fydd perchennog neu reolwr y gwesty neu'r busnes wedi cymryd y camau cywir i nacáu'r risgiau hynny. Gallai'r risgiau gynnwys mynediad diawdurdod i'ch rhwydwaith busnes a'ch data, defnyddio'ch rhwydwaith i gyflawni trosedd, lladrata deunydd hawlfraint drwy rannu ffeiliau, neu rywbeth mor enbyd â lawrlwytho delweddau o gam-drin plant.

O dan Ddeddf yr Economi Ddigidol, bydd yn ofynno i'r Swyddfa Gyfathrebiadau (OFCOM) weithredu rheoliadau a fydd yn gosod y cyfrifoldeb am weithgarwch anghyfreithlon, megis lladrata deunydd hawlfraint, yn ddigamsyniol ar berchnogion y rhwydwaith. Os na chymerwch gamau rhesymol i ddiogelu'ch rhwydwaith, nodi pwy sy'n cael mynediad i'ch rhwydwaith ar unrhyw adeg benodol, a rhybuddio ymlaen llaw rhag gweithgarwch anghyfreithlon, gallech gael eich hun yn atebol am droseddau'ch gwesteion.

Beth sy'n gwneud cyfrinair da?

- Nid oes rhaid iddo fod yn air. Gall fod yn gyfuniad o lythrennau, rhifau a symbolau bysellfwrdd.
- Dylai gynnwys o leiaf wyth nod. Mae cyfrineiriau hir yn anos i'w dyfalu a'u goresgyn.
- Ni ddylai gynnwys eich enw defnyddiwr, eich enw personol nac enw cwmni.
- Dylai gynnwys gymysgedd o briflythrennau ac islythrennau, rhifau a symbolau bysellfwrdd (h.y. ` ~ ! @ # \$, % ^ & * () _ + - = { } | [] : " ' < > ? , . /).
- Dylid ei newid yn rheolaidd.

Y lleiafswm a argymhellir o ran cyfarpar

Dylech sicrhau bod gennych y cyfarpar a'r gosodiadau canlynol yn eich cyfleuster mynediad diwifr cyhoeddus:

- Sicrhewch fod eich pwynt mynediad Wi-Fi yn llwybrydd diwifr sydd â galluedd VLAN (rhwydwaith ardal leol rhithwir). Bydd yn bosibl wedyn cadw rhwydwaith a data eich busnes

ar wahân i rwydwaith a data eich gwesteion. Gellir gweld enghreifftiau o llwybryddion sy'n addas i'w defnyddio yn www.ecrimewales.com/products. Os dewiswch ddefnyddio llwybrydd Wi-Fi domestig safonol, bydd y cyfan o'ch rhwydwaith busnes preifat yn agored i bob un o'ch gwesteion.

- Defnyddiwch WPA2 (Mynediad Diogel Wi-Fi 2) gydag amgryptio AES (Safon Amgryptio Uwch) ar eich pwynt mynediad. WPA2 yw'r safon ddiogelwch ddiweddaraf a gyflwynwyd gan Wi-Fi Alliance, sef cymdeithas nid-er-elw fyd-eang y diwydiant. Mae'n bosibl na fydd rhywfaint o'r cyfarpar hynaf yn gweithio gydag WPA2; fodd bynnag, peidiwch â defnyddio safonau amgryptio sy'n is nag WPA. Mae'r hen ddull amgryptio WEP ("Wired Equivalent Privacy") yn rhy anniogel o lawer; llwyddodd ein harbenigwyr ni i hacio drwy amgryptiad WEP mewn llai na 3 munud!
- Cadwch gofnod o'r amseroedd pan fo gwesteion yn gofyn am fynediad i'ch cysylltiad diwifr. Mynwch eu bod yn llofnodi dogfen delerau ac amodau cyn rhoi'r allwedd mynediad diwifr (y cyfrinair) iddynt ar gyfer eich cysylltiad.
- Sicrhewch fod eich allwedd mynediad diwifr yn cyfrinair alffaniwmerig sy'n cynnwys o leiaf 8 nod ac yn defnyddio priflythrennau yn ogystal ag islythrennau. Rydym yn awgrymu y dylech newid eich allwedd mynediad diwifr bob mis.
- Ystyriwch a ddylid hidlo'r mynediad at ddata P2P (cymar at gymar) ar eich rhwydwaith. Byddai hynny'n cynnig rhywfaint o ddiogelwch rhag rhannu deunydd hawlfraint yn anghyfreithlon. Ar rai llwybryddion

gellwch osod hidlyddion sy'n rhwystro pob math o drawsyradau data a ffeiliau, a thrwy hynny ddewis pa fathau o weithgarwch y caiff ymwelwyr ei gyflawni ar eich cysylltiad chi.

- Dylech analluogi'r mynediad VPN (rhwydwaith preifat rhithwir) yng ngosodiadau'ch llwybrydd, os nad oes arnoch ei angen.) Os nad ydych yn gwybod a oes ei angen arnoch ai peidio, mae'n debyg nad oes!
- Mae rhai llwybryddion yn caniatáu cyfyngu'r mynediad i rai adegau o'r dydd. Hwyrach yr hoffech ystyried hynny.
- Byddai logio data yn awtomatig yn darparu tystiolaeth o'r holl ddata a gweithgarwch ar eich rhwydwaith. Wedyn, pe bai'r gwaethaf oll yn digwydd, gallai hynny fod yn hollbwysig ar gyfer profi eich hunan yn ddiheuog.

Gellwch ystyried hefyd gosod llinell deleffon a chysylltiad band eang ychwanegol, er mwyn gwahanu'ch rhwydwaith busnes yn gyfan gwbl oddi wrth rwydwaith eich gwesteion. Os dewiswch y llwybr hwnnw, rydym yn dal i argymhell eich bod yn gweithredu'n unol â'r holl gynghorion uchod, er mwyn diogelu eich hunan a'ch busnes i'r eithaf.

Os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw fater uchod, dylech ofyn i'ch cyflenwr cymorth TG eich helpu i osod y cyfarpar. Mae rhestr o gyflenwyr yng Nghymru i'w chael yn www.ecrimewales.com/suppliers.

Telerau ac amodau

Ni all technoleg ar ei phen ei hunan eich diogelu 100 y cant, ac oherwydd natur rwydweithiol Wi-Fi, mae addysgu'r defnyddiwr yn arbennig o bwysig o safbwynt diogelwch. Mae'n hollbwysig

bod gwestyau a sefydliadau gwely a brecwast yn pennu set o delerau ac amodau ac yn eu gorfodi'n ddieithriad, er mwyn addysgu pawb ynglŷn â'r gofynion diogelwch. Trwy gael eich gwesteion i gytuno i'r telerau ac amodau ac i'w llofnodi, byddwch wedi cymryd cam sylweddol i amddiffyn eich busnes rhag unrhyw weithgarwch amhriodol neu anghyfreithlon y gallai'ch gwesteion ei gyflawni ar eich rhwydwaith chi. Yn y rhan fwyaf o achosion hefyd, bydd yr wybodaeth bod eu manylion personol wedi eu cofnodi yn ddigon i atal troseddwr rhag camddefnyddio'r rhwydwaith.

Ynghyd â'r daflen wybodaeth hon, rydym wedi cynnwys templed o ddogfen Telerau ac Amodau ar gyfer eich gwasanaeth Wi-Fi¹. Mae'r polisi templed yma ar gael hefyd i'w lawrlwytho a'i bersonoleiddio ar www.ecrimewales.com/tourism

Mae gweithredu Deddf yr Economi Ddigidol yn debygol o newid ymhellach y gofynion ar y rhai sy'n darparu mynediad diwifr i'r rhyngwrdd. Dylech edrych o bryd i'w gilydd ar wefan e-Droseddu Cymru er mwyn gwirio bod eich polisi'n dal yn gyfoes.

Byddwch yn ddiogel

Os ydych am gynnig gwasanaeth Wi-Fi diogel a llwyddiannus yn eich gwesty/llety gwely a brecwast, ceisiwch feddwl am bob 'drws' posibl y gall hciwr gael mynediad trwyddo, oherwydd, os caiff hanner cyfle, bydd yn sicr o fanteisio arno. Fel y gwelir uchod, ni ddylai fod yn waith rhy anodd i berson cyffredin weithredu diogelwch Wi-Fi— unwaith y byddwch wedi pwyso a mesur y manteision, prynu'r offer a'i osod, bydd gennych amser wedyn i'w wneud yn ddiogel.

Mae rhagor o wybodaeth am ddiogelwch diwifr ar gael yn www.ecrimewales.com

¹ Paratowyd y polisi hwn i ddarparu cyngor cyffredinol ar y materion y dylai busnes roi sylw iddynt wrth ystyried polisi wi-fi. Ni ddylid trin y polisi fel rhywbeth arall sy'n gwneud y tro, yn hytrach na cheisio cyngor priodol ar strwythur a chynnwys polisi a fydd yn addas ar gyfer anghenion eich sefydliad chi (neu ar gyfer sefyllfaoedd penodol os torrir eich polisi). O ganlyniad, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru na Morgan Cole yn derbyn unrhyw atebolrwydd o ganlyniad i ddefnyddio'r polisi hwn, ac os yw defnyddiwr yn penderfynu defnyddio'r polisi ar gyfer ei weithredu yn ei fusnes ei hunan heb geisio cyngor cyfreithiol penodol, bydd yn gwneud hynny yn gyfan gwbl ar ei risg ei hunan.

Templed Telerau ac Amodau Mynediad y Cyhoedd i Wi-Fi

Mae'r cytundeb hwn yn amlinellu'r telerau a'r amodau ar gyfer darparu mynediad di-wifr i'r rhyngwrwyd ("y Gwasanaeth") [am ddim]² i chi, [cwsmer/ gwestai] [nodwch enw'r sefydliad] ("ni") yn gyfnewid am eich busnes, eich cytundeb â'r telerau a'r amodau hyn a'ch cytundeb i'n caniatáu i anfon deunydd hyrwyddo a marchnata atoch drwy e-bost;

1. Cwmpas y Gwasanaeth

- 1.1 Nid ydym yn argymhell defnyddio unrhyw wefannau penodol (na gwasanaethau eraill ar y rhyngwrwyd) ("Gwasanaethau Rhyngwrwyd") a chi sy'n gwbl gyfrifol am eich defnydd o Wasanaethau Rhyngwrwyd.
- 1.2 Nid ydym yn gyfrifol am, nac yn rheoli, y Gwasanaethau Rhyngwrwyd y byddwch chi'n eu defnyddio nac yn gwarantu y byddant yn rhydd o unrhyw wallau neu firysau.
- 1.3 Nid ydym yn gyfrifol am, nac yn rheoli, yr wybodaeth y byddwch yn ei throsglwyddo neu'n ei derbyn drwy'r Gwasanaeth.
- 1.4 Heblaw at ddibenion diagnostig ar y rhwydwaith, nid ydym yn archwilio sut rydych yn defnyddio'r Gwasanaeth na natur yr yw bodaeth y byddwch yn ei hanfon neu'n ei derbyn³.

- 1.5 Nid ydym yn gwarantu:
 - 1.5.1 argaeledd y Gwasanaeth;
 - 1.5.2 cyflymder y Gwasanaeth o ran trosglwyddo neu dderbyn gwybodaeth; na
 - 1.5.3 bod y Gwasanaeth yn gydnaws â'ch offer neu unrhyw feddalwedd y byddwch yn ei defnyddio.
- 1.6 Er ein bod yn cymryd camau rhesymol i sicrhau diogelwch y Gwasanaeth ac atal unrhyw fynediad anghyfreithlon i wybodaeth a drosglwyddir neu a dderbynnir gan ddefnyddio'r Gwasanaeth, nid ydym yn gwarantu diogelwch yr wybodaeth y byddwch yn ei throsglwyddo neu'n ei derbyn wrth ddefnyddio'r Gwasanaeth neu sydd ar unrhyw offer sy'n defnyddio'r Gwasanaeth, ac rydych yn derbyn mai'ch cyfrifoldeb chi yw diogelu'ch gwybodaeth a bod gennych fesurau diogelwch digonol (o ran offer a gweithdrefnau) i sicrhau diogelwch, cadernid a chyfrinachedd eich gwybodaeth a'ch data.
- 1.7 Rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r Gwasanaeth yn ôl ar unrhyw adeg, newid manyleb neu ddefnydd y Gwasanaeth, newid codau mynediad, enwau defnyddiwr, cyfrineiriau neu wybodaeth ddiogelwch arall sy'n angenrheidiol o ran cael mynediad i'r gwasanaeth.

² Os codir taliadau ar wahân, gallai ystyriaethau eraill fod yn berthnasol.

³ Gall atebolrwydd sifil a throseddol godi o fonitro cynnwys neu ryng-gipio negeseuon e-bost, a dylid bod yn ofalus dros ben i sicrhau na fydd hyn yn digwydd.

2. Eich Defnydd Chi o'r Gwasanaeth

- 2.1 Ni ddylech ddefnyddio'r Gwasanaeth i gael mynediad at Wasanaethau Rhynggrwydd, nac anfon neu dderbyn negeseuon e-bost sydd:
 - 2.1.1 yn ddifenwol, yn fygythiol, yn codi braw neu y gellid eu cyfrif fel aflonyddu;
 - 2.1.2 yn cynnwys iaith neu ddeunydd anweddus, rheglyd neu ymosodol;
 - 2.1.3 yn cynnwys deunydd pornograffig (hynny yw testun, lluniau, ffilmiau neu glipiau fideo sy'n rhywiol eu natur neu at ddibenion cynhyrfu'n rhywiol);
 - 2.1.4 yn cynnwys delweddau sy'n sarhaus neu'n fychanol o safbwynt rhyw, hil, crefydd, lliw, tras, oedran, anabledd corfforol neu feddyliol, cyflwr meddygol neu dueddfryd rhywiol;
 - 2.1.5 yn cynnwys deunydd sy'n torri ar hawliau trydydd parti (gan gynnwys hawliau eiddo deallusol);
 - 2.1.6 yn ein barn ni, o fewn rheswm, yn effeithio'n andwyol ar y ffordd rydym yn cynnal ein busnes; neu
 - 2.1.7 sy'n anghyfreithlon neu'n amhriodol am ba bynnag reswm arall;
- 2.2 Mae cerddoriaeth, fideo, lluniau, testun a chynnwys arall yn weithiau dan hawlfraint ac ni ddylech eu lawrlwytho, eu haddasu, eu hanfon ar e-bost na'u defnyddio cynnwys o'r fath mewn unrhyw ffordd arall oni bai eich bod yn sicr bod perchennog gweithiau o'r fath wedi'ch awdurdodi i'w defnyddio.

- 2.3 Gallwn derfynu neu atal y Gwasanaeth dros dro os byddwn yn credu, o fewn rheswm, eich bod yn torri unrhyw un o ddarpariaethau'r cytundeb hwn, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i gymalau 2.1 i 2.3 uchod.
- 2.4 Rydym yn argymhell na ddylech ddefnyddio'r gwasanaeth i drosglwyddo neu dderbyn unrhyw wybodaeth neu ddata cyfrinachol, ac mai chi sy'n gyfrifol os byddwch yn dewis gwneud hynny.
- 2.5 Ar gyfer cwsmeriaid yn unig y mae'r Gwasanaeth. Os byddwch yn defnyddio'r Gwasanaeth at ddibenion masnachol, dylech gyfeirio at gymal 5.2 isod.

3. Gweithgarwch Troseddol

- 3.1 Ni ddylech ddefnyddio'r Gwasanaeth i gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch sy'n gyfystyr, neu a allai fod yn gyfystyr, â thramgwydd droseddol, naill ai yn y Deyrnas Uned neu mewn unrhyw wladwriaeth ledled y byd.
- 3.2 Rydych chi'n cytuno ac yn cydnabod y gallai fod angen i ni roi cymorth a gwybodaeth i awdurdodau gorfodaeth y gyfraith, asiantaethau llywodraethol ac awdurdodau eraill.
- 3.3 Rydych chi'n cytuno ac yn cydnabod y gallwn gadw cofnod o gyfeiriadau Protocol Rhynggrwyd ("IP") unrhyw ddyfeisiau sy'n cael mynediad i'r Gwasanaeth, yr amseroedd mynediad i'r Gwasanaeth ac unrhyw weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad IP hwnnw.
- 3.4 Rydych yn cytuno hefyd bod gennym yr hawl i gydweithredu

ag awdurdodau gorfodaeth y gyfraith a deiliaid hawliau i ymchwilio i unrhyw amheuron neu honiadau am weithgarwch anghyfreithlon a allai gynnwys, ond heb ei gyfyngu, i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth y mae'n rhaid i ni ei datgelu yn ôl y gyfraith (p'un ai'n unol â chymal 3.3 neu fel arall) i awdurdodau gorfodaeth y gyfraith neu ddeiliaid hawliau.

4. Ein Defnydd Ni o'ch Gwybodaeth Chi

- 4.1 Yn amodol ar gymalau 3.3 a 3.4 uchod, rydym yn cadarnhau y byddwn yn defnyddio'r manylion cyswllt y byddwch yn eu rhoi i ni dim ond at ddibenion cysylltu â chi gyda gwybodaeth farchnata, diweddariadau, hyrwyddiadau a chynigion arbennig mewn cysylltiad â'n busnes⁴.

5. Telerau Eraill

- 5.1 Rydych yn cytuno i roi iawndal llawn i ni am unrhyw hawliadau neu gamau cyfreithiol yn ein herbyn neu a gaiff eu bygwth yn ein herbyn gan rywun arall oherwydd eich bod wedi torri'r telerau a'r amodau hyn wrth ddefnyddio'r gwasanaeth, yn arbennig cymal 2.1 i 2.3 a 3.1 uchod.
- 5.2 Er nad ydym yn ceisio cyfyngu'n hatebolrwydd am gamgynrychioli twyllodrus neu os cewch eich anafu neu'n marw yn sgil ein hesgeulustod, nid oes unrhyw

gyfrifoldeb (i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith) i ni roi iawndal i chi (p'un a ydym yn esgeulus ai peidio) am unrhyw golled ariannol uniongyrchol, colli elw, refeniw, amser, cynilion, elw neu refeniw a ragwelir, cyfle, data, busnes, gwastraff gwariant, amharu ar fusnes, colled yn sgil datgelu gwybodaeth gyfrinachol, colled yn sgil neu mewn cysylltiad â defnyddio'r gwasanaeth neu anallu i ddefnyddio neu gael mynediad i'r gwasanaeth neu fethiant, atal dros dros neu dynnu'n ôl y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol ar unrhyw adeg neu ddifrod i eiddo ffisegol, neu am unrhyw golled uniongyrchol debyg sy'n codi mewn perthynas â'r cytundeb hwn p'un a gawsom ein hysbysu ymlaen llaw am y posibilrwydd o golled neu ddifrod o'r fath ymlaen llaw ai peidio.

- 5.3 Rydym yn cytuno nad yw'r cytundeb hwn yn caniatáu i'r naill barti weithredu, neu ymddangos i weithredu, fel asiant ar ran y parti arall ac nad oes modd i drydydd parti orfodi telerau'r cytundeb hwn o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.
- 5.4 Mae'r cytundeb yn destun cyfraith Cymru a Lloegr ac awdurdodaeth anghyfyngol llysoedd Lloegr.

Gallaf gadarnhau fy mod yn derbyn y telerau a'r amodau hyn ar sail fy nefnydd o'r mynediad di-wifr i'r rhyngrwyd a ddarperir.

Llofnod:

Enw:

E-bost:

Dyddiad:

⁴ Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r cymal hwn (neu'n addasu gan ddibynnu ar y ffordd y caiff y data'i ddefnyddio), bod y data y byddwch yn ei gasglu'n cael ei brosesu'n unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a bod unrhyw ddeunydd post yn cydymffurfio â Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwydddeb y Comisiwn Ewropeaidd) 2003.

Systemau E-fasnach

Beth bynnag yw maint eich busnes gallwch fasnachu ar-lein – ac mae'r broses yn weddol hawdd i'w chychwyn.

Mae llawer o fusnesau yn y byd twristiaeth wedi cymryd y cyfle i gynnig y gwasanaeth yma 24/7 er mwyn bod yn gyfleus i'r cwsmeriaid sydd ganddynt ac i gyrraedd marchnadoedd newydd drwy'r byd i gyd – ac felly werthu mwy.

Mae'r ffeithlen yma'n rhoi esiamplau i chi o gyfleoedd syml i werthu i sectorau twristiaeth e.e. cyfle iddynt gadw bwrdd mewn bwyty, archebu tocynnau mynediad neu docynnau rhodd, a mwy...

Beth yw System E-fasnach?

E-fasnach ydy'r term a ddefnyddiwn ar wefannau sy'n gwerthu nwyddau neu wasanaethau drwy ddulliau electronig. Efallai hefyd y clywch bobl yn ei alw'n e-comm, masnach ar y we, masnach ar-lein, e-gatalog neu systemau cert siopa.

Mae'n debyg iawn i werthu drwy flaen siop adeilad go iawn – ond mae gwahaniaethau wrth gwrs e.e. mae siop e-fasnach yn costio llawer llai, ac efallai bod gan arbenigwr lleol neu eitemau unigryw apêl ehangach drwy'r byd i gyd nag sydd ganddynt yn y farchnad leol lle mae'r siop – er enghraifft, gweithgareddau neu wyliau diwylliannol, teithiau dan arweiniad, llwyau cariad Cymreig, bwydydd arbenigol lleol, nwyddau llechen ac ati

Mae systemau e-fasnach yn rhestru cynhyrchion a gwasanaethau ar wefan – yr enw ar yr adran yma yw 'catalog' sy'n gadael i gwsmeriaid bori drwy'r cynhyrchion sydd ar werth – yna maen nhw'n gallu dewis beth i'w brynu a'u rhoi nhw mewn 'cert siopa' electronig cyn cwblhau'r pryniant drwy dalu ar-lein ar y ddesg dalu rithwir.

Mae systemau e-fasnach wedi'u llunio gan weithwyr gwe proffesiynol ac yna cânt eu rhoi i mewn i wefannau'r busnesau.

Dyma'r darnau sylfaenol sydd eu hangen i sefydlu system e-fasnach lwyddiannus:

- Enw parth e.e. www.mywelshtourismbusiness.com (neu .co.uk)
- Gwefan neu we-siop sy'n rhestru eich nwyddau/gwasanaethau
- Ffordd o gymryd taliad(au) a dull o gwblhau'r archebion

Beth yw'r Manteision i fy Musnes i?

Dyma rai o fanteision system e-fasnach:

- Gall eich cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid newydd siopa gyda chi 24/7
- Maen nhw'n rhoi llwyfan i chi hysbysebu eich nwyddau/gwasanaethau drwy'r byd i gyd
- Mae'n hawdd diweddarau'r data e.e. newid mewn prisiau, gwahanol brisiau i gyd-fynd â lefelau deiliadaeth, ac ati
- Mae cyfle enfawr i werthu mwy

- Cyfle i werthu mwy wrth i gwsmer archebu lle mewn llety hunanarlwyo/ mewn parc carafanau neu wersylla, drwy gynnig triniaethau sba, bwcio lle i fwyta, prydau parod, siampên a siocledi ac ati
- Gallai atyniadau i ymwelwyr/ canolfannau gweithgareddau gynnig tocynnau mynediad/tymor, tocynnau rhodd, offer ac ati ar amser y bwcio neu wrth bori
- Mae'n ffordd gost effeithiol ac effeithlon o reoli archebion/bwciadau/ stoc
- Maen nhw'n ffordd ychwanegol o gyfathrebu gyda'ch cwsmeriaid drwy grwpiau trafod, llyfrau ymwelwyr a negesfyrdau
- Gallwch hysbysebu a dadansoddi cynigion arbennig, digwyddiadau a gwybodaeth arall.

Beth bynnag ydy maint eich busnes mae'n bosibl masnachu ar-lein – ac mae'n weddol syml ei sefydlu. Mae nifer o fusnesau twristiaeth wedi cymryd y cyfle i gynnig y gwasanaeth yma am ei fod yn gyfleus i'w cwsmeriaid presennol ac i gyrraedd marchnadoedd newydd drwy'r byd i gyd – gan werthu mwy. Beth am wneud ychydig o waith ymchwil ar-lein?

Pa Systemau sy'n Rhan o Hyn?

Mae nifer o systemau ar gael – mae'r nodweddion yn amrywio yn dibynnu ar y darparwr. Dyma rai esiamplau:

catalog o gynhyrchion – mae hwn yn dangos y cynhyrchion ar dudalennau'r wefan fel arfer. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys teitl y cynnyrch, disgrifiad ohono, ffotograffau a botwm 'ychwanegu i'r gert siopa'. Efallai y bydd gwybodaeth arall ar gael hefyd e.e. fideo o'r cynnyrch. Efallai y bydd hi'n bosibl rhestru cynhyrchion mewn categorïau drwy ddefnyddio systemau hidlo, er enghraifft hidlo o ran pris neu

drwy chwilio am enw'r cynnyrch, math o ystafell ac ati.

y system cert siopa a desg dalu – mae'r system yma'n gadael i'r cwsmer roi'r eitemau maent wedi'u dewis yn y gert siopa (neu'r fasged) a gweld cynnwys y gert siopa wrth y 'ddesg dalu'. Bydd y darn hwn o'r system yn cyfrifo cost gyfan y pryniant ac yna bydd manylion y cwsmer a'r pryniant yn symud ymlaen i'r system prosesu taliad.

rheoli'r catalog a'r cynhyrchion – bydd pob system e-fasnach dda yn gadael i chi ychwanegu, addasu a dileu cynhyrchion a chategorïau. Bydd y system hefyd yn gadael i chi ychwanegu bargeinion y tymor, bwydlenni, cynhyrchion newydd ac ati.

adnoddau rheoli'r cynnwys – bydd gan wefan e-fasnach dudalennau gwybodaeth e.e. 'hafan', 'amdanom ni', 'cysylltu â ni' ac ati nad ydynt yn rhan o'r catalog. Mae llawer o systemau'n gadael i ni greu a golygu'r tudalennau yma, gan ddefnyddio system rheoli'r cynnwys sy'n gadael i chi arddangos eich ystafelloedd gwely, teithiau, arddangosfeydd, bwydlenni ac unrhyw beth arall sydd yn eich busnes twristiaeth. Dydy rhai systemau ddim yn rhoi'r opsiwn yma i chi a bydd angen system ar wahân i newid y tudalennau gwybodaeth.

systemau archebu'r swyddfa gefn – bydd y mwyafrif o systemau e-fasnach yn gallu helpu i brosesu archebion h.y. 'rhestrau dewis' cynhyrchion, derbynebion, printio labeli yn ogystal ag 'olrhain hynt yr archeb' a chyfathrebu gyda'r cwsmer ar yr e-bost.

Nodweddion lefel uwch erail – yn cynnwys – rheoli stoc, ystadegau, galluoedd marchnata, codau talebion, rheoli cyfrifon cwsmeriaid, integreiddio gyda meddalwedd arall e.e. cyfrifon a Rheoli Cysylltiadau â'r Cwsmer (CRM).

Mae'n bosib hefyd i werthu eitemau unigol neu sefydlu siop ar-lein ar wefannau'r farchnadle megis www.ebay.co.uk neu www.amazon.co.uk. Mae'r gwefannau yma'n llwyfan dda ac yn farchnad barod ar gyfer eich nwyddau. Does ganddyn nhw ddim y rheolaeth dros y costau a'r gallu i fod yn hyblyg fel sydd gan wefan e-fasnach ond maent yn dda am brofi'r farchnad.

Pwy sy'n Defnyddio Systemau E-fasnach?

Mae dau brif ddefnyddiwr ar y systemau e-fasnach:

Y cwsmeriaid – mae'n rhaid i'r system e-fasnach fod mor ymarferol ag y mae'r cwsmer yn ei ddisgwyl – er enghraifft, dylai fod yn hawdd dod o hyd i gynhyrchion yn gyflym.

Fel arfer mae'r cwsmeriaid yn gweld catalog sydd wedi'i rannu'n categorïau. Ar wefan e-fasnach busnes fechan, ni ddylid bod mwy na 7-8 o brif categorïau. Gallai'r rhain gael eu rhannu'n is-gategorïau pellach yn dibynnu faint o gynhyrchion sydd ar gael.

Mae gwaith ymchwil wedi dangos po fwyaf mae ymwelydd â'r wefan yn edrych ar y cynhyrchion, y mwyaf y byddent yn ei brynu. Felly, dylai'r wefan ddangos cynhyrchion ar y dudalen hafan a'r tudalennau categori; hefyd mae gostwng y nifer o gliciau sydd eu hangen i weld neu brynu cynhyrchion yn ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid brynu nwyddau a gallai hynny olygu eich bod yn gwerthu mwy.

Cyn dewis neu benodi system cert siopa – dylech roi cynnig ar y system yn gyntaf – i wneud yn siŵr ei bod yn ffordd hawdd ac effeithiol i gwsmeriaid bori'r wefan a phrynu cynhyrchion. Fel arfer mae gan werthwyr mawr wefannau gyda chynllun, llywio a nodweddion

da – mae'r busnesau yma'n buddsoddi llawer iawn o adnoddau i wneud yn siŵr eu bod yn gwerthu gymaint ag y gallent a gwneud yr elw gorau posib. Ar gyllideb fechan efallai na fydd hi'n bosibl ail greu'r holl nodweddion yma ond fel arfer mae'n hawdd trosglwyddo'r prif rai a'u haddasu ar gyfer pob math o fusnesau twristiaeth. Beth am wneud eich gwaith ymchwil eich hun ac edrych ar y cynlluniau, y fformatio a'r technegau gwerthu mwy y mae'r arweinwyr brand yn eu defnyddio yn eu gwefannau yn y sectorau adwerthu, twristiaeth ac eraill sy'n berthnasol i'ch busnes?

Y busnes (weithiau rydym yn galw'r busnes yn weinyddwr y safle)

Mae'r busnes yn defnyddio 'cefn' y wefan h.y. y darn o'r system sydd ddim yn wynebu'r cwsmer, i wneud newidiadau i'r catalog, i brosesu archebion ac ati. Cyn penderfynu ar system e-fasnach, dylech brofi'r system "gefn" sydd wedi'i darparu i asesu ydy hi'n addas ac yn hawdd ei defnyddio.

Bydd angen i chi ystyried eich gofynion e-fasnach ar hyn o bryd a'r hyn a fyddent yn y dyfodol, yn enwedig sut bydd y wefan yn cael ei marchnata ac yn cyfateb â phrosesau eich busnes. Yna dylech asesu'r system i weld ydy hi'n ateb yr anghenion yma a pha mor hawdd ydy hi i'w defnyddio. Does gan rai systemau e-fasnach sylfaenol iawn ddim system 'gefn' – yn lle hynny mae'r archeb/cofrestriad yn cael ei anfon at y busnes ar yr e-bost (neu ddarparwr taliad electronig) a rhaid i ddatblygwr wneud diweddariadau. Heblaw eich bod yn gobeithio gwerthu nifer gyfyngedig o eitemau, mae'n annhebygol y bydd y mathau yma o systemau sylfaenol yn addas.

Sut allwch chi gael system E-fasnach?

Gallwch gael system e-fasnach gan weithiwr proffesiynol da a fydd yn darparu system sy'n addas i'ch gofynion – gallent gynnig yr arbenigedd technegol, elfennau dylunio a rhai o'r agweddau marchnata sy'n angenrheidiol. Mae hyn yn gadael i chi ganolbwyntio ar yr elfennau eraill o werthu i'r farchnad newydd hon.

System berchnogol y datblygwr gwefan

– mae nifer o weithwyr gwefannau proffesiynol yn datblygu eu systemau eu hunain a byddent yn rhoi trwydded benagored heb freindal iddynt i ddefnyddio eu system e-fasnach. Byddent yn gweithio'n agos gyda'u cleientiaid i gynnig system bwrpasol wedi'i theilwra i ofynion unigol eu cleientiaid.

Systemau o'r Silff – gallwch brynu systemau e-fasnach parod, y gallwch eu haddasu i ateb anghenion eich busnes – mae'r rhain i'w cael ymhob man. Mae'r math yma o system yn gadael i'r defnyddiwr osod eu catalog, ychwanegu cynhyrchion, gwybodaeth busnes megis costau postio ac ati a dolen at system dalu electronig. Gallwch ei addasu hefyd drwy newid y cynllun lliw, ychwanegu logos, y cynnwys a defnyddio gwahanol fformatau arddull. Fel arfer mae gan werthwyr mawr wefannau gyda chynllun, llywio a nodweddion da – mae'r busnesau yma'n buddsoddi llawer iawn o adnoddau i wneud yn siŵr eu bod yn gwerthu gymaint ag y gallent a gwneud yr elw gorau posib. Ar gyllideb fechan efallai na fydd hi'n bosibl ail greu'r holl nodweddion yma ond fel arfer mae'n hawdd trosglwyddo'r prif rai a'u haddasu ar gyfer pob math o fusnesau twristiaeth.

Os oes gennych ddealltwriaeth resymol o systemau TG, efallai y byddwch eisiau

ystyried hyn ond i rai busnesau, nid yw hyn yn opsiwn oherwydd maint y gwaith a'r amser sydd ei angen.

Systemau ffynhonnell agored – mae'r rhain ar gael yn rhad ac am ddim ar y we – felly mae'n annhebygol iawn y bydd angen i fusnes gomisiynu system e-fasnach bwrpasol. Bydd datblygwyr gwe'n gallu rhoi cyngor i chi am y systemau yma a byddent yn codi ffi am eu gwasanaethau i integreiddio'r system i'ch gwefan. Ymysg y pethau eraill i'w hystyried mae datblygiad eich llyfryn gwybodaeth, tudalennau, graffeg, system daliadau electronig a marchnata ac ati.

Efallai y bydd hi'n ddefnyddiol chwilio'r we i ganfod rhagor am y systemau sydd ar gael. Bydd hyn yn eich helpu i ddewis yr ateb mwyaf priodol i'ch busnes chi.

Beth yw Cyfrifiadura Cwmwl a Sut i'w Ddefnyddio

Yn aml iawn byddwn yn defnyddio'r gair 'cwmwl' i ddisgrifio rhywbeth amhendant neu rywbeth sy'n ddryslyd neu ynghudd. Ond, dydy Cyfrifiadura Cwmwl ddim yn rhywbeth mor gymylog ag y byddech yn ei feddwl – a dydy e ddim i'w gael yn yr awyr!

Mae Cyfrifiadura Cwmwl yn ymwneud â gwahanol fathau o dechnoleg sydd wedi eu seilio ar nodweddion tebyg, h.y. storio, agor a rhannu data o ddyfeisiau sydd wedi cysylltu at y we.

Am fod cymaint o ddyfeisiau'n cysylltu at y we erbyn hyn, mae Cyfrifiadura Cwmwl yn ffordd wych o rannu a chyfathrebu gyda'n ymwelwyr a'n cydweithwyr. O safbwynt busnes, mae'n ffordd hyblyg o ostwng eich costau technoleg gwybodaeth, rheoli eich gwybodaeth, a lleihau eich risgiau.

Beth yw Cyfrifiadura Cwmwl?

Mae Cyfrifiadura Cwmwl yn cyfeirio at apiau a gwasanaethau sy'n cael eu cynnig dros y We. Mae'r gwasanaethau yma'n cael eu cynnig o ganolfannau data drwy'r byd i gyd. Mae'r 'Cwmwl' yn golygu bod apiau meddalwedd, a storio a phrosesu data ar gael ar-lein. Mae'n cynnwys unrhyw wasanaeth rydych yn tanysgrifio iddo, neu wasanaeth talu-wrth-ddefnyddio, sy'n golygu y gallwch wneud mwy gyda'ch technoleg gwybodaeth mewn amser real dros y We.

Os ydych yn bancio neu'n siopa ar-lein, yn defnyddio gwefan rwydweithio cymdeithasol megis Facebook neu Twitter, yn storio lluniau, cerddoriaeth neu fideos ar-lein, yna mae'n debyg eich bod yn defnyddio gwasanaethau cwmwl yn barod.

Yn aml iawn mae pobl yn defnyddio diagramau siâp cwmwl i ddangos clwstwr o wasanaethau sy'n gallu cael eu darparu dros y We. Dyma pam rydym yn defnyddio'r term Cyfrifiadura Cwmwl.

Pam Ddylwn i Ddefnyddio Cyfrifiadura Cwmwl?

Dyma rai o'r rhesymau pam y mae nifer gynyddol o fusnesau'n dewis defnyddio Cyfrifiadura Cwmwl y dyddiau yma:

- Mae'n golygu nad oes angen gosod a gofalu am adnoddau lleol e.e. Trosi i Office 365 yn hytrach na defnyddio meddalwedd pen desg Microsoft Office
- Mae'n ffordd o gynyddu eich gallu technoleg gwybodaeth, neu ychwanegu galluoedd wrth fynd heb orfod talu am strwythur mewnol newydd, hyfforddi staff newydd, neu dalu am drwydded i feddalwedd newydd.
- **Dyfeisiau annibynnol** – gallwch gyrraedd data o unrhyw gyfrifiadur a dyfais unrhyw bryd os gallwch gysylltu â'r We.
- **Y dasg ei hun sy'n bwysig** – gall busnesau ganolbwyntio ar yr hyn maen nhw eisiau ei gyflawni yn hytrach na'r meddalwedd neu'r caledwedd mae angen iddynt ei ddefnyddio

- **Llai o wario eich cyfalaf** – yn draddodiadol, mae busnesau wedi gorfod talu'r costau technoleg gwybodaeth p'un a ydyn nhw'n cael eu defnyddio ai peidio. Mae Cyfrifiadura Cwmwl yn tueddu gweithio ar sail talu-wrth-ddefnyddio ac mae hyn wedi'i seilio ar y nifer o bobl sy'n defnyddio'r meddalwedd bob mis, neu'r nifer o brosiectau sy'n cael eu rhedeg.
- **Deinamig o ran ei fesuriad** – does dim rhaid i fusnesau ddefnyddio mwy na maen nhw ei angen. Wrth i'ch busnes dyfu mae eich anghenion technoleg yn tyfu hefyd. Mae'r 'Cwmwl' wedi'i lunio'n arbennig i sefyllfa fel yma fel nad oes angen i chi newid eich technoleg. Mewn rhai achosion gallwch ychwanegu gwasanaeth arall fel y byddwch ei angen, er enghraifft datblygu ymgrych Marchnata ar y We.
- **Diogelu data** – mae systemau cwmwl wedi'u llunio i fod ar gael bob amser ac yn gallu goddef diffygion. Maen nhw'n gwneud hyn drwy gadw copïau o'r data mewn nifer o wahanol leoliadau. Felly os bydd un yn methu, o leiaf bydd un arall ar gael.
- **Defnydd effeithiol o ynni** – mewn astudiaeth gan Global Action Plan gwelwyd bod y seilwaith technoleg gwybodaeth yn gyfrifol am 10% o ddefnydd ynni blyneddol y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn gyfatal â'r allyriadau CO₂ sy'n dod allan o awyrennau. Trwy ddefnyddio Cyfrifiadura Cwmwl, mae'n cymryd llai o gyfrifiaduron i wasanaethu mwy o ddefnyddwyr, ac felly'n gostwng faint o bŵer sy'n cael ei ddefnyddio ac yn lleihau eich ôl-troed carbon CO₂. Mae hefyd yn arbed y gost i'r amgylchedd o adeiladu mwy o gyfrifiaduron.

Pethau i'w Hystyried/ Problemau'n codi o Gyfrifiadura Cwmwl

Diogelwch – y pryder mwyaf i'r rhan fwyaf o fusnesau wrth ystyried Cyfrifiadura Cwmwl yw'r posibilrwydd y gallai rhywun gael gafael ar eu data. Mae'r we yn llawer mwy diogel mewn gwirionedd nag y mae pobl yn tueddu ei feddwl. Mae'r mwyafrif o fusnesau'n defnyddio'r e-bost fel rhan allweddol o'u dulliau cyfathrebu, ond ydyn nhw'n ystyried pa mor gyfrinachol yw eu defnydd gyda'u darparwr ar y We, neu'r seilwaith ar gyfer anfon eu neges? Mae dogfen a grëwyd yn Google Docs yr un mor ddiogel â dogfen a ysgrifennwyd mewn Microsoft Word ac a anfonwyd ar yr e-bost.

O safbwynt haciwr, mae'n llawer haws mynd i mewn i gyfrifiadur personol nag ydyw i geisio mynd i mewn i serfiwr cwmni gwasanaethu mawr ar y cwmwl. Ond, gallai'r haciwr gael mwy o fantais o dorri i mewn i un o'r rhain a chael gafael ar ddata nifer o fusnesau ar yr un pryd. Felly, mae o fudd i Wasanaethau'r Cwmwl gadw'r systemau'n ddiogel er mwyn cadw eu henw da ac fel bod pobl yn ymddiried ynddynt.

Preifatrwydd a Diogelu Data – rhaid i bob sefydliad sy'n trin gwybodaeth bersonol gofio materion preifatrwydd ac amddiffyn data. Mae gan y rhan fwyaf o wledydd gyfreithiau diogelu data y mae'n rhaid i unrhyw un sy'n dal data personol gydymffurfio â nhw. Wrth ystyried defnyddio cyfrifiadura cwmwl, mae'n bwysig i chi ganfod ydy'r cyflenwr yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Yn y Deyrnas Unedig, mae'r Ddeddf Diogelu Data (1998) yn gofyn i chi gofrestru'r holl gronfeydd data sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol. Mae gofyn i'r cofrestrwyr sicrhau bod y data sy'n cael ei ddal yn gywir ac yn ddiogel. Hefyd, mae'n rhaid i'r sefydliadau sector

cyhoeddus gydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2005). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt ddarparu pob math o wybodaeth sydd ganddynt mewn ymateb i unrhyw gais ffurfiol gan aelod o'r cyhoedd.

Gallai'r ystyriaethau yma ddylanwadu arnoch pan fyddwch yn penderfynu ar wasanaeth neu gyflenwr. Ydy'r cyflenwr yn gallu gwarantu lleoliad y ganolfan ddata fel bod yr wybodaeth yn cael ei storio mewn lleoliad sy'n atebol i'r ddeddfwriaeth?

Gellir gofyn i wasanaeth cyfrifiadura cwmwl ryddhau gwybodaeth am gwsmer i'r heddlu ac awdurdodau'r llywodraeth. Gall hynny ddigwydd heb i'w cwsmer wybod.

Dibyniaeth ar Gysylltiad Dibynadwy â'r We – gall y rhan fwyaf o'r ardaloedd yn y Deyrnas Unedig gael cysylltiad dibynadwy â'r We erbyn hyn. Ond, gall y cysylltiad fod yn amrywiol o ffonau symudol neu wrth gysylltu â busnesau tramor.

Talu wrth ddefnyddio – i fusnesau llai, efallai y byddai talu am wasanaethau wrth i chi eu defnyddio yn ffordd ratach o gysylltu â'r gwasanaethau technoleg gwybodaeth, ac mae'n ffordd effeithiol o roi trefn ar eich arian ar gyfer eich gwasanaethau. I fusnesau mwy sydd angen i nifer o weithwyr gael gafael ar apiau, mae'r ffordd yma o dalu'n gallu bod yn rhwystredig. Mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau a chyflenwyr fodel busnes gwahanol ar gyfer mentrau a sefydliadau mwy i gwrdd â'r sialens yma.

Sut mae Cyfrifiadura Cwmwl yn cael ei Ddefnyddio?

Mae Cyfrifiadura Cwmwl ar gael mewn amrywiaeth o ffurfiau, o apiau llawn i wasanaethau storio, i hidlo sbam. Mae'n debyg eich bod yn defnyddio

Cyfrifiadura Cwmwl yn barod os ydych yn defnyddio post ar y we, megis Gmail, Hotmail, gwefannau Cyfryngau Cymdeithasol neu apiau busnes ar-lein – megis Google Docs neu Microsoft Office 365.

Yn ei hanfod mae tair ffordd y gallwch ddefnyddio Cyfrifiadura Cwmwl i gymryd lle eich systemau TG mewnol traddodiadol. Dyma nhw:

Meddalwedd fel Gwasanaeth (SaaS)

Mae'r cwsmer yn defnyddio gwasanaeth talu-wrth-ddefnyddio. Mae rhai o'r gwasanaethau yma'n rhad ac am ddim. Maent yn tueddu i ganolbwyntio ar ochr y prynwr o'r farchnad. Dyma esiamplau ohonynt:

- Gwebost, megis Hotmail, Gmail, ac ati.
- Apiau ar-lein megis Google Docs, Microsoft Office 365, Adobe Creative Cloud, ac ati.
- Storio dogfennau, ffotograffau, cerddoriaeth megis Dropbox, Box.net, BT Cloud ac ati ar-lein
- Cydweithredu ar-lein, megis Facebook, Web Ex, Salesforce.com, Basecamp, ac ati.

Llwyfan fel Gwasanaeth (PaaS)

Mae cwsmeriaid yn defnyddio'r offer a'r seilwaith sydd wedi'i ddewis gan ddarparwr y gwasanaeth i greu a rhedeg eu rhaglenni eu hunain. Mae'r rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar ddatblygwyr yn defnyddio a chynnal apiau. Dyma esiamplau ohonynt:

- Google API, Zoho Creator, Amazon AWS Elastic Beanstalk, ac ati.

Seilwaith fel Gwasanaeth (IaaS)

Mae cwsmeriaid yn mynd yn syth i mewn i seilwaith cwmwl y darparwyr gwasanaethau i redeg apiau o'u dewis

eu hunain. Mae'r rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar waith ymchwil a galw mawr am y cyfrifiadur. Dyma esiamplau ohonynt:

- Amazon AWS, Microsoft Azure, Rackspace, ac ati.

Pan fydd busnes yn dewis SaaS gallent redeg yr apiau sy'n cael eu darparu gan eu cwmni cyflenwi cwmwl. Gyda PaaS, gall y busnes redeg ei apiau eu hunain, ond dim ond fel y mae'r cyflenwr yn ei ddewis. Mae IaaS yn gadael i fusnes redeg unrhyw ap ac yn rhoi rheolaeth lawn iddynt ar yr hyn y maent yn ei redeg ar y caledwedd cwmwl, a sut maen nhw'n gwneud hynny.

Sut Allwn i Ddefnyddio Cyfrifiadura Cwmwl?

Efallai y gwelwch fod rhai o'r rhesymau dros ddefnyddio Cyfrifiadura Cwmwl yn werthfawr i'ch busnes twristiaeth, ond sut allwch chi fanteisio arny'n nhw?

Meddalwedd yn y Cwmwl – mae'r mwyafrif o fusnesau'n defnyddio rhyw fath o becyn meddalwedd, p'un a ydyw'n brosesydd geiriau, taenlen, cronfa ddata, meddalwedd cyflwyniadau, golygyddion lluniau a fideos, rheoli prosiectau, neu eraill. Mae nifer o gwmnïau meddalwedd yn symud at ddull gwahanol o ddosbarthu a model busnes gwahanol – o gynnyrch i wasanaeth. Nawr mae modd agor llawer o apiau meddalwedd poblogaidd drwy borwr ar y we, ac mae'r gystadleuaeth yn cynyddu wrth i apiau cwmwl newydd ddod ar y farchnad.

Mae hyn yn golygu bod yr ap ar gael o unrhyw ddyfais. Gallwch agor y fersiwn diweddaraf o ddogfen yn eich cartref, yn eich gwaith, o'ch ffôn symudol, ac ati. Mae rhai apiau'n gadael i 2 neu fwy o ddefnyddwyr weithio ar yr un ddogfen ar yr un pryd erbyn hyn, felly gallwch gydweithio arnynt. Gan ddefnyddio'r

Cwmwl, does dim problemau trwyddedu gyda'ch apiau swyddfa wrth i'ch busnes ehangu ac ni fydd gennych broblemau gyda gofynion diweddarau wrth i'r meddalwedd ddatblygu.

Ebost – mae e-bost ar-lein wedi bod ar gael ers blyneddau lawer ac mae cyfrifon rhad ac am ddim, megis Hotmail, Gmail, Yahoo! Mail, yn boblogaidd ymysg defnyddwyr personol. Mewn busnes, roedd e-byst yn tueddu aros yn fewnol ac ar gael drwy gleientiaid pen desg megis post Outlook neu Pegasus. Am fod y mwyafrif o e-byst yn cael eu hanfon allan erbyn hyn yn hytrach nag aros yn fewnol, mae'n dod yn drefn fwy cyffredin i ddefnyddio gwasanaethau e-bost yn y cwmwl.

Apiau'r Swyddfa – mae'r meddalwedd busnes mwyafrif poblogaidd yn perthyn i apiau'r swyddfa, prosesu geiriau, taenlenni, cyflwyniadau ac ati. Mae apiau Microsoft Office wedi dominyddu'r farchnad Swyddfa Pen Desg, felly mae'r mwyafrif o wasanaethau swyddfa ar-lein yn tueddu bod yn gyfatebol â Microsoft Word, Excel, PowerPoint ac ati. Mae'r apiau Office ar-lein, Google Docs, Zoho, Microsoft Office 365, yn gadael i chi greu a llwytho dogfennau, eu cadw i'r pen desg a'u cadw ar-lein, a'u hargraffu. Gallwch newid y fformatio yn dibynnu pa ap y defnyddiwyd chi. Gallwch rannu ffeiliau a gweithio arnynt ar y cyd. Mae'r apiau yma'n cael eu cyfuno gyda systemau e-bost a chalendrau, gan roi rhaglen swyddfa gyflawn i chi.

Golygu Ffotograffau a Fideos – mae gwaith golygu wedi cynyddu'r gofynion am waith prosesu a storio mewn cyfrifiaduron pen desg. Mae'r meddalwedd, yn arbennig y rhaglenni proffesiynol, wedi bod yn rhy gostus i gwsmeriaid eu prynu heblaw eu bod yn hollol angenrheidiol i'w busnes. Mae rhai opsiynau diddorol ar gael, megis Adobe

Photoshop, Pixlr, a FotoFlexer. Mae modd cael gwasanaeth Golygu Fideos ar raglenni megis Adobe Premiere, WeVideo, a JayCut.

Mae gan Groeso Cymru eu grŵp Share Wales Flickr (<http://www.flickr.com/groups/sharewales>) eu hunain, lle mae modd llwytho lluniau ledled Cymru a'u rhannu gyda chymuned ehangach. Mae'n gymuned y gall y cyhoedd i gyd fynd i mewn iddo, ac y gallwch chi ddod yn aelod ohono.

Rhaglenni Busnes – mae meddalwedd cyfrifyddu, cyflogres a CRM wedi cael eu trosglwyddo'n llwyddiannus i'r gwasanaethau Cwmwl erbyn hyn. Mae Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) wedi bod ar gael yn y 'Cwmwl' ers mwy na degawd. Mae'n rheoli data am werthiannau a phrosesau ar-lein, gan olygu bod staff gwerthu'n gallu cael gafael ar gofnodion cwsmeriaid a chysylltiadau fel y bo'n ofynnol. Am ei fod yn gydweithredol, mae'r data'n cael ei ddiweddarau ar y pryd.

Mae cynnydd yn lled band y We a phrosesu ar-lein drwy'r 'Cwmwl' wedi rhoi gallu newydd i bobl wneud busnes ar-lein oedd ddim ar gael yn y gorffennol. Y mwyaf nodedig o'r rhain yw defnyddio cyfarfodydd rhithwir rhwng dau le sy'n bell oddi wrth ei gilydd. Gallwch gynadledda dros y ffôn a rhannu dogfennau a phen desg. Mae gweminarau a chynadledda ar-lein wedi gostwng y gost i fusnesau'n fawr iawn drwy agor mwy o gyfleoedd i rannu gwybodaeth a phrofiadau heb fod angen teithio.

Gwasanaethau arbenigol – mae'r diwydiant twristiaeth yn gofyn am apiau arbenigol nad ydynt yn rhan o'r apiau busnes mwy generig. Mae hyn wedi rhoi'r cyfle i wasanaethau arbenigol sefydlu o fewn 'y Cwmwl' ac maent ar

gael i'ch busnes chi. Os oes angen ateb arnoch mae'n siŵr y bydd un ar y we i chi. Dyma rai esiamplau sy'n berthnasol i'r diwydiant twristiaeth:

- Systemau archebu ar-lein megis Web Ticket Manager, Checkfront neu Planyo. Mae'r rhain yn wasanaethau archebu ar-lein y gallwch eu hychwanegu at eich gwefan. Mae hyn yn golygu nad oes raid i chi gynnal systemau Man Talu neu wefannau e-Fasnach mwy cymhleth. Fel arfer, maen nhw'n dod gyda system CRM yn rhan ohonynt yn barod fel eich bod yn gallu cadw adroddiadau a chofnodion manwl gywir am gwsmeriaid. Gallent godi ffi arnoch yn fisol neu ychwanegu ffi comisiwn am bob gwerthiant.

Mae systemau cadw lle mewn gwesty, megis Sirvoy, WebRezPro, neu Hotelogix, yn cynnig systemau bwcio y gallwch eu hychwanegu at eich gwefan a'ch tudalennau Facebook fel eich bod yn gallu rheoli eich cofrestriadau. Mewn rhai achosion maen nhw'n gallu bod yn rhaglenni rheoli eiddo cyflawn, sy'n cynnwys systemau cadw tŷ a chyfrifyddu. Maen nhw'n cysylltu â Systemau Dosbarthu Byd-eang i gysylltu â meddalwedd cwmnïau gwerthu gwyliau a sianelau cwmnïau gwyliau ar-lein, megis Booking.com, Expedia a Priceline, ac ati.

- Esiampl benodol iawn sydd ar gael i'ch busnes awyr agored yw Kit Log. Mae'n system rheoli diogelwch sy'n rhoi rhestr o'ch offer i chi. Mae'n hanfodol eich bod yn gwneud archwiliadau rheolaidd o'ch cit yn y diwydiant awyr agored ac mae'r ap yma'n cofnodi prosesau a chanlyniadau. Ei nod yw helpu busnesau awyr agored i ddod yn fwy effeithlon a diogel, ac arbed arian.

Storio ar-lein – mae hwn yn rhoi'r gallu i chi i storio, rhannu a gwneud copi o ffeiliau ar y we. Mae nifer o gwmnïau'n darparu'r gwasanaeth yma, ac mae ganddynt le storio o wahanol feintiau y gallwch fynd iddynt yn hawdd. Mae Box.net, DropBox, SkyDrive yn wasanaethau poblogaidd yn y farchnad yma. Mae llawer o ddadlau ynglŷn â pha mor hir y bydd y maes arbenigol yma'n para, wrth i fwy o raglenni swyddfa sy'n darparu gwasanaeth cyflawn ddod i mewn i'r farchnad.

Caledwedd yn y Cwmwl – pan fydd busnesau'n dewis 'meddalwedd-fel-gwasanaeth' maen nhw'n defnyddio rhaglenni gwe 'oddi ar y silff' sy'n bodoli'n barod. Os nad yw rhaglenni 'oddi ar y silff' yn ddigon mae angen ateb arall. Mae dwy ffordd o gael yr ateb arall, naill ai drwy Lwyfan neu drwy Seilwaith. Mae'r ddau ateb yma'n gadael i fusnes redeg ei raglenni ei hun o fewn y cwmwl, mae PaaS yn gadael i chi redeg rhaglen yn unol â'r gofynion ar Wasanaeth y Cwmwl, ac mae IaaS yn rhoi'r rheolaeth lawn i'r busnes.

Os oes gennych feddalwedd a ddefnyddiwyd yn eich busnes yn barod sydd wedi'i addasu'n benodol i'ch busnes chi, neu os ydych yn gobeithio datblygu hynny er mwyn manteisio ar y Cwmwl, yna dylech ystyried caledwedd yn y Cwmwl.

Mae'n amhosibl trafod yr holl Wasanaethau yn y Cwmwl yn y fan yma. Os hoffech ganfod rhagor, cliciwch ar y ddolen yma. Ewch i <http://www.serchen.co.uk> i ganfod gwasanaethau'r Cwmwl.

Cychwyn gyda Chyfrifiadura Cwmwl

Mae penderfynu dechrau defnyddio cyfrifiadura cwmwl yn gallu codi arswyd ar rywun! Dilynwch y rhestr wirio nesaf wrth ddewis eich darparwr ar y cwmwl.

Rhestr Wirio ar gyfer Cyfrifiadura Cwmwl:

- faint o enw da sydd gan y darparwr gwasanaeth? Pa mor hir maen nhw wedi bod yn cynnig gwasanaethau cwmwl?
- mae diogelwch yn hollbwysig – pa mor ddiogel sy'n rhaid i'ch data fod? Gofynnwch i'r gwerthwr sut y gallan nhw ateb eich gofynion diogelwch.
- ydy darparwr y cwmwl yn cadw copi wrth gefn o'ch data? Allwch chi symud eich data at ddarparwr arall? Beth sy'n digwydd os yw'r darparwr yn mynd allan o fusnes?
- gwiriwch y cytundeb lefel gwasanaeth. A oes unrhyw gosbau ariannol ar waith i sicrhau gwasanaeth da?
- gwnewch eich gwaith ymchwil eich hun i weld sut mae'r cyflenwr yn perfformio
- rhowch gynnig ar brofi'r gwasanaeth yn gyntaf. Mae Cyfrifiadura Cwmwl yn gadael i chi droi'r gwasanaeth ymlaen a'i ddiffodd. Peidiwch â chychwyn gyda data cyfrinachol neu systemau sy'n hanfodol i'ch cenhadaeth. Os bydd y gwasanaeth yn gweithio i chi, gallwch ehangu.

Pethau i'w Hystyried

Sut beth fydd Cyfrifiadura Cwmwl yn y dyfodol? Mae'r tirlun digidol wedi newid yn enfawr yn y 5 mlynedd diwethaf, heb sôn am yr 20 mlynedd y mae'r We Fyd-eang wedi bodoli. Mae modd prynu cerddoriaeth, ffilmiau a llyfrau yn electronig erbyn hyn. Mewn rhai achosion, gallwn gael gafael ar y defnydd heb i ni fod yn berchen arno h.y. ffilmiau drwy Netflix, cerddoriaeth drwy Spotify. Dim ond ehangu bydd hyn i gynnwys nwyddau eraill sy'n addas i'r model gan ddod yn wasanaeth talu-wrth-fynd.

Yn y 7 mlynedd diwethaf gwelwyd ehangiad enfawr yn y nifer o ddyfeisiau y gallwn eu prynu i'n cysylltu at y We, o ffôn, iPad a dyfeisiau tabled, teledu a chonsolau gemau i nwyddau cartref. Mae hyn yn ehangu i gynnwys dyfeisiau y gallwch eu gwisgo, megis Google Glass, iWatch ac ati.

Mae arferion gweithio'n newid. Dydyn ni ddim angen lle gweithio bellach i redeg ein busnes. Gallwn gysylltu drwy'r cwmwl gyda'n cydweithwyr, cydweithio â nhw a chael gafael ar ein deunyddiau gwaith fel sy'n ofynnol.

Atebion Posibl os yw Signal eich Ffôn Symudol yn Wael o Dan Do

Os ydych yn byw yn rhywle lle mae'r signal yn wael neu mae'n anodd cael signal o gwbl, naill ai yn eich cartref neu yn y swyddfa, gall achosi problemau o bob math i chi. Mae'n niwsans gorfod gwthio'ch pen allan drwy ffenestr eich ystafell wely neu sefyll allan yn y glaw i ffonio neu ateb y ffôn.

Bydd y Ffeithlen hon yn edrych ar atebion posibl i'r broblem yma.

Atebion Posibl os yw Signal eich Ffôn Symudol yn Wael o Dan Do

Dim ots beth yw eich rhwydwaith ffôn, allwch chi ddim dibynnu ar signal/derbyniad ffonau symudol bob amser ac mae llawer o ffactorau'n gallu cael effaith niweidiol ar signal ffôn symudol o dan do – er enghraifft:

- Os ydych yn bell oddi wrth y mast ffôn symudol agosaf i'ch rhwydwaith chi
- Os ydych mewn bwthyn gyda waliau carreg trwchus, os oes gennych inswleiddiad waliau dwbl, os oes bryniau neu fynyddoedd o'ch cwmpas neu os ydych mewn fflat ar lawr isel o dan lefel y tir, ac ati
- Ac wrth gwrs...mae rhai ffonau'n canfod signal yn well nag eraill!

Nodyn o obaith o'r diwedd i weithwyr ym myd twristiaeth sy'n mynd yn rhwystredig am nad oes ganddynt signal neu fawr o signal ar eu ffôn symudol!

Os yw signal eich ffôn symudol yn wael gartref neu yn eich gweithle, efallai bod gennych hawliau o dan y Ddeddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982. Bwriad y ddeddf yma yw diogelu prynwyr rhag cynhyrchion gyda gwneuthuriad gwael neu wasanaethau sydd heb eu darparu'n dda. Mae cymorth

a chyngor ymarferol ar y wefan Hawliau'r Prynwyr gan Which (<http://www.which.co.uk/consumer-rights/problem/i-keep-losing-mobile-phone-signal-in-my-home-what-can-i-do/>).

Mae'r rhan fwyaf o rwydweithiau symudol yn gweithio'n annibynnol i'w gilydd ac, os nad oes signal gydag un darparwr, neu os yw eu signal yn wael drwy'r amser, efallai y gallech wella'r signal drwy fynd at ddarparwr arall heb orfod talu ffi terfynu contract.

Ffemtogelloedd

Pwrpas ffemtogelloedd yw rhoi signal ffôn symudol i chi yn eich cartref neu ar safle eich busnes (mannau bychain).

Rhaid i'r dyfeisiau yma gael cysylltiad band llydan sy'n bodoli'n barod er mwyn gweithio. Mae'r cwmnïau ffôn symudol yn darparu'r dyfeisiau yma naill ai'n rhad ac am ddim neu am ffi bychan.

Mae'r rhain yn ddyfeisiau wedi'u trwyddedu ac maen nhw'n gyfreithiol i'w defnyddio. Maen nhw'n cysylltu'n uniongyrchol ac yn ddiogel at rwydwaith y cwmni dros y band llydan ac, yn eu hanfod, maen nhw'n drosglwyddwyr ffôn symudol pŵer isel iawn sydd wedi'u llunio i'w defnyddio o dan do. Mae ganddynt amrediad gweddol fach o tua 200m fel arfer.

Dim ond signal y cwmni darparu perthnasol y bydd Femtogelloedd yn ei gynnig. Bydd pob un (ac eithrio rhai o gynigion EE) yn gofyn i chi gofrestru unwaith yn unig o flaen llaw gyda manylion y ffôn symudol sy'n bwriadu eu defnyddio nhw, h.y. dydy'r dyfeisiau yma ddim yn addas i rywle fel gwesty gydag ymwelwyr newydd.

Dyma'r dolenni at bob un o'r cwmnïau perthnasol sy'n cynnig:

Vodafone Sure Signal <http://www.vodafone.co.uk/our-network-and-coverage/what-affects-your-coverage/sure-signal/index.htm>

O2 Boostbox <http://www.o2.co.uk/enterprise/products-and-services/managed-networks/internet>

Three Home Signal [http://support.three.co.uk/SRV/CGI-BIN/WEBISAPI.DLL/?New,Kb=Mobile,Ts=Mobile,T=CaseDoc,Case=obj\(5440\)](http://support.three.co.uk/SRV/CGI-BIN/WEBISAPI.DLL/?New,Kb=Mobile,Ts=Mobile,T=CaseDoc,Case=obj(5440))

EE <http://business.ee.co.uk/public-sector/products/coverage-solutions>

UMA – Setiau Llaw sy'n Gallu cael Cysylltiad Symudol Byd-eang:

Mae rhai setiau llaw symudol yn cefnogi UMA. Mae UMA yn gadael i chi ddefnyddio signal WiFi sy'n cysylltu â'r we i roi signal symudol i chi.

Ar amser ysgrifennu hwn, dim ond EE sy'n cynnig y gwasanaeth yma ac mae'n rhad ac am ddim i berchnogion setiau llaw UMA. Yr enw arno yw "Hwb Signal".

Mae rhagor o fanylion ar y ddolen yma:

<http://www2.orange.co.uk/servlet/Satellite?pagename=OUKPersonal&c=OUKService&t=Service&cid=1306843176798&tab=1>

Darnau Eraill o Feddalwedd sy'n Datrys y Broblem – O2 TuGo

Mae O2 yn cynnig Ap i gwsmeriaid sy'n talu'n fisol sy'n gadael iddyn nhw gysylltu â'r rhwydwaith O2 o lechen, ffôn clyfar neu gyfrifiadur personol (iOS, Android neu Win7).

Mae'r Ap yn gadael i gwsmeriaid O2 ffonio a derbyn galwadau ffôn, yn ogystal ag anfon a derbyn negeseuon testun mewn mannau heb signal neu lle mae'r signal yn wael.

Mae angen cysylltiad WiFi er mwyn i'r meddalwedd yma weithio.

Manteision Arferol

- Mae'n rhoi signal i chi o dan do
- Mae'n rhatach na llinell sefydlog i alw ffonau symudol eraill

Anfanteision Posibl

- Mae angen mynd trwy broses gofrestru
- Mae angen lled band (150kbps i bob galwad ar ffôn symudol)

Dechrau Arni gyda Chodau QR

Ydych chi wedi clywed am Godau QR? Efallai eich bod wedi eu gweld nhw – bocsys sy'n debyg i groeseiriau – ac wedi ceisio dyfalu beth ydyn nhw? Maen nhw'n gweithio fel 'allweddi' ac mae ymwelwyr yn eu defnyddio nhw i ddatgloi'r 'drws' i gyrraedd cynnwys digidol – pethau fel traciau sain, tudalennau ar y we, lluniau a llawer mwy.

Gallwch eu creu nhw'n rhad ac am ddim a'u defnyddio nhw fel y mynnwch!

Darllenwch ragor i weld sut y gallech chi eu defnyddio...

Beth yw Codau QR?



Cod Ymateb Cyflym (QR)

Mae Cod QR yn fath o god bar y mae dyfeisiau symudol yn gallu eu darllen – dyfeisiau megis ffonau deallus, iPads neu dabledi. Yn syml iawn, mae'n hypergyswllt all-lein gweledol sy'n gallu storio URL gwefannau, cyfeiriadau e-bost, testun plaen, rhifau ffôn a llawer mwy. Ond yn y fan yma rydyn ni'n mynd i ganolbwyntio'n bennaf ar URL gwefannau.

Cafodd Codau QR eu datblygu'n wreiddiol yn 1994 gan Denso, sy'n is-gwmni i Toyota, i gael hyd i ddarnau ceir er mwyn gallu cyfri stoc. Maen nhw wedi dod yn fwy a mwy poblogaidd a chânt eu defnyddio bellach gan fusnesau drwy'r byd i gyd.

Gallwch greu Codau QR yn rhad ac am ddim – ac maen nhw'n agor pob math o bosibiliadau!

Mae Codau QR yn cynnig ffyrdd newydd, cyffrous a symudol o rannu gwybodaeth a chymryd pobl at bob mathau o adnoddau byd-eang a gallwch eu defnyddio i wella a marchnata pob math o gynhyrchion a gwasanaethau twristiaeth yng Nghymru – yn cynnwys eich rhai chi wrth gwrs!

Pam fyddwn ni'n defnyddio'r rhain?

Mae nifer gynyddol o ymwelwyr â Chymru'n berchen ar ffôn deallus neu ddyfais symudol ac yn defnyddio'r rhain i gael gafael ar wybodaeth pan maent ar eu gwyliau yma. Felly, dyma gyfle newydd i ni gynnig cyfoeth o wybodaeth i'n hymwelwyr wrth iddyn nhw deithio o gwmpas, a dim ond un sgan sydd ei angen i gael gafael ar y cynnwys yma sy'n hawdd ei dderbyn ar ffôn symudol.

Mae ein hymwelwyr wrthi'n teithio o gwmpas gan ddibynnu fwy a mwy ar eu dyfeisiau symudol i gysylltu â'r we. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn cael trafferth teipio ar fysellfwrdd bach ac mae'n llawer haws sganio Cod QR na theipio cyfeiriad hir gwefan. Gynted ag y bydd darlennydd QR wedi'i osod ar ffôn deallus, gallwch sganio Codau QR. Yna bydd y porwr yn dangos y dudalen berthnasol ar y we neu'r cynnwys all-



Cod QR



Ffôn deallus



Tudalennau gwe penodol neu gynnwys all-lein

lein. Gallwch gael eich negeseuon marchnata all-lein ar y we yn gyflym drwy roi Codau QR ar eich taflenni, cylchgronau, bwydlenni, cardiau busnes, drysau/ffenestri, posteri ac ati. Yna, gall y defnyddiwr weld eich neges ar-lein ar unwaith.

Mae Codau QR yn:

- Rhad ac am ddim i'w creu – ac mae'n siŵr y gallwch feddwl am bob mathau o ffyrdd o'u defnyddio nhw a mannau i'w gosod nhw
- Cynnig ffordd gyfleus, gynaliadwy, hyblyg a chost effeithiol o drosglwyddo gwybodaeth a gwneud defnydd mwy effeithlon o ddefnyddiau wedi'u hargraffu
- Cynnig ffordd hawdd o gyfeirio ymwelwyr at dudalen lanio benodol a ffynonellau eraill o wybodaeth werthfawr y gallwch ei diweddarau
- Gadael i chi segmentu a rhoi gwybodaeth briodol i gynulleidfa benodol ac yn gadael i chi ddweud straeon gwahanol i'r rheiny sydd gennych ar eich prif wefan efallai
- Cynnig ffordd ddelfrydol o hybu gweithgareddau tymor byr, cystadlaethau neu weithgareddau hyrwyddo ac ati

- Gallu cynnig gwybodaeth pan fydd y staff / arweinwyr ddim yno – tu allan i oriau'r swyddfa/ pan fydd y tymor wedi dod i ben neu mewn lleoliadau sy'n bell o bob man. Maen nhw hefyd yn gadael i chi fonitro pwy sy'n defnyddio eich codau QR
- Gallwch eu datblygu'n llwybrau yn eich busnes eich hun neu wrth weithio gyda phobl eraill i adrodd stori hirach ac i roi profiad mwy cyfoethog i'r ymwelydd

Edrych ar God QR


I sganio Cod QR y cwbl sydd ei angen arnoch yw ffôn deallus neu ddyfais symudol arall sydd â chamera, cysylltiad â'r we ac Ap Darllenydd Cod QR. Gallwch gael rhai dyfeisiau symudol sydd â Darllenydd Cod QR wedi'i osod o flaen llaw.

Os nad oes gennych Ddarllenydd Cod QR ar eich dyfais, gallwch lawrlwytho un o'r we yn rhad ac am ddim. I osod meddalwedd y Darllenydd Cod QR ar eich dyfais symudol, dilynwch y cyfarwyddiadau a ganlyn:

- a) O'ch dyfais/ffôn symudol cliciwch ar yr eicon **App Store**, a)/neu ewch ar-lein i storfa Apiau eich dyfais
- b) Chwiliwch am **"QR readers"**. Darllenwch yr adolygiadau i'ch helpu



A



B



C

i benderfynu pa un sydd orau i chi a'ch dyfais. Cliciwch **Install**

- c) Bydd yn gofyn i chi am eich **cyfrinair** – yna bydd eich Darlennydd QR yn lawrlwytho a bydd yn barod i'w ddefnyddio

Cymerwyd y cipluniau uchod o iPhone – efallai bod eich sgrin chi ychydig yn wahanol.

Opsiwn arall yw defnyddio eich hoff fath o borwr a theipio'r geiriau 'download QR Code Reader' yn y bocs chwilio ynghyd

ag enw'r math o ddyfais sydd gennych – ar ôl darllen drwy'r canlyniadau gallwch wneud eich dewis ac yna ddilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin i osod eich Ap.

Sganio Codau QR

Yn yr esiampl isod, y cod sy'n cael ei sganio yw'r Cod QR ar gyfer y wefan Share Wales. Efallai y gwelwch bod angen i chi ymarfer rhywfaint cyn gallu sganio Codau QR yn iawn. Mae angen llaw gadarn arnoch i gadw'r ffôn deallus yn llonydd!




1

Agorwch y darlennydd QR



2 + 3

Daliwch dros y Cod QR, arhoswch tra bo'r cod yn cael ei sganio



4

Mae'r Wefan yn agor

Tynnwyd y cipluniau uchod o iPhone – efallai bod eich dyfais chi ychydig yn wahanol.

- 1) agorwch y Darllenydd QR
- 2) pwyntiwch eich ffôn deallus at y cod
- 3) arhoswch iddo ddarllen y cod
- 4) mae'n agor y dudalen we neu'r cynnwys all-lein

Cynhyrchu eich Codau QR eich hun

Meddyliwch am URL y we dudalen rydych yn bwriadu cyfeirio eich ymwelwyr ati – mae'r Codau QR mwyaf effeithiol yn cysylltu at we dudalennau sy'n gweithio ar ffôn symudol – ydy eich rhai chi?

Gallwch ddefnyddio eich cyfrifiadur personol, gliniadur neu ddyfais llaw i gynhyrchu eich Codau QR. Teipiwch 'QR Code Generator' yn y bocs chwilio yn eich hoff borwr a bydd y canlyniadau'n ymddangos, gan roi dewis mawr i chi o wefannau fydd yn gadael i chi greu eich Codau QR eich hun. Chwiliwch am y rheiny sy'n cynnig opsiynau megis lliw, mathau o ddata, fformat, opsiynau allbwn, dyfeisiau byrhau URL mewnol, ac ati.

Yn syml iawn, dewiswch o'r canlyniadau a dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin.

Mae'n hawdd creu Cod QR i agor tudalen lanio:

Pan fyddwch wedi dewis eich Cynhyrchydd Cod QR

- Gwnewch yn siŵr bod yr opsiwn Math o Ddata wedi'i osod ar 'Website URL'
- Teipiwch y cyfeiriad, neu gwnewch gopi a glynu'r cyfeiriad yr ydych eisiau i'r Cod QR gyfeirio ato, i mewn i'r bocs. Bydd hwn fel arfer wedi'i labelu 'Website URL'. Cliciwch ar y botwm 'Download QR Code'
- Pan fyddwch yn lawrlwytho neu'n cadw ffeil dylech roi enw ystyrion iddo a'i gadw mewn ffolder berthnasol – er mwyn i chi allu dod

o hyd iddo y tro nesaf y byddwch ei angen. Nawr, mae eich Cod QR yn barod i'w ddefnyddio

Os byddwch yn defnyddio cyfeiriad gwe hir, bydd y Cod QR yn fwy cymhleth felly mae mwy o risg na fydd y cod yn sganio. Bydd defnyddio rhaglen byrhau URL yn symleiddio eich Cod QR, gan ei wneud yn haws ei sganio. Mantais arall yw bod gan URL byrrach alluoedd tracio fel arfer a fydd yn gadael i chi weld faint o bobl sydd wedi clicio ar y ddolen honno. Mae rhai Cynhyrchwyr Cod QR yn cynnig y gwasanaeth yma'n rhad ac am ddim. Gallwch hefyd ddefnyddio eich teclyn dadansoddi'r we i fonitro faint o weithiau mae pobl wedi defnyddio eich Cod QR.

Dyma esiampl o URL llawn ac hefyd fersiwn byrrach o'r un URL y gallwch ei dracio.

<http://www.sharewales.com/index.php/more-on-qr-codes/>

<http://bit.ly/MGt4JF>

Mae maint yn bwysig! Os yw eich Cod QR yn rhy fach, ni fydd yn sganio.

- Yr argymhelliad fel arfer yw bod y cod yn mesur o leiaf 3cm x 3cm i ddogfen A4 ac oddeutu 30cm x 30cm i ddarllen o boster A3
- Y man tawel yw'r darn sydd o amgylch y Cod QR sy'n gwneud y Cod QR yn haws ei ddarllen, a'r cynhyrchydd sy'n penderfynu ar faint hwn

Cofiwch BOB amser i brofi eich Codau QR gydag amrywiaeth o ffonau deallus ac Apiau sganio cyn eu cyhoeddi nhw – efallai y gall eich teulu a'ch cyfeillion eich helpu gyda hyn!

Sut fyddwch chi'n defnyddio eich codau chi?

Mae Codau QR yn hynod o ddefnyddiol. Dilynwch y canllawiau yma i wneud defnydd da ohonynt:

Gallwch ddefnyddio Codau QR i helpu i hysbysebu eich busnes twristiaeth mewn nifer o wahanol ffyrdd. I fod yn effeithiol, dylai Codau QR gynnig rhywbeth o werth, rhywbeth arbennig neu rywbeth unigryw i'ch ymwelwyr, megis cynnig arbennig, profiad gwell i ymwelwyr neu gynnwys sy'n addas i ffonau symudol. Dydy hi ddim fel arfer yn beth da cyfeirio eich ymwelwyr symudol at eich tudalen hafan neu wybodaeth busnes arferol – heblaw eich bod wedi cynllunio eich gwefan a'i chynnwys at eu defnydd nhw wrth gwrs.

- Peidiwch â defnyddio Codau QR dim ond er mwyn eu defnyddio – ystyriwch y we dudalen rydych am ei defnyddio a rhowch ddisgrifiad byr o'r cod, beth ydyw a'r hyn y gall ei wneud.
- Gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth rydych yn cyfeirio eich ymwelwyr ati'n atyniadol, yn berthnasol ac wedi'i diweddarau, bydd gwybodaeth sydd wedi mynd yn hen yn rhoi argraff wael i'ch ymwelwyr
- Gwnewch Godau QR yn rhan o'ch cynllun marchnata – cysylltwch nhw â mathau eraill o farchnata e.e.: cynigion arbennig ar wefannau cyfryngau cymdeithasu
- Os oes angen cysylltiad â'r we i weithio eich Cod QR, cynigiwch destun syml llawn gwybodaeth ar gyfer ardaloedd lle mae'r cysylltiad yn wael neu'n mynd a dod
- Rhowch eich Codau QR mewn lle amlwg a diogel lle mae'n hawdd i'ch ymwelwyr eu sganio – efallai y byddwch angen caniatâd cynllunio hefyd neu ganiatâd gan drydydd parti

- Gofalwch am eich Codau QR i osgoi torri dolenni – mae hynny'n hawdd iawn ei wneud

Syniad neu ddau – Pethau i'w hystyried

Gallech:

- Ddatblygu llwybr QR digidol i'ch ymwelwyr ei ddilyn gan ddefnyddio eu ffonau deallus a'r Darllenydd Cod QR, neu beth am weithio gyda busnesau lleol eraill ar thema debyg?
- Ddefnyddio lluniau, ffilm, cerddoriaeth, barddoniaeth neu rywbeth tebyg i greu realaeth estynedig
- Gysylltu bwydlen at fideo sy'n dangos cogydd yn paratoi bwyd lleol/yn esbonio o le daw'r bwyd
- Gyflwyno gwybodaeth i wahanol grwpiau yn ôl eu hoedran, iaith, diddordebau ac ati yn dibynnu pwys fydd yn cael gafael ar eich Codau QR ac yn eu darllen
- Ychwanegu gwerth at ddigwyddiad/leoliad/weithgaredd tymor byr drwy roi ei hanes neu ffeithiau doniol amdano
- Eu defnyddio ar eich mynedfa, drws neu ffenestr, i roi blas diddorol i bobl sy'n pasio o'r hyn a wnewch.

Mae'r posibiliadau ar gyfer defnyddio Codau QR i hysbysebu eich busnes twristiaeth yn enfawr. Gobeithio y byddwch yn mwynhau eu defnyddio. Os byddwch yn gwneud rhywbeth anarferol, gadewch i ni wybod sut yr ydych yn defnyddio eich un chi ar y fforwm ar www.sharewales.com.

Beth yw Apiau a Sut y Gallwn eu Defnyddio yn ein Busnes Twristiaeth?

Fel y gwyddom yn barod, mae nifer gynyddol o'n ymwelwyr yn defnyddio dyfeisiau symudol. Maent yn treulio'r rhan fwyaf o'r amser a dreuliant ar eu dyfeisiau'n defnyddio pob math o Apiau Rhyngweithiol sy'n gallu gwneud popeth bron!

Os yw apiau symudol yn bethau newydd i chi, bydd y ffeithlen yma'n eich helpu i ddeall sut mae ein hymwelwyr â Chymru'n eu defnyddio ac efallai y bydd yn eich ysbrydoli i feddwl "Sut allwn i ddefnyddio Ap yn fy musnes twristiaeth innau?"

Bydd hynny wrth gwrs yn dibynnu beth mae eich busnes twristiaeth yn ei wneud, neu ba syniadau da sydd gennych.

Beth ar Wyneb Daear yw Apiau?

Mae 'ap' yn dalfyriad o'r gair Saesneg 'application' – sef rhaglen meddalwedd sydd wedi'i llunio i'ch helpu i wneud tasg benodol, i ddefnyddio gwasanaeth neu i'ch cadw wedi'ch difyrru yn aml iawn. Y newyddion da yw ein bod ni a'r mwyafrif o'ch cwsmeriaid posibl wedi bod yn defnyddio Apiau ers blynyddoedd.

Os ydych wedi defnyddio dogfen, pecyn cyfrifeg, porwr gwe, graffeg, gêm, wedi golygu ffotograffau, mapiau rhyngweithiol ac ati, ar eich cyfrifiadur desg neu drwy'r we, yna yn dechnegol rydych wedi defnyddio Ap yn barod.

Ond, pan ddefnyddiwn y term Ap heddiw, mae'n ymwneud yn bennaf â'r Apiau symudol sy'n cael eu lawrlwytho i'n dyfeisiau symudol. Mae Apiau Symudol yn rhaglenni meddalwedd sydd wedi'u llunio'n arbennig i redeg ar ffonau clyfar, llechi a dyfeisiau symudol eraill. Gall Apiau gael gafael ar gynnwys o'r We, yn debyg i wefan, neu gall lawrlwytho'r cynnwys cyfoethog fel eich bod yn gallu mynd i mewn iddo heb gysylltu â'r We yn gyntaf. Mae hyn yn ddefnyddiol i fusnesau twristiaeth sydd wedi'u seilio mewn ardaloedd lle mae'r cysylltiad â'r we'n wan neu lle nad oes cysylltiad o gwbl.

Mae apiau symudol newydd yn cael eu lansio bob dydd – maen nhw'n rhoi gwybodaeth i'n hymwelwyr, yn eu difyrru ac yn cadw eu diddordeb. Peidiwch â cholli cyfle! Achubwch y blaen ar eich cystadleuwyr.

Mae'r farchnad symudol yn tyfu'n gyflymach bob dydd ac yn newid y ffordd y mae'r byd yn chwarae ac yn gwneud ei fusnes. Heddiw mae nifer gynyddol o'n ymwelwyr a phobl allai ddod yn ymwelwyr yn defnyddio ffonau clyfar a llechi. Maent yn lawrlwytho ac yn defnyddio niferoedd di-ri o Apiau symudol sy'n ymwneud â theithio i'w helpu i gynllunio, archebu a mwynhau eu hymweliadau â Chymru.

Efallai bod hwn yn amser da i chi ddechrau meddwl a allech, neu a ddylech, eu defnyddio yn eich busnes twristiaeth, fel ffordd newydd arall o ymgysylltu â'ch ymwelwyr.

Sut mae eich Ymwelwyr yn Defnyddio Apiau Symudol?

Rydym oll yn lawrlwytho mwy o Apiau nag erioed o'r blaen. Mae'r rhan fwyaf o'r amser a dreuliwn ar ein dyfeisiau symudol wedi'i dreulio'n defnyddio Apiau – o'r llyfrynau gwybodaeth syml

i'r Apiau canu a dawnsio rhyngweithiol.

Dyma rai esiamplau o'r ffordd y mae ein ymwelwyr yn defnyddio Apiau yn barod yn y sector twristiaeth:

Apiau Archebu Symudol – mae ymwelwyr yn defnyddio'r rhain i archebu a chadarnhau eu bod eisiau llety, tocynnau i atyniadau, gweithgareddau a digwyddiadau ac ati.

Canllawiau Teithio Rhithwir – mae'r rhain yn helpu ymwelwyr i gynllunio a threfnu eu tripiâu, gallent archebu tocynnau, byrddau mewn bwytai lleol, mynediad i atyniadau a digwyddiadau, a gwella eu teithiau cerdded, ac ati.

Apiau Canfod Wi-Fi – mae'r rhain yn ddefnyddiol am eu bod yn gadael i'n ymwelwyr wybod yn union lle mae modd canfod cysylltiadau diwifr am ddim ac am dâl.

Apiau Realiti Estynedig – mae'r rhain yn haenu cynnwys digidol dros y byd go iawn. Gallent ddarparu manylion hanesyddol, gemau a llwybrau cerdded i ennyn diddordeb yr ymwelwyr.

Apiau Geo-storio – mae'r rhain yn gadael i ymwelwyr gymryd rhan mewn helfeydd trysor awyr agored – mae dipyn go lew o'r rhain yng Nghymru'n barod.

Apiau Cod QR – mae'r rhain yn ffyrdd cyffrous o rannu gwybodaeth a chyfeirio pobl at bob math o adnoddau, ac maent yn addas i ddyfeisiau symudol.

Apiau Teithiau Cerdded – mae'r rhain yn rhoi manylion teithiau cerdded, yn dangos mannau o ddiddordeb, delweddau a hanes ar hyd y ffordd a fydd yn gwella profiad yr ymwelwyr.

Apiau Digwyddiadau ar Waith – mae'r rhain yn rhoi'r manylion diweddaraf i ymwelwyr am ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd ar waith yn yr ardal

Apiau Newyddion a Thywydd – mae'r rhain yn gadael i ymwelwyr glywed y tywydd a'r newyddion diweddaraf – gall roi'r manylion hyn iddynt mewn amser real.

Apiau Gemau Symudol – mae'r rhain yn hwyl a bydd ein ymwelwyr yn gallu eu difyrru eu hunain. Os byddwch yn cyfuno posau, gemau neu gwisiau yn eich Ap twristiaeth byddent yn gallu difyrru eu plant hefyd.

Apiau Ffoto – defnyddir y rhain i dynnu lluniau, eu golygu a'u rhannu ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol.

Apiau Rhwydweithio Cymdeithasol – megis TripAdvisor, Facebook ac ati sy'n cael eu defnyddio gan ymwelwyr i rannu lluniau, adolygiadau, gwirio a diweddarau eu safleoedd rhwydweithio cymdeithasol

Apiau Rhanbarthol – mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth am wahanol ranbarthau o Gymru ac yn cynnwys mapiau rhyngweithiol, gwybodaeth gyffredinol, gwybodaeth am westai, atyniadau, teithiau cerdded, bwytaï a llawer mwy. Gall yr apiau fod yn hollol ddwyieithog os oes angen. Bydd yr Apiau yma'n ganllawiau defnyddiol i ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi'ch cynnwys mewn unrhyw Apiau rhanbarthol priodol yn eich ardal

Eich Ap Brandio Busnesau Twristiaeth – gallai hwn alluogi eich ymwelwyr i brynu eu tocynnau eu hunain, defnyddio'r map GPS rhyngweithiol i ddangos lle maent a beth sydd gerllaw, cynllunio eu hymweliad, gweld ffeithiau a gwybodaeth ddefnyddiol, delweddau, fideos a llawer mwy.

Y cwbl sy'n cyfyngu eich Ap yw eich gallu creadigol a'ch sgiliau chi neu sgiliau eich dewis ddatblygwr.

Beth yw Manteision Apiau Symudol i'ch Busnes?

Mae pawb yn dweud mor dda yw Apiau i'r sector twristiaeth. Gadewch i ni edrych ar rai o fanteision posibl datblygu Ap symudol i'ch busnes twristiaeth. Dyma rai syniadau – mae'n debyg bod llawer mwy. Gallent eich helpu i:

- **Wella profiad eich ymwelwyr** – gall eich ymwelwyr elwa o dderbyn yr wybodaeth am eich busnes twristiaeth, eich cynhyrchion neu wasanaethau – byddent ar flaenau eu bysedd yn llythrennol
- **Denu cwsmeriaid newydd** – gallwch eu defnyddio i hysbysebu cynhyrchion a gwasanaeth i'r gynulleidfa symudol bwysig sy'n tyfu
- **Darparu ffyrdd ffres o ddenu ymwelwyr newydd** – i ymgysylltu â'ch cynulleidfa gynyddol symudol a dangos egni a blaengarwch yn eich busnes
- **Cynyddu eich refeniw** – bydd yn eich helpu i ennill arian a chynyddu eich elw, gan roi ffyrdd newydd a chyffrous o werthu/traws-werthu/uwchwerthu eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau
- **Cynnig gwasanaeth archebu** – mae hwn ar gael bob amser, yn gludadwy ac yn hawdd i'ch ymwelwyr ei ddefnyddio
- **Atgyfnerthu eich ymwybyddiaeth am frandiau** – mae eich logo ar brif sgrin dyfais symudol yr ymwelwyr a phob tro mae eich Ap yn cael ei ddiweddarau bydd yn atgyfnerthu cryfder eich brand
- **Dod o hyd i'ch busnes neu ddigwyddiad** – mae'n eich gwneud yn hawdd eich cyrraedd drwy'r mapiau rhyngweithiol

- **Ateb disgwyliadau eich ymwelwyr** – a fyddai eich ymwelwyr yn disgwyl i chi gael Ap symudol? A fyddai'n gwella eu profiad fel defnyddwyr?
- **A oes gan eich cystadleuwyr Ap ar gyfer eu cynhyrchion neu wasanaethau?** – efallai eich bod angen un i gadw ar flaen y gystadleuaeth

Beth yw Anfanteision Apiau?

- Gall gymryd llawer o amser ac arian i ddatblygu Ap
- Rhaid lawrlwytho a gosod y mwyafrif o Apiau cyn i chi allu eu defnyddio
- Nid yw pob Ap yn gweithio ar bob dyfais symudol
- Gall fod yn ddud i ymwelwyr tramor os oes raid iddynt dalu costau uchel i fynd ar y we pan maent yng Nghymru

Mathau o Apiau Symudol

Mae gwahanol fathau o Apiau symudol:

Apiau brodorol – rhaid gosod y rhain yn uniongyrchol ar y ddyfais symudol benodol a gallent fynd i mewn i holl nodweddion y dyfeisiau symudol, megis y camera a'r llyfr cyfeiriadau. Nid yw'r Apiau yma bob amser angen cysylltu â'r we i weithredu. Dyma'r mathau drytaf o Ap yn aml iawn i'w hadeiladu a'u diweddarau am fod yn rhaid eu rhaglennu yn yr iaith sy'n briodol i ddyfais benodol ac mae'n rhaid eu hailosod bob tro y caiff yr Ap ei ddiweddarau neu ei addasu gan y datblygwr.

Apiau Gwe Symudol – maent yn gyfatebol ar draws yr holl lwyfannau a dyfeisiau am eu bod yn rhedeg ym mhorrwr y dyfeisiau symudol, felly does dim angen eu lawrlwytho neu eu gosod. Dyma'r gwefannau symudol mwyaf cyffredin lle mae'r cynllun wedi'i ddatblygu'n benodol i fod yn 'ymatebol' i faint y sgrin ar ddyfais y defnyddiwr.

Trwy ddefnyddio technegau megis HTML5 a CSS gellir gwneud profiad y defnyddiwr yn 'debyg i Ap' ac os yw wedi'i lunio'n dda bydd y wefan symudol yn teimlo fel petai wedi'i greu ar gyfer y ddyfais. Mae Apiau Gwe'n haws ac yn rhatach i'w datblygu.

Apiau Hybrid – mae'r rhain yn cyfuno'r gorau o'r Apiau brodorol ac Apiau'r we. Gallent fynd i mewn i alluoedd caledwedd y ffôn fel Ap brodorol ac maent hefyd yn gweithio ar wahanol lwyfannau'r we. Mae Apiau Hybrid yn cael eu datblygu gan ddefnyddio fframweithiau sy'n bodoli'n barod a gellir meddwl amdanynt fel Ap ar y we sydd 'wedi'i lapio tu mewn' i Ap brodorol. Gall yr apiau yma fod yn gost effeithiol i'w cynhyrchu yn enwedig am eich bod yn osgoi costau ail-godio eich Ap yn gyfan gwbl ar gyfer yr amrywiol fathau o ddyfeisiau.

Mae pa un sydd fwyaf addas i'ch anghenion yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn cynnwys eich cynulleidfa darged, y gyllideb sydd ar gael, y pwrpas y mae wedi'i fwriadu iddo a'r nodweddion gofynnol.

Gofynnwch i chi'ch Hun – Ydw i Angen Ap mewn Gwirionedd?

Mae Apiau'n ffordd ddefnyddiol o ledaenu eich cynnwys i fwy o bobl. Y cynnwys yw eich lle gwyliau i dwristiaid, eich digwyddiad, lleoliad neu fusnes. Rydym wedi nodi'r gwahanol fathau o Apiau yn y ffeithlen hon, ond mae 'Apiau gwe symudol' digwyddiadau'n costio arian ac os ydych yn bwriadu buddsoddi mewn Ap, mae angen i chi ofyn i chi'ch hun "Beth yw dadl fy musnes dros gael Ap?"

Dylech fod wedi buddsoddi'n barod mewn gwefan i'ch busnes, a dylai'r wefan yma fod yn 'ymatebol'. Yr hyn a olygwn wrth 'ymatebol' yw bod ganddi'r

gallu i ddangos yn effeithiol ac effeithlon ar nifer o wahanol ddyfeisiau a sgriniau o wahanol faint. Os edrychwch yn gyflym ar brofiad defnyddwyr eich gwefan, gallwch weld sut mae eich cwsmeriaid yn gweld eich gwefan.

Ceisiwch roi eich cyfeiriad gwe ar y dudalen hon <http://ami.responsivedesign.is/> a chewch weld eich gwefan mewn sgrin pen desg, sgrin gliniadur, sgrin llechen a sgrin ffôn clyfar. Bydd hyn yn dangos i chi pa brofiad gaiff y bobl, yn cynnwys eich cwsmeriaid, o'ch gwefan ar hyn o bryd. O safbwynt masnachol, dylech roi eich blaenoriaeth gyntaf i wella'r profiad yma a gânt o'ch busnes.

Mae Ap yn fuddsoddiad mewn amser ac arian. Bydd angen chi gynnal y buddsoddiad yma a chadw'r cynnwys o fewn yr Ap yn ffres ac atyniadol i ddefnyddwyr presennol a defnyddwyr newydd yr Ap. Dylai'r wybodaeth ar eich Ap adlewyrchu, cyfateb ac hyd yn oed wella'r profiad a'r wybodaeth sydd ar eich gwefan. Mae'n bwysig nad yw eich Ap a'ch gwefan yn dod yn 'seilos' ar wahân.

Y Derbyniad

Un peth pwysig i'w gofio yw bod y rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio Ap yn mynd i'w ddefnyddio 'allan yn y byd mawr' pan fyddent ar eu gwyliau. Mewn llawer rhan o Gymru, allwch chi ddim gwarantu signal i'r data symudol neu gall fod yn wael iawn. Os yw eich Ap yn Ap gwe symudol ac mae ganddo lawer o luniau a fideos ac ati, bydd y rhain yn cymryd llawer o amser i lwytho ar y ffôn a byddent yn rhoi profiad negyddol i'ch cwsmer – mae defnyddwyr Apiau'n tueddu bod yn ddiamynedd, yn arbennig ar wyliau a phan fyddent yn chwilio am ryw beth cyflym i'w wneud, lle i fwyta neu le i ymweld ag o. Mewn sefyllfa fel yma mae Ap brodorol yn gallu bod o

fantais lle mae'r wybodaeth wedi'i rhoi mewn cod i mewn i'r Ap yn barod ac nad oes angen ei 'chasglu' yn gyntaf o weinydd allanol (yn ei hanfod, dyma sut mae gwefan yn gweithio).

Dylai cynllun eich Ap gymryd i ystyriaeth y ffaith na allwch warantu y bydd cysylltiad data symudol o gyflymder rhesymol. Ystyriwch edrych ar Ap sy'n trosglwyddo data a gwybodaeth 'mewn llwythi' pan fydd gan y defnyddiwr gysylltiad wifi (yn y gwesty neu fwyty/caffi ar ddechrau neu ddiwedd y dydd fel arfer).

Ymhle ydw i'n cychwyn?

Efallai nad ydych yn barod eto i ddatblygu eich Ap eich hun, ond gallwch gychwyn.

- Gadewch i'ch ymwelwyr wybod am yr apiau lleol gwyh y gallent eu lawrlwytho, a fydd yn eu helpu i gynllunio ac hefyd i wella eu profiad ar eu gwyliau yn eich rhanbarth chi o Gymru.
- Chwiliwch am ffyrdd o ryngweithio gyda a chreu cynnwys i Apiau yn eich ardal eich hun, er enghraifft drwy lwytho teithiau cerdded i'r Apiau e-lwybrau. Gallwch hefyd ddefnyddio codau QR i roi gwybodaeth ychwanegol a gwell i'ch ymwelwyr.
- Gwnewch yn siŵr bod eich busnes twristiaeth wedi'i gynnwys mewn unrhyw Apiau rhanbarthol sydd ar gael ac hefyd eich bod wedi'ch rhestru ar unrhyw safleoedd Ap teithio perthnasol. Byddwch yn gallu defnyddio eich hoff chwilotwr i ganfod y rhain i'ch rhanbarth chi.
- Treuliwch ychydig o amser yn ymchwilio sut mae busnesau twristiaeth tebyg eraill yn elwa ac yn manteisio i'r eithaf o ddefnyddio Apiau – byddwch yn canfod llawer o wybodaeth ar y We
- Efallai y gallech ddatblygu Ap mewn partneriaeth â busnesau twristiaeth cyfatebol eraill yn eich ardal – efallai y gallech hyd yn oed sicrhau arian ar gyfer hynny.

Adeiladu eich Ap – Beth yw eich Opsiynau?

Mae gennych syniad rhagorol ar gyfer eich Ap newydd – ymhle ydych chi'n mynd i gychwyn?

Bydd angen i chi ystyried y cwestiynau a ganlyn (neu rai tebyg) yn ofalus a pharatoi dogfen fanwl o'r enw Brîff Datblygu sy'n cynnwys disgrifiad llawn o'ch gofynion:

- Pam ydych chi'n ei adeiladu?
- Pa nodweddion fydd wedi eu cynnwys yn eich Ap?
- Faint fydd y gost?
- Pwy fyddai eisiau ei ddefnyddio?
- A fydden nhw'n talu amdano?
- Fyddwch chi'n adeiladu Ap gwe, brodorol neu hybrid?
- Pa ddyfais symudol mae eich ymwelwyr yn ei defnyddio?
- Pa ddyfais symudol fyddwch chi'n ei chefnogi?
- Sut fyddwch chi'n ei adeiladu?
- Pwy fydd yn ei adeiladu?
- Pryd fydd yr Ap yn barod?
- Sut fyddwch chi'n ei farchnata ai ddosbarthu?
- Sut fyddwch chi'n ei brofi?
- Pa mor aml fyddwch chi'n ei ddiweddarau?
- Sut fyddwch chi'n mesur ei lwyddiant?

lawn, rydych wedi penderfynu beth rydych am ei adeiladu ac wedi paratoi eich Brîff Datblygu. Bydd hwn yn eich cadw ar y trywydd iawn ac yn gadael i chi

ddewis a chyfathrebu elfennau hanfodol y gwaith, y nodweddion a'r galluoedd yr ydych eu hangen er mwyn cyflawni eich amcanion. Nawr mae gennych nifer o opsiynau:

Os oes gennych y sgiliau angenrheidiol o fewn y cwmni, gallech ddatblygu a chodio eich Ap eich hun gan ddefnyddio'r offer a'r ieithoedd rhaglennu ar gyfer marchnadle dewisedig eich Ap.

Mae offer ar-lein ar gael hefyd (a rhai ohonynt yn rhad ac am ddim) a fydd yn gadael i chi ddatblygu a chyhoeddi eich Ap symudol – heb fod angen rhyw lawer o wybodaeth dechnegol neu raglennu arnoch, neu ddim o gwbl ar gyfer rhai. Gan ddefnyddio term chwilio e.e. 'sylwadau am adeiladwyr Ap symudol' yn eich hoff chwilotwr, byddwch yn derbyn rhestr o'r rhain. Byddwch hefyd yn canfod cyrsiau ar-lein (rhai ohonynt am ddim) a fydd yn dangos i chi sut i adeiladu eich Ap.

Os oes gennych syniad da ar gyfer Ap, ond nad ydych eisiau ei adeiladu neu ei ddatblygu eich hun, gallech ddefnyddio cwmni allanol wedi'i ddewis yn ofalus sy'n arbenigo mewn datblygu Apiau. Bydd eich Brîff Datblygu wedi eich helpu i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen gan gyflenwyr i ddyfynnu'n gywir ac i roi Ap i chi sy'n sefyll allan, yn cwrdd â disgwyliadau'r defnyddwyr terfynol ac anghenion eich busnes, ond yn eich cadw o fewn eich cyllideb a'ch amserlen.

Mae'n bwysig canfod cwmni gydag enw da a fydd yn gweithio'n effeithiol gyda chi i ddatblygu Ap sy'n cwrdd â'ch holl anghenion busnes ac wrth gwrs anghenion y defnyddiwr terfynol. Byddwch angen cwmni sy'n brofiadol mewn cynhyrchu Apiau i fusnesau twristiaeth – yng Nghymru gobeithio.

Mae Cymorth ar Gael!

Y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Rhaglenni a Gwasanaethau Symudol (CEMAS)

Mae CEMAS wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a sefydlwyd ym Mhrifysgol De Cymru. www.cemas.mobi

Gall CEMAS helpu Mentrau Bach a Chanolig cymwys a chwmnïau newydd yng Nghymru i ddatblygu, profi a chanfod llwybr i mewn i'r farchnad ar gyfer eu Ap drwy raglen ddatblygu wedi'i hariannu'n llawn. Gall y tîm ymroddedig o ddatblygwyr yn CEMAS helpu cwmnïau cymwys i ddatblygu eu Ap ar ystod o lwyfannau yn cynnwys iOS, Android, Blackberry a Windows Phone.

Bwriad y gefnogaeth i fusnesau yw gostwng y risg gychwynnol sy'n gysylltiedig â datblygu rhaglenni a gwasanaethau newydd, yn ogystal â gadael i gwmnïau arloesol ddefnyddio adnoddau'r ganolfan i greu fersiwn cyntaf o'u cynnyrch.

CEMAS hefyd a sefydlodd y Rhwydwaith Arloesi Symudol (MINE) sy'n cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau llawn gwybodaeth i gefnogi busnesau yng Nghymru ac yn helpu i hybu'r diwydiannau TGCh, creadigol a symudol yng Nghymru. <http://www.cemas.mobi/about/mine-network/>

Os hoffech ganfod rhagor am waith CEMAS neu sut y gallent eich helpu i ddatblygu eich syniad am Ap gallwch ymweld â'u gwefan <http://www.cemas.mobi/>, anfon neges e-bost cemas@southwales.ac.uk a bydd aelod o'u Tîm Prosiect yn cysylltu â chi, neu gallwch ffonio Tîm y Prosiect ar 01443 654265.

Cynghrair Meddalwedd Cymru

Mae Cynghrair Meddalwedd Cymru wedi'i hariannu gan Raglen Gydgyfeirio

Cronfa Gymdeithasol Ewrop yr Undeb
Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru.

Mae Cynghrais Meddalwedd Cymru'n
cefnogi arloesi a thyfiant yn y Sector
Meddalwedd a TGCh yn ardaloedd
Cyddyfeirio Cymru. Maent yn darparu
amrywiaeth o weithdai sy'n cynnig
gwybodaeth ymarferol am gynllun a
datblygiad Apiau.

Mae'r prosiect wedi'i arwain gan
Brifysgol Abertawe mewn partneriaeth
â Phrifysgolion Bangor, Morgannwg,
Aberystwyth a Phrifysgol Cymru'r
Drindod Dewi Sant.

I gael rhagor o wybodaeth a
manylion cysylltu ewch i [http://
softwarealliancewales.com](http://softwarealliancewales.com).

Beth yw Teithiau Rhithwir ac a Allwn i eu Defnyddio?

Mae cynnwys gweledol da yn rhan hanfodol o bresenoldeb ar y we, ac mae hyn yn hynod o wir ym myd twristiaeth.

Mae teithiau rhithwir, sy'n defnyddio delweddau ffotograffig cyfansawdd, yn ychwanegiad defnyddiol i'r paled ffotograffig am eu bod nhw'n cynnwys y defnyddwyr mewn proses ddynamig sy'n gadael iddynt dremio, gwyro a chwyddo drwy lun 'lapio o amgylch' o'r tirlun neu o'r tu mewn i adeilad.

Mae'r ffeithlen yma'n eich cymryd drwy'r broses o greu taith rithwir ar y We, gan ddefnyddio gwesteigr a meddalwedd digost.

Cyflwyniad

Ydych chi wedi bod ar wefannau lle'r ydych chi gallu cael taith rithwir o amgylch yr ystafelloedd cyn archebu, gweld y paentiadau o amgylch waliau oriel cyn prynu neu weld yr olygfa o gopa mynydd? Roedd hwn yn arfer bod yn rhywbeth y byddai rhywun proffesiynol wedi gorfod ei greu i chi, ond nid mwyach. Yma rydym yn esbonio sut y gallwch greu eich taith rithwir eich hun, gan ddefnyddio meddalwedd sydd ar gael am ddim. Felly, sut allech chi ddefnyddio hyn i ddangos darnau o'ch busnes twristiaeth neu'r amgylchedd lleol?

Mae teithiau rhithwir yn ychwanegu cynnwys sy'n sefyll allan ar wefannau. Mae pethau gweledol amlwg fel hyn yn dod yn fwy a mwy pwysig wrth i gymunedau ar-lein ganolbwyntio fwy a mwy ar ddelweddau.

Mae Photosynth gan Microsoft, ynghyd ag ICE gan Microsoft, yn gadael i chi gynnal panoramâu ffotograffig gyda'r gymuned Photosynth ar y we. Gall y panorama fod naill ai'n rhannol neu'n llawn (360°). Mae'r olaf yn gadael i chi

dremio'n 'ddiddiwedd' drwy'r panorama llawn. Mae ICE gan Microsoft yn pwytho at ei gilydd ddelweddau sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd a dynnwyd drwy droi'r camera o amgylch pwynt sefydlog. Unwaith mae wedi'i lwytho ar Photosynth, gallwch rannu panorama neu ei gynnwys mewn gwefannau. Maen nhw'n hawdd eu canfod gan chwilotwyr ac maent yn rhan o 'glostyrau' lleoliad Photosynth.

I weld rhagolwg ac esiamplau, gwelwch erthygl Mawrth 2013 ym Mlog Share Wales. Cliciwch yma (<http://www.sharewales.com/index.php/virtual-tours-free-and-easyish-2/>).

Nodwch: er bod Photosynth ar gael fel ap ar gyfer dyfeisiau symudol iOS ac Android, er mwyn cael y cywirdeb gofynnol i gael panoramâu proffesiynol rhaid defnyddio treipod i greu safbwynt sefydlog. Nid yw camerâu/ffonau clyfar a ddaliwch gyda'r llaw yn addas.

Elfennau rhagarweiniol

Y Camera – Mae hyd yn oed y camerâu digidol rhatach yn cynhyrchu lluniau o ansawdd da ac mae'r rhain yn fwy na digonol i'w defnyddio ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o'r camerâu compact neu gamerau

Lens Adlewyrchol Unigol Digidol [DSLR] yn addas ar gyfer panoramâu 360° ar yr amod bod ganddynt osodiad sgrïw treipod. Mae gan DSLR y fantais o gael lensys y gallwch eu cyfnewid â'i gilydd ac amrywiaeth ehangach o swyddogaethau, y mae rhai ohonynt yn ddefnyddiol mewn amodau anodd.

Ar gyfer panoramâu 360°, defnyddiwrch y lens ongl neu'r lens chwyddo mwyaf llydan sydd ar gael. Bydd lens hyd ffocal 18mm yn rhoi golwg fertigol 70° wrth dynnu llun mewn fformat "portread" (fertigol).

Defnyddiwrch fargod lens i osgoi adlewyrchiad. Yn aml iawn bydd panoramâu'n cynnwys tynnu llun tuag at yr haul. Byddwn yn argymhell bargodion lens "petal blodyn" i osgoi effaith 'twll clo' (torri ymylon y llun yn y dimensiwn hir) a bydd yn gweithio gyda lensiau hyd at, dywedwch, 18mm. Gwiriwch i weld a oes effaith 'twll clo' cyn tynnu llun bob amser. Gyda lensys ongl mwy llydan (heblaw bod bargod lens wedi'i deilwra ar gael) rhaid anghofio'r bargod lens – ond gall ychydig bach o adlewyrchiad ychwanegu effaith greadigol o bryd i'w gilydd!

Y Treipod – Mae treipod yn hanfodol er mwyn cael panorama 360° da. Rhaid i'r camera droelli o amgylch echel sefydlog mewn plân gofodol sefydlog. Y treipod delfrydol yw'r treipod cadarn gyda phen sy'n gwyro i dremio, gyda lefelau gwirod y tu mewn iddo, fel bod modd gosod y camera yn hollol gywir yn y lefelau llorweddol (180°) a fertigol (90°).

Meddalwedd – I greu panoramâu 360° gan ddefnyddio'r system gwmwl yma byddwch angen dau ddarn o feddalwedd rhad ac am ddim, gyda thrydydd i adael i'r person gwreiddiol a thrydydd parti weld y panorama. Mae cyfarwyddiadau ynghylch defnyddio hwn i'w cael yn nes ymlaen yn y Canllaw yma.

Golygydd Cyfansawdd Delweddau [ICE] Microsoft yw'r meddalwedd sydd ei angen i bwytho delweddau at ei gilydd i greu panorama a llwytho'r panorama cyflawn ar Photosynth. Mae ICE yn eistedd ar eich disgen galed fel pecyn parod i'w ddefnyddio. I lawrlwytho fersiwn sy'n gyfatebol â'ch cyfrifiadur desg, cliciwch yma (<http://research.microsoft.com/en-us/um/redmond/groups/ivm/ice/>).

Photosynth gan Microsoft yw'r gymuned gynnal ar gwmwl sy'n creu panorama 360° dynamig o'ch delweddau wedi'u pwytho. Gallwch weld y canlyniad ar-lein gyda gallu llawn i dremio, gwyro a chwyddo. Mae Photosynth hefyd yn creu cod html i'w gynnwys mewn tudalennau ar y we. Byddwch angen cyfrif Microsoft (a alwyd yn 'ID Byw Microsoft' gynt) i ymuno â Photosynth. I greu cyfrif Microsoft (os nad oes un gennych yn barod) ac i ymuno â Photosynth, cliciwch yma (<https://login.live.com/login.srf?wa=wsignin1.0&rpsnv=11&ct=1361100006&rver=6.1.6206.0&wp=LBI&wreply=http:%2F%2Fphotosynth.net%2Fview.aspx%3Fcid%3D227d4da2-0aef-4c5b-ac9c-668228f98ff9&lc=1033&id=257769>). I gael rhagor o wybodaeth am gyfrifon Microsoft cliciwch yma (<http://windows.microsoft.com/en-GB/windows-live/sign-in-what-is-microsoft-account>).

Syllwr Silverlight Microsoft. Dyma'r meddalwedd sydd ei angen i weld panoramâu dynamig, p'un a yw hynny'n uniongyrchol mewn Photosynth neu drwy banoramâu sy'n rhan o dudalennau gwe. Mae defnyddwyr newydd yn cael eu hybu'n awtomatig i lawrlwytho'r meddalwedd Silverlight rhad ac am ddim.

Tynnu Lluniau Panoramâu – Cam wrth Gam

Dewis y safbwynt. Nid yw golygfeydd llydan a golygfeydd o bell yn gwneud panoramâu'n fwy diddorol o anghenraid. Mae safbwyntiau sy'n dangos manylion y blaen a'r pellter canolig yn rhoi dyfnder a diddordeb i'r profiad dynamig (chwyddo a thremio). Cofiwch y bydd y canlyniad gorffenedig yn dangos y 360° llawn, felly gwnewch yn siŵr fod pob golwg a welwch drwy'r camera o bob safbwynt yn creu lluniau unigol posibl.

Gosod yr offer. Gosodwch y camera ar y treipod ar gyfer y fformat 'portread; – h.y. gyda dimensiwn hir y ffrâm ar i fyny. Defnyddiwch y lefelau gwirod i sicrhau bod y camera wedi'i osod yn gywir yn y lefelau llorweddol a fertigol. Clowch y camera yn ei le, gan adael y pen tremio'n rhydd i droi. Addaswch uchder y treipod (NID y pen gwyro) i allu tynnu'r llun fertigol ehangaf o'r pwnc. Profwch gylch llawn y panorama yr ydych ei eisïau.

Gosodiadau'r camera. Defnyddiwch osodiadau 'Auto' ar gyfer y ffocws a'r dinoethiad. Os yw ar gael, dewiswch osodiad awto'r 'Aperture Priority' a'i osod i lawr i, dywedwch, f8, i wella dyfnder y maes. [Nodwch, po fwyaf yw'r gosodiad f, y lleiaf yw agoriad y lens. Po leiaf yw'r agoriad, y mwyaf yw dyfnder y maes – h.y. y mwyaf o'r ddelwedd, o'r blaen i'r pellter pellaf, a fydd mewn ffocws.] I osgoi cryniad camera defnyddiwch reolydd o bell i ryddhau'r caead neu osod amseredd y camera ei hun i, dywedwch, oediad o 1 neu 2 eiliad.

Awgrym ynglŷn â thynnu llun panoramâu dan do: Efallai y bydd sefyllfa'n codi (e.e. lle mae'r llun yn cynnwys wal wag neu bethau eraill sydd heb nodweddion amlwg) lle mae'r ffocws awtomatig yn chwilio am bwynt

ffocws ac yn methu. Trowch i ffocws llaw dros dro.

Tynnu llun y Panorama. Mae meddalwedd pwytho lluniau'n gweithio drwy gyfateb y gwead mewn ffotograffau sy'n gorgyffwrdd. Cewch y canlyniadau gorau drwy wneud y gorgyffyrddiad mwyaf o'r nifer fwyaf o ffotograffau. I dynnu llun y panorama, defnyddiwch y pen tremio i droi'r camera drwy'r maes 360° llawn, gan sicrhau fod pob ffotograff yn gorgyffwrdd yr un cynt – drwy gael un llun ar gyfer, dywedwch, bob 10° o'r symudiadau troi, byddwch yn sicrhau digon o orgyffwrdd i gael llun esmwyth. GWNEWCH YN SIWR FOD Y FFRÂM OLAF YN Y DILYNIANT YN GORGYFFWRDD Â'R CYNTAF. Bydd y gosodiad panorama nodweddiadol yn defnyddio rhwng 30 a 40 llun.


Pwytho eich Lluniau

Crëwch a rhowch enw ar ffolder newydd ar eich cyfrifiadur a lawrlwytho'r lluniau o'ch camera yn y ffordd arferol. Os byddwch yn tynnu llun mewn RAW+Basic, y peth gorau i'w wneud yw trosi'r ffeiliau RAW yn rhai TIFF mewn ffolder newydd gan gadw'r rhai gwreiddiol. Os nad ydych yn gwybod beth mae hyn yn ei olygu, peidiwch â phoeni. Ewch yn eich blaen gyda'r camau isod.


Defnyddio ICE Microsoft

- Agorwch Olygydd Cyfansawdd Delweddau Microsoft.
- Ar gornel chwith uchaf ICE, cliciwch ar y gwympen 'File' a dewis 'New Panorama'.
- Defnyddiwch y ffenestr godi i chwilio eich disgen galed ac agor y ffolder ddelweddau.
- Defnyddiwch eich llygoden i ddewis yr amrywiaeth llawn o luniau a chlicio ar 'Agor'. Neu defnyddiwch y nodwedd 'llusgo a gollwng'.

- Byddwch yn gweld y neges “Reading source images” a bar lawrlwytho’n dangos cynnydd. Unwaith mae’r llwytho’n gyflawn, mae’r neges yn newid i “Compositing images” a bydd y llwytho’n parhau nes bo’r ddelwedd sydd wedi’i phwytho’n ymddangos.
- Cadwch y ddelwedd a bwythwyd.
 - O dan ‘Export’ symudwch y llithren Ansawdd i 100 i’w gadw fel JPEG neu (argymhellir) dewiswch TIFF o’r gwympen ‘Format’.




- Ar yr ochr dde, cliciwch ar ‘Export to disk’. Bydd hyn yn cadw’r llun yn eich ffolder panorama fel ffeil JPEG neu TIFF.



Llwytho i Photosynth

I lwytho eich panorama, cliciwch ar ‘Publish to web’ (gwelwch y llun uchod). Byddwch yn gweld y neges “Compositing for Photosynth” a bar yn dangos cynnydd. Gyda’r llun cyfansawdd yn gyflawn bydd ffenestr “Llwytho Panorama” yn ymddangos. Cyn ei lwytho, ewch drwy’r camau a ganlyn.




- Rhowch deitl i’ch panorama
- Gosodwch dagiau optimeiddio ar gyfer chwilotwyr. Rydym yn argymhell eich bod yn dilyn y canllawiau tagio ar gyfer Grŵp Flickr ShareWales ac, yn dilyn hynny, eich tagiau ychwanegol eich hun os ydych yn dewis hynny. I weld canllawiau tagio Share Wales, Cliciwch yma (<http://www.flickr.com/photos/visitwales/6169029262/in/set-72157628035375957/>)
- Ychwanegwch ddisgrifiad, gan gofio bod cynnwys llawer o eiriau allweddol da’n denu chwilotwyr
- Dewiswch ‘Public’ fel opsiwn gwelededd fel bod mynediad hollol agored i’r panorama
- Dewiswch o ‘Photo Rights’. Bydd unrhyw un o’r trwyddedau ‘Creative Commons’ yn gadael i drydydd parti rannu eich gwaith ar-lein. Nodwch nad oes modd newid eich dewis drwyddedau unwaith mae’r pano wedi’i lwytho. I newid y drwydded

bydd angen i chi ailadrodd y broses uwchlwytho.

- Dewiswch 'Representative Thumbnail' neu Gryno-lun Cynrychiadol gan ddefnyddio'r llithren ddelweddau a chwyddo. Bydd hyn yn gosod y llun ar y dudalen lanio ar gyfer eich pano.
- Ychwanegwch leoliad (gwelwch isod)
- Cliciwch 'Upload' a bydd ffenestr yn ymddangos gan ddangos y cynnydd. Unwaith mae'n gyflawn, cliciwch ar 'View' a mewngofnodi i'ch cyfrif Photosynth
- Llongyfarchiadau, rydych newydd greu eich panorama Photosynth cyntaf
- Pan ewch allan o'r rhaglen bydd yn gofyn i chi gadw'r prosiect, a fydd yn ymddangos gydag eicon teil rhannol doredig yn eich ffolder.

Ychwanegu Lleoliad

- Cliciwch ar 'Visibility – Listed /Share with Bing Maps'
- Agorwch y tab 'Location' a thremio a chwyddo i mewn i leoliad eich safbwynt neu'r pwnc ar y map bydeang.
- Llusgwch y pin gwrthio i'r lleoliad yr ydych ei eisiau – gallwch chwyddo'n ddigon manwl i allu rhoi'r pin gwrthio mor gywir nes ei fod o fewn metr i'r lleoliad. Yr esiampl yw Oriel y Parc yng Nghanolfan Wybodaeth y Parc Cenedlaethol, Dewi Sant. Defnyddiwch y nodwedd 'Alignment' i droi'r map yn llawn
- Os yw'n briodol, nodwch enw busnes neu dirnod.



Golygu a Mewnosod

Bydd yr holl wybodaeth yr ydych wedi'i nodi'n weladwy i'r bobl sy'n ymweld â phrif wefan Photosynth, p'un a yw hynny drwy chwilio ar y we neu drwy ddolenni o wefannau eraill a'r cyfryngau cymdeithasol.

Gallwch olygu'r wybodaeth sy'n mynd gyda'ch panorama unrhyw bryd drwy agor y panorama a chlicio ar 'Edit this panorama'.

I osod y panorama mewn tudalen ar y we, cliciwch ar '<> Embed' a chopïo'r cod HTML i'r dudalen. Bydd y pano yn ymddangos gan ddangos y 'cryno-lun cynrychiadol' a ddewiswyd gennych ar ôl llwytho, yr eicon Photosynth a botwm 'Click to view'. Bydd clicio'n hybu defnyddwyr Photosynth newydd i lawrlwytho Syllwr Silverlight Microsoft.

I rannu drwy Facebook, cliciwch ar yr eicon FB ac ychwanegwch eich testun a chlicio 'Share Link'.

Nodwch fod modd trin eich delwedd panorama 'Gadwedig' fel ffotograff confensiynol ac y gallwch ei dorri yn ôl eich dewis i gynhyrchu delweddau fformat llydan sy'n addas, er enghraifft, fel baneri ar dudalennau'r we. A gallwch ddefnyddio eich ffotograffau gwreiddiol, yn unigol, mewn unrhyw ffordd y dymunwch.

Beth yw Realiti Estynedig a Sut Allwn ei Ddefnyddio?

Mae realiti estynedig yn newid y ffordd y gwelwn ac y profwn y byd o'n cwmpas. Mae'n ffordd wych o rannu gwybodaeth a data mewn ffordd ffres, newydd, rhyngweithiol a chyffrous. Gallai wella profiad eich ymwelwyr yn fawr a gallwch ei addasu ar gyfer bob math o sefyllfaoedd mewn twristiaeth Gymreig.

Nid teithio mewn amser ydych chi go iawn ond mae'n gallu dod â gwahanol fydoedd a chyfnodau at ei gilydd – o'r gorffennol neu'r dyfodol. Mae'n gadael i'r defnyddiwr ail greu digwyddiadau, neu weld archeoleg, pensaernïaeth, pobl, blodau a phlanhigion a llawer mwy, mewn lle neu dirlun penodol. Rhufeiniaid ar safle hen gaer, neu ddinosoriaid ar lan y môr, cymeriadau Alys yng Ngwlad Hud ar y stryd neu weledigaeth o'r ffordd y gallai'r tirlun newud. Mae hyn i gyd yn bosibl gyda Realiti Estynedig.

Beth yw Realiti Estynedig?

Efallai eich bod yn deall yn barod beth yw rhith-wirionedd. Dyma lle mae cyfrifiaduron yn creu amgylchedd ffug ac yn gwneud hynny drwy roi data i synhwyrâu'r corff, er enghraifft sain, fideo, graffeg ac arogleuon. Byddwch yn gweld yr amgylcheddau synhwyrdd yma'n aml mewn gemau fideo ac mewn cynnwys ar ffilm a theledu sydd wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur.

Mae Realiti Estynedig (AR) yn cymryd y data synhwyrdd yma a grëwyd gan y cyfrifiadur ac yn ei gyfuno gyda'r byd go iawn. Mae'n creu golwg wahanol ar realiti. Mae'r newid yma'n digwydd mewn amser real a gall fod mewn nifer o wahanol ffurfiau. Yna gall yr ymwelydd weld y byd go iawn ac elfen sydd wedi'i gynhyrchu gan y cyfrifiadur, oll ar yr un pryd.

Dyma esiampl – mae ymwelydd yn dod i adeilad hanesyddol ac rydych yn cynnig golwg o'r neuadd wleda iddynt fel y mae yn awr ac fel yr oedd pan oedd pobl yn byw yno. Byddwch yn gwneud hyn drwy ddefnyddio gwaith graffeg yn

dangos pethau oedd yn yr ystafell mewn cyfnod arbennig o hanes, ac yn gosod y rhain dros y llun o'r neuadd fel y mae yn awr.

Mae Realiti Estynedig yn offeryn hyrwyddo gwych ac, o'i ddefnyddio'n gywir, gallwch greu 'WAW ffactor' go iawn i ymwelwyr sy'n dod i Gymru.

Os yw'r graffeg yma'n dangos cyfres o luniau a grëwyd ar gyfrifiadur ar sgrin barhaol ar y wal, e.e. mewn siop roddion, yn dangos yr ystafell fel ydoedd 200 mlynedd yn ôl, byddai hyn yn esiampl o rith-wirionedd. Ond os yw'r ymwelydd yn edrych ar y graffeg yma drwy ddyfais glyfar wrth iddo sefyll yn yr ystafell mae'r lluniau'n ymwneud â hi, ac mae'r lluniau'n symud wrth i'w llygaid symud o gwmpas yr ystafell, byddent yn profi Realiti Estynedig (AR). Bydd yr ymwelydd yn gallu gweld yr ystafell fel y mae ar hyn o bryd, ac hefyd weld y golwg hanesyddol a gynhyrchwyd ar y cyfrifiadur.

Er nad yw hyn yn syniad newydd, mae datblygiadau yn nhechnoleg y teledu,

cyfrifiaduron, padiau, tafluniadau a ffonau clyfar yn golygu ei fod yn dod yn fwy rhyngweithiol drwy'r amser ac yn dod yn rhan llawer mwy o'n bywydau. Gall twristiaeth Cymru ddefnyddio AR i ennyn diddordeb pobl a'u hannog i gyfranogi a rhyngweithio. Mae'n offeryn hyrwyddo gwyb ac, o'i ddefnyddio'n gywir, gall greu'r 'waw ffactor' go iawn i ymwelwyr sy'n dod i Gymru.

Efallai y byddwch yn mwynhau'r esiampl yma o ymgyrch AR gan National Geographic mewn canolfan siopau:
<http://player.vimeo.com/video/31479392?title=0&byline=0&portrait=0>

Gwahanol Fathau o AR:

AR gyda nodwr – gallwch gael canlyniad AR gan ddefnyddio'r camera ar eich dyfais glyfar i sganio nodwr gweledol. Gallwch weld esiampl o hyn yma, sef y Cymeriad AR Ap Arfordir Cymru 'Derec y Ddraig'. Mae'r ddelwedd 3D 360° a welwch yma (fel petaech yn edrych ar ddyfais glyfar) wedi'i gynhyrchu gan lun 2D ar Nodwr a welwch yma ar ffurf Logo Ap Arfordirol Cymru wedi'i ddal o flaen y camera dyfeisiau a'i weddnewid drwy gyfrwng y camera. I'r un graddau gallai fod yn ddelwedd 2D o dirlun neu orwel a allai wedyn ddod yn ddelwedd 3D 360° o edrych arno drwy ddyfais glyfar.



AR heb nodwr – Dydy'r math yma o AR ddim yn dibynnu ar nodwr ac mae fel arfer wedi'i seilio ar leoliad neu safle

arbennig. Mae'r cynnwys AR yma fel arfer yn gweithio o gwmpawd neu system GPS eich dyfais glyfar. Mae'r dechnoleg yma'n dibynnu fwy ar allu eich dyfais. Gallwch weld esiampl o hyn yma o Ap Cwningen Wen Alys yng Ngwlad Hud sy'n dangos y cymeriad yr Hetiwr Hurt yn eistedd mewn cadair bren.



Bydd Apiau Pori AR sydd wedi eu hadeiladu'n barod, megis Junaio. Wikitude a Layar i ffôn clyfar yn dangos cynnwys AR o Sianelau AR oedd yn bodoli cynt. Mae'n bosibl adeiladu cynnwys AR i mewn i Ap heb fod angen porwr AR – mae Ap Arfordir Cymru ac Ap Cwningen Wen Alys yng Ngwlad Hud yn esiamplau o apiau twristiaeth sydd â chynnwys AR ynddo sy'n defnyddio sbardunau gyda Nodwr a heb Nodwr nad ydynt angen i borwr AR fod yn bresennol ar y ddyfais.

Dyma'r dolenni:

www.layar.com

www.mixare.org

www.argon.gatech.edu

www.junaio.com

www.wikitude.com

<http://www.google.co.uk/mobile/goggles/#text>

Pam ddylwn i ddefnyddio AR?

Mae Realiti Estynedig yn ffordd wych o rannu gwybodaeth a data. Mae'n gallu gwella profiad yr ymwelydd yn fawr mewn ffordd gyffrous, a gallwch ei addasu ar gyfer pob math o sefyllfaoedd mewn twristiaeth Gymreig.

Gallwch ei ddiweddarau, felly unwaith y bydd gennych raglen neu seilwaith yn eu lle, gallwch eu diweddarau i gyd-fynd â datblygiadau newydd. Er enghraifft os oes gennych gynigion arbennig i'r ymwelwyr am dymor yn unig, neu oherwydd hyrwyddiad neu ben-blwydd arbennig, gallwch ychwanegu'r rhain at y rhaglen. Gallwch roi'r wybodaeth/cynnwys ychwanegol yma wrth iddo ddod yn berthnasol, neu ei dynnu unwaith mae wedi mynd yn hen, heb i chi orfod dechrau o'r dechrau bob tro.

Gallwch greu gwahanol lefelau o ryngweithio a gwahanol feintiau o wybodaeth, fel bod y defnyddiwr yn gallu penderfynu sut brofiad mae'n mynd i gael ar ei ymweliad. Mae nifer o esiamplau o hyn ar y dudalen nesaf.

Os defnyddiwrch AR yn eich busnes twristiaeth rydych yn dangos eich bod yn symud gyda'r oes. Mae AR yn dechnoleg greadigol sy'n tyfu'n gyflym. Gallwch greu profiadau twristiaeth unigryw y bydd pobl eisiau bod yn rhan ohonynt.

Mae esiamplau or math yam o ap yn cynnwys Ap Cwningen Wen Alys yng Ngwlad Hud, Ap Portmeirion, Ap Y Rhufeiniaid yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r rhain i gyd yn esiamplau o'r llwybrau digidol i ymwelwyr sy'n cynnwys llawer o gynnwys Realiti Estynedig.

Gall Realiti Estynedig adfywio, adnewyddu a bywiogi. Mae AR yn helpu pobl i archwilio, gweld a rhyngweithio mewn gwahanol ffyrdd yn y lle sydd yno'n barod.

Teithio mewn amser! Wel, nid yn union... ond gallwch helpu defnyddwyr AR i brofi lle neu amser penodol, yn y gorffennol neu'r dyfodol ac ail-fyw digwyddiadau, archeoleg, pensaernïaeth neu weld sut y bydd eitemau neu adeiladau'n edrych mewn lle neu o fewn tirlun arbennig.

Sut ydw i'n cael gafael ar AR?

Dim ond pobl gyda'r wybodaeth dechnolegol ddiweddaraf oedd yn gallu defnyddio AR ar un cyfnod, ond am fod technoleg y defnyddiwr – megis padiau a ffonau clyfar – wedi datblygu mor gyflym, mae'n haws ei fforddio, haws ei ddefnyddio a haws cael gafael arno erbyn hyn. Ond, mae AR i'w gael mewn pethau eraill heblaw padiau a ffonau clyfar – mae i'w gael mewn llawer o ffurfiau eraill. Gall pobl wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd sy'n gallu creu AR neu mae dangosiadau ar sgrin flaen eich car yn gadael i chi weld yr wybodaeth a'r ffordd ar yr un pryd. Er nad yw'r un o'r rhain ar werth i'r cyhoedd ar yr un lefel â ffonau clyfar a phadiau ar hyn o bryd, dim ond mater o amser yw hi cyn i hynny ddigwydd. Felly beth am gadw llygad barcud ar y datblygiadau yma a bod ymysg y busnesau twristiaeth cyntaf yng Nghymru i gynnig y dechnoleg gyffrous hon i'ch ymwelwyr?

Mae nifer o gwmnïau'n gallu creu apiau AR i ddyfeisiau clyfar a lluo o sefydliadau sy'n gallu helpu i adeiladu a darparu'r cynnwys cyfryngol ar eu cyfer nhw. Bydd llawer o sefydliadau'n gweithio gydag un datblygwr i gwblhau'r prosiect cyfan ond efallai y gwelwch eich bod yn cael y canlyniadau rydych eu heisiau drwy weithio gyda datblygwr apiau AR a chwmni cyfryngau. Yn aml iawn mae seilwaith yn ei lle'n barod y gallwch ei brynu oddi ar y silff i arbed arian. Mae cwmnïau wedi datblygu meddalwedd rhad ac am ddim i helpu i greu profiadau AR sydd ar gael yn agored ar y we.

Cofiwch fod yn rhaid i'r defnyddiwr gael meddalwedd cyfryngau penodol i ddefnyddio rhai o'r apiau rhad ac am ddim yma – meddalwedd fel Adobe Photoshop neu Flash.

Sut mae Busnesau Twristiaeth yn Defnyddio AR?

Mae'r diwydiant twristiaeth wedi mabwysiadu'r dechnoleg AR yn gyflym iawn ac mae llond gwlad o apiau twristiaeth ar gael i'w lawrlwytho. Mae nifer gynyddol o dwristiaid yn dewis teithio'n annibynnol ac maent eisiau gweld yr wybodaeth ddiweddaraf. Eto erbyn i lyfr teithiau traddodiadol gael ei gyhoeddi, mae'r cynnwys yn gallu bod yn anghywir yn barod.

Mae technoleg AR heb nodwr yn cynnig opsiwn arall yn lle'r taflenni gwybodaeth i dwristiaid a gall enwi atyniadau, manau o ddiddordeb, manau i fwyta, cysylltiadau cludiant, cyfarwyddiadau ac ati. Mae modd diweddarau'r wybodaeth yma drwy'r amser ac ychwanegu lluniau, adolygiadau a sylwadau at yr wybodaeth. Mae hyn yn gadael i'ch ymwelydd weld yr wybodaeth ddiweddaraf wrth ddewis lle i aros, lle i fwyta, manau o ddiddordeb ac ati ac yna roi eu sylwadau am eu profiadau eu hunain arno er budd ymwelwyr eraill. Mae AR heb nodwr yn cael ei ddefnyddio hefyd i ail greu digwyddiadau hanesyddol, pensaernïaeth, cymeriadau a thirluniau, a bydd ychwanegu at olwg ymwelydd ar y byd go iawn gyda delweddau 2D neu 3D, sain, efelychiadau neu gynnwys fideo yn gwella profiad eich ymwelwyr yn fawr iawn wrth gwrs!

Esiaml o sbardun AR gyda nodwr fyddai Logo Llwybr Arfordirol Cymru. O'i ddefnyddio gydag Ap Arfordir Cymru a'r Ap wedi ei bwyntio at y logo, mae'r logo yn sbarduno draig Arfordir Cymru 'Derec y Ddraig' i ymddangos a hedfan o amgylch yr ymwelydd.



Mae proses ddatblygu AR mewn twristiaeth yn gallu rhoi cyfle i chi ymgysylltu â chymunedau ac ymwelwyr. Esiaml o hyn yw ap Cyngor Sir Ddinbych, sef ffilm y gallwch ganfod gwybodaeth amdano yma: <http://www.youtube.com/watch?v=jNn-ebUsA9g>.

Mae hyn yn gweithio mewn ffordd debyg i ap Amgueddfa Llundain ond mae'n cynnwys pobl leol yn siarad am eu profiadau o fannau hanesyddol. Mae cynnwys y gymuned yn y broses o ddatblygu AR yn gallu helpu i danio diddordeb pobl mewn prosiect a chreu dogfen ar gyfer y dyfodol.

Dyma nifer o esiamplau o'r ffordd mae AR yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn y sector twristiaeth i'ch annog a'ch ysbrydoli chi:

<http://www.museumoflondon.org.uk/Resources/app/you-are-here-app/home.html> – Ap Street Museum sydd wedi'i seilio ar GPS sy'n rhoi cyfle i chi weld gwybodaeth a lluniau o'r archifau

<http://travellll.com/2011/12/05/scottish-tourism-launches-augmented-reality-mobile-app-for-visitors/> – Ap Visit Scotland

<http://www.youtube.com/watch?v=ePhvwxPV9Lc> – Esiaml o ap rhad ac am ddim TourWrist sy'n creu cynnwys gweledol 360° y gallwch ei ddefnyddio mewn rhaglenni AR.

<http://www.sharewales.com/index.php/virtual-tours-free-and-easyish-2/> – Erthygl Share Wales sy'n dangos sut y gallwch greu eich panorama 360° eich hun gyda chamera digidol a meddalwedd Microsoft rhad ac am ddim.

<http://www.sharewales.com/index.php/augmented-reality-what-goes-around-2/> – Erthygl Share Wales sy'n olrhain llwybr datblygiad AR a dyfeisiau gwyllo, gydag esiampiau.

Sut Allwn ni Gynnwys AR?

Mae llawer o ffyrdd o gael AR i'ch busnes twristiaeth – drwy lawrlwytho meddalwedd am ddim a rhwydweithiau mewnol wedi'u llunio o flaen llaw, neu brynu gan sefydliadau a fydd yn datblygu cynnwys a rhaglenni o'r dechrau un. Yn aml iawn, yn debyg i nifer o ddatblygiadau TG, bydd rhwydweithiau mewnol yn bodoli'n barod y gallwch eu prynu a'u datblygu ymhellach i ateb eich anghenion ac er mwyn osgoi gorfod dechrau o'r dechrau. Y cynnwys yw'r elfen benodol yn aml iawn, a gall hyn fod yn unrhyw beth o ffeithiau neu ddata technegol, i ail greu brwydrau 3D neu daith rithwir gydag arweinydd. Mae hefyd ffyrdd o greu canlyniadau rhyfeddol gan ddefnyddio rhai o'r rhwydweithiau mewnol yma sy'n bodoli'n barod, drwy fod yn glyfar gyda syniadau a chynnwys. Ar ben arall y farchnad, does dim cyfyngiad go iawn ar ba mor bell y gallwch gymryd pethau. Am ei bod hi'n dechnoleg sy'n datblygu, bydd datblygwyr yn chwilio am brosiectau i helpu i dalu am ddatblygiadau yn y dechnoleg.

Pethau i'w Hystyried/Problemau sy'n Codi o AR

Nid oes dyfais glyfar gan bawb. Er eu bod nhw'n fwy poblogaidd bob dydd ac yn dod yn haws eu fforddio, maen nhw'n dal i fod yn nwyddau moeth. Efallai y

gallech gynnwys cost y dyfeisiau clyfar yng nghostau eich prosiect AR, creu opsiynau nad ydynt yn defnyddio AR, neu ddefnyddio gosodion AR nad ydynt angen dyfais glyfar.

Dydy pawb ddim eisiau defnyddio technoleg. Allwn ni ddim osgoi hynny, ond efallai y gallem ddelio rhywfaint â hynny drwy gadw rhyngwynebâu'r defnyddiwr yn syml neu gynnig lefelau amrywiol o AR i ganiatáu rhyngweithio syml a mwy cymhleth. Opsiynau eraill i'w hystyried yw taenlenni cyfieithu, gweithdai hyfforddi a phrofiadau gyda chefnogaeth.

Os yw eich rhaglen AR yn dibynnu ar drosglwyddo data 3G neu 4G, gwnewch yn siŵr bod derbyniad da yn yr ardal lle mae angen gwneud hyn. Hefyd cofiwch bod costau crwydro data yn gallu bod yn ddrud iawn i ymwelwyr.

Materion cyfreithiol – am fod y gyfraith yn adweithiol yn hytrach na rhagweithiol ac am fod AR yn dechnoleg sy'n datblygu'n gyflym, mae'r gyfraith ynglŷn â'r dechnoleg hon braidd yn gymylog. Y prif bethau i'w hystyried yw preifatrwydd, hawlfraint, atebolrwydd ac esgeulustod.

Gweinyddu – os ydych yn defnyddio rhyngwyneb sy'n gadael i bobl lwytho cynnwys megis system dagio, adolygiadau neu sylwadau, bydd angen i chi ystyried pwy fydd yn cael y rôl weinyddol a beth fydd eu gwaith. Er enghraifft gallai defnyddwyr lwytho cynnwys amhriodol, defnyddio'r safle i hysbysebu neu hyrwyddo, neu lwytho dolenni at gynnwys sydd heb ei ganiatáu.

Dim ots pa gamau a gymerwch, ni fydd AR yn apelio at bawb. Bydd angen i chi edrych arno fel rhan o becyn rhaglenni mwy sy'n eich helpu i gysylltu â'ch ymwelwyr.

